# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 24/09/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor
Motion to Elect a Member to a Committee

Datganiad: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda
Statement: Hywel Dda Service Change Plans

Datganiad: Datblygu'r Sector Bwyd yng Nghymru
Statement: Developing the Food Sector in Wales

Datganiad: Arfer Gorau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad ar Ymweliadau'r Haf ag Awdurdodau Lleol
Statement: Best Practice in Public Services: Report on Summer Visits to Local Authorities

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas ag Adennill Meddiant o Dai Annedd
Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of Recovery of Possession of Dwelling-houses

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Gwaharddebau i Atal Niwsans ac Atal Tarfu ar Bersonau, Gorchmynion Ymddygiad Troseddol a'r Trothwy Cymunedol
Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of Injunctions to Prevent Nuisance and Annoyance, Criminal Behaviour Orders and the Community Trigger

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Fframwaith ar gyfer Rheolaethau ar Gyllid Cyfalaf a Geir yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Gwnstabliaid yng Nghymru
Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of Framework of Capital Finance Controls Contained in Part 1 of the Local Government Act 2003 to Chief Constables in Wales

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â chyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau a diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991
Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of the introduction of Community Protection Notices, Public Spaces Protection Orders, Closure Notices and Amendments to the Dangerous Dogs Act 1991

Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)
Debate on the General Principles of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)
Financial Resolution in respect of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Members will all be aware that the Presiding Officer is not present this week. I am sure you will wish to join me in sending your condolences to her family.

Bydd yr Aelodau i gyd yn ymwybodol nad yw'r Llywydd yn bresennol yr wythnos hon. Rwy'n siŵr y byddwch am ymuno â mi i anfon eich cydymdeimlad at ei theulu.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Cynnal a Chadw Cefnffyrdd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed

### Trunk Road Maintenance in Brecon and Radnorshire

13:30 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnal a chadw cefnffyrdd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1223(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on trunk road maintenance in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)1223(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Trunk road maintenance for Brecon and Radnorshire for 2013-14 is primarily routine maintenance activities, such as resurfacing schemes, and planned or emergency repair works.

Gweithgareddau cynnal a chadw arferol, megis cynlluniau gosod wyneb newydd, a gwaith trin brys neu waith a gynlluniwyd, yw'r gwaith cynnal a chadw ar gefnffyrdd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn 2013-14 yn bennaf.

13:31 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, since June, roadworks have been in place on the A40 at Glangrwyney causing severe disruption to constituents in Crickhowell and those people in my constituency wishing to access services at Nevill Hall hospital. I wrote to the Minister about this issue and, at that stage, she was unable to tell me when actual work on that stretch of road will begin. When will maintenance begin at those traffic lights, and when will my constituents stop being inconvenienced by them?

Brif Weinidog, , bu gwaith ffordd ar yr A40 yn Llangrwyne ers mis Mehefin, gan achosi tarfu difrifol i etholwyr yng Nghrucywel a'r bobl hynny yn fy etholaeth i sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau yn Ysbyty Nevill Hall. Ysgrifennais at y Gweinidog am y mater hwn ac, ar yr adeg honno, nid oedd yn gallu dweud wrthyf pryd y bydd y gwaith ar y darn hwnnw o'r ffordd yn dechrau. Pryd fydd gwaith cynnal a chadw yn dechrau wrth y goleuadau traffig hynny, a phryd y bydd yr anghyfleustra maen nhw'n ei achosi i'm hetholwyr yn dod i ben?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is a substantial piece of work that has to take place at Glangrwyney. The wall has been made safe after its collapse and the lights have been installed. At the moment, a number of design options are being considered in terms of taking the work forward. We understand, of course, that this is a busy road, but once a design has been settled upon, then, of course, the work can begin.

Mae'n ddarn sylweddol o waith y mae'n rhaid ei wneud yng Nglangrwyne. Mae'r wal wedi cael ei gwneud yn ddiogel ar ôl iddi gwympo ac mae'r goleuadau wedi eu gosod. Ar hyn o bryd, mae nifer o ddewisiadau cynllunio yn cael eu hystyried o ran symud ymlaen â'r gwaith. Rydym yn deall, wrth gwrs, bod hon yn ffordd brysur, ond ar ôl cytuno ar y cynllun, yna, wrth gwrs, gall y gwaith ddechrau.

13:32 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in my experience, the maintenance of many of our trunk roads presently is patchy at best. What action have you and your Government taken to look at our trunk road network as a whole and to allocate appropriate resources to address further deterioration? Can you outline what proactive measures, rather than reactive, you are taking to stop and prevent the menace of potholes and severe deterioration? After all, I am sure you will agree that prevention is better than cure.

Brif Weinidog, yn fy mhrofiad i, mae gwaith cynnal a chadw ar lawer o'n cefnffyrdd yn anghyson ar y gorau ar hyn o bryd. Pa gamau yr ydych chi a'ch Llywodraeth wedi eu cymryd i ystyried ein rhwydwaith cefnffyrdd yn ei gyfanrwydd ac i neilltuo adnoddau priodol i fynd i'r afael â dirywiad pellach? A allwch chi amlinellu pa fesurau rhagweithiol, yn hytrach nag ymatebol, yr ydych chi'n eu cymryd i atal y bygythiad o dyllau a dirywiad difrifol? Wedi'r cyfan, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod atal yn well na thrwsio.

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have a rolling programme in place to deal with the trunk roads, whether it is improvements such as at Maes yr Helmau to Cross Foxes at the moment, or whether it is work that is required, be that emergency work or planned work. That contrasts of course with your party's view, when, some two years ago, you issued a press release saying that you would postpone the entire trunk road building programme.

Mae gennym raglen barhaus ar waith i ymdrin â'r cefnffyrdd, pa un a yw'n welliannau fel ym Maes yr Helmau i Cross Foxes ar hyn o bryd, neu'n waith angenrheidiol, boed hwnnw'n waith brys neu'n waith a gynlluniwyd. Mae hynny'n wahanol, wrth gwrs, i farn eich plaid chi, gan y cyhoeddwyd datganiad i'r wasg gennych, tua dwy flynedd yn ôl, yn dweud y byddech yn gohirio'r rhaglen gyfan ar gyfer adeiladu cefnffyrdd.

13:33 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, os cofiwch, o dan y Llywodraeth flaenorol, roedd buddsoddiad sylweddol yn y cefnffyrdd ym Mrycheiniog a Maesyfed, yn enwedig ar hyd yr A470. Bydd y trigolion felly yn gofyn cwestiwn ynglŷn â chynlluniau'r Llywodraeth i'r dyfodol, gan eich bod chi, mae'n ymddangos i mi, ynghlwm ag M4 newydd o gwmpas Casnewydd ac yn clymu benthyca newydd ar gyfer cefnffyrdd i'r M4 yn unig. A allwch chi gadarnhau mai dyna yw'r sefyllfa, neu a ydych yn chwilio am yr hawl i fenthyg arian ar gyfer cefnffyrdd drwy Gymru ben baladr?

First Minister, if you recall, under the previous Government, there was significant investment in trunk roads in Brecon and Radnorshire, particularly along the A470. Residents will therefore be asking questions about the Government's plans for the future, because it appears that you are now tied to a new M4 around Newport and are tying new borrowing for trunk roads to the new M4 alone. Can you confirm whether that is the situation, or are you seeking the right to borrow funds for trunk roads the length and breadth of Wales?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym eisiau'r cyfle i fenthyg arian yn gyffredinol, ac nid dim ond ar gyfer un prosiect. O ran yr M4, nid yw'n bosib adeiladu M4 newydd heb inni allu benthyg arian. Nid yw hynny'n wir gyda'r cynlluniau sydd yn y rhaglen hewlydd mawr. Rydym wedi delifro'r gwaith yng Nghwmbach Llechryd, lle mae'r hewl wedi cael ei gwneud yn fwy syth, sydd wedi helpu llawer o drigolion Brycheiniog a Maesyfed i deithio'n glouach nag o'r blaen.

We want the opportunity to borrow money generally, and not just for one specific project. As regards the M4, it is not possible to construct a new M4 without borrowing money. That is not true of schemes in the major roads programme. We have delivered the work at Cwmbach Llechryd, where that stretch of road has been straightened, therefore assisting many of the residents of Brecon and Radnorshire to travel more quickly.

## Seilwaith Rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru

## Railway Infrastructure in North Wales

13:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru dros y tair blynedd nesaf? OAQ(4)1212(FM)*

*2. Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for railway infrastructure in North Wales during the next three years? OAQ(4)1212(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi ymrwymo i wella'r seilwaith rheilffyrdd yn y gogledd ac rydym yn arwain gwaith i ddatblygu achos busnes ar gyfer moderneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn y rhanbarth.

We are committed to improving rail infrastructure in north Wales and we are leading on the development of a business case for the modernisation of the rail network in the region.

13:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb. Ar ddiwrnod olaf y tymor diwethaf, cyhoeddwyd adolygiad gan y Gweinidog trafnidiaeth ynghylch deuoli'r rheilffordd rhwng Caer a Wrecsam. Ar y pryd, roeddech chi'n dweud mai problem o ran amserlen Network Rail oedd hynny, ond mae gohebiaeth gyda Network Rail yn awgrymu ei fod yn gallu dal at yr amserlen wreiddiol. Os felly, ai problem ariannu sydd gennych, neu a allwch chi esbonio'n union pa fath o ganllawiau sydd wrth wraidd yr adolygiad hwn?

Thank you for that response. On the last day of last term, the Minister for transport announced a review of the doubling of the rail line between Chester and Wrexham. At the time, you said that there was a problem in terms of Network Rail's timetable, but correspondence with Network Rail suggests that it could stick to the original timetable. If that is the case, is it a funding problem that you have, or can you explain exactly what sort of guidelines are at the heart of this review?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Na. Mae'r adolygiad wedi digwydd, ac mae'r adolygiad hwnnw wedi gorffen. Bydd datganiad o fewn mis.

No. The review has taken place, and it has been completed. A statement will be made within the month.

13:35 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am also very concerned not just about the north-south rail links, and the implications of the need for the dualling of the track around the Wrexham area, but about the east-west links. Earlier this year, the Minister responsible for transport suggested that work was being undertaken to improve the rail links and the infrastructure, to establish a direct rail link between Liverpool and the north Wales line. Has any progress been made on that, and can you bring us up to speed on it?

Brif Weinidog, rwyf innau'n bryderus iawn hefyd, nid yn unig am y cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de, a goblygiadau'r angen am y ffordd ddeuol ar y llwybr o amgylch ardal Wrecsam, ond hefyd am y cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Yn gynharach eleni, awgrymodd y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth fod gwaith yn cael ei wneud i wella'r cysylltiadau rheilffordd a'r seilwaith, i sefydlu cyswllt rheilffordd uniongyrchol rhwng Lerpwl a llinell gogledd Cymru. A oes unrhyw gynnydd wedi ei wneud yn hynny o beth, ac a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynny?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is important to consider the works in that area in two ways: first, Wrexham to Saltney junction, which deals with the railway into Chester; and, secondly, the Wrexham-Bidston line, and the link therefore from Bidston into Liverpool itself. Work is proceeding with regard to seeing how such a service could be constructed, and, of course, we are looking as to how we can move ahead with work on the line between Wrexham and Chester. However, as I have said, there will be an announcement on that issue in due course.

Mae'n bwysig ystyried y gwaith yn yr ardal honno mewn dwy ffordd: yn gyntaf, Wrecsam i gyffordd Saltney, sy'n ymdrin â'r rheilffordd i mewn i Gaer; ac, yn ail, y llinell rhwng Wrecsam a Bidston, a'r cysylltiad o Bidston i Lerpwl ei hun felly. Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran gweld sut y gellid datblygu gwasanaeth o'r fath, ac, wrth gwrs, rydym yn ystyried sut y gallwn fwrw ymlaen â gwaith ar y rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer. Fodd bynnag, fel y dywedais, bydd cyhoeddiad ar y mater hwnnw maes o law.

13:36 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn bwysig iawn bod unrhyw benderfyniad ynglŷn â gwariant a buddsoddiad mewn trafnidiaeth, yng Nghymru, ac yn unrhyw fan arall, yn digwydd drwy archwilio'r effaith amgylcheddol yn drylwyr? A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno, felly, fod patrwm trafnidiaeth integredig de-gogledd a dwyrain-gorllewin yn gorfod bod yn un ystyriaeth, ac, felly, a all sicrhau y bydd Cabinet Llywodraeth Cymru yn edrych ar drafnidiaeth integredig yn yr un modd ag yr edrychwyd arni gan Lywodraeth wych Cymru'n Un?

Would the First Minister agree that it is very important that any decision on expenditure and investment in transport in Wales, and anywhere else for that matter, should happen on the basis of a thorough environmental impact assessment? Would the First Minister agree that the pattern of integrated transport, from north to south, and east to west, must be one consideration and, therefore, can he give us an assurance that the Welsh Government Cabinet will look at integrated transport in the same way as it was looked at by the excellent One Wales Government?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid yw'r sefyllfa wedi newid. Dyna pam mae gennym, fel Llywodraeth, gynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Yr ydym yn deall ei bod hi'n bwysig i edrych nid ar un math o drafnidiaeth yn unig, ond ar bob math. Dyna pam mae Bil o flaen y Cynulliad ynglŷn â hybu teithio actif, yn enwedig o ran hybu pobl i gerdded ac i seiclo.

The position has not changed. That is why we, as a Government, have a national transport plan. We understand that it is important to look at not just one means of transport, but at all modes. That is why there is a Bill before the Assembly on the promotion of active travel, particularly in relation to the promotion of walking and cycling.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party leaders to question the First Minister. I call first on the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.

Galwaf ar arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog nawr. Galwaf yn gyntaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you told the Labour Party conference that the Government that you lead is a living and breathing example of what Labour does in power—God help the rest of the UK if you ever got in power up there, I have to say. However, if we look at the NHS as a living, breathing example of what Labour does in power, and as we are at the start of the new political year, perhaps you will make some resolutions about what your Government will deliver. We have the 36-week start time for treatment in the NHS that your Government sets as a target—that is a key Government target. That figure has gone up to over 11,000 people in recent months, yet the former Minister for Health and Social Services said in autumn 2011 that no-one would wait longer than 36 weeks by March 2012. Can you make a resolution today that your Government will hit that target in the next six months?

Brif Weinidog, dywedasoch wrth gynhadledd y Blaid Lafur fod y Llywodraeth yr ydych chi'n ei harwain yn enghraifft fyw o'r hyn y mae Llafur yn ei wneud mewn grym—Duw a helpo gweddill y DU pe byddech chi'n dod i rym yno, mae'n rhaid i mi ddweud. Fodd bynnag, os edrychwn ni ar y GIG fel enghraifft fyw o'r hyn y mae Llafur yn ei wneud mewn grym, a chan ein bod ni ar ddechrau'r flwyddyn wleidyddol newydd, efallai y byddwch yn pasio rhai cynigion o ran yr hyn y bydd eich Llywodraeth yn ei gyflawni. Mae gennym y cyfnod o 36 wythnos ar gyfer dechrau triniaeth yn y GIG y mae eich Llywodraeth yn ei osod fel targed—mae hwn yn un o dargedau allweddol y Llywodraeth. Mae'r ffigur hwnnw wedi codi i dros 11,000 o bobl yn ystod y misoedd diwethaf, ac eto dywedodd y cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod hydref 2011 na fyddai unrhyw un yn aros mwy na 36 wythnos erbyn mis Mawrth 2012. A allwch chi addunedu heddiw y bydd eich Llywodraeth yn cyrraedd y targed hwnnw yn ystod y chwe mis nesaf?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can certainly give you an answer: as a resolution, we will continue to stand up for Wales. We know that we have had to struggle with a budget that is being hammered, with cuts of over £1 billion in a short space of time. There were those of us who protested against that and who told the UK Government that these cuts could not be absorbed properly in Wales, even though we have prioritised as a Government, as people would expect us to do. We were vocal; he was as vocal as a Trappist monk.

Gallaf yn sicr roi ateb i chi: fel adduned, byddwn yn parhau i sefyll yn gadarn dros Gymru. Rydym yn gwybod ein bod wedi gorfod brwydro gyda chyllideb sy'n cael ei thorri'n enbyd, gyda thoriadau o dros £1 biliwn mewn cyfnod byr o amser. Protestiodd rhai ohonom yn erbyn hynny gan ddweud wrth Lywodraeth y DU na ellid ymgorffori'r toriadau hyn yn iawn yng Nghymru, er ein bod wedi blaenoriaethu fel Llywodraeth, fel y byddai pobl yn disgwyl i ni ei wneud. Lleisiwyd ein barn; roedd ef mor dawel â mynach Trapaidd.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say, in fairness to the public gallery, that we have quite a good turnout today. The people in the gallery, and Assembly Members, will have heard me ask you a specific question on the targets that your own Government set. They are no-one else's targets—they are your targets, which you set at the start of this Assembly term. It was all about delivery. You could not commit to that. Try a resolution on a second point regarding our NHS. How about accident and emergency targets? They have not been met since 2009. Can you make a resolution today that, in the next six months, your Government will deliver on its own targets for accident and emergency?

Mae'n rhaid i mi ddweud, er tegwch i'r oriel gyhoeddus, fod gennym gryn dipyn o bobl yma heddiw. Bydd y bobl yn yr oriel, ac Aelodau'r Cynulliad, wedi fy nghlywed yn gofyn cwestiwn penodol i chi am y targedau a osodwyd gan eich Llywodraeth eich hun. Nid targedau unrhyw un arall mohonynt—eich targedau chi ydyn nhw, a osodwyd gennych chi ar ddechrau'r tymor hwn o'r Cynulliad. Ni allech ymrwymo i hynny. Beth am i chi addunedu ar ail bwynt ynghylch ein GIG? Beth am dargedau damweiniau ac achosion brys? Ni fodlonwyd y rheini ers 2009. A allwch chi addunedu heddiw y bydd eich Llywodraeth, yn y chwe mis nesaf, yn bodloni ei thargedau ei hun ar gyfer damweiniau ac achosion brys?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is our intention.

Dyna yw ein bwriad.

13:39

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Is that a 'yes' or a 'no? You are clearly not playing fair with people in Wales. You are clearly not playing fair with people in Wales who have given you their trust to be the Executive. You have set the target and, in your own programme for government, you have said that the target is to be better year on year. You are not being very good with your resolutions today, are you, to be fair? Let us try a third one, a relatively simply one again—the Welsh ambulance service—because you have not committed on the first two. Can you commit, so that people can have confidence that when they ring for an ambulance, they will hit the target for that critical call that goes in for eight minutes? Will your Government hit its own target by Christmas for the ambulance service to respond to emergency calls?

Ai 'gallaf' neu 'na allaf' yw hynny? Mae'n amlwg nad ydych chi'n chwarae'n deg â phobl yng Nghymru. Mae'n amlwg nad ydych yn chwarae'n deg â'r bobl yng Nghymru sydd wedi ymddiried ynoch chi i fod y Weithrediaeth. Chi sydd wedi gosod y targed ac, yn eich rhaglen eich hun ar gyfer llywodraethu, rydych chi wedi dweud mai'r targed yw gwella o flwyddyn i flwyddyn. Nid ydych yn gwneud yn dda iawn o ran eich addewidion heddiw, ydych chi, i fod yn deg? Gadewch i ni roi cynnig ar drydydd un, un cymharol syml eto—gwasanaeth ambiwlans Cymru—gan nad ydych chi wedi ymrwymo ar y ddau gyntaf. A allwch chi ymrwymo, fel y gall pobl, pan fyddant yn ffonio am ambiwlans, fod yn hyderus y bodlonir y targed o wyth munud ar gyfer yr alwad hollbwysig honno? A wnaiff eich Llywodraeth fodloni ei tharged ei hun erbyn y Nadolig o ran ymateb y gwasanaeth ambiwlans i alwadau brys?

13:40

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He talks about the eight-minute target being critical, but I do not know where his clinical evidence is for that. However, it is our intention to hit our targets. Let us put some background in here, shall we? This is the party that supported massive cuts to the Welsh budget. Then, they say you should spend £500 million or £800 million—it depends what day of the week it is—from money that you do not have. That is what they say. That is the deception that they practice on the people of Wales. We did get some transparency two years ago in the budget, when they did say how they would pay for the increases that they said they would put into the health service. They said they would cut education spending by 20% and they would cut spending on the economy and transport by 30%. Well, there goes the trunk road programme. In fact, they said that they would postpone the trunk road building programme. They proposed a 12.5% cut in social justice and local government; a 25% cut in housing, environment and sustainability; a 15% cut in rural affairs, hammering farmers; a 20% cut in heritage; and a reduction of 1.5% in the local government settlement. He asked me to commit and he asked me to be transparent. When will the people of Wales hear from him about how transparent he will be about the cuts that he plans?

Mae'n sôn am y ffaith fod y targed wyth munud yn hollbwysig, ond nid wyf yn gwybod lle mae ei dystiolaeth glinigol ar gyfer hynny. Fodd bynnag, ein bwriad yw bodloni ein targedau. Gadewch i ni gyflwyno ychydig o gefndir yma, ie? Hon yw'r blaid a gefnogodd toriadau enfawr i gyllideb Cymru. Yna, maen nhw'n dweud y dylech wario £500 miliwn neu £800 miliwn—mae'n dibynnu pa ddiwrnod o'r wythnos yw hi—o arian nad oes gennych. Dyna maen nhw'n ei ddweud. Dyna sut maen nhw'n twyllo pobl Cymru. Cawsom rywfaint o dryloywder ddwy flynedd yn ôl yn y gyllideb, pan nodwyd ganddynt sut y byddent yn talu am y codiadau y dywedasant y byddent yn ei wneud yn y gwasanaeth iechyd. Dywedasant y byddent yn gostwng gwariant ar addysg o 20% ac y byddent yn gostwng gwariant ar yr economi a thrafnidiaeth o 30%. Wel, dyna ddiwedd ar y rhaglen cefnffyrdd. Mewn gwirionedd, dywedasant y byddent yn gohirio'r rhaglen adeiladu cefnffyrdd. Cynigiwyd gostyngiad o 12.5% ganddynt ym meysydd cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol; gostyngiad o 25% ym meysydd tai, yr amgylchedd a chynaliadwyedd; a gostyngiad o 15% ym maes materion gwledig, a oedd yn ergyd enfawr i ffermwyr; gostyngiad o 20% ym maes treftadaeth; a gostyngiad o 1.5% yn y setliad llywodraeth leol. Gofynnodd i mi ymrwymo a gofynnodd i mi i fod yn dryloyw. Pryd fydd pobl Cymru yn clywed ganddo fe am ba mor dryloyw y bydd ef am y toriadau y mae'n eu cynllunio?

13:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. I know that we are very excited as it is the first day back, but one good resolution I am sure the public would agree with is that we be a bit more polite to each other. I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Trefn. Gwn ein bod yn gynhyrfus iawn oherwydd mai hwn yw'r diwrnod cyntaf yn ôl, ond un adduned dda yr wyf yn siŵr y byddai'r cyhoedd yn cytuno â hi fyddai i ni fod ychydig yn fwy cwrtais â'n gilydd. Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a Labour Government in Wales has presided over youth unemployment of 48% in the Cynon valley, 39.5% in Blaenau Gwent and 35% in Torfaen. Is that a good example? Is that an achievement? It has presided over missed ambulance waiting targets for each of the last 14 months. Is that a good achievement? Is that a good example? First Minister, how can poor outcomes in health, education and the economy be taken as good examples of what can be achieved?

Brif Weinidog, mae Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi llywyddu dros ddiweithdra ymhlith pobl ifanc o 48% yng nghwm Cynon, 39.5% ym Mlaenau Gwent a 35% yn Nhorfaen. A yw hynny'n gosod esiampl dda? Ai llwyddiant yw hynny? Mae wedi llywyddu dros dargedau amseroedd aros am ambiwlans a fethwyd yn ystod pob un o'r 14 mis diwethaf. Ai llwyddiant yw hynny? A yw hynny'n gosod esiampl dda? Brif Weinidog, sut y gellir ystyried canlyniadau gwael ym meysydd iechyd, addysg a'r economi yn esiampl dda o'r hyn y gellir ei gyflawni?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Her timing is questionable here, is it not? Only a few months ago, we saw enormous increases in foreign direct investment in the Welsh economy. We have seen unemployment go down, we have seen inactivity rates go down and we have seen employment go up. She asked a specific question about youth unemployment as if somehow we had caused it all, ignoring the fact that we are part of the UK economy and the wider European economy, as if we were exceptional. It is difficult, of course. What have we done about it? We established Jobs Growth Wales. There are 6,500 young people in jobs now because of a programme that was funded and put in place by the Welsh Government. That is what we have done. Apprenticeship schemes have been put in place. We talked about this at the time of the budget negotiations last year, and that money has been well used. When it comes to health, we have protected the health service budget at a time of massive cuts in England, where we see 20,000 people losing their jobs, 5,000 nursing posts gone in England and the English NHS in crisis. Yes, there are challenges in the health service, but if you compare us with what is happening across border, I know that the people of Wales will understand that we are doing what we can.

Mae ei hamseru'n amheus yma, onid yw? Dim ond ychydig fisoedd yn ôl, gwelsom gynnydd enfawr mewn buddsoddiad tramor uniongyrchol yn economi Cymru. Rydym wedi gweld diweithdra yn gostwng, rydym wedi gweld cyfraddau anweithgarwch yn gostwng ac rydym ni wedi gweld cyflogaeth yn cynyddu. Gofynnodd gwestiwn penodol am ddiweithdra ymhlith pobl ifanc fel pe bai ni wedi achosi'r cwbl rywsut, gan anwybyddu'r ffaith ein bod yn rhan o economi'r DU a'r economi Ewropeaidd ehangach, fel pe byddem ni'n eithriadol. Mae'n anodd, wrth gwrs. Beth ydym ni wedi ei wneud am y peth? Rydym ni wedi sefydlu Twf Swyddi Cymru. Mae 6,500 o bobl ifanc mewn swyddi nawr oherwydd rhaglen a ariannwyd ac a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyna beth rydym ni wedi ei wneud. Mae cynlluniau prentisiaeth wedi eu sefydlu. Trafodwyd hyn gennym ar adeg y trafodaethau ar y gyllideb y llynedd, ac mae'r arian hwnnw wedi ei ddefnyddio'n dda. Wrth ystyried iechyd, rydym ni wedi diogelu cyllideb y gwasanaeth iechyd ar adeg o doriadau enfawr yn Lloegr, lle rydym ni'n gweld 20,000 o bobl yn colli eu swyddi, 5,000 o swyddi nyrsio wedi diflannu yn Lloegr a'r GIG yn Lloegr mewn argyfwng. Oes, mae heriau yn y gwasanaeth iechyd, ond os byddwch yn ein cymharu ni â'r hyn sy'n digwydd ar draws y ffin, rwy'n gwybod y bydd pobl Cymru yn deall ein bod yn gwneud yr hyn a allwn.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you have to take some responsibility here. Can you tell us here this afternoon whether the Welsh economy, the Welsh NHS and the Welsh education system are better now than they were five years ago?

Brif Weinidog, mae'n rhaid i chi gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb yn hyn o beth. A allwch chi ddweud wrthym yma y prynhawn hwn pa un a yw economi Cymru, GIG Cymru a system addysg Cymru yn well nawr nag yr oeddent bum mlynedd yn ôl?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I believe they are. The crash occurred on 9 August 2007. If you look at what we have done to improve people's chances in terms of their employment and skills, I do believe that we are going in the right direction.

Rwy'n credu eu bod. Dechreuodd yr argyfwng economaidd ar 9 Awst 2007. Os edrychwch chi ar yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud i wella cyfleoedd pobl o ran eu cyflogaeth a'u sgiliau, rwy'n credu ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that that is how the majority of the people of Wales will view the situation. First Minister, the shadow Secretary of State for Wales believes that Wales needs protection from the coalition Government. Does this mean that you can now guarantee all the votes of all your MPs in support of full devolution of powers to Wales, so that we never again have to find ourselves at the mercy of the Conservatives in Westminster, or would you and your MPs prefer to be ruled by the Tories?

Nid wyf yn meddwl mai dyna sut y bydd y rhan fwyaf o bobl Cymru yn gweld y sefyllfa. Brif Weinidog, mae Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Gymru yn credu bod angen amddiffyn Cymru rhag y Llywodraeth glymblaid. A yw hyn yn golygu y gallwch chi ein sicrhau y bydd eich holl ASau yn pleidleisio i gefnogi datganoli pwerau yn llawn i Gymru, fel na fydd rhaid i ni fyth eto ganfod ein hunain ar drugaredd y Ceidwadwyr yn San Steffan, neu a fyddai'n well gennych chi a'ch ASau gael eich rheoli gan y Toriaid?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As a party, we delivered—along with other parties—that ‘yes’ vote in 2011. No-one can question our commitment to devolution. I have, on many occasions, including last week, explained at great length what my position is on devolution. I do not know what hers is. I know that she is in favour of independence, but I do not know how she is in favour of independence. She talks about income tax devolution, but she does not say what she would do with it, what advantage it would be, or what Plaid Cymru would do with these things. This is the problem. Her party is good at demanding powers, but never explains what to do with those powers. We do both. Look at legislation. We fought hard, as did she and her colleagues on those benches, in order to get primary-law-making powers. Where is the Plaid Cymru legislative programme? Do we see a wealth of Member-proposed Bills coming forward? No. Was there a programme in the Plaid Cymru manifesto? No. We have that. That is the difference between us and Plaid Cymru. For Plaid Cymru, it is about wearing badges; for us, it is about delivering for the people of Wales.

Fel plaid, darparwyd y bleidlais ‘ie’ yna yn 2011 gennym ni —ynghyd â phleidiau eraill. Ni all unrhyw un amau ein hymrwymiad i ddatganoli. Rwyf wedi, ar sawl achlysur, gan gynnwys yr wythnos diwethaf, egluro’n fanwl iawn beth yw fy safbwynt ar ddatganoli. Nid wyf yn gwybod beth yw ei safbwynt hi. Gwn ei bod o blaid annibyniaeth, ond nid wyf yn gwybod sut y mae hi o blaid annibyniaeth. Mae hi'n siarad am ddatganoli treth incwm, ond nid yw’n dweud beth fyddai hi'n ei wneud ag ef, pa fantais fyddai hynny, na beth fyddai Plaid Cymru yn ei wneud â'r pethau hyn. Dyna’r broblem. Mae ei phlaid yn dda am hawlio pwerau, ond nid yw byth yn esbonio beth y byddai'n ei wneud â'r pwerau hynny. Rydym ni’n gwneud y ddau. Edrychwch ar ddeddfwriaeth. Rydym ni wedi ymladd yn galed, fel y gwnaeth hi a'i chydweithwyr ar y meinciau yna, er mwyn cael pwerau deddfu sylfaenol. Ble mae rhaglen ddeddfwriaethol Plaid Cymru? A ydyn ni'n gweld cyfoeth o Filiau a gynigir gan Aelodau yn cael eu cyflwyno? Nac ydym. A oedd rhaglen ym maniffesto Plaid Cymru? Nac oedd. Mae gennym ni hynny. Dyna yw’r gwahaniaeth rhyngom ni a Phlaid Cymru. Gwisgo bathodynnau yw nod Plaid Cymru; ein nod ni yw cyflawni dros bobl Cymru.

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, who do you agree with—your Labour leader, Ed Miliband, who said that you are doing an excellent job on the NHS in Wales, or the respected Welsh Labour MP, Ann Clwyd, who said that the Welsh NHS appears to be very bad?

Brif Weinidog, a ydych chi’n cytuno â—eich arweinydd Llafur, Ed Miliband, a ddywedodd eich bod yn gwneud gwaith ardderchog ar y GIG yng Nghymru, neu’r AS uchel ei pharch o Gymru, Ann Clwyd, a ddywedodd ei bod yn ymddangos bod y GIG yng Nghymru yn wael iawn?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ed Miliband. [Laughter.]

Ed Miliband. [ Chwerthin.]

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Miliband and other senior Labour figures have been making some outrageous claims about what is going on in the Welsh NHS. Let us remind you of the reality facing Welsh patients: ambulance targets have not been met for over a year; cancer targets have not been met since you became First Minister; accident and emergency targets have not been met since you became First Minister. Carwyn Jones, what alternative universe are you and the Labour hierarchy living in?

Mae Miliband ac aelodau Llafur blaenllaw eraill wedi bod yn gwneud rhai honiadau anhygoel am yr hyn sy'n digwydd yn y GIG yng Nghymru. Gadewch i ni eich atgoffa o’r realiti sy'n wynebu cleifion Cymru: ni chyrhaeddwyd targedau ambiwlans ers dros flwyddyn; ni chyrhaeddwyd targedau canser ers i chi fod yn Brif Weinidog; ni chyrhaeddwyd targedau damweiniau ac achosion brys ers i chi fod yn Brif Weinidog. Carwyn Jones, pa fydysawd amgen ydych chi a hierarchaeth y blaid Lafur yn byw ynddo?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is always bad when she calls me by my first name and surname. You know what is coming then. [Laughter.]

Mae'n arwydd drwg bob amser pan fydd yn defnyddio fy enw cyntaf a'm cyfenw. Rydych chi'n gwybod beth sy'n dod wedyn. [Chwerthin.]

Let us look again at the situation. We have never hidden the problems within the NHS, especially given the fact that our budgets are being hammered by your party in London. We have never hidden the problems; we have always said that we would prioritise. We have always accepted that there are difficulties and we have always said that we would strive to overcome them. There has been a massive increase in the number of people coming to A&E in the past 10 years. We know that there are demands in Wales that were unforeseen by anybody and we are looking to deal with those issues. Again, I come back to this point: her party has presided over the loss of 5,000 nursing posts, massive cuts disguised as efficiencies in the NHS in England and trusts going bankrupt, and we have a situation where, somehow, they are trying to say that, in Wales, things are worse. The reality is that the English NHS is in crisis. It is in crisis and it is getting worse. In Wales, things are moving in the right direction and it is being taken down the drain by the Tories and Lib Dems in London.

Gadewch i ni edrych ar y sefyllfa eto. Nid ydym erioed wedi cuddio'r problemau yn y GIG, yn enwedig o ystyried y ffaith bod ein cyllidebau yn cael eu torri'n enbyd gan eich plaid chi yn Llundain. Nid ydym erioed wedi cuddio'r problemau; rydym wedi dweud bob amser y byddem yn blaenoriaethu. Rydym ni wedi derbyn erioed bod anawsterau ac rydym ni wedi dweud erioed y byddem yn ymdrechu i'w goresgyn. Bu cynnydd enfawr i nifer o bobl sy'n dod i adrannau damweiniau ac achosion brys yn y 10 mlynedd diwethaf. Rydym yn gwybod bod galw yng Nghymru na ragwelwyd gan unrhyw un ac rydym ni'n ceisio ymdrin â'r materion hynny. Unwaith eto, rwy'n dod yn ôl at y pwynt hwn: mae ei phlaid hi wedi llywyddu dros golli 5,000 o swyddi nyrsio, toriadau enfawr wedi eu cuddio fel arbedion effeithlonrwydd yn y GIG yn Lloegr ac ymddiriedolaethau'n mynd yn fethdalwyr, ac mae gennym ni sefyllfa lle maen nhw'n ceisio dweud bod pethau rhywsut yn waeth yng Nghymru. Y gwir amdani yw bod y GIG yn Lloegr mewn argyfwng. Mae mewn argyfwng ac mae'n gwaethygu. Yng Nghymru, mae pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn ac mae'n cael ei chwalu gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Let me remind you of something else that Ann Clwyd said about the Welsh NHS: Wales is behind England in every instance. Since you became First Minister, not only can you not meet your A&E targets and not only can you not meet your cancer targets, but the number of people waiting for treatment has almost doubled, from 227,000 people to 417,000 people. In England—something you are very fond of quoting—97% of people are treated within 18 weeks; in Wales, people are waiting nine months—twice as long—for exactly the same procedures. Ann Clwyd also said that people do not seem to be willing to admit that there are problems in Wales. Why do you not admit that today and outline what you are going to do about it?

Gadewch i mi eich atgoffa am rywbeth arall a ddywedodd Ann Clwyd am y GIG yng Nghymru: mae Cymru y tu ôl i Loegr ym mhob achos. Ers i chi fod yn Brif Weinidog, nid yn unig na allwch chi gyrraedd eich targedau damweiniau ac achosion brys ac nid yn unig na allwch chi gyrraedd eich targedau canser, ond mae nifer y bobl sy'n aros am driniaeth bron wedi dyblu, o 227,000 o bobl i 417,000 o bobl. Yn Lloegr—rhywbeth yr ydych chi'n hoff iawn o'i ddyfynnu—mae 97% o bobl yn cael eu trin o fewn 18 wythnos; yng Nghymru, mae pobl yn aros naw mis—dwywaith cyn hired—am yr un llawdriniaethau'n union. Dywedodd Ann Clwyd hefyd nad yw'n ymddangos fod pobl yn barod i gyfaddef fod problemau yng Nghymru. Beth am i chi gyfaddef hynny heddiw ac amlinellu'r hyn yr ydych chi'n mynd i'w wneud am y peth?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is quite clearly wrong. I have said, on many occasions, that we accept that there are still challenges in Wales in terms of addressing some of the issues in the health service. Those challenges are made many times worse by your party's insistence that the Welsh budget should be cut. You cannot get away from that; you cannot pretend that it has not happened. You cannot pretend that there is as much money around now as there was four or five years ago. You must take responsibility for that, as we take responsibility for improving the NHS in Wales, which we do. You must accept responsibility for the hundreds of millions of pounds of cuts that you are imposing on Wales. I come back to this point— you criticise me for comparing Wales with England, but the Prime Minister does this all of the time, so I will not apologise for it—5,000 nursing posts gone, billions of pounds cut, and a service that is moving backwards in England. The difference between us and your party is quite simply this: we know that there are challenges and we are dealing with them. Your party in England is simply creating problems and is shying away from dealing with those problems.

Mae hynny'n amlwg yn gwbl anghywir. Rwyf wedi dweud, ar sawl achlysur, ein bod yn derbyn bod heriau yng Nghymru o hyd o ran mynd i'r afael â rhai o'r problemau yn y gwasanaeth iechyd. Mae'r heriau hynny yn cael eu gwneud lawer gwaith yn waeth gan y ffaith fod eich plaid chi'n mynnu y dylai cyllideb Cymru gael ei thorri. Ni allwch chi ddianc rhag hynny; ni allwch chi esgus nad yw wedi digwydd. Ni allwch chi esgus bod cymaint o arian ar gael nawr ag yr oedd yna bedair neu bum mlynedd yn ôl. Mae'n rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb am hynny, fel yr ydym ni'n cymryd cyfrifoldeb am wella'r GIG yng Nghymru, ac yr ydym yn gwneud hynny. Mae'n rhaid i chi dderbyn cyfrifoldeb am y cannoedd o filiynau o bunnoedd o doriadau yr ydych chi'n eu gorfodi ar Gymru. Rwy'n dod yn ôl at y pwynt hwn—rydych chi'n fy meirniadu i am gymharu Cymru â Lloegr, ond mae'r Prif Weinidog yn gwneud hyn drwy'r amser, felly nid wyf am ymddiheuro am hynny—5,000 o swyddi nyrsio wedi diflannu, biliynau o bunnoedd o doriadau, a gwasanaeth sy'n gwaethygu yn Lloegr. Y gwahaniaeth rhyngom ni a'ch plaid chi, yn syml iawn, yw hyn: rydym ni'n gwybod ein bod yn wynebu heriau ac yn ymdrin â nhw. Y cwbl mae eich plaid chi yn Lloegr yn ei wneud yw creu problemau a gwrthod ymdrin â'r problemau hynny.

## Yr Uned Gyflawni

## The Delivery Unit

13:50 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd yr Uned Gyflawni? OAQ(4)1211(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the effectiveness of the Delivery Unit? OAQ(4)1211(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The way to measure the effectiveness of the delivery unit is to measure the effectiveness of the Government as a whole.

Y ffordd o fesur effeithiolrwydd yr uned gyflawni yw mesur effeithiolrwydd y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd.

13:50 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the bitter experience of campaigners in Varteg has cast serious doubt over the effectiveness of minerals technical advice note 2 planning guidance— guidance that is meant to offer clear safeguards for Welsh communities from the negative impacts of opencast mining. First Minister, will you commit to looking at this whole issue again, whether through the delivery unit or through some other mechanism of Government, with a view to ensuring that clear Welsh planning policy is delivered on the ground?

Brif Weinidog, mae profiad chwerw'r ymgyrchwyr yn y Farteg wedi arwain at amheuaeth ddifrifol ynghylch effeithiolrwydd canllawiau cynllunio nodyn cyngor technegol mwynau 2—canllawiau sydd i fod i gynnig mesurau diogelu eglur i gymunedau Cymru rhag effeithiau negyddol cloddio glo brig. Brif Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i ystyried yr holl fater hwn eto, boed hynny drwy'r uned gyflawni neu drwy ryw ddull Llywodraethol arall, gyda'r nod o sicrhau y darperir polisi cynllunio eglur i Gymru ar lawr gwlad?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is a live issue, so I cannot discuss the issue at hand, namely the issue at Varteg, but we do have MTAN2, of course. The Minister for Housing and Regeneration is due to give evidence at the Petitions Committee on 22 October in response to petitions being put before that committee. If there are any suggestions as to how the MTAN might be improved in the future, I am sure that the Minister would be eager to hear what is said.

Mae hwn yn fater byw, felly ni allaf drafod y mater dan sylw, sef y mater yn y Farteg, ond mae MTAN2 gennym, wrth gwrs. Disgwylir i'r Gweinidog Tai ac Adfywio gyflwyno tystiolaeth yn y Pwyllgor Deisebau ar 22 Hydref gan ymateb i ddeisebau sy'n cael eu rhoi gerbron y pwyllgor hwnnw. Os oes unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella MTAN yn y dyfodol, rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn awyddus i glywed yr hyn a ddywedir.

13:51 **Paul Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol, fel sydd wedi ei ddweud eisioes, bod targedau amseroedd ymateb ambiwlansys yn parhau i gael eu colli ac nad yw targedau triniaeth frys ar gyfer canser wedi'u cyflawni ers i chi ddod yn Brif Weinidog. A allwch ddweud wrthym beth mae'r uned gyflawni wedi bod yn ei wneud tra bo'r targedau hyn yn parhau i gael eu colli?

First Minister, you will be aware, as has already been mentioned, that ambulance response time targets continue to be missed and that targets for urgent treatment for cancer have not been achieved since you became First Minister. Can you tell us what the delivery unit has been doing while these targets continue to be missed?

13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Mae hwn yn rhywbeth i'r Gweinidog ddelio ag ef, ac mae Mark Drakeford yn gwneud hynny, fel rwyf wedi dweud sawl gwaith o'r blaen. Mae pwysau wedi dod ar y gwasanaeth iechyd nad oedd neb yn gallu ei ragweld. Mae hynny'n wir, wrth gwrs, mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond y gwahaniaeth yw ein bod ni'n delio â'r problemau hynny. Mae'r problemau yn cael eu gwneud yn waeth yn Lloegr.

This is something for the Minister to deal with, and Mark Drakeford is doing that, as I have said on numerous occasions previously. There has been pressure on the health service that nobody could have anticipated. That is true, of course, of other parts of the United Kingdom, but the difference is that we are tackling those problems. The problems are being exacerbated in England.

13:52 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Brif Weinidog, pan welais fod cwestiwn wedi ei osod gan Aelod o'ch plaid chi ar yr uned gyflawni, roeddwn yn meddwl ein bod yn mynd i gael rhyw gymaint o oleuni y prynhawn yma am yr uned hon. Bob tro mae Aelodau o bleidiau eraill wedi eich holi, rydych wedi bod yn amharod iawn i ymateb. A ydych yn dweud bod yn rhaid inni fesur perfformiad yr uned gyflawni yn ôl perfformiad y Llywodraeth? A gaf i ofyn cwestiwn penodol i chi, felly? Mae ymgynghoriad yn cau yfory ar gymorth y wladwriaeth i feysydd awyr. Bydd hyn yn effeithio ar Faes Awyr Caerdydd. A ydych yn gallu cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn ar y mater hwn? A yw'r uned gyflawni wedi sicrhau eich bod wedi ymateb?

First Minister, when I saw that a question had been tabled by a Member of your own party on the delivery unit, I thought that we were going to get some light shed on the matter this afternoon. Every time that Members of other parties have questioned you, you have been very unwilling to respond. Are you saying that we have to measure the success of the delivery unit in line with the Government's performance? May I, therefore, ask you a specific question? A consultation will close tomorrow on state aid for airports. This will impact upon Cardiff Airport. Can you confirm that the Welsh Government has responded to the Commission's cunsultation on this issue? Has the delivery unit ensure that you have responded?

13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Wrth gwrs, gall y Gweinidog ateb hynny, ond gallaf ddweud un peth: nid oes cymhorthdal wedi ei roi i'r maes awyr. Rydym wedi prynu'r maes awyr, mae hynny'n wir, ond nid wyf am roi'r argraff bod rhyw fath o gymhorthdal wedi cael ei roi i'r maes awyr, achos, wrth gwrs, byddai hynny'n anghyfreithlon.

Of course, the Minister can answer that, but I can say one thing: no subsidy has been given to the airport. We have bought the airport, that is true, but I do not want to give the impression that any kind of subsidy has been given to the airport, as that, of course, would be illegal.

## Yr Uned Gyflawni

## The Delivery Unit

13:53 **Angela Burns** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r meysydd y bydd yr Uned Gyflawni yn eu gwerthuso y tymor hwn? OAQ(4)1218(FM)*

*4. Will the First Minister outline the areas that the Delivery Unit will be evaluating this term? OAQ(4)1218(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The delivery unit will be evaluating many areas of delivery of policy and will ensure that we have a co-ordinated approach as a Government.

Bydd yr uned gyflawni yn gwerthuso llawer o feysydd darparu polisi a bydd yn sicrhau bod gennym ddull cydlynol fel Llywodraeth.

13:53 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I have to say that you are terribly slippery on the subject of the delivery unit. You were last term, and you are obviously intent on being so this term. I have a very direct question for you, and it is about the levels of poverty in Wales. We have already heard the speech that you made so splendidly to the Labour Party conference in which you said that this was a living, breathing example of Labour Party policies, yet the Joseph Rowntree Foundation has just published another report on poverty levels in Wales, and after 13-or-so years of a Labour Government here, there is very little improvement. Will your delivery unit be taking a look at that? What will you, your Government and your delivery unit do to ensure that people in Wales do not carry on living at the same levels of poverty that they have done for the last 13 years? You cannot blame that on the coalition Government; it has not been around for 13 years, but you have.

Brif Weinidog, mae'n rhaid i mi ddweud eich bod yn hynod o amharod i ateb ar bwnc yr uned gyflawni. Roeddech chi felly y tymor diwethaf, ac rydych chi'n amlwg yn benderfynol o fod felly y tymor hwn. Mae gennyf gwestiwn plaen iawn i chi, ac mae'n ymwneud â lefelau tlodi yng Nghymru. Rydym ni eisoes wedi clywed yr araith a wnaethoch chi mor ogoneddus i gynhadledd y Blaid Lafur, pan ddywedasoch fod hon yn enghraifft fyw o bolisïau'r Blaid Lafur, ac eto mae Sefydliad Joseff Rowntree newydd gyhoeddi adroddiad arall ar lefelau tlodi yng Nghymru, ac ar ôl tua 13 mlynedd o Lywodraeth Lafur yma, prin iawn yw'r gwelliant. A fydd eich uned gyflawni yn cymryd golwg ar hynny? Beth fyddwch chi, eich Llywodraeth a'ch uned gyflawni yn ei wneud i sicrhau nad yw pobl yng Nghymru yn parhau i fyw ar yr un lefelau o dlodi y maent wedi ei wneud yn ystod y 13 mlynedd diwethaf? Ni allwch chi roi'r bai am hynny ar y Llywodraeth glymblaid; nid yw wedi bod o gwmpas ers 13 mlynedd, ond mi rydych chi.

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I thank the Member for her praise for my speech. It is certainly very kind of her. Secondly, she will know of what we have undertaken in order to help people out of poverty in Wales. Flying Start is a fine example of such a scheme. However, she cannot say that it is nothing to do with her party, given the fact that we see people being plunged into poverty—it is now a fact of life in Britain that food banks are seen as an accepted part of life. It is a disgrace, because 10 years ago that would have been shocking, but under the Conservatives and the Liberal Democrats, it is now seen as normal. We know that, because of the bedroom tax, there are many hundreds if not thousands of people—40,000 households, in fact, in Wales—who will be affected. There will be 40,000 households worse off, some of which are in danger of being evicted. That is the reality of Tory and Lib Dem rule, and that is something that we will never accept.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Aelod am ei chanmoliaeth i'm haraith. Mae'n sicr yn garedig iawn yn gwneud hynny. Yn ail, bydd yn ymwybodol o'r hyn yr ydym ni wedi ei wneud er mwyn helpu pobl allan o dlodi yng Nghymru. Mae Dechrau'n Deg yn enghraifft wych o gynllun o'r fath. Fodd bynnag, ni all ddweud nad oes ganddo ddim i'w wneud â'i phlaid hi, o ystyried y ffaith ein bod yn gweld pobl yn cael eu gwthio i dlodi—mae'n un o ffeithiau bywyd ym Mhrydain bellach bod banciau bwyd yn cael eu hystyried yn rhan dderbyniol o fywyd. Mae'n warth, oherwydd byddai hynny wedi bod yn rhywbeth syfrdanol 10 mlynedd yn ôl, ond dan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ystyrir hyn yn rhywbeth arferol bellach. Rydym yn gwybod, oherwydd y dreth ystafell wely, bod cannoedd lawer, os nad miloedd o bobl— 40,000 o gartrefi yng Nghymru mewn gwirionedd—a fydd yn cael eu heffeithio. Bydd 40,000 o gartrefi yn waeth eu byd, ac mae rhai o'r bobl hynny mewn perygl o gael eu troi allan. Dyna yw realiti llywodraethu'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac mae hynny'n rhywbeth na fyddwn yn ei dderbyn fyth.

13:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, over the summer I spent a lot of time talking to housebuilders about why it is that Wales is falling behind in terms of the number of homes being built here. They say that, in terms of their priorities, the Welsh Government can help them with three things: financial support for buyers, reducing red tape and regulations, and simplifying the planning process. Are you and your delivery unit talking to builders to find out what they are doing? How are you taking their concerns into account as you formulate your policies and the legislation that will come to us later this term?

Brif Weinidog, treuliais lawer o amser dros yr haf yn siarad ag adeiladwyr tai ynglŷn â pham y mae Cymru ar ei hôl hi o ran nifer y cartrefi sy'n cael eu hadeiladu yma. Maen nhw'n dweud, o ran eu blaenoriaethau, y gall Llywodraeth Cymru eu helpu gyda thri pheth: cymorth ariannol i brynwyr, lleihau biwrocratiaeth a rheoliadau, a symleiddio'r broses gynllunio. A ydych chi a'ch uned gyflawni yn siarad ag adeiladwyr i ddarganfod yr hyn maen nhw'n ei wneud? Sut ydych chi'n cymryd eu pryderon i ystyriaeth wrth i chi lunio eich polisïau a'r ddeddfwriaeth a fydd yn ein cyrraedd ni yn nes ymlaen y tymor hwn?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

In fairness to the Minister, he has been in close contact with the builders. For example, he made an announcement just before the summer regarding building regulations, energy targets and, of course, sprinklers, which was widely welcomed by the construction industry. What would help more than anything else is stamp duty. When will we see the devolution of stamp duty? I accept what he is going to say. I heard what the Deputy Prime Minister said and I accept his words in terms of stamp duty, but the reality is that Scotland has its stamp duty. All that we have heard is excuse after excuse, and we have had delay after delay from the UK Government in terms of the delivery of stamp duty. If we do not get stamp duty, we cannot borrow and the whole package disappears—the whole of part 1. I cannot understand why something that is apparently fine for Scotland is not fine for Wales. I can only assume that there is an attempt to try to delay matters for reasons that we could only begin to imagine. We hear that it is to do with the McKay commission and what is simplistically described as English votes on English laws, but the reality is that, if we are going to be able to borrow, we need the tax revenues to borrow. Stamp duty is absolutely crucial to that.

Er tegwch i'r Gweinidog, mae wedi bod mewn cysylltiad agos â'r adeiladwyr. Er enghraifft, gwnaeth gyhoeddiad yn union cyn yr haf ar reoliadau adeiladu, targedau ynni ac, wrth gwrs, systemau chwistrellu, a gafodd ei groesawu'n eang gan y diwydiant adeiladu. Yr hyn fyddai'n helpu mwy na dim arall yw'r dreth stamp. Pryd fyddwn ni'n gweld y dreth stamp yn cael ei datganoli? Rwy'n derbyn yr hyn y mae'n mynd i'w ddweud. Clywais yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ac rwy'n derbyn ei eiriau o ran y dreth stamp, ond y gwir amdani yw bod gan yr Alban ei threth stamp. Y cyfan yr ydym ni wedi ei glywed yw esgus ar ôl esgus, ac rydym ni wedi gweld Llywodraeth y DU yn oedi ac oedi eto o ran cyflwyno'r dreth stamp. Os na fyddwn yn cael y dreth stamp, ni allwn fenthyg ac mae'r pecyn cyfan yn diflannu—rhan 1 i gyd. Ni allaf ddeall pam nad yw rhywbeth sy'n ymddangos yn iawn ar gyfer yr Alban yn iawn i Gymru. Gallaf ond tybio bod yna ymgais i geisio gohirio materion am resymau y gallem ni ddim ond dechrau eu dychmygu. Rydym ni'n clywed ei fod yn ymwneud â chomisiwn McKay a'r hyn a ddisgrifir braidd yn syml fel pleidleisiau Lloegr ar ddeddfau Lloegr, ond y gwir amdani, os ydym ni'n mynd i allu benthyg, yw bod angen refeniw treth i fenthyg. Mae'r dreth stamp yn gwbl hanfodol i hynny.

13:57 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rydym wedi clywed y prynhawn yma bod rhestrau aros ar gyfer triniaeth o fewn y gwasanaeth iechyd yn gwaethygu, ac rydym i gyd fel Aelodau Cynulliad yn fwyfwy cyfarwydd â phobl sy'n gweld eu triniaethau yn y gwasanaeth iechyd yn cael eu gohirio. Yn eich ateb i Paul Davies, dywedoch mai mater i'r Gweinidog iechyd oedd hyn, ac nid mater i'r uned gyflawni. A ydych o ddifrif yn dweud wrthym y prynhawn yma nad yw eich uned gyflawni yn gwneud unrhyw beth i hyrwyddo cyrraedd a chyflawni eich targedau o fewn yr NHS?

First Minister, we have heard this afternoon that waiting times for treatment within the health service are getting worse, and as Assembly Members, we are becoming increasingly aware of people having their treatments postponed within the health service. In your response to Paul Davies, you said that this was a matter for the Minister for health, not the delivery unit. Are you seriously telling us this afternoon that your delivery unit does nothing to promote the achievement of your targets within the NHS?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'r uned gyflawni yn gweithio er mwyn tynnu adrannau at ei gilydd—mae'n rhaid cofio hynny—er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i'r Llywodraeth weithio fel un. Dyna yw rhan bwysig o waith yr uned gyflawni. Un peth nad yw'n wneud yw gwaith Gweinidogion. Mater i Weinidogion yw hynny. Felly, o ran targedau, cyfrifoldeb y Gweinidog iechyd yw hynny, ond lle mae pethau'n gorfod cael eu gwneud i'w helpu i sicrhau gwelliannau, mae'r uned gyflawni yn helpu.

The delivery unit is there to bring departments together—we must bear that in mind—to ensure that they collaborate so that the Government works as one. That is an important part of the delivery unit's work. One thing that it does not do is to do the work of the Ministers. That is for Ministers. Therefore, in terms of targets, that is the responsibility of the Minister for health. Of course, where things have to be done to help him to secure improvements, the unit will assist.

## Cynllun y Fargen Werdd

## The Green Deal Scheme

13:58 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weinyddiaeth Cynllun y Fargen Werdd yng Nghymru? OAQ(4)1206(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the administration of the Green Deal Scheme in Wales? OAQ(4)1206(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Green Deal is a UK Government scheme. It is administered by the green deal oversight and registration body, which, in turn, was established by the Department for Energy and Climate Change.

Cynllun Llywodraeth y DU yw'r Fargen Werdd. Mae'n cael ei gweinyddu gan gorff goruchwylio a chofrestru'r fargen werdd a sefydlwyd, yn ei dro, gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd.

13:58 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you may be aware that this is an important scheme. Many people have attempted to take advantage of it, but one of the net effects of what is currently happening in south Wales is that there are companies going around that have been getting people to make payments, with the company then going bust or disappearing, with many people—not just in my constituency but across south Wales—losing hundreds of pounds as a consequence of this scheme. Is there anything that the Welsh Government can do to give protection to south Wales people who are so dependent on such schemes?

Brif Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol bod hwn yn gynllun pwysig. Mae llawer o bobl wedi ceisio manteisio arno, ond un o effeithiau net yr hyn sy'n digwydd yn ne Cymru ar hyn o bryd yw bod cwmnïau yn mynd o gwmpas sydd wedi bod yn cael pobl i wneud taliadau, ac wedyn mae'r cwmni wedi mynd i'r wal neu ddiflannu, a llawer o bobl—nid yn unig yn fy etholaeth i, ond ledled de Cymru—yn colli cannoedd o bunnoedd o ganlyniad i'r cynllun hwn. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i amddiffyn pobl de Cymru sydd mor ddibynnol ar gynlluniau o'r fath?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Of course, it is primarily the responsibility of the UK Government, but I want to make sure that we, as a Government, do what we can to protect vulnerable households from being targeted by these rogue companies. My officials are in close liaison with trading standards departments. They are investigating the recent complaints. If there is any more information or evidence that can be provided to the trading standards, I would encourage people to come forward with that information.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hyn yn bennaf, ond rwyf eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni, fel Llywodraeth, yn gwneud yr hyn a allwn i amddiffyn cartrefi sy'n agored i niwed rhag cael eu targedu gan y cwmnïau twyllodrus hyn. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos ag adrannau safonau masnach. Maent yn ymchwilio i'r cwynion diweddar. Os oes unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach y gellir ei darparu i'r adran safonau masnach, byddwn yn annog pobl i gyflwyno'r wybodaeth honno.

13:59 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have been disappointed that the Welsh Government has not done enough to help to deal with public sector partners to raise awareness of the Green Deal scheme to the Welsh public. How is the Welsh Government linking the Green Deal scheme to its own housing energy efficiency schemes?

Rwyf wedi cael fy siomi nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i'n helpu i ymdrin â phartneriaid sector cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o gynllun y Fargen Werdd i'r cyhoedd yng Nghymru. Sut mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu'r Fargen Werdd â'i chynlluniau effeithlonrwydd ynni tai ei hun?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The schemes are slightly different. They dovetail well with each other. We encourage people who can benefit from the Green Deal to do so, and, of course, we have our own Nest and Arbed schemes, which have a proven track record of helping people.

Mae'r cynlluniau rywfaint yn wahanol. Maen nhw'n cyd-fynd yn dda â'i gilydd. Rydym yn annog pobl sy'n gallu elwa o'r Fargen Werdd i wneud hynny, ac, wrth gwrs, mae gennym ein cynlluniau Nest ac Arbed ein hunain, sydd â hanes y gellir ei brofi o helpu pobl.

14:00 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gwnaethoch gyfeirio yn eich ateb at gynllun Arbed, ac nid oes dwywaith bod cynllun Arbed wedi bod yn effeithiol iawn mewn amryw o gymunedau. O'n profiad ni mewn un rhan o Arfon, ym mhentref Nantlle, mae'r cynllun Arbed sydd wedi bod ganddynt wedi bod yn dipyn o drychineb, gan fod y cwmni sy'n gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru, Willmott Dixon, wedi bod yn camarwain etholwyr ac wedi ceisio rhoi'r bai ar y parc cenedlaethol a'r adran gynllunio—bai sy'n gwbl annigonol ac yn annheg yn fy marn i ac ym marn llawer o bobl. Nid wyf yn disgwyl i chi ateb cwestiwn ar y sefyllfa honno, wrth gwrs, ond rwy'n gofyn i chi edrych yn fanwl ar weithrediad y cwmni hwn yn yr enghraifft honno, ac yn gofyn hefyd i chi sicrhau bod y Gweinidog perthnasol yn edrych yn fanwl ar weithrediad y cynllun hwn, achos rwy'n gobeithio nad yw'r enghraifft honno'n cael ei hailadrodd mewn lleoedd eraill.

In your reply you referred to Arbed, and there is no doubt that the Arbed scheme has been very effective in many communities. From our experience in one part of Arfon, in the village of Nantlle, the Arbed scheme there has been a bit of a disaster, because the company that has been acting as an agent for the Welsh Government, Willmott Dixon, has been misleading constituents and trying to blame the national park and the planning department—something that is completely inadequate and unfair in my view, and in the view of many others. I do not expect you to answer a question on that case, of course, but I am asking you to look in detail at that company's operations in this respect, and am asking you to ensure that the relevant Minister looks in detail at that company's operations, as I hope that that example is not replicated in other areas.

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid wyf wedi clywed am y broblem honno unrhyw le arall yng Nghymru. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog wedi clywed eich sylwadau, ac rwy'n siŵr y bydd ateb yn dod yn fuan.

I have not heard of that problem in any other part of Wales. The Minister will, of course, have heard your comments, and I am sure that a reply will shortly be forthcoming.

### Blaenoriaethau ar gyfer Amddiffynfeydd Llifogydd

### Priorities for Flood Defences

14:01 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd? OAQ(4)1216(FM)*

*6. Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for flood defences? OAQ(4)1216(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, of course flood defences remain a high priority for us. We saw, just as one example, what happened in St Asaph in the early part of the year. We will be investing over £180 million in this term of office to support an ongoing programme of maintenance and capital improvement works to flood defence infrastructure across Wales, including schemes at Pontarddulais, Swansea vale, Rhyl and Fairbourne.

Gwnaf, wrth gwrs bod amddiffynfeydd rhag llifogydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ni. Gwelsom, dim ond fel un enghraifft, yr hyn a ddigwyddodd yn Llanelwy yn ystod rhan gynnar y flwyddyn. Byddwn yn buddsoddi dros £180 miliwn yn ystod y tymor hwn i gefnogi rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw a gwella cyfalaf i seilwaith amddiffyn rhag llifogydd ledled Cymru, gan gynnwys cynlluniau ym Mhontarddulais, Bro Abertawe, y Rhyl a Fairbourne.

14:02 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, First Minister. I am sure that you are aware that the report on the flood event at Glasdir in Ruthin was published this summer, on 27 August. One of the causes of the flooding there was identified as the method of construction used for the trunk road, the A525. Given that, and that there is a need for £250,000-worth of work to be carried out, will you be assisting Denbighshire County Council? Because of your responsibility for trunk roads, will you be contributing towards the £250,000-worth of remedial works required?

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod yr adroddiad ar yr achos o lifogydd yng Nglasdir yn Rhuthun wedi'i gyhoeddi yr haf hwn, ar 27 Awst. Nodwyd mai un o'r pethau a achosodd y llifogydd yno oedd y dull o adeiladu a ddefnyddiwyd ar gyfer cefnffordd yr A525. O ystyried hynny, a'r ffaith fod angen gwneud gwerth £250,000 o waith, a fyddwch chi'n cynorthwyo Cyngor Sir Ddinbych? Oherwydd eich cyfrifoldeb am gefnffyrdd, a fyddwch chi'n cyfrannu tuag at y £250,000 o waith adfer sydd ei angen?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What I can say is that officials in Government are discussing the findings of the report with the council and, indeed, with Natural Resources Wales. The result of those discussions will form the basis of what plans there will be to resolve the situation in the near future.

Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod swyddogion yn y Llywodraeth yn trafod canfyddiadau'r adroddiad gyda'r cyngor ac, yn wir, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Canlyniad y trafodaethau hynny fydd y sail i ba gynlluniau fydd ar gael i ddatrys y sefyllfa yn y dyfodol agos.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am very grateful for the way in which you and your Government have gone to St Asaph to meet people who have suffered. It is now almost 12 months later, and I am very grateful to your Minister for Natural Resources and Food, as he has walked the riverbank with me and with a number of constituents, many of whom are still not back in their homes after being flooded out. I just wanted to know: can you provide us with an update as to how much preparation NRW will do, prior to the anniversary of the floods, so that those people who are not back in their homes do not feel forgotten? Often, there is the big hype about everyone wanting to visit while the floodwater is high, and everybody wanting to do something in the first six weeks, but in later months, the people who are affected feel forgotten. I just want assurances from you that the Government will do everything it can to reduce the one in 30 events, which are affecting Roe Park in St Asaph at the moment, and that we can improve that so that the insurance people will have no hook to wriggle off should there be further flooding for these people.

Brif Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am y ffordd yr ydych chi a'ch Llywodraeth wedi mynd i Lanelwy i gyfarfod â phobl sydd wedi dioddef. Mae hi bron i flwyddyn yn ddiweddarach bellach, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'ch Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, gan ei fod wedi cerdded ar hyd lan yr afon gyda mi a chyda nifer o etholwyr, llawer ohonynt yn dal i fod heb ddychwelyd i'w cartrefi ar ôl i'r llifogydd eu gorfodi i'w gadael. Ond hoffwn i wybod: a allwch roi diweddariad i ni o ran faint y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud, bron i flwyddyn ers y llifogydd, fel nad yw'r bobl hynny nad ydynt yn ôl yn eu cartrefi yn teimlo eu bod wedi eu hanghofio? Yn aml, ceir sylw mawr gan bawb sydd eisiau ymweld tra bod y llifddwr yn uchel, a phawb eisiau gwneud rhywbeth yn y chwe wythnos gyntaf, ond yn ystod y misoedd diweddarach, mae'r bobl sy'n cael eu heffeithio yn teimlo eu bod wedi eu hanghofio. Hoffwn gael sicrwydd gennych y bydd y Llywodraeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i leihau'r un o bob 30 o ddigwyddiadau, sy'n effeithio ar Barc Roe yn Llanelwy ar hyn o bryd, ac y gallwn wella hynny fel na fydd y gan y bobl yswiriant esgus rhag talu pe byddai'r bobl hyn yn cael rhagor o lifogydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are two assurances that I can give the Member. First of all is the assurance that strong consideration is being given to the report and to what might be done with it in terms of working with Natural Resources Wales and with the council. That report is being considered at the moment. Secondly, work is progressing on a new agreement for flood insurance. In the meantime, however, the insurance industry has agreed to abide by the statement of principle, which is our current agreement, to ensure that those who are most at risk from flooding can continue to access insurance. That is a very important issue, of course, particularly for those who have recently seen the effects of flooding.

Gallaf roi dau sicrwydd i'r Aelod. Yn gyntaf oll, ceir y sicrwydd bod ystyriaeth gref yn cael ei rhoi i'r adroddiad a'r hyn y gellid ei wneud ag ef o ran gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a chyda'r cyngor. Mae'r adroddiad hwnnw yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Yn ail, mae gwaith yn mynd rhagddo ar gytundeb newydd ar gyfer yswiriant rhag llifogydd. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'r diwydiant yswiriant wedi cytuno i gadw at y datganiad o egwyddor, sef ein cytundeb presennol, er mwyn sicrhau y gall y rhai sydd yn y perygl mwyaf o lifogydd barhau i gael gafael ar yswiriant. Mae hwnnw'n fater pwysig iawn, wrth gwrs, yn enwedig i'r rhai sydd wedi gweld effeithiau llifogydd yn ddiweddar.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mae'r cwestiwn ariannol ynglŷn â Glasdir yn Rhuthun yn un pwysig y mae angen i chi ei ystyried, ac rwy'n siŵr y byddwch yn gwneud hynny. Mae nifer o gwestiynau eraill, wrth gwrs, sydd yn dal heb eu hateb, ac mae gennym sefyllfa yn awr yn Rhuthun lle mae Cyngor Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru, y datblygwyr ac eraill yn edrych ar ei gilydd ac yn ensynio ac yn pwyntio bysedd, ac yn y blaen. Nid yw hynny'n dderbyniol oherwydd, yn y cyfamser, mae trigolion lleol yn dal i aros am atebion ar nifer o bwyntiau pwysig iawn. Beth fyddwch yn ei wneud fel Prif Weinidog i sicrhau bod trigolion Glasdir yn Rhuthun yn cael atebion, chwarae teg a chyfiawnder?

It is important that you consider the financial question with regard to Glasdir in Ruthin, and I am sure that you will be doing so. A number of other questions, of course, remain unanswered, and we now have a situation in Ruthin where Denbighshire County Council, Natural Resources Wales, the developers and others are pointing the finger of blame at each other and so on. That is unacceptable because, in the meantime, local residents are still waiting for answers on a number of very important issues. What will you do as First Minister to ensure that the residents of Glasdir in Ruthin are given answers, fair play and justice?

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n berffaith deg i ddweud nad yw o les i neb i gael pobl yn coethan trwy'r amser. Mae'n wir i ddweud y bydd pobl leol yn gofyn y cwestiwn, 'Wel, beth sy'n digwydd?' Dyna pam yr ydym yn siarad â'r cyrff perthnasol, er mwyn sicrhau, yn gyntaf, bod atebion, lle mae hynny'n bosibl, ac yn ail i ystyried pa flaenoriaeth y dylid ei rhoi i unrhyw gynllun newydd yn yr ardal honno.

It is completely fair to say that no-one benefits from continual squabbling. It is true to say that local people will be asking 'Well, what's happening?' That is why we are talking to the relevant bodies, in order to secure answers, in the first place, and then to consider what priority should be given to any new scheme in the area.

### Ardal Fenter Caerdydd

### Cardiff Enterprise Zone

14:05 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardal Fenter Caerdydd? OAQ(4)1221(FM)*

*7. Will the First Minister provide an update on the Cardiff Enterprise Zone? OAQ(4)1221(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, good progress is being made in the enterprise zone, with a number of new projects in the pipeline.

Gwnaf, mae cynnydd da yn cael ei wneud yn yr ardal fenter, ac mae nifer o brosiectau newydd ar y gweill.

14:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I recently had an e-mail from Emyr John, who is in the department for enterprise, who indicated that only six applications had been forthcoming for support in the Cardiff enterprise zone, of which only two were successful. He also indicated that the performance to date has not been the best. As an Assembly Member, I have tabled many questions to try to ascertain exactly how many jobs have been created, how much investment has gone into Cardiff enterprise zone, and what the likely outcome will be in three or four years' time. To date, I have no overall picture of where the Government is going with the Cardiff enterprise zone. Given this e-mail, which indicates that performance has not been the best, can you give an assurance today that the Government does have an idea of where it wants Cardiff enterprise zone to be, and that you will publish regular updates to indicate jobs created and investment going in?

Diolch yn fawr i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn ddiweddar, cefais e-bost gan Emyr John, sydd yn yr adran menter, a nododd mai dim ond chwe chais a dderbyniwyd am gymorth yn ardal fenter Caerdydd, a dim ond dau o'r rheini oedd yn llwyddiannus. Dywedodd hefyd nad oedd y perfformiad wedi bod yn arbennig hyd yma. Fel Aelod Cynulliad, rwyf wedi cyflwyno llawer o gwestiynau i geisio darganfod yn union faint o swyddi sydd wedi eu creu, faint o fuddsoddiad a wnaed yn ardal fenter Caerdydd, a beth fydd y canlyniad tebygol ymhen tair neu bedair blynedd. Hyd yn hyn, nid oes gennyf ddarlun cyffredinol o amcanion y Llywodraeth ar gyfer ardal fenter Caerdydd. O ystyried yr e-bost hwn, sy'n dangos nad yw perfformiad wedi bod yn arbennig, a allwch chi roi sicrwydd heddiw fod gan y Llywodraeth syniad o ble yr hoffai weld ardal fenter Caerdydd, ac y byddwch yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd i ddangos y swyddi a grëwyd a'r buddsoddiadau a wneir?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

More than 700 jobs are being created already, with the announcement by Deloitte of 100 jobs and Conduit of 600. Admiral, particularly, has seen the creation of 200 jobs, some of which are in the enterprise zone. We have seen the announcement of the new campus as well in the enterprise zone itself, so the enterprise zone is making good progress, as we see from the job announcements that have already been made.

Mae mwy na 700 o swyddi yn cael eu creu eisoes, ar ôl i Deloitte gyhoeddi 100 a Conduit 600. Mae Admiral, yn benodol, wedi creu 200 o swyddi, ac mae rhai ohonynt yn yr ardal fenter. Rydym ni wedi gweld cyhoeddiad y campws newydd yn yr ardal fenter ei hun hefyd, felly mae'r ardal fenter yn gwneud cynnydd da, fel y gwelwn o'r cyhoeddiadau am swyddi sydd wedi eu gwneud eisoes.

### Ardaloedd Menter

### Enterprise Zones

14:07 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter, yn enwedig y rheini yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1220(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on Enterprise Zones specifically those in South Wales Central? OAQ(4)1220(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I refer the Member partially to the answer I gave to the previous question. With regard to St Athan, there are already jobs that have been created—some 75. There are many new expressions of interest and, of course, work is ongoing to straighten the road between the airport and St Athan.

Cyfeiriaf yr Aelod yn rhannol at yr ateb a roddais i'r cwestiwn blaenorol. O ran Sain Tathan, mae swyddi wedi eu creu eisoes—tua 75. Mae llawer o ddatganiadau newydd o ddiddordeb ac, wrth gwrs, mae gwaith yn parhau i sythu'r ffordd rhwng y maes awyr a Sain Tathan.

14:07 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just last week I asked your Minister for enterprise how many jobs had been created in the Cardiff central enterprise zone. I still have not received a substantive answer. Two years in, since the launch of this policy, we have no targets, no plans, no strategy, apparently we have no jobs yet and, frankly, First Minister, it looks like we have no idea either. When will you be able to tell us how many people are currently working in the central Cardiff enterprise zone?

Dim ond yr wythnos diwethaf, gofynnais i'ch Gweinidog menter faint o swyddi sydd wedi eu creu yn ardal fenter canol Caerdydd. Nid wyf wedi derbyn ateb o sylwedd o hyd. Ddwy flynedd ers lansio'r polisi hwn, nid oes gennym unrhyw dargedau, dim cynlluniau, dim strategaeth, mae'n debyg nad oes gennym unrhyw swyddi eto ac, a dweud y gwir, Brif Weinidog, mae'n edrych fel nad oes gennym unrhyw syniad ychwaith. Pryd fyddwch chi'n gallu dweud wrthym faint o bobl sy'n gweithio yn ardal fenter canol Caerdydd ar hyn o bryd?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I said earlier on that there are more than 700 jobs that have been created. That is an excellent start. It is right to say that we do not have targets in the same way that targets exist across the border, but of course those targets across the border are not being met by a mile. So, we can hardly look across the border at the enterprise zones there as a shining example of how things should be done. Nevertheless, Cardiff is certainly doing well in terms of the number of jobs created, and particularly in terms of the expressions of interest that have been received in terms of moving into the enterprise zone.

Dywedais yn gynharach fod mwy na 700 o swyddi wedi eu creu. Mae hynny'n ddechrau ardderchog. Mae'n iawn i ddweud nad oes gennym dargedau yn yr un ffordd ag y mae targedau'n bodoli ar draws y ffin ond, wrth gwrs, nid yw'r targedau hynny ar draws y ffin yn cael eu cyrraedd o bell ffordd. Felly, prin y gallwn edrych ar draws y ffin at yr ardaloedd menter yno fel enghraifft wych o sut y dylid gwneud pethau. Serch hynny, mae Caerdydd yn sicr yn gwneud yn dda o ran nifer y swyddi a grëwyd, ac yn enwedig o ran y datganiadau o ddiddordeb sydd wedi dod i law o ran symud i mewn i'r ardal fenter.

14:08 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the economy is the No. 1 priority for Plaid Cymru, and I am generally supportive of any initiatives that can replace some of the 45,000 or more jobs that have been lost since the beginning of this recession in Wales. I am sure that you are aware that many of our town centres, particularly in the Valleys, are struggling at the moment. Tonypandy town centre, for example, is already in danger of becoming a ghost town, as the number of vacant premises has almost doubled since 2009 from 19 to 35, according to the latest figures. What measures are in place within the enterprise zone initiative to ensure that communities outside their centres are not disadvantaged? Sorry, Deputy Presiding Officer, but I can hardly deliver my question here because of the noise.

Brif Weinidog, yr economi yw'r flaenoriaeth gyntaf i Blaid Cymru, ac rwy'n gefnogol yn gyffredinol o unrhyw fentrau a all gymryd lle rhai o'r 45,000 neu fwy o swyddi sydd wedi eu colli ers dechrau'r dirwasgiad hwn yng Nghymru. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod canol llawer o'n trefi, yn enwedig yn y Cymoedd, yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd. Mae canol tref Tonypandy, er enghraifft, eisoes mewn perygl o fod yn hollol wag, gan fod nifer yr adeiladau gwag bron wedi dyblu ers 2009 o 19 i 35, yn ôl y ffigurau diweddaraf. Pa fesurau sydd ar waith o fewn y cynllun ardal fenter i sicrhau nad yw cymunedau y tu allan i'w canolfannau dan anfantais? Mae'n ddrwg gennyf, Ddirprwy Lywydd, ond prin y gallaf ofyn fy nghwestiwn yma oherwydd y sŵn.

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The enterprise zones are not designed primarily for retail, so the enterprise zones should have no, if a little, effect on town centres and their retail capacity. There are other great pressures on town centres, of course; we know that. We know the pressures with regard to online trading and income—the money that people have in their pockets—and, of course, the planning Bill will be presented before the end of this year. You will know about the Morgan review of business rates. It is a significant challenge to ensure that town centres are viable in the future. Nevertheless, there are good examples of it. Carmarthen is one where the right decisions were taken in terms of planning to ensure that people come into the town centre. As far as the enterprise zones are concerned, I cannot see that the enterprise zones themselves would have a negative effect on town centres.

Nid yw'r ardaloedd menter wedi eu cynllunio ar gyfer manwerthu yn bennaf, felly ni ddylai'r ardaloedd menter gael unrhyw effaith, neu dim ond mymryn efallai, ar ganol trefi a'u gallu manwerthu. Mae pwysau mawr eraill ar ganol trefi, wrth gwrs; rydym yn gwybod hynny. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau o ran masnachu ar-lein ac incwm—yr arian sydd gan bobl yn eu pocedi—ac, wrth gwrs, bydd y Bil cynllunio yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn hon. Byddwch yn gwybod am adolygiad Morgan o ardrethi busnes. Mae'n her sylweddol i sicrhau bod canol trefi yn hyfyw yn y dyfodol. Serch hynny, ceir enghreifftiau da o hynny. Mae Caerfyrddin yn un man lle y gwnaed y penderfyniadau cywir o ran cynllunio i sicrhau bod pobl yn dod i ganol y dref. Cyn belled ag y mae'r ardaloedd menter yn y cwestiwn, ni allaf weld y byddai'r ardaloedd menter eu hunain yn cael effaith negyddol ar ganol trefi.

Senedd.tv
Fideo Video

### Cosbrestri

### Blacklists

14:10 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi terfyn ar ddefnyddio cwmnïau adeiladu sy'n cynnal cosbrestri? OAQ(4)1210(FM)*

*9. Will the First Minister provide an update on what the Welsh Government is doing to end the use of construction companies that operate blacklists? OAQ(4)1210(FM)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We issued guidance to all public bodies on 10 September, setting out how blacklisting can be addressed through public procurement.

Gwnaf. Rydym yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer pob corff cyhoeddus ar 10 Medi, gan nodi sut y gellir mynd i'r afael a chosbrestri trwy gaffael cyhoeddus.

Senedd.tv
Fideo Video

14:10 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

First Minister, it was in 2009 that the Consulting Association was found to be operating a database of over 3,000 UK construction workers, a so-called blacklist that was subscribed to by 57 construction companies. In the two-year period between April 2011 and May this year, your Government used seven of the companies that used that database, making payments totalling £70.7 million. If we include a further two companies with very close connections to those that use the database, the figures would rise to over £100 million. First Minister, this is a damning indictment. Could you have acted sooner and how will you bring an end to your Government using such companies, as you outlined in your previous statement?

Brif Weinidog, yn 2009 y canfuwyd bod y Gymdeithas Ymgynghori yn gweithredu cronfa ddata o dros 3,000 o weithwyr adeiladu yn y DU, cosbrestr fel y'i gelwir, y tanysgrifiodd 57 o gwmnïau adeiladu iddi. Yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mai eleni, defnyddiodd eich Llywodraeth saith o'r cwmnïau a oedd yn defnyddio'r gronfa ddata honno, gan wneud cyfanswm o £70.7 miliwn o daliadau. Os byddwn yn cynnwys dau gwmni arall sydd â chysylltiadau agos iawn i'r rhai sy'n defnyddio'r gronfa ddata, byddai'r ffigurau yn codi i fwy na £100 miliwn. Brif Weinidog, mae hon yn dystiolaeth ddamniol. A allech chi fod wedi gweithredu'n gynt a sut y byddwch chi'n rhoi terfyn ar ddefnydd eich Llywodraeth o gwmnïau o'r fath, fel yr amlinellwyd gennych yn eich datganiad blaenorol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that I have just said that. We launched a new procurement advice note on blacklisting on 10 September. It has been issued to all public bodies. I met with the Union of Construction, Allied Trades and Technicians and Unite to listen to their concerns about three of the companies involved in the delivery of the Crossrail project, for example. Two of them responded, providing assurances that they condemn the use of blacklists. This is a policy that we are particularly proud of. It is right, it is morally the right thing to do and our trade union colleagues, acting on behalf of good trade unionists who have had their livelihoods destroyed by blacklisting, are content as well.

Rwy'n credu fy mod i newydd ddweud hynny. Lansiwyd nodyn cyngor caffael newydd ar gosbrestri gennym ar 10 Medi. Fe'i cyflwynwyd i bob corff cyhoeddus. Cefais gyfarfod gyda'r Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr ac Unite i wrando ar eu pryderon am dri o'r cwmnïau sy'n gyfrifol am gyflawni'r prosiect Crossrail, er enghraifft. Ymatebodd dau ohonynt, gan roi sicrwydd eu bod yn condemnio'r defnydd o gosbrestri. Mae hwn yn bolisi yr ydym ni'n arbennig o falch ohono. Mae'n iawn, dyma'r peth iawn i'w wneud yn foesol ac mae ein cydweithwyr yn yr undebau llafur, sy'n gweithredu ar ran undebwyr llafur da y mae cosbrestri wedi dinistrio eu bywoliaeth, yn fodlon hefyd.

## Y Bil Cynllunio

## The Planning Bill

14:12 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Cynllunio? OAQ(4)1217(FM)*

*10. Will the First Minister provide an update on the Planning Bill? OAQ(4)1217(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It will be issued in draft form before the end of the year.

Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft cyn diwedd y flwyddyn.

14:12 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. As you know, First Minister, local authorities are making controversial decisions on windfarms, responding to your Government's policy, which firmly favours wind energy. The emergence of interest in unconventional gas extraction is presenting new challenges to councils facing related planning applications. In considering the planning Bill, what new guidance do you think councils need in helping them to prioritise different types of energy applications and, further, to balance them with other planning considerations?

Diolch i chi am yr ateb yna. Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau dadleuol am ffermydd gwynt, gan ymateb i bolisi eich Llywodraeth, sy'n gadarn o blaid ynni gwynt. Mae dyfodiad y diddordeb mewn echdynnu nwy anghonfensiynol yn cyflwyno heriau newydd i gynghorau sy'n wynebu ceisiadau cynllunio cysylltiedig. Wrth ystyried y Bil cynllunio, pa ganllawiau newydd sydd eu hangen, yn eich barn chi, ar gynghorau i'w helpu i flaenoriaethu gwahanol fathau o geisiadau ynni ac, ymhellach, i'w cydbwyso ag ystyriaethau cynllunio eraill?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

With regard to fracking, the licensing system is of course a matter for the UK Government, not for us. When it comes to the planning system, it is right that local authorities are the primary deciders and the permitting needs to be done by Natural Resources Wales. There is guidance in place and that guidance urges a precautionary approach to fracking—that much is true. We are looking to see whether there is a need to re-examine guidance in the future. The Bill itself is not the vehicle to do that, rather, planning guidance is. But, it is useful to illustrate what the nature of the consenting and planning system is in terms of what level of government is responsible for what.

O ran ffracio, mae'r system drwyddedu, wrth gwrs, yn fater i Lywodraeth y DU, nid i ni. O ran y system gynllunio, mae'n iawn mai awdurdodau lleol yw'r prif benderfynwyr ac mae angen i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud y caniatáu. Mae canllawiau ar waith ac mae'r canllawiau hynny yn annog agwedd ragofalus at ffracio—mae hynny'n wir. Rydym yn edrych i weld a oes angen i ail-ystyried canllawiau yn y dyfodol. Nid yw'r Bil ei hun yn ffordd o wneud hynny, yn hytrach, canllawiau cynllunio yw'r ffordd. Ond, mae'n ddefnyddiol i ddangos beth yw natur y system ganiatáu a chynllunio o ran pa lefel o lywodraeth sy'n gyfrifol am beth.

14:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before I move to the next question, I am delighted to welcome a new Member to the Assembly, Rhun ap Iorwerth, the Member for Ynys Môn. You have a most distinguished predecessor who made many great contributions to this Chamber and the work of the Welsh Government, and I am sure that we can look forward to a series of excellent contributions from you and we all wish you very well in the work that lies ahead of you. [Applause.]

Cyn i mi symud at y cwestiwn nesaf, rwy’n falch iawn o groesawu aelod newydd i'r Cynulliad, Rhun ap Iorwerth, yr Aelod dros Ynys Môn. Mae gennych ragflaenydd hynod nodedig a wnaeth lawer o gyfraniadau gwych at y Siambr hon ac at waith Llywodraeth Cymru, ac rwy’n siŵr y gallwn edrych ymlaen at gyfres o gyfraniadau ardderchog gennych chi, ac rydym i gyd yn dymuno'n dda iawn i chi yn y gwaith sydd o'ch blaen. [Cymeradwyaeth.]

14:13 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am y geiriau caredig. Cefais yr anrhydedd ar 1 Awst o gael fy ethol gan bobl Ynys Môn i’w cynrychioli yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fy mraint i heddiw yw cael cymryd fy sedd yma yn y Siambr fel Aelod Plaid Cymru i’w cynrychioli nhw ym Môn a gweddill y genedl hefyd.

Thank you, Deputy Presiding Officer, for your kind words. I was given the honour on 1 August of being elected by the people of Ynys Môn to represent them in the National Assembly. It is my privilege today to take my seat here in the Chamber as a Plaid Cymru Member to represent the people of Ynys Môn and the rest of the nation.

The honour that all of us in this room have, in being elected to the Assembly, comes with a great amount of responsibility and I am determined, through Plaid Cymru, the Party of Wales, to do everything that I can to ensure that Wales and the people of Wales can achieve our potential. That includes grasping every opportunity to take control of our own destiny as a nation.

Daw’r fraint sydd gan bob un ohonom yn yr ystafell hon, o gael ein hethol i'r Cynulliad, â llawer iawn o gyfrifoldeb yn ei sgil ac rwyf yn benderfynol, drwy Blaid Cymru, the Party of Wales, i wneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau y gall Cymru a phobl Cymru wireddu ein potensial. Mae hynny'n cynnwys manteisio ar bob cyfle posibl i gymryd rheolaeth dros ein tynged ein hunain fel cenedl.

Dyna pam mae fy nghwestiwn cyntaf i’r Prif Weinidog yn ymwneud ag adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf mewn datganoli, gobeithio.

That is why my first question to the First Minister deals with a report on the latest developments in devolution, hopefully.

## Comisiwn Silk

## The Silk Commission

14:14 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi’u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn ag ail adroddiad Comisiwn Silk? OAQ(4)1219(FM)*

*11. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the second report of the Silk Commission? OAQ(4)1219(FM)*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn groesawu’r Aelod newydd i’r Siambr. Mae’n brofiad hynod o od i’w glywed yn y Siambr wedi gorfod delio â chwestiynau ganddo ar ‘Dragon’s Eye’ a rhaglenni o’r fath dros y blynyddoedd. Ar hyn o bryd, ynglŷn â chyfnod presennol y comisiwn Silk, rydym mewn cyfnod lle galw am dystiolaeth y mae’r comisiwn wedi’i wneud. Yr hyn yr ydym wedi’i wneud, felly, yw canolbwyntio ar y dystiolaeth honno, felly nid oes cyfarfodydd wedi bod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â’r ail gyfnod. Fodd bynnag, ynglŷn â’r cyfnod cyntaf, mae sawl cyfarfod wedi bod.

I welcome the new Member to this Chamber. It is extremely odd to hear him speaking in the Chamber, having had to deal with questions from him on ‘Dragon’s Eye’ and other such programmes over the years. At present, regarding the current phase of the Silk commission, we are in the phase where the commission has called for evidence. What we have done is focus on that evidence, and so there have been no meetings with the UK Government as regards phase 2. However, as regards the first phase, there were a number of meetings.

14:15 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi aros 10 mis, erbyn hyn, am ymateb y Llywodraeth yn Llundain i'r adroddiad cyntaf—adroddiad synnwyr cyffredin ynglŷn â dechrau cymryd cyfrifoldeb dros ein cyllideb yng Nghymru er mwyn inni allu mynd i'r afael ag economi Ynys Môn a gweddill Cymru. Rwy'n nodi bod y Prif Weinidog wedi cyfaddef, yn y dyddiau diwethaf, ei fod wedi colli dylanwad ym Mhrydain o'i gymharu ag arweinyddion yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, tybed a all ddweud a oes ganddo'r dylanwad i sicrhau y bydd maniffesto nesaf ei blaid ar lefel Brydeinig yn cynnwys yr addewid i sicrhau bod argymhellion yr adroddiad cyntaf yn cael eu gweithredu'n llawn.

It has been 10 months, now, that we have been waiting for the response from the Government in London to the first report—a commonsense report on starting to take responsibility for our budgets in Wales so that we can get to grips with the economy of Anglesey and the rest of Wales. I note that the First Minister admitted over the past few days that he has lost influence within Britain compared to leaders in Scotland and northern Ireland. However, I wonder whether he can tell us whether he has the influence to ensure that his party's next manifesto at a UK level will include the pledge to ensure that the recommendations in the first part of Silk are implemented in full.

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gobeithio, wrth gwrs, na fydd angen gwneud hynny. Rwy'n gobeithio y bydd yr argymhellion wedi cael eu gweithredu ymhell cyn hynny, ac ni fydd angen gwneud hynny. Dyna pam yr ydym yn aros am ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym ni, fel plaid ar yr ochr hon, yn agos iawn i'w blaid ef ynglŷn â'n safbwynt ar ran 1 y comisiwn Silk. Mae'n amlwg i ni fod yn rhaid i ni symud ymlaen â hwn. Rwyf wedi gwneud sefyllfa'r Llywodraeth yn glir iawn dros y misoedd diwethaf. Rydym yn aros yn awr am ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ar y dechrau, dywedodd mai yn y gwanwyn y byddai'r newyddion yn dod, wedyn yn yr haf ac yn awr yn yr hydref. Gobeithio, wrth gwrs, mai hydref eleni y mai'n sôn amdano.

I hope, of course, that we will not need to do that. I hope that the recommendations will have been implemented a long time before that, and that that will not be needed. That is why we are waiting for the response from the UK Government. We, as a party on this side, are very close to his party as regards where we stand on part 1 of the Silk commission. It is obvious to us that we must move forward on this. I have made the Government's position very clear over the last few months. We are now waiting for the response of the UK Government. First, it said that the news would come in the spring, then it said during the summer, and now the autumn. I hope, of course, that it is talking about the autumn of this year.

14:17 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cyn i mi ofyn fy nghwestiwn atodol i'r Prif Weinidog, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn, ar ran y grŵp Ceidwadol, i longyfarch a chroesawu'r Aelod mwyaf newydd i'r Cynulliad. Roedd ei fuddugoliaeth yn un swmpus, ac rwy'n siŵr y bydd yn gwneud gwaith arbennig o dda wrth godi materion ar ran pobl Ynys Môn. Edrychaf ymlaen at drafodaethau yn y dyfodol gydag ef yn y Siambr. Rwy'n dymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd.

Before I ask my supplementary question to the First Minister, I also take this opportunity, on behalf of the Conservative group, to congratulate and to welcome the newest Member of this Assembly. His victory was sizeable, and I am sure that he will do some excellent work in raising issues on behalf of the people of Ynys Môn. I look forward to future discussions with him in this Chamber. I wish him well in his new role.

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae gwaith rhan 2 y comisiwn Silk yn parhau i adolygu pwerau'r Cynulliad, ac rwy'n siŵr y bydd argymhellion diddorol unwaith y bydd yn adrodd. Fel y gwyddoch eisoes, yn bersonol, rwyf o blaid Prydain ffederal a fyddai'n cydnabod sofraniaeth y gwledydd cartref. A ydych yn cytuno mai Prydain ffederal go iawn fyddai'r setliad cyfansoddiadol gorau ar gyfer y Deyrnas Unedig?

First Minister, as you know, the work of Silk part 2 continues to review the powers of the Assembly, and I am sure that interesting recommendations will emerge once it reports. As you know, personally, I am in favour of a federal Britain that would recognise the sovereignty of the home nations. Do you agree that a real federal Britain would be the best constitutional settlement for the United Kingdom?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Dyna'r cyfeiriad, rwy'n credu, rydym yn mynd iddo; mae hynny'n wir. Mae'n siomedig gweld beth sy'n digwydd; rwy'n gobeithio nad esgus yw hynny i wneud dim byd yn awr. Mae'n rhaid i ni symud ymlaen â datganoli yng Nghymru. Wedyn, fel rwyf wedi sôn sawl gwaith, mae angen edrych ar sut y dylai'r cyfansoddiad edrych yn y tymor hir. Rydym yn gwybod bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi troi ei wyneb yn erbyn unrhyw newid yn y cyfansoddiad ar hyn o bryd ynglŷn â datganoli. Mae hynny'n siom mawr i lawer ohonom yn y Siambr. Mae'n bwysig ein bod yn gallu dweud wrth bobl Cymru bod Llywodraethau'n gallu gweithio gyda'i gilydd i ddelifro pwerau newydd ynglŷn â datganoli, ac rydym yn aros yn hir i weld beth fydd ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddai'n rhywbeth perthnasol na'n rhywbeth da pe bawn yn gorfod aros i weld rhyw fath o system ffederal, a bod hynny'n cael ei ddefnyddio fel esgus i wneud dim byd yn awr.

That is the direction, I believe, that we are travelling in; that is true. It is disappointing to see what is happening; I hope that it is not just an excuse to do nothing now. We must progress devolution in Wales. Then, as I have said many times before, we should look at what the constitution should look like in the long term. We know that the Secretary of State has turned his face against any kind of change to the constitution in Wales in relation to devolution. That is a great disappointment to many of us in this Chamber. It is important that we can tell the people of Wales that Governments can work together to deliver new powers in relation to devolution, and we have been waiting a long time to see what the response of the UK Government will be. However, I do not think that it would be relevant or a good thing for us to wait for some kind of a federal system, and that being used as an excuse to do nothing now.

14:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Thank you, First Minister.

14:19

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

There are two changes to this week's business. Statements have been added to today's agenda on Hywel Dda service change plans and 'best practice in public services: report on summer visits to local authorities'. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Ceir dau newid i fusnes yr wythnos hon. Ychwanegwyd datganiadau at agenda heddiw ar gynlluniau newid gwasanaethau Hywel Dda ac 'arfer gorau mewn gwasanaethau cyhoeddus: adroddiad ar ymweliadau'r haf ag awdurdodau lleol'. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i nodir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:19 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for Local Government and Government Business for her statement this afternoon. Minister, the guidance issued by the ombudsman in relation to section 25 of the Localism Act 2011 does not appear to reflect the direction given in the Act with regard to predetermination and how councillors are able to campaign on local issues and participate in decisions relating to such matters. I ask the Minister to look into this and, if necessary, to publish revised guidelines on how section 25 of the Localism Act 2011 will be applied in Wales.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth am ei datganiad y prynhawn yma. Weinidog, nid yw'n ymddangos bod y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr ombwdsmon o ran adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 yn adlewyrchu'r cyfarwyddyd a roddir yn y Ddeddf o ran penderfynu ymlaen llaw a sut y caiff cynghorwyr ymgyrchu ar faterion lleol a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â materion o'r fath. Gofynnaf i'r Gweinidog edrych i mewn i hyn ac, os oes angen, i gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar sut y bydd adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 yn cael ei defnyddio yng Nghymru.

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, certainly. I have asked my officials to look into this and I will bring forward information when I have it to hand.

Gwnaf, yn sicr. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych i mewn i hyn a byddaf yn cyflwyno gwybodaeth pan fyddaf wedi ei derbyn.

14:20 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, hoffwn ofyn am ddatganiad ar y newidiadau i amodau gwaith a phensiynau'r gweithwyr tân. Rydym yn gwybod fod posibilrwydd o streic gan fod y gweithwyr tân yn gwrthwynebu cynyddu'r oedran ymddeol a'u bod yn bryderus ofnadwy y byddai gweithwyr tân yn eu pumdegau hwyr yn gorfod ymateb i argyfyngau. Mae pensiynau gweithwyr tân, wrth gwrs, wedi eu datganoli yn llwyr i Lywodraeth Cymru, a'r cwestiwn yr hoffwn i chi ateb mewn datganiad i'r Cynulliad yw pam eich bod chi yn dewis dilyn cyfundrefn amodau pensiynau sydd yn ymdebygu'n llwyr i'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan Lywodraeth y Toriaid ar gyfer Lloegr, yn hytrach nag yn dyfeisio cyfundrefn newydd yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod Llywodraeth yr SNP yn yr Alban yn dewis torri ei cwys ei hunan ar hyn.

Minister, I would like to ask you for a statement on changes to the working conditions and pensions of fire service workers. We know that there is a possibility of a strike because the firefighters oppose increasing the retirement age and they are extremely concerned that firefighters in their late fifties would have to respond to emergencies. Firefighters' pensions, of course, are entirely devolved to the Welsh Government, and the question that I would want you to address in a statement to the Assembly is why you are choosing to follow a regime for pensions that is entirely in accordance with what is being proposed by the Conservative Government for England, rather than drawing up a new regime here in Wales. We know that the SNP Government in Scotland is seeking to plough its own furrow in this area.

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. We are in a different position from Scotland. Firefighters' pensions are wholly devolved, as you said, however, we have to look at the funding from the UK Treasury and we are constrained by that, while Scotland is not. I have had very positive discussions with the Fire Brigades Union. Obviously, there is the strike tomorrow. The First Minister has also met with the FBU and we are looking at what we can do around getting a national fitness standard for firefighters. My door is very much open to the FBU and I continue to have constructive conversations with it.

Diolch am y cwestiwn yna. Rydym ni mewn gwahanol sefyllfa i'r Alban. Mae pensiynau diffoddwyr tân wedi eu datganoli yn gyfan gwbl, fel y dywedasoch, ond mae'n rhaid i ni ystyried y cyllido gan Drysorlys y DU, ac rydym ni wedi ein cyfyngu gan hynny, ond nid yw hynny'n wir yn yr Alban. Rwyf wedi cael trafodaethau cadarnhaol iawn gydag. Yn amlwg, mae streic yfory. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi cyfarfod ag Undeb y Brigadau Tân ac rydym yn ystyried yr hyn y gallwn ei wneud o ran cael safon ffitrwydd cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân. Mae fy nrws yn agored iawn i Undeb y Brigadau Tân ac rwy'n parhau i gael sgyrsiau adeiladol â'r undeb honno.

14:21 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I ask for a statement on the UK Government's lobbying Bill. While I recognise that it is a non-devolved matter, it is causing a tremendous amount of concern among charities, third sector organisations and their representative bodies. I think that there are very genuine fears that the Bill will hinder the ability of organisations to campaign effectively and to influence political change. Given the healthy relationship between the third sector and political parties across this Chamber, I would hope that there is appetite for such a debate from Members across the Chamber.

Weinidog, gofynnaf am ddatganiad ar Fil lobïo Llywodraeth y DU. Er fy mod yn cydnabod ei bod yn fater nad yw wedi ei ddatganoli, mae'n achosi llawer iawn o bryder ymhlith elusennau, sefydliadau trydydd sector a'r cyrff sy'n eu cynrychioli. Rwy'n credu bod gwir ofnau y bydd y Bil yn amharu ar allu sefydliadau i ymgyrchu yn effeithiol ac i ddylanwadu ar newid gwleidyddol. O ystyried y berthynas iach rhwng y trydydd sector a phleidiau gwleidyddol ar draws y Siambr hon, byddwn yn gobeithio bod awydd am ddadl o'r fath ymhlith Aelodau ar draws y Siambr.

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is obviously clear concern in Wales about the impact of the proposals on the third sector and its ability to engage in policy debate, and I am sure that everyone in this Chamber has been lobbied by third sector organisations. These concerns are being raised in Westminster and we are very much looking to the UK Government to respond effectively as the Bill proceeds in Parliament, but we will be watching it closely.

Mae'n amlwg bod pryder eglur yng Nghymru ynghylch effaith y cynigion ar y trydydd sector a'i allu i gymryd rhan mewn trafodaethau polisi, ac rwy'n siŵr bod pawb yn y Siambr hon wedi cael eu lobïo gan sefydliadau trydydd sector. Mae'r pryderon hyn yn cael eu codi yn San Steffan, ac rydym yn sicr yn disgwyl i Lywodraeth y DU ymateb yn effeithiol wrth i'r Bil symud drwy'r Senedd, ond byddwn yn ei wylio yn ofalus.

14:22 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you know, we are still waiting for a statement from the Minister on the mortgage deposit guarantee scheme or NewBuy Cymru. This has been an ongoing saga and it looks as though we may now not get anything until the UK scheme kicks in in January. Is it possible for the Minister, who I see is in the Chamber and listening to me, to give us a statement on progress in trying to implement the scheme in Wales?

Weinidog, fel y gwyddoch, rydym yn dal i aros am ddatganiad gan y Gweinidog ar y cynllun gwarantu blaendal morgais neu NewBuy Cymru. Mae hon wedi bod yn saga barhaus ac mae'n edrych yn debyg na fyddwn yn cael unrhyw beth nawr tan i gynllun y DU gychwyn ym mis Ionawr. A yw'n bosibl i'r Gweinidog sydd, mi welaf, yn y Siambr ac yn gwrando arnaf i, roi datganiad i ni ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun ar waith yng Nghymru?

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you say, the Minister has heard that and he will bring forward a statement as soon as possible.

Fel y dywedasoch, mae'r Gweinidog wedi clywed hynna a bydd yn cyflwyno datganiad cyn gynted â phosibl.

14:23 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements. The first is a statement on Brymbo heritage sites. You may have heard the good news that they have secured £100,000 in heritage lottery funding to preserve and celebrate the history of Brymbo, capturing memories of former workers and so on. There is also the good news of the approval of Brymbo Developments Ltd’s planning applications, allowing access to the heritage site. However, the heritage group is saying that everything now hinges on Cadw funding to preserve and safeguard the ironworks buildings. I would be grateful, as this is a matter that has been raised many times before, and as we are approaching another winter, for an urgent statement regarding Cadw’s discussions with Wrexham Council and its proposals to put that funding in place before we lose more of that priceless heritage.

Galwaf am ddau ddatganiad. Datganiad ar safleoedd treftadaeth Brymbo yw’r cyntaf. Efallai eich bod wedi clywed y newyddion da eu bod wedi sicrhau £100,000 o arian y loteri dreftadaeth i gadw a dathlu hanes Brymbo, gan hel atgofion cyn-weithwyr ac yn y blaen. Ceir y newyddion da hefyd bod ceisiadau cynllunio Brymbo Developments Cyf wedi eu cymeradwyo, gan ganiatáu mynediad at y safle treftadaeth. Fodd bynnag, mae'r grŵp treftadaeth yn dweud bod popeth yn dibynnu bellach ar gyllid Cadw i gadw a diogelu yr adeiladau gwaith haearn. Byddwn yn ddiolchgar, gan fod hwn yn fater a godwyd lawer gwaith o'r blaen, a chan ein bod yn nesáu at aeaf arall, am ddatganiad brys ar drafodaethau Cadw gyda Chyngor Wrecsam a'i gynigion i roi'r cyllid hwnnw ar waith cyn i ni golli mwy o’r dreftadaeth amhrisiadwy honno.

Secondly, I call for a statement in relation to complaints and the charges and rising financial implications of those complaints against health boards in Wales, given the news that Betsi Cadwaladr University Local Health Board could be facing claims costing, potentially, £58 million—a 32% rise—the majority of which relate to clinical negligence. We understand that this follows Welsh Government regulations for the handling of complaints by NHS bodies introduced in 2011, which followed the abolition by the former Welsh Government of the independent review forming the second stage of the complaints procedure.

Yn ail, galwaf am ddatganiad ynglŷn â chwynion a’r costau a'r goblygiadau ariannol cynyddol o ran y cwynion hynny yn erbyn byrddau iechyd yng Nghymru, o ystyried y newyddion y gallai Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr fod yn wynebu hawliadau a allai gostio £58 miliwn o bosibl—cynnydd o 32%—a'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud ag esgeulustod clinigol. Rydym yn deall bod hyn yn dilyn rheoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â chwynion gan gyrff y GIG a gyflwynwyd yn 2011, a oedd yn dilyn diddymiad yr adolygiad annibynnol, sef ail gam y drefn gwyno, gan Lywodraeth flaenorol Cymru.

We know that there has been a damning in-patient survey at Betsi Cadwaladr, saying, among other things, that patients receiving information explaining how to complain scored significantly worse than average, and we know that all three hospitals in north Wales, and all three hospitals in Abertawe Bro Morgannwg, where the chief executive is leading the response to the critical governance report in Betsi, have mortality rates at levels that, in England, would have put them into special measures. In this context, could we have a statement advising us how the Welsh Government proposes to deal with these rising levels of complaints and the cost implications?

Rydym yn gwybod y bu arolwg damniol o gleifion mewnol yn Betsi Cadwaladr, a oedd yn dweud, ymhlith pethau eraill, bod gwybodaeth i esbonio i gleifion sut i wneud cwyn wedi cael sgôr sylweddol waeth na'r cyfartaledd, ac rydym yn gwybod bod gan bob un o’r tri ysbyty yng ngogledd Cymru, a phob un o'r tri ysbyty yn Abertawe Bro Morgannwg, lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr ymateb i'r adroddiad llywodraethu beirniadol yn Betsi, gyfraddau marwolaethau ar lefelau a fyddai wedi eu gwneud yn destun mesurau arbennig yn Lloegr. Yn y cyd-destun hwn, a allem ni gael datganiad yn ein hysbysu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymdrin â'r lefelau cynyddol hyn o gwynion a'r goblygiadau o ran cost?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Regarding your first question, it is certainly very good news about the funding for Brymbo and I am sure that discussions are ongoing with the Minister regarding Cadw. I am not quite sure what you were asking for in the second part of your contribution, but the Minister for Health and Social Services has heard you, and, if he thinks it is appropriate, he will write to you.

O ran eich cwestiwn cyntaf, mae'n sicr yn newyddion da iawn o ran yr arian ar gyfer Brymbo ac rwy’n siŵr bod trafodaethau ar y gweill gyda'r Gweinidog ynghylch Cadw. Nid wyf yn hollol siŵr beth yr oeddech chi’n gofyn amdano yn ail ran eich cyfraniad, ond mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eich clywed, a bydd yn ysgrifennu atoch, os yw'n credu bod hynny'n briodol,

14:26 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Further to Mick Antoniw's question to the First Minister earlier, and subsequent to my request in June, I ask for a statement from the Minister for Natural Resources and Food on the working of the Green Deal in Wales. Like others, in June I had issues with constituents requiring refunds, but the situation has got worse since then. I have now been contacted by quite a lot of constituents who have paid over £200 for a survey to a company that is now being investigated by trading standards and appears to have ceased trading. However, more worryingly, a full explanation of cost implications was not given to my constituents. They thought it would be free after the survey, when, in reality, there would be further long-term charges. Most worryingly, my constituents have confirmed that the company's sales representative constantly said that the funding came from the Welsh Government rather than the UK Government, and that helped to ensure them that it was legitimate, which it was obviously not. This is an unacceptable situation, and I would like to see action taken.

Yn dilyn ymlaen o gwestiwn Mick Antoniw i'r Prif Weinidog yn gynharach, ac yn dilyn fy nghais ym mis Mehefin, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar waith y Fargen Werdd yng Nghymru. Fel eraill, cefais broblemau gydag etholwyr yn gofyn am ad-daliadau ym mis Mehefin, ond mae'r sefyllfa wedi gwaethygu ers hynny. Mae cryn dipyn o etholwyr wedi cysylltu â mi erbyn hyn, ar ôl iddyn nhw dalu dros £200 am arolwg i gwmni sydd bellach yn destun ymchwiliad gan y sefydliad safonau masnach, ac sy'n ymddangos i fod wedi rhoi'r gorau i fasnachu. Fodd bynnag, yn fwy pryderus, ni roddwyd esboniad llawn o oblygiadau cost i'm hetholwyr. Roedden nhw'n meddwl y byddai am ddim ar ôl yr arolwg, pan, mewn gwirionedd, y byddai taliadau hirdymor pellach. Yn fwyaf pryderus, mae fy etholwyr wedi cadarnhau bod cynrychiolydd gwerthu'r cwmni wedi dweud yn gyson fod y cyllid yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru yn hytrach na Llywodraeth y DU, ac roedd hynny'n help i'w sicrhau ei fod yn gyfreithlon, ac mae'n amlwg nad oedd. Mae hon yn sefyllfa annerbyniol, a hoffwn weld camau yn cael eu cymryd.

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. You are quite right, and the First Minister did say to Mick Antoniw that, while it is a UK initiative, as a Government, we need to do all that we can to protect the most vulnerable. Our position is that it is unlikely to be the best option for people on low incomes, for instance, and so the most vulnerable. If you have any information—you mentioned something specifically—I know that trading standards would be very interested. Perhaps you could write to the Minister and he would take that up for you with trading standards.

Diolch am y cwestiwn yna. Rydych chi yn llygad eich lle, a dywedodd y Prif Weinidog wrth Mick Antoniw, er mai menter y DU yw hon, fel Llywodraeth, mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed. Ein safbwynt ni yw ei bod yn annhebygol mai hwn fydd yr opsiwn gorau i bobl ar incwm isel, er enghraifft, ac felly'r rhai mwyaf agored i niwed. Os oes gennych unrhyw wybodaeth—soniasoch am rywbeth penodol—rwy'n gwybod y byddai gan y sefydliad safonau masnach ddiddordeb mawr. Efallai y gallech chi ysgrifennu at y Gweinidog ac y byddai ef yn cysylltu â'r sefydliad safonau masnach ar eich rhan ynglŷn â hynny.

14:27 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roeddwn i'n gwrando'n ofalus ar eich ateb i Lynne Neagle gynnau. Yn anffodus, ni wnes i eich clywed yn dweud y bydd datganiad neu ddadl yn y Siambr hon ynghylch yr effeithiau yn sgîl y Bil lobïo. Credaf ei fod yn Bil sydd ag effeithiau difrifol iawn ynglŷn â'r ffordd rydym yn gwneud gwleidyddiaeth yng Nghymru, yn enwedig y ffordd y mae'r trydydd sector yn cydweithio â phleidiau gwleidyddol, ac rwy'n credu y byddai'n gwbl briodol i ni gynnal dadl yn y Senedd wrth iddo fynd drwy San Steffan fel bod rhai o sylwadau a barn yr Aelodau a phleidiau fan hyn yn cael eu mynegi yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. A fyddech chi, felly, mewn sefyllfa wythnos nesaf, os yn bosibl, i ddweud y bydd dadl yn cael ei chynnal yma fel bod modd i ni ystyried beth sydd gan y Bil hwn i newid y ffordd rydym yn gwneud gwleidyddiaeth yng Nghymru?

I listened carefully to your response to Lynne Neagle a little earlier. Unfortunately, I did not hear you say that there will be a statement or a debate in this Chamber on the implications of the lobbying Bill. I think that it is a Bill that has some very serious implications for how we carry out politics in Wales, particularly in the way that the third sector works with political parties, and I think it would be entirely appropriate that we should have a debate in the Senedd while it is going through Westminster so that some of the comments and opinions of Members and parties here could be made independently of the Welsh Government. Would you, therefore, be in a position next week, if possible, to say that there will be a debate held here so that we can consider what this Bill has to offer in terms of the way we do politics in Wales?

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly, it is something that we are looking at very closely, and, if we think that it is appropriate for this place to have a debate, we will do so, but I will come back to you next week on that point.

Yn sicr, mae'n rhywbeth yr ydym ni'n ei ystyried yn ofalus iawn, ac, os ydym yn credu ei bod yn briodol i'r lle hwn gael dadl, byddwn yn gwneud hynny, ond byddaf yn dod yn ôl atoch yr wythnos nesaf ar y pwynt hwnnw.

14:29 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, over the summer, I read two quite startling statistics. The first is that over-the-counter and prescription drugs now kill more people than heroin and cocaine put together. The second is that one in three young people between the ages of 18 and 24 are now taking over-the-counter pills every day. Bearing that in mind, I would welcome a statement from the Government on how you are promoting the safe use of easily accessed medicines and details of what support is available to people who are addicted to, or abusing, prescription or over-the-counter medication.

Weinidog, yn ystod yr haf, darllenais ddau o ystadegau tra syfrdanol. Y cyntaf yw bod cyffuriau dros y cownter a phresgripsiwn yn lladd mwy o bobl na heroin a chocên gyda'i gilydd erbyn hyn. Yr ail yw bod un o bob tri o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn cymryd tabledi dros y cownter bob dydd. O ystyried hynny, byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth ar sut rydych chi'n hyrwyddo'r defnydd diogel o feddyginiaethau y gellir cael gafael arnynt yn rhwydd a manylion y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n gaeth i feddyginiaeth presgripsiwn neu dros y cownter, neu'n eu camddefnyddio.

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is something that I know that the Minister for Health and Social Services has taken the opportunity to raise with the new chair of the advisory panel on substance misuse. I think it was yesterday—or it may have been last week—that he met with them. I understand that prescription drug misuse is being looked at by the UK Government in relation to the advisory council. The Minister has made it very clear that Wales needs to be able to pick up on the advice that emerges from that review.

Mae hyn yn rhywbeth y gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd y cyfle i'w godi gyda chadeirydd newydd y panel cynghori ar gamddefnyddio sylweddau. Rwy'n credu mai ddoe—neu wythnos diwethaf efallai—y cafodd gyfarfod â nhw. Rwy'n deall fod Llywodraeth y DU yn edrych ar gamddefnyddio cyffuriau presgripsiwn o ran y cyngor ymgynghorol. Mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn eglur iawn bod angen i Gymru allu gweithredu ar y cyngor sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw.

14:30 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder whether it would be possible to have two statements, first from the Minister for Culture and Sport in relation to public access to the waterways. I, along with many other Assembly Members, have had extensive correspondence from a number of anglers who seem to be under the impression that the Minister is going to be seeking amendments to the Active Travel (Wales) Bill. There is a huge amount of concern among the angling and fishing community about the proposals that seem to be being talked about. I would like a statement from the Minister to clarify that he is not seeking to amend the Active Travel (Wales) Bill and that there will be a proper consultation and a clear process that will be followed in relation to that. I have checked with the Table Office and I know that amendments can be laid until 6 p.m. tonight. I am not aware of any amendments that would lead to that, but I think that it is important that others who have clearly been given that impression have that impression corrected and that there is a clear route-map, as it were, in terms of the consultation proposals that the Minister intends to take on board.

Tybed a fyddai modd cael dau ddatganiad, yn gyntaf gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar fynediad cyhoeddus at y dyfrffyrdd. Rwyf i, ynghyd â llawer o Aelodau eraill y Cynulliad, wedi cael gohebiaeth helaeth gan nifer o bysgotwyr y mae'n ymddangos eu bod dan yr argraff bod y Gweinidog yn mynd i fod yn gofyn am newidiadau i'r Bil Teithio Llesol (Cymru). Mae llawer iawn o bryder ymhlith y gymuned genweirio a physgota am y cynigion y mae'n ymddangos sy'n cael eu trafod. Hoffwn gael datganiad gan y Gweinidog i egluro nad yw'n ceisio newid y Bil Teithio Llesol (Cymru) ac y bydd ymgynghori priodol a phroses eglur a fydd yn cael eu dilyn ar gyfer hynny. Rwyf wedi gwirio gyda'r Swyddfa Gyflwyno ac rwy'n gwybod y gellir cynnig newidiadau tan 6:00 heno. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fyddai'n arwain at hynny, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod pobl eraill sydd yn amlwg wedi cael yr argraff honno, yn cael unioni'r argraff honno ac y ceir llwybr eglur, fel petai, o ran cynigion yr ymgynghoriad y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu hystyried.

The second matter I wish to raise is that, yet again, in north Wales we have seen the tragic death of a motorcyclist on our roads. In north Wales during the summer there is a huge increase in the number of motorcycling accidents. I am aware that in other parts of the UK, on stretches of roads where there are fatalities on a regular basis, signs are placed along those roads to warn both drivers and those on motorbikes of the number of fatalities that there have been on those particular stretches of roads. Will the Minister for Economy, Science and Transport look at that? There is a high rate of attrition, if I can put it that way, on the roads in north Wales, particularly affecting motorcyclists, and it is of great concern that we have seen yet another tragedy this week.

Yr ail fater yr hoffwn ei godi, yw ein bod unwaith eto wedi gweld marwolaeth drasig beiciwr modur ar ein ffyrdd yng ngogledd Cymru. Mae cynnydd enfawr i nifer y damweiniau beiciau modur yng ngogledd Cymru yn ystod yr haf. Mewn rhannau eraill o'r DU, ar rannau o ffyrdd lle ceir marwolaethau yn rheolaidd, rwy'n ymwybodol bod arwyddion yn cael eu gosod ar hyd y ffyrdd hynny i rybuddio gyrwyr a'r rhai ar feiciau modur o nifer y marwolaethau sydd wedi digwydd ar y rhannau penodol hynny o'r ffordd. A wnaiff Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth edrych ar hynny? Ceir cyfradd uchel o athreuliad, os caf ei roi felly, ar y ffyrdd yng ngogledd Cymru, sy'n effeithio ar feicwyr modur yn arbennig, ac mae'n destun pryder mawr ein bod wedi gweld trasiedi arall eto yr wythnos hon.

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will just pick up on that point first. The Minister for Economy, Science and Transport has previously written to Members regarding this, but she is certainly happy to give an update in due course.

Hoffwn ymateb i'r pwynt yna yn gyntaf. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at yr Aelodau ynglŷn â hyn yn y gorffennol, ond mae hi'n sicr yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law.

In relation to the Active Travel (Wales) Bill, next week sees Stages 3 and 4 discussions being debated in the Chamber, and, as you say, amendments can be laid. I am not aware of the issues that you raise, and I do not think the Minister is either, but amendments can be laid until 6 p.m. today.

O ran y Bil Teithio Llesol (Cymru), bydd trafodaethau Camau 3 a 4 yn cael eu trafod yn y Siambr yr wythnos nesaf, ac, fel y dywedwch, gellir cynnig gwelliannau. Nid wyf yn ymwybodol o'r materion yr ydych chi'n eu codi, ac nid wyf yn credu bod y Gweinidog ychwaith, ond ceir cynnig newidiadau tan 6 p.m. heddiw.

14:33 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware of the almost universal recognition of the importance of the contribution that was made by the Welsh Government to defeating the economic arguments put forward by the coalition Government in Westminster on the issue of regional pay. I wonder now, because of the quality of that particular work, whether we should carry out similar work, looking at the potential and possibilities around the issues of a living wage, zero-hour contracts and other broader terms and conditions affecting the quality of life.

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r gydnabyddiaeth sydd bron yn gyffredinol o bwysigrwydd y cyfraniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i drechu'r dadleuon economaidd a gyflwynwyd gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan ar y mater o gyflogau rhanbarthol. Tybed erbyn hyn, oherwydd ansawdd y gwaith penodol hwnnw, a ddylem ni wneud gwaith tebyg, gan edrych ar y potensial a'r posibiliadau yn ymwneud â materion cyflog byw, contractau dim oriau a thelerau ac amodau ehangach eraill sy'n effeithio ar ansawdd bywyd.

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. We are already making progress and developing a package of workforce partnership and empowerment in the public sector, working with employers and trade unions through key fora like the workforce partnership council, and building on the strategic workforce framework. The living wage is a very important part of my portfolio. I am sure that you will agree that the workforce partnership council, which is the body that brings together trade unions and employers from the public sector, is a natural place for the living wage to sit because it can be progressed there in the context of wider workforce issues, with a holistic approach that focuses on the importance of work to people's lives. Clearly, the Government condemns the exploitative use of zero-hour contracts.

Diolch am y cwestiwn yna. Rydym eisoes yn gwneud cynnydd ac yn datblygu pecyn o bartneriaeth gweithlu a grymuso yn y sector cyhoeddus, gan weithio gyda chyflogwyr ac undebau llafur drwy fforymau allweddol fel y cyngor partneriaeth gweithlu, ac yn adeiladu ar fframwaith strategol y gweithlu. Mae'r cyflog byw yn rhan bwysig iawn o'm portffolio. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod y cyngor partneriaeth gweithlu, sef y corff sy'n dod ag undebau llafur a chyflogwyr o'r sector cyhoeddus ynghyd, yn lle naturiol i'r cyflog byw gael ei ystyried gan y gellir ei symud ymlaen yno yng nghyd-destun materion gweithlu ehangach, gyda dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd gwaith i fywydau pobl. Yn amlwg, mae'r Llywodraeth yn condemnio'r defnydd camfanteisiol o gontractau dim oriau.

14:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may well have heard of considerable anxiety in mid Wales, particularly in Montgomeryshire, concerning emerging plans in the Shropshire health authority to move accident and emergency and acute stroke services from Shrewsbury to Telford hospital. In that context, a petition of over 11,000 signatures has already been gathered by County Councillor Joy Jones and a team that she has put together in that regard. I am calling for a statement by the Minister for Health and Social Services, in due time, to address this issue, because, although the decisions are being made within the English NHS, the additional half-hour emergency drive time would really and certainly cost lives. I would argue that we need to ensure that the Welsh voice is heard in this reconfiguration proposal.

Weinidog, efallai'n wir y byddwch wedi clywed am bryder sylweddol yng nghanolbarth Cymru, yn enwedig yn Sir Drefaldwyn, ynglŷn â chynlluniau sy'n dod i'r amlwg yn awdurdod iechyd Swydd Amwythig i symud adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau strôc acìwt o ysbyty Amwythig i ysbyty Telford. Yn y cyd-destun hwnnw, mae deiseb o dros 11,000 o lofnodion eisoes wedi ei chasglu gan y Cynghorydd Sir, Joy Jones, a thîm y mae wedi ei ymgynnull ar gyfer hynny. Rwy'n galw am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, maes o law, i fynd i'r afael â'r mater hwn, oherwydd, er bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y GIG yn Lloegr, byddai'r amser gyrru brys ychwanegol o hanner awr yn sicr yn costio bywydau mewn gwirionedd. Byddwn yn dadlau bod angen i ni sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn y cynnig ad-drefnu hwn.

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are right to say that it is a matter for the English NHS, but, clearly, some Welsh patients will be treated in both the hospitals to which you refer. The Minister has heard what you have said, and I am sure that, if the Minister thinks that it is appropriate, he will make the necessary representations.

Rydych chi'n gywir i ddweud mai mater i'r GIG yn Lloegr yw hwn, ond, yn amlwg, bydd rhai cleifion o Gymru yn cael eu trin yn y ddau ysbyty yr ydych chi'n cyfeirio atynt. Mae'r Gweinidog wedi clywed yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud, ac rwy'n siŵr, os yw'r Gweinidog yn credu ei bod yn briodol, y bydd yn gwneud y sylwadau angenrheidiol.

14:35 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, could I please have two statements, if possible—the first on enterprise zones. I thought that the First Minister was rather disingenuous to the Liberal Democrat Member for South Wales Central when he said that targets are not being met in England. If there is one thing that any Member—in this place, or in Westminster—can find out, it is exactly the level of investment that has gone into the English enterprise zones. There has been £229 million-worth of private investment, the number of new jobs that have been created is 3,000, and the number of new businesses that have been started is 126. I actually want to see enterprise zones succeed, but I have no idea of how they are performing in Wales. As an elected Member, I do not think that it is unreasonable that when businesses or individuals in my own area ask me about the Cardiff enterprise zone or about the ones that are located in the Vale of Glamorgan, as to exactly how they are performing—including the number of jobs and the level of investments—I say that you can get those figures in England, but that you cannot get them here in Wales. Could we have a statement from the Minister for enterprise indicating how Members are going to be able to benchmark the success of enterprise zones, and how the department is going to promote the successful uptake of enterprise zones? We want to see them succeed—this is not about trying to knock the Government, this is just about trying to see what is going on within the enterprise zones across the whole of Wales.

Arweinydd y tŷ, a gaf i ddau ddatganiad, os yn bosibl os gwelwch yn dda—y cyntaf ar ardaloedd menter. Roeddwn i'n meddwl fod y Prif Weinidog braidd yn annidwyll gydag Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros Ganol De Cymru pan ddywedodd nad yw targedau yn cael eu cyrraedd yn Lloegr. Os oes un peth y gall unrhyw Aelod—yn y lle hwn, neu yn San Steffan—ei ddarganfod, union lefel y buddsoddiad sydd wedi mynd i mewn i ardaloedd menter Lloegr yw hwnnw. Bu gwerth £229 miliwn o fuddsoddiad preifat, 3,000 yw nifer y swyddi newydd a grëwyd, a 126 yw nifer y busnesau newydd a ddechreuwyd. Rwyf wir eisiau gweld ardaloedd menter yn llwyddo, ond nid oes gennyf unrhyw syniad sut maen nhw'n perfformio yng Nghymru. Fel Aelod etholedig, nid wyf yn credu ei bod yn afresymol, pan fydd busnesau neu unigolion yn fy ardal fy hun yn gofyn i mi am ardal fenter Caerdydd neu am y rhai sydd wedi eu lleoli ym Mro Morgannwg, ac am sut yn union y maen nhw'n perfformio—gan gynnwys nifer y swyddi a lefel y buddsoddiadau—rwy'n dweud y gallwch chi gael y ffigurau hynny yn Lloegr, ond na allwch eu cael yma yng Nghymru. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog menter yn dangos sut y gall yr Aelodau feincnodi llwyddiant yr ardaloedd menter, a sut mae'r adran yn mynd i hyrwyddo defnydd llwyddiannus o ardaloedd menter? Rydym ni eisiau eu gweld yn llwyddo—nid mater o feirniadu'r Llywodraeth yw hwn, ond dim ond mater o geisio gweld beth sy'n digwydd yn yr ardaloedd menter ledled Cymru gyfan.

My second point is on rural buses, and bus services generally. Since the Welsh Government reduced its support via the bus service operatord grant in April, many services—in particular in the Vale of Glamorgan, and the Minister for Finance will be acutely aware of this—have just gone overnight. In July, many services ceased because of the actions of the Welsh Government. I would be most grateful if the Minister for transport could bring forward a statement that would indicate what actions you are taking as a Government to assess the impact of the changes that were brought in in April, which have seen such a dramatic decline in service provision across Wales, but in particular in the South Wales Central area. To date, I do not think that any impact assessment has been taken by the Government.

Mae fy ail bwynt yn ymwneud â bysiau gwledig, a gwasanaethau bysiau yn gyffredinol. Ers i Lywodraeth Cymru leihau ei chefnogaeth drwy'r grant gweithredwyr gwasanaeth bws ym mis Ebrill, mae llawer o wasanaethau—ac yn enwedig ym Mro Morgannwg, a bydd y Gweinidog Cyllid yn ymwybodol iawn o hyn—wedi diflannu dros nos. Ym mis Gorffennaf, terfynwyd llawer o wasanaethau oherwydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn dra diolchgar pe gallai'r Gweinidog trafnidiaeth gyflwyno datganiad a fyddai'n dangos pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd fel Llywodraeth i asesu effaith y newidiadau a gyflwynwyd ym mis Ebrill, sydd wedi arwain at ddirywiad mor ddramatig i'r ddarpariaeth o wasanaethau ledled Cymru, ond yn enwedig yn ardal Canol De Cymru. Hyd yma, nid wyf yn credu bod y Llywodraeth wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith.

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister has clearly heard both your requests, and will update you in due course.

Mae'r Gweinidog wedi clywed eich dau gais yn eglur, a bydd yn eich diweddaru maes o law.

## Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor

## Motion to Elect a Member to a Committee

Cynnig NDM5308 Rosemary Butler

Motion NDM5308 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) as a member of the Enterprise and Business Committee in place of Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru).

14:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on a member of the Business Committee to move the motion.

Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gyflwyno'r cynnig.

14:38

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

14:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Reol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

14:38

# Datganiad: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda

# Statement: Hywel Dda Service Change Plans

Senedd.tv Fideo Video

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Nid oes modd osgoi newid yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ond mae angen i'r cynigion ar gyfer y newidiadau hynny gael eu hystyried yn ofalus a phrydlon. Mewn datganiad ysgrifenedig ar 17 Gorffennaf, fe wnes i gadarnhau bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r cyngor iechyd cymunedol lleol wedi dod i gytundeb i weithredu'r newidiadau a oedd cyn hynny wedi cael eu cyfeirio ataf i am benderfyniad ar gyfer ardal gogledd Cymru. Rwyf yn awr yn falch i allu rhoi'r diweddaraf i Aelodau am y cynllun i newid gwasanaethau yn y canolbarth a'r gorllewin—cynllun sy'n cael ei gynnig gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

Change is unavoidable in the Welsh health service, but proposals for change need to be included in a considered and timely fashion. In a written statement on 17 July, I confirmed that agreement had been reached between Betsi Cadwaladr University Local Health Board and the local community health council to implement the changes previously referred to be for determination in the north Wales area. I am now pleased to be able to update Members on the position on the service change plan for mid and west Wales—a plan that is proposed by the Hywel Dda Local Health Board.

In January, the Hywel Dda health board published its final proposals for service change. In accordance with our established guidance, the local community health council was able to refer any elements of the proposals to Welsh Ministers for determination if local agreement could not be reached on the change proposals. On 19 April, Hywel Dda Community Health Council made such a referral, relating to the health board's proposals for accident and emergency services at Prince Philip Hospital in Llanelli, and neonatal services specifically in relation to Withybush and Glangwili hospitals.

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd bwrdd iechyd Hywel Dda ei gynigion terfynol ar gyfer newid gwasanaethau. Yn unol â'n canllawiau sefydledig, roedd modd i'r cyngor iechyd cymuned lleol gyfeirio unrhyw elfennau o'r cynigion i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt pe na byddai modd cael cytundeb lleol ar y cynigion ar gyfer newid. Ar 19 Ebrill, gwnaeth Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda atgyfeiriad o'r fath, yn ymwneud â chynigion y bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli, ac ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yn benodol yn ysbytai Glangwili a Llwynhelyg.

An independent scrutiny panel has since been convened in the Hywel Dda area to provide me with advice and recommendations on these matters. The panel visited on 14 and 15 August, meeting the health board and the CHC, along with a number of key clinicians. The panel consisted of Mr Jim Wardrope, consultant in emergency medicine at the Northern General Hospital in Sheffield; Professor Neena Modi, professor of neonatal medicine at Imperial College London and honorary consultant at the Chelsea and Westminster Hospital NHS Foundation Trust; and Dr David Salter, the retired former deputy chief medical officer for Wales with extensive knowledge of the Welsh NHS.

Ers hynny, mae panel craffu annibynnol wedi'i gynnull yn ardal Hywel Dda i roi cyngor ac argymhellion imi ar y materion hyn. Bu'r panel yn ymweld ar 14 a 15 Awst, a chwrdd â'r bwrdd iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned, ynghyd â nifer o glinigwyr allweddol. Ar y panel roedd Mr Jim Wardrope, ymgynghorydd meddygaeth frys yn y Northern General Hospital yn Sheffield; yr Athro Neena Modi, athro meddygaeth newyddenedigol yng Ngholeg Imperial Llundain ac ymgynghorydd er anrhydedd yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Chelsea a San Steffan; a Dr David Salter, cyn-ddirprwy brif swyddog meddygol Cymru sydd bellach wedi ymddeol, a chanddo wybodaeth helaeth am y GIG yng Nghymru.

The panel submitted its report on 12 September, and earlier today Members received a copy from the Plenary business unit. Dirprwy Lywydd, I begin with the panel's conclusions in respect of Llanelli. The panel strongly supported the case for replacement of accident and emergency services at Prince Philip Hospital. It unanimously proposed that an emergency nurse practitioner unit, supported by general practitioners, should form the future model of care at that hospital. I have carefully considered this expert advice and fully accept it. I have therefore determined that this form of service will be implemented. I am pleased to report that the health board and the CHC have already been working together on the detail of this type of service model for Prince Philip Hospital.

Cyflwynodd y panel ei adroddiad ar 12 Medi, ac yn gynharach heddiw cafodd Aelodau gopi gan uned busnes y Cyfarfodydd Llawn. Ddirprwy Lywydd, dechreuaf â chasgliadau'r panel ynglŷn â Llanelli. Roedd y panel yn gryf o blaid yr achos dros newid gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Roedd yn cynnig yn unfrydol y dylai'r model gofal yn yr ysbyty hwnnw yn y dyfodol fod ar ffurf uned ymarferwyr nyrsio brys, gyda chymorth gan ymarferwyr cyffredinol. Rwyf wedi ystyried y cyngor arbenigol hwn yn ofalus ac yn ei dderbyn yn llwyr. Felly, rwyf wedi penderfynu y caiff y math hwn o wasanaeth ei roi ar waith. Rwyf yn falch o adrodd bod y bwrdd iechyd a'r CIC eisoes wedi bod yn cydweithio ar fanylion y math hwn o fodel gwasanaeth ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Philip.

In 2011-12, the emergency department of that hospital saw 33,000 patients, of whom 6,500 were regarded as emergency cases. Four hundred and twenty two of these needed to be transferred to another hospital. The remaining 80% of patients were treated at Prince Philip, and the decision that I have made today means that this position will be maintained into the future.

Yn 2011-12, gwelodd adran achosion brys yr ysbyty hwnnw 33,000 o gleifion, ac ystyrid bod 6,500 o'r rheini'n achosion brys. Roedd angen trosglwyddo pedwar cant a dau ar hugain o'r rhain i ysbyty arall. Cafodd y 80% arall o'r cleifion eu trin yn Ysbyty'r Tywysog Philip, ac mae'r penderfyniad yr wyf wedi'i wneud heddiw yn golygu mai dyna fydd y sefyllfa yn y dyfodol hefyd.

Llywydd, I now turn to the panel's conclusions in relation to neonatal services. Here, while the thrust of the LHB's original proposals is endorsed, the panel was unable to reach a final conclusion until, it says, clear and definite plans for obstetric and midwifery services have been agreed for the Hywel Dda area. I have therefore determined that the health board must carry out a further piece of work in respect of its obstetric, midwifery and gynaecological services, explicitly setting out the way in which these services are linked to its proposals for changes to neonatal services. I expect this work to be completed by the end of this year, and for a final decision to then be made.

Lywydd, trof yn awr at gasgliadau'r panel ynglŷn â gwasanaethau newyddenedigol. Yma, er bod byrdwn cynigion gwreiddiol y BILl yn cael ei gymeradwyo, dywedodd y panel na all lunio casgliad terfynol hyd nes y cytunir ar gynlluniau clir a phendant ar gyfer gwasanaethau obstetrig a bydwreigiaeth yn ardal Hywel Dda. Felly, rwyf wedi penderfynu bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd wneud darn arall o waith yng nghyswllt ei wasanaethau obstetrig, bydwreigiaeth a gynaecolegol, a dweud yn benodol sut y mae'r gwasanaethau hyn yn gysylltiedig â'i gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau newyddenedigol. Rwyf yn disgwyl y caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn diwedd eleni, ac y gwneir penderfyniad terfynol wedyn.

I must leave Members in no doubt, however, about the underlying model of neonatal services which the panel endorses. The panel's report says very clearly that the provision of neonatal specialist care facilities across all Hywel Dda hospitals is neither safe nor sustainable. Rather, it says that there is consistent evidence from around the world that the regionalisation of services for low risk deliveries and the centralisation of high risk deliveries are effective in reducing neonatal deaths. It is on that basis that the panel supports the LHB's proposals for a stratified service. If this approach gets the final go-ahead, at Bronglais, Withybush and Glangwili hospitals, services will continue to provide care for the vast majority of babies born in those communities. The panel's report puts that level at around 90% of all births.

Rhaid imi ddweud yn ddiamwys wrth yr Aelodau, fodd bynnag, pa fodel sylfaenol ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol y mae'r panel yn ei gymeradwyo. Mae adroddiad y panel yn dweud yn glir iawn nad yw darpariaeth cyfleusterau gofal arbenigol newyddenedigol ar draws holl ysbytai Hywel Dda yn ddiogel nac yn gynaliadwy. Yn hytrach, mae'n dweud y ceir tystiolaeth gyson o bob cwr o'r byd bod rhanbartholi gwasanaethau genedigaethau risg isel a chanoli genedigaethau risg uchel yn effeithiol o ran lleihau nifer y marwolaethau newydd-anedig. Ar sail hynny y mae'r panel yn cefnogi cynigion y BILl am wasanaeth haenedig. Os caiff yr ymagwedd hon ei chymeradwyo, yn ysbytai Bronglais, Llwynhelyg a Glangwili, bydd gwasanaethau'n parhau i ddarparu gofal ar gyfer mwyafrif helaeth y babanod a gaiff eu geni yn y cymunedau hynny. Mae adroddiad y panel yn nodi bod y lefel honno tua 90% o'r holl enedigaethau.

The report then specifically endorses the development of a level 2 neonatal unit at Glangwili. This would ensure that those babies in the wider Hywel Dda area who need more specialised care will receive it in a fully staffed, fully equipped level 2 unit operating to national clinical standards. Some of these births would have been identified in advance, with transfer to Carmarthen planned with the family concerned. Where the need for a level 2 service emerges on an unplanned basis, the panel proposes that the current neonatal transport service is extended to operate on a 24-hour basis. I have asked for the board's response to this proposal as part of the additional work to be completed by the end of this year.

Yna, mae'r adroddiad yn rhoi cymeradwyaeth benodol i ddatblygu uned newyddenedigol lefel 2 yn Ysbyty Glangwili. Byddai hyn yn sicrhau bod babanod yn ardal ehangach Hywel Dda y mae angen gofal mwy arbenigol arnynt yn ei gael mewn uned lefel 2 wedi'i staffio'n llawn â'r holl offer sydd eu hangen i weithredu'n unol â safonau clinigol cenedlaethol. Byddai rhai o'r genedigaethau hyn wedi eu nodi ymlaen llaw, a'r broses o drosglwyddo i Gaerfyrddin wedi'i threfnu â'r teulu dan sylw. Pan fydd angen gwasanaeth lefel 2 heb i hynny gael ei gynllunio, mae'r panel yn cynnig y dylid ymestyn y gwasanaeth cludiant newyddenedigol presennol i fod yn wasanaeth 24 awr. Rwyf wedi gofyn am ymateb y bwrdd i'r cynnig hwn fel rhan o'r gwaith ychwanegol i'w gwblhau erbyn diwedd eleni.

Finally, in this stratified approach, the panel confirms that a very small number of complex births—at around 1%, it estimates—will continue to need level 3 care, and that, for Hywel Dda residents, this should take place, as now, through services provided by the Abertawe Bro Morgannwg LHB.

Yn olaf, yn y dull haenedig hwn, mae'r panel yn cadarnhau y bydd nifer bach iawn o enedigaethau cymhleth—tuag 1% yw ei amcangyfrif—y bydd angen gofal lefel 3 arnynt o hyd, ac, ar gyfer trigolion Hywel Dda, y dylai hyn ddigwydd, fel nawr, drwy'r gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg.

I have outlined the model for neonatal services recommended to me by the expert panel. Its final conclusion, however, awaits the additional work that I have also set out. Once that has been completed, I will ask the panel to reconvene and provide me with its final advice. I hope to be able to bring the whole process to an end through a further statement to the Assembly when we return after the Christmas recess.

Rwyf wedi amlinellu'r model ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol a argymhellwyd imi gan y panel arbenigol. Mae ei gasgliad terfynol, fodd bynnag, yn dibynnu ar y gwaith ychwanegol yr wyf hefyd wedi'i amlinellu. Cyn gynted ag y bydd hwnnw wedi'i gwblhau, gofynnaf i'r panel ailgynnull a rhoi ei gyngor terfynol imi. Rwyf yn gobeithio dod â'r broses gyfan i ben drwy wneud datganiad pellach i'r Cynulliad pan ddychwelwn ar ôl toriad y Nadolig.

The process of change is always challenging, even when it is inevitable and necessary. The panel's approach is consistent with that already adopted by the Welsh Government—retaining the bulk of services locally, while ensuring that care for those with greater need is provided in accordance with internationally accepted, evidence-based standards, leading to best outcomes for patients.

Mae'r broses o newid bob amser yn heriol, hyd yn oed pan fo'n anochel ac yn angenrheidiol. Mae ymagwedd y panel yn gyson â'r hyn a fabwysiadwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru—cadw'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau'n lleol, a sicrhau ar yr un pryd fod gofal i bobl ag anghenion ychwanegol yn cael ei ddarparu'n unol â safonau a dderbynnir yn rhyngwladol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion.

I would like to place on record my personal thanks to members of the scrutiny panel for all their hard work over the summer months in preparing their report, despite other heavy commitments. I commend the expertise and professionalism that they have brought collectively to their task.

Hoffwn gofnodi fy niolch personol i aelodau'r panel craffu am eu holl waith caled dros fisoedd yr haf wrth baratoi eu hadroddiad, er gwaethaf ymrwymiadau trwm eraill. Cymeradwyaf yr arbenigedd a'r proffesiynoldeb y maent wedi'u dangos gyda'i gilydd wrth gyflawni eu tasg.

Finally, I would also like to thank the health board and the community health council, who met together here with my officials in Cardiff yesterday and who will, I know, continue to work together in the interests of the local communities, to ensure the highest standards of care for the people of mid and west Wales.

Yn olaf, hoffwn ddiolch hefyd i'r bwrdd iechyd a'r cyngor iechyd cymuned, a gyfarfu yma gyda'm swyddogion yng Nghaerdydd ddoe ac a fydd, rwyf yn gwybod, yn parhau i gydweithio er lles y cymunedau lleol, i sicrhau'r safonau gofal gorau i bobl canolbarth a gorllewin Cymru.

14:47

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his statement this afternoon. It will come as no surprise that I will be focusing my comments and questions around the special care baby unit at Withybush hospital in my constituency. Even though the Minister has made it clear in his statement today that he wants further work to be carried out by the local health board, he still seems to affirm the board's proposals to continue to establish a level 2 neonatal unit at Glangwili hospital, therefore advocating the closure of the special care baby unit at Withybush hospital. This continues to be a very worrying time for the people of Pembrokeshire, who have previously spoken loud and clear on this issue by staging protests, circulating petitions and attending public meetings against this proposal. This unit provides life-saving services to the people of Pembrokeshire.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Ni fydd yn syndod ichi y byddaf yn canolbwyntio yn fy sylwadau a'm cwestiynau ar yr uned gofal arbennig i fabanod yn ysbyty Llwynhelyg yn fy etholaeth. Er bod y Gweinidog wedi dweud yn glir yn ei ddatganiad heddiw ei fod am i'r bwrdd iechyd lleol wneud rhagor o waith, mae'n dal fel petai'n cadarnhau cynigion y bwrdd i barhau i sefydlu uned newyddenedigol lefel 2 yn ysbyty Glangwili, sy'n golygu ei fod o blaid cau'r uned gofal arbennig i fabanod yn ysbyty Llwynhelyg. Mae hwn yn dal i fod yn gyfnod pryderus iawn i bobl sir Benfro, sydd eisoes wedi siarad yn glir iawn am y mater hwn drwy gynnal protestiadau, dosbarthu deisebau a mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yn erbyn y cynnig hwn. Mae'r uned hon yn darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau i bobl sir Benfro.

Let me remind the Minister that, not so long ago, members of Pembrokeshire County Council, including Labour Party councillors, unanimously passed a motion that vigorously rejected Hywel Dda health board's plans for service change in the area. It seems to me that those calls have fallen on deaf ears, because the inference in this statement is that the level 2 neonatal unit should continue to be established at Glangwili hospital.

Gadewch imi atgoffa'r Gweinidog fod aelodau Cyngor Sir Penfro, gan gynnwys cynghorwyr y Blaid Lafur, yn eithaf diweddar wedi pasio cynnig yn unfrydol a oedd yn dangos gwrthwynebiad ffyrnig i gynlluniau bwrdd iechyd Hywel Dda i newid gwasanaethau yn yr ardal. Mae'n ymddangos i mi fod y galwadau hynny wedi eu hanwybyddu, oherwydd mae'r datganiad hwn yn awgrymu y dylai'r uned newyddenedigol lefel 2 gael ei sefydlu yn Ysbyty Glangwili o hyd.

Having reviewed the data and the figures in the technical documents received from the health board, I note that, for the year 2011-12, more babies needing special care were cared for in Pembrokeshire than in Carmarthenshire. If that is the case, could the Minister confirm that these figures will be taken into account prior to making a final decision?

Ar ôl edrych ar y data a'r ffigurau yn y dogfennau technegol a gafwyd gan y bwrdd iechyd, nodaf fod mwy o fabanod ac arnynt angen gofal arbennig wedi derbyn gofal yn sir Benfro nag yn sir Gaerfyrddin yn 2011-12. Os yw hynny'n wir, a all y Gweinidog gadarnhau y caiff y ffigurau hyn eu hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol?

The Minister is aware that Withybush hospital's catchment area extends into deep rural areas. Can he, therefore, outline what geographical considerations will be further taken into account in forming this final decision? The constituency that I represent has challenging transport links and, therefore, travelling any distance to obtain emergency treatment will certainly lessen survival chances. In his response, perhaps the Minister could tell us what specific transport assessments he and his officials will further undertake before a final decision is made. Will the Minister ensure that none of these changes will be implemented until all other services, particularly transport services, are fully in place and proven?

Mae'r Gweinidog yn ymwybodol fod dalgylch ysbyty Llwynhelyg yn ymestyn i ardaloedd gwledig anghysbell. A all, felly, amlinellu pa ystyriaethau daearyddol a ystyrir ymhellach wrth lunio'r penderfyniad terfynol hwn? Mae cysylltiadau trafnidiaeth yr etholaeth yr wyf fi'n ei chynrychioli yn heriol ac, felly, bydd teithio unrhyw bellter i gael triniaeth frys yn sicr o leihau'r siawns o oroesi. Yn ei ymateb, efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym pa asesiadau trafnidiaeth penodol pellach y bydd ef a'i swyddogion yn eu cynnal cyn gwneud penderfyniad terfynol. A wnaiff y Gweinidog sicrhau na chaiff dim o'r newidiadau hyn eu rhoi ar waith nes bod yr holl wasanaethau eraill, yn enwedig gwasanaethau cludiant, ar waith yn llawn ac wedi'u profi?

I do not see how the decision to site the new level 2 neonatal unit at Glangwili hospital meets recommendation 13 of the Children and Young People Committee's report on the provision of neonatal care in Wales, which states that,

Ni allaf weld sut y mae'r penderfyniad i leoli'r uned newyddenedigol lefel 2 newydd yn Ysbyty Glangwili yn bodloni argymhelliad 13 adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ddarparu gofal newyddenedigol yng Nghymru, sy'n nodi bod

‘the Welsh Government needs to ensure that local health boards take transport transfer times into account when assessing service reconfiguration plans’.

angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn ystyried yr amser y mae’n ei gymryd i drosglwyddo babanod wrth asesu cynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau.

Therefore, could the Minister tell us that he will take this recommendation into consideration when making a final decision? There is also the issue of the effect of the potential closure of the special care baby unit on the ambulance service, which, as Members are aware, is already facing serious challenges. We have heard from clinicians who have referred to this potential relocation as ‘unthinkable’ for Pembrokeshire’s families. Travelling further for life-saving treatment will no doubt have an effect on ambulance services and on current neonatal transport services in the area. Perhaps the Minister could tell us what recent discussions he has had with the ambulance trust on the effect that relocating the special care baby unit to Glangwili will have. Can he reassure us that the ambulance service and the neonatal transport services will be able to cope with any proposed changes?

Felly, a allai’r Gweinidog ddweud wrthym y bydd yn ystyried yr argymhelliad hwn wrth wneud penderfyniad terfynol? Hefyd, gallai cau’r uned gofal arbennig i fabanod effeithio ar y gwasanaeth ambiwlans, sydd, fel y gŵyr Aelodau, eisoes yn wynebu heriau difrifol. Rydym wedi clywed gan glinigwyr sydd wedi dweud bod yr adleoli posibl hwn 'y tu hwnt i amgyffred' i deuluoedd sir Benfro. Bydd teithio’n bellach i gael triniaeth i achub bywydau’n sicr o effeithio ar wasanaethau ambiwlans ac ar wasanaethau cludiant newyddenedigol presennol yn yr ardal. Efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau diweddar y mae wedi'u cael â'r ymddiriedolaeth ambiwlans am yr effaith a gaiff adleoli'r uned gofal arbennig i fabanod i Langwili. A all ein sicrhau y bydd y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaethau cludiant newyddenedigol yn gallu ymdopi ag unrhyw newidiadau arfaethedig?

Closing a unit such as the special care baby unit could have a knock-on effect on other services at Withybush hospital. I have been told by professionals that establishing a new level 2 neonatal unit at Glangwili hospital could take staff away from the paediatrics department, which could make this department unsustainable in the future. The paediatrics department is essential to a district general hospital, given that 25% of admissions to an accident and emergency department are children. So, if the paediatrics department is taken away, then children will not be able to be admitted to accident and emergency, which, in turn, could then make the accident and emergency department at Withybush hospital unsustainable in the future. Can the Minister therefore confirm on record this afternoon that the final decision will not have a detrimental effect on the sustainability of other core services at Withybush hospital?

Gallai cau uned megis yr uned gofal arbennig i fabanod gael effaith ganlyniadol ar wasanaethau eraill yn ysbyty Llwynhelyg. Mae gweithwyr proffesiynol wedi dweud wrthyf y gallai sefydlu uned newyddenedigol lefel 2 newydd yn Ysbyty Glangwili olygu cymryd staff o'r adran bediatreg, a allai wneud yr adran honno’n anghynaladwy yn y dyfodol. Mae adran bediatreg yn hanfodol i ysbyty cyffredinol dosbarth, ac ystyried mai plant yw 25% o’r derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys. Felly, os na fydd adran bediatreg yno, ni fydd modd derbyn plant i adrannau damweiniau ac achosion brys, a gallai hynny, yn ei dro, olygu bod adran damweiniau ac achosion brys ysbyty Llwynhelyg yn anghynaliadwy yn y dyfodol. A all y Gweinidog gadarnhau felly ar gofnod y prynhawn yma na fydd y penderfyniad terfynol yn cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd gwasanaethau craidd eraill yn Ysbyty Llwynhelyg?

Will the Minister also give careful consideration to ensuring that there is further public consultation in relation to any changes that relate to obstetric, paediatric and neonatal services at Withybush hospital? The downgrading of some of these services will be disastrous for the people of Pembrokeshire.

A wnaiff y Gweinidog hefyd roi ystyriaeth ofalus i sicrhau y ceir rhagor o ymgynghori cyhoeddus ynglŷn ag unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â gwasanaethau obstetrig, pediatrig a newyddenedigol yn ysbyty Llwynhelyg? Bydd israddio rhai o'r gwasanaethau hyn yn drychinebus i bobl sir Benfro.

In closing, Deputy Presiding Officer, we have continually heard the First Minister, the current Minister for Health and Social Services and previous Ministers for health talk about safe and sustainable services in this Chamber. The Welsh Government must surely acknowledge that the special care baby unit at Withybush hospital is currently safe, and I put it to the Minister that moving the special care baby unit would be dangerous and unsafe for the people of Pembrokeshire.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rydym wedi clywed y Prif Weinidog, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol presennol a Gweinidogion iechyd blaenorol yn sôn yn gyson yn y Siambr hon am wasanaethau diogel a chynaliadwy. Yn sicr, rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod bod yr uned gofal arbennig i fabanod yn ysbyty Llwynhelyg yn ddiogel ar hyn o bryd, ac rwyf yn awgrymu wrth y Gweinidog y byddai symud yr uned gofal arbennig i fabanod yn beth peryglus ac anniogel i bobl sir Benfro.

14:53

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Let me begin by saying that I entirely respect the views that the Member puts forward and the job that he does in representing the views of his constituents on this issue in the Chamber. I equally take seriously those strongly held views of people who live in the locality and the strength with which they make those views known.

Gadewch imi ddechrau drwy ddweud fy mod yn parchu’n llwyr y farn y mae'r Aelod yn ei chyflwyno, yn ogystal â’r gwaith y mae'n ei wneud i gynrychioli barn ei etholwyr ar y mater hwn yn y Siambr. Yn yr un modd, mae safbwyntiau cryf y bobl sy'n byw yn yr ardal, a pha mor gryf y maent yn lleisio’r safbwyntiau hynny, yn fater yr wyf yn ei gymryd o ddifrif.

I must say, however, that I have not this afternoon affirmed the board's proposals. I have reported to the Chamber the conclusions reached by the independent scrutiny panel. I want to be careful and to be clear, once again, that what I have said this afternoon is that the scrutiny panel requires further work to be carried out before it comes to a final set of recommendations. So, there are a number of important questions that the Member raises, which, I think, will be properly answered when we reach that point in the process, rather than the point that we have reached today.

Rhaid imi ddweud, fodd bynnag, nad wyf wedi cadarnhau cynigion y bwrdd y prynhawn yma. Rwyf wedi dweud wrth y Siambr am gasgliadau'r panel craffu annibynnol. Rwyf am fod yn ofalus a nodi'n glir, unwaith eto, mai'r hyn yr wyf wedi'i ddweud y prynhawn yma yw bod angen i'r panel craffu wneud rhagor o waith cyn llunio cyfres derfynol o argymhellion. Felly, credaf y bydd llawer o'r cwestiynau pwysig y mae'r Aelod yn eu codi yn cael eu hateb yn briodol pan gyrhaeddwn y pwynt hwnnw yn y broses, yn hytrach na'r pwynt yr ydym wedi'i gyrraedd heddiw.

I will make sure that when the panel reconvenes, it takes account of the figures to which Paul Davies has drawn attention. I have already said that, in relation to transport links, I will require the local health board to report on the panel's very direct recommendation that there should be a 24-hour neonatal transport service to go alongside its clear preference for a level 2 unit at Glangwili hospital. So, I will ensure that both those issues are revisited and re-reported upon in the panel's final consideration.

Gwnaf yn siŵr y bydd y panel, pan fydd yn ailgynnull, yn ystyried y ffigurau y mae Paul Davies wedi tynnu sylw atynt. Rwyf eisoes wedi dweud, o ran cysylltiadau trafnidiaeth, y byddaf yn gofyn i'r bwrdd iechyd lleol adrodd ar argymhelliad uniongyrchol iawn y panel y dylid cael gwasanaeth cludiant newyddenedigol 24-awr ochr yn ochr â'i ddewis clir o uned lefel 2 yn ysbyty Glangwili. Felly, byddaf yn sicrhau bod y ddau fater hynny'n cael eu hailystyried ac yr adroddir arnynt eto yn ystyriaeth derfynol y panel.

There is no getting away from the panel's core conclusion, however, which is that the number of live births that take place in the west of Wales means that, in future, it simply will not be possible to go on providing specialist services at more than one site. The vast majority of births would continue to take place where they take place now under the panel's proposals. For those babies and their mothers who need specialist services, the panel's views are unambiguous. Those people will get a better service by providing concentrated expertise in one place. I do not think that talk of downgrading and dangerousness is a helpful contribution to the sort of service that we would all like to see for those sorts of families in those sorts of circumstances.

Nid oes dianc rhag casgliad craidd y panel, fodd bynnag, sef bod nifer y genedigaethau byw sy'n digwydd yn y gorllewin yn golygu na fydd yn bosibl, yn y dyfodol, parhau i ddarparu gwasanaethau arbenigol mewn mwy nag un safle. Byddai'r mwyafrif helaeth o enedigaethau'n parhau i ddigwydd lle maent yn digwydd yn awr o dan gynigion y panel. Ar gyfer y babanod hynny a'u mamau y mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt, mae barn y panel yn ddiamwys. Caiff y bobl hynny wasanaeth gwell drwy ddarparu arbenigedd dwys mewn un lle. Nid wyf yn credu bod siarad am israddio a pherygl yn gyfraniad defnyddiol at y math o wasanaeth y byddem i gyd yn hoffi ei weld i'r mathau hynny o deuluoedd dan y mathau hynny o amgylchiadau.

14:56 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad. Rydym wedi cael penderfyniad oddi wrthych chi, o'r diwedd, ar uned argyfwng Llanelli. Rydych chi, yn Weinidog Llafur, wedi penderfynu israddio uned argyfwng Llanelli o'r hyn y mae pobl Llanelli, yn amlwg iawn, yn ei ddymuno. Gwnaeth rhai ohonom rybuddio cyn etholiadau 2011 y gallai hyn ddigwydd.

Minister, thank you for your statement. At last, we have a decision from you on the A&E service at Llanelli. You, as a Labour Minister, have decided to downgrade Llanelli A&E from what the people of Llanelli, very obviously, want. Some of us were warning before the 2011 elections that this could happen.

Mae gennyf ddau gwestiwn i chi ar sefyllfa Llanelli. Yn gyntaf, a ydych yn hyderus bod y capasiti mewn ysbytai cyfagos, fel Treforys, i gwrdd ag unrhyw alw ychwanegol all ddeillio o'r newid hwn? Os wyf yn deall yn iawn, mae'r panel yn codi cwestiynau ei hun ynglŷn â'r capasiti yn Nhreforys i ddelio â galw ychwanegol. Yn ail, rydym yn gwybod bod adolygiad barnwrol ar y mater o israddio'r uned argyfwng yn Llanelli. Yn dilyn eich penderfyniad heddiw, ai chi fel Llywodraeth fydd yn awr yn amddiffyn yr adolygiad barnwrol neu ai mater i fwrdd iechyd Hywel Dda a fydd hynny?

I have two questions for you on the situation in Llanelli. First, are you confident that the capacity is in place at nearby hospitals such as Morriston to meet any additional demand that could arise from this change? If I understand it correctly, the panel itself has raised questions on the issue of the capacity in Morriston to deal with the additional demand. Secondly, we know that there is a judicial review on the issue of downgrading the A&E in Llanelli. Following your decision today, will you as a Government be defending that judicial review or will it be a matter for the Hywel Dda health board?

Ar eich datganiad ar wasanaethau neonatal a mamolaeth, mae gwaith pellach i'w wneud, ond mae eich datganiad heddiw yn taflu ansicrwydd dros wasanaethau mamolaeth ar draws Hywel Dda, nid dim ond yn Llwynhelyg ond hefyd ym Mronglais. Felly, rwyf eisiau gofyn i chi'n uniongyrchol a fydd y panel yn edrych ar godi cwestiwn ynglŷn â dyfodol gwasanaeth obstetreg llawn ym Mronglais. Nid oedd hynny yn rhan o ymgynghoriad llawn ac argymhellion llawn bwrdd iechyd Hywel Dda, felly a ydych chi heddiw yn ailagor y cwestiwn ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth hwnnw? Os ydych, rwyf eisiau i chi sicrhau bod y panel yn edrych o ddifrif ar gysylltiad pellteroedd i wasanaeth â pha mor ddiogel yw'r gwasanaeth hwnnw, gan edrych yn benodol, yng nghyd-destun Bronglais, ar y ffaith bod Bronglais hefyd yn gwasanaethu de Gwynedd a gorllewin Powys. Rwy'n gweld beth rydych yn ei ddweud ynglŷn â datblygu gwasanaeth 24 awr, saith diwrnod yr wythnos i gludo cleifion mewn argyfwng, ond os ydych yn cludo menyw sydd yn disgwyl babi ac yn cael cymhlethdodau, p'un ai yw am 9 a.m. neu am 9 p.m., o Fronglais i Gaerfyrddin, mae dal yn awr a hanner o daith o leiaf o'r naill ward i'r llall, ac yn ddwy awr a hanner o Dywyn i Langwili. Felly, a gaf ofyn i chi sicrhau bod pellter ac amser cludo yn rhan o unrhyw ystyriaethau pellach y gofynnir i'r panel eu cymryd?

On your statement on neonatal and maternity services, there is further work to be done, but your statement today cast some doubt over maternity services across the Hywel Dda region, not just in Withybush, but also in Bronglais. Therefore, I would like to ask you directly whether the panel will look at raising questions on the future of full obstetric services at Bronglais. That was not part of the full consultation and the full recommendations of the Hywel Dda health board, so are you today reopening the whole issue of the future of that service? If you are, I want you to ensure that the panel looks seriously at the link between distances travelled to services and how safe those services are and to look specifically, in the context of Bronglais, at the fact that Bronglais also serves south Gwynedd and western Powys. I see what you are saying about developing 24-hour, seven-days-a-week emergency patient transport, but if you are taking a pregnant woman who encounters complications from Bronglais to Carmarthen, whether it is 9 a.m. or 9 p.m., it is still a journey of at least an hour and a half from one hospital to the other, and two and a half hours from Tywyn to Glangwili. Therefore, may I ask you to ensure that distances and travel times are part of any further considerations that the panel is asked to take into account?

14:59

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The report in relation to Prince Philip Hospital suggests that the recommendation that the panel has come to is likely to mean that there will be fewer patients needing to go to Morriston in future than now, because the panel is confident that there will be an extra ability to manage patients coming through the door of Prince Philip. It certainly does not expect there to be a greater need for patients to be moved elsewhere.

Mae'r adroddiad o ran Ysbyty'r Tywysog Philip yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd argymhelliad y panel yn golygu y bydd llai o gleifion yn gorfod mynd i Dreforys yn y dyfodol nag sydd yn awr, oherwydd mae'r panel yn hyderus y ceir mwy o allu i reoli cleifion sy'n dod drwy ddrws Ysbyty'r Tywysog Philip. Yn sicr nid yw'n disgwyl y bydd mwy o angen symud cleifion i rywle arall.

The matter of the courts is not a matter for me. I did consider carefully whether I should make the statement today in advance of a hearing that is now scheduled for 12 November, but I felt that it was important for me to do what I have said I always wanted to do in this area, which is to make decisions that fall to me and to make them when I was able to do that.

Nid mater i mi yw mater y llysoedd. Ystyriais yn ofalus a ddylwn wneud y datganiad heddiw cyn y gwrandawiad sydd bellach wedi'i drefnu ar 12 Tachwedd, ond roeddwn o'r farn ei bod yn bwysig imi wneud yr hyn yr wyf wedi dweud fy mod yn awyddus i'w wneud erioed yn y maes hwn, sef gwneud penderfyniadau yr wyf yn gyfrifol amdanynt a'u gwneud pan allaf wneud hynny.

As far as neonatal services are concerned, the report does not re-open the issue of Bronglais hospital. The issue of services at Bronglais hospital has not been referred to me by the community health council because it has reached an agreement with the local health board on the future of services at that hospital. Nothing in what I have said today should be taken as casting any doubt on that agreement for opening up an issue that has not been referred to me for consideration. The issues of distance and time that Elin Jones referred to at the end of her contribution are important ones. It is why we want the 24-hour neonatal transport service, if that can be achieved. It is an issue referred to regularly by the panel. It was certainly highlighted to the panel members by many of those they met during their visit to Hywel Dda Local Health Board. They reached their conclusions fully in the light of awareness of those matters.

O ran gwasanaethau newyddenedigol, nid yw'r adroddiad yn ailagor mater ysbyty Bronglais. Nid yw'r cyngor iechyd cymuned wedi atgyfeirio gwasanaethau yn ysbyty Bronglais ataf oherwydd maent wedi cytuno â'r bwrdd iechyd lleol am ddyfodol gwasanaethau yn yr ysbyty hwnnw. Ni ddylid ystyried bod dim yn yr hyn yr wyf wedi'i ddweud heddiw sy'n bwrw unrhyw amheuaeth ar y cytundeb hwnnw i agor mater na chafodd ei atgyfeirio ataf i'w ystyried. Mae'r materion pellter ac amser y cyfeiriodd Elin Jones atynt ar ddiwedd ei chyfraniad yn rhai pwysig. Dyna pam yr hoffem gael y gwasanaeth cludiant newyddenedigol 24 awr, os gellir gwneud hynny. Mae'r panel yn cyfeirio at y mater hwnnw'n rheolaidd. Yn sicr, tynnwyd sylw aelodau'r panel at hynny gan lawer o'r bobl y cyfarfu'r panel â hwy wrth ymweld â Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Roeddent yn gwbl ymwybodol o'r materion hynny wrth lunio eu casgliadau.

15:01 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I begin by thanking the Minister for his statement this afternoon. I have a number of questions that I should like to raise, first of which is the issue of Prince Philip Hospital. The report of your independent panel states that, to facilitate the replacement of the emergency department at Prince Philip Hospital there needs to be a strong emphasis to ensure adequate education and training of the emergency care workforce. Could you outline to us the discussions that you have had with the local health board to satisfy yourself that that recommendation will be fulfilled?

Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Mae gennyf nifer o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn, ac mae'r cyntaf ohonynt yn ymwneud ag Ysbyty'r Tywysog Philip. Mae adroddiad eich panel annibynnol yn datgan bod angen, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddisodli'r adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip, rhoi pwyslais cryf i sicrhau bod y gweithlu gofal brys yn cael addysg a hyfforddiant digonol. A wnewch chi amlinellu inni y trafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r bwrdd iechyd lleol i'ch sicrhau eich hun y caiff yr argymhelliad hwnnw ei gyflawni?

Secondly, what steps have you discussed with the local health board to ensure that the local community is advised of the changes and of the replacement of the emergency department so that they can better assess where they need to present themselves if they are making their way to hospital? Also, the No. 1 action outlined in the report is the replacement of A&E signs in the locale, thus aiding people who are not so familiar with the services at Prince Philip Hospital, leaving them in no doubt that it is not an A&E department and, therefore, able to make the appropriate decisions as to where they go.

Yn ail, pa gamau ydych chi wedi'u trafod â'r bwrdd iechyd lleol i sicrhau bod y gymuned leol yn cael gwybod am y newidiadau ac am ddisodli'r adran achosion brys er mwyn ei gwneud yn haws iddynt benderfynu i ble y dylent fynd os ydynt yn mynd i'r ysbyty? Hefyd, y prif gam gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad yw newid yr arwyddion Damweiniau ac Achosion Brys yn yr ardal, i gynorthwyo pobl nad ydynt mor gyfarwydd â gwasanaethau Ysbyty Tywysog Philip, a rhoi gwybod iddynt yn gwbl glir nad adran damweiniau ac achosion brys ydyw a'u galluogi, felly, i wneud y penderfyniadau priodol ynghylch ble i fynd.

Finally, the report says that there will need to be clarity over the clinical governance arrangements for the services at the unit. Are you concerned that, even at this stage, there is a lack of clarity around clinical governance arrangements for the replacement service. One would have hoped—indeed, one would have been greatly reassured—for clarity around those points.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn dweud y bydd angen bod yn glir ynglŷn â threfniadau llywodraethu clinigol y gwasanaethau yn yr uned. A ydych yn pryderu, hyd yn oed yn awr, fod diffyg eglurder o ran trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer y gwasanaeth newydd? Byddai rhywun wedi gobeithio cael eglurder ynghylch y pwyntiau hynny — yn wir, byddai hynny wedi rhoi tawelwch meddwl mawr i rywun.

Perhaps I could now move to the issue of neonatal care. Paul Davies is right to draw attention to the widespread concern that there will be within the Pembrokeshire area if these changes are to go ahead. I am somewhat bemused by your reassurance to Elin Jones with regard to there being no issues around other services, particularly in Bronglais hospital, when paragraph 6 of your report says that there does indeed need to be clarity from the local health board about the services that will be available at Glangwili, Withybush and Bronglais hospitals, given the close interrelatedness of care for mothers and babies. They are not clear, as an independent panel looking at the plans coming forward, what services will be available at those hospitals. I would be grateful to learn from you when we could have clarity on that, to reassure people as to what services will be available in their local hospitals. Could you tell us whether there has been any indication of the capital requirements for such a change, to develop a level 2 service at Glangwili hospital, and are you confident that those capital requirements can be met? Do you agree with me that one of the issues around developing a level 2 unit is not only the provision of special care baby unit cots for the infants, but parents' ability to stay in hospital alongside their premature babies? The demand for such services is going to increase if we take services out of Pembrokeshire. The travelling distances involved will mean that more parents will demand accommodation alongside their babies in a new unit in Carmarthen, and I am sure that you would want to assure them that, should they want to stay in Carmarthen, they would be able to do so, and that they would not have to face the prospect of leaving their premature babies alone while they travel the not inconsiderable distances going back and forth to visit them.

Efallai y gallaf droi yn awr at ofal newyddenedigol. Mae Paul Davies yn iawn i dynnu sylw at y pryder eang a fydd yn ardal sir Benfro os bydd y newidiadau hyn yn digwydd. Cefais fy synnu braidd pan roesoch sicrwydd i Elin Jones nad oedd unrhyw faterion yn codi ynghylch gwasanaethau eraill, yn enwedig yn ysbyty Bronglais; mae paragraff 6 eich adroddiad yn dweud bod angen gwir eglurder gan y bwrdd iechyd lleol am y gwasanaethau a fydd ar gael yn ysbytai Glangwili, Llwynhelyg a Bronglais, o ystyried y gydberthynas agos rhwng gofal i famau a babanod. Nid ydynt yn glir, fel panel annibynnol sy'n edrych ar y cynlluniau a gyflwynwyd, pa wasanaethau fydd ar gael yn yr ysbytai hynny. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod gennych pryd y cawn eglurder am hynny, er mwyn sicrhau pobl pa wasanaethau a fydd ar gael yn eu hysbytai lleol. A allwch ddweud wrthym a fu unrhyw awgrym ynghylch y gofynion cyfalaf ar gyfer newid o'r fath, i ddatblygu gwasanaeth lefel 2 yn ysbyty Glangwili, ac a ydych yn hyderus y gellir bodloni'r gofynion cyfalaf hynny? A ydych yn cytuno â mi mai un o'r materion sy'n codi o ran datblygu uned lefel 2, ar wahân i ddarparu cotiau gofal arbennig i'r babanod yn yr uned, yw gallu rhieni i aros yn yr ysbyty gyda'u babanod cynamserol? Bydd y galw am wasanaethau o'r fath yn cynyddu os byddwn yn mynd â gwasanaethau allan o sir Benfro. Bydd y pellteroedd teithio'n golygu y bydd mwy o rieni'n mynnu llety gyda'u babanod mewn uned newydd yng Nghaerfyrddin, ac rwyf yn siŵr yr hoffech roi sicrwydd iddynt, pe baent yn dymuno aros yng Nghaerfyrddin, y gallent wneud hynny, ac na fyddai'n rhaid iddynt wynebu sefyllfa lle byddai'n rhaid iddynt adael eu babanod cynamserol ar eu pen eu hunain a theithio pellteroedd nid ansylweddol yn ôl ac ymlaen i ymweld â hwy.

Paragraph 8.2 of your independent panel's report mentions the development of a level 2 neonatal unit at Glangwili, if accompanied by appropriate changes in obstetric services. Could you outline what those changes are? Also, paragraph 8.3 states that the lack of an obstetric and midwifery lead potentially has the knock-on effect of the board not being able to drive these plans forward. What discussions have you had with the local health board about the need to appoint a midwifery and obstetric lead within the health board, so that the CHC can continue to work alongside that person to ensure that concerns are listened to?

Mae paragraff 8.2 adroddiad eich panel annibynnol yn sôn am ddatblygu uned newyddenedigol lefel 2 yn ysbyty Glangwili, os ceir y newidiadau priodol i'r gwasanaethau obstetreg hefyd. A wnewch chi amlinellu beth yw'r newidiadau hynny? Hefyd, mae paragraff 8.3 yn nodi y gallai diffyg arweinydd obstetreg a bydwreigiaeth gael effaith ganlyniadol ar y bwrdd a golygu na allai fwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â'r bwrdd iechyd lleol am yr angen i benodi arweinydd bydwreigiaeth ac obstetreg yn y bwrdd iechyd, fel y gall y CIC barhau i weithio ochr yn ochr â'r unigolyn dan sylw i sicrhau y gwrandewir ar bryderon?

Finally, given the difficult treatment that the CHC has had, and given some of the accusations made against it, would you like to take this opportunity to congratulate the CHC on sticking to its guns and providing challenge to the system and note that any attempts by outside bodies to curtail that challenge are not appropriate? We are proud that we in Wales have kept our CHCs, and any attempts to threaten them with legal action should be resisted. I would be grateful if you could take the opportunity to say how inappropriate such threats are.

Yn olaf, ac ystyried y driniaeth anodd y mae'r CIC wedi'i chael, a hefyd ac ystyried rhai o'r cyhuddiadau a wnaed yn ei erbyn, a hoffech fanteisio ar y cyfle hwn i longyfarch y CIC am ddal ati i herio'r system ac i nodi y bydd unrhyw ymgais gan gyrff allanol i lesteirio'r her honno'n amhriodol? Rydym yn falch ein bod ni yng Nghymru wedi cadw ein cynghorau iechyd cymuned, a dylid gwrthwynebu unrhyw ymdrechion i'w bygwth â chamau cyfreithiol. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn manteisio ar y cyfle i ddweud pa mor amhriodol yw bygythiadau o'r fath.

15:07 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will deal first of all with the questions that Kirsty Williams raised about Llanelli. She is absolutely right: the model for emergency care that the panel has advanced, which I have accepted, represents what the text of the report describes as 'a golden opportunity' for training GPs in urgent care at the Hywel Dda Local Health Board, thereby providing stability in its workforce for the future. It draws attention to the opportunities that there are in working jointly with Singleton Hospital, where GPs already discharge the sort of responsibilities that the report envisages them holding at Llanelli, and it says that there are real opportunities for Hywel Dda in drawing on that experience and in making sure that its workforce is equipped to do the job that it wants it now to do. We will therefore make sure that those opportunities are created and that, as much as possible, that golden opportunity—not simply to provide the service that we want at Prince Philip, but to develop a new cadre of practitioners able to do more and to do it more widely in that part of south Wales—is taken.

Rwyf am ymdrin yn gyntaf â'r cwestiynau a gododd Kirsty Williams am Lanelli. Mae hi yn llygad ei lle: mae'r model ar gyfer gofal brys y mae'r panel wedi ei ddatblygu, ac yr wyf wedi ei dderbyn, yn gyfle euraidd, yn ôl yr adroddiad, i hyfforddi meddygon teulu mewn gofal brys ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, a thrwy hynny ddarparu sefydlogrwydd yng ngweithlu'r bwrdd at y dyfodol. Mae'n tynnu sylw at y cyfleoedd i weithio ar y cyd ag Ysbyty Singleton, lle mae meddygon teulu eisoes yn ysgwyddo'r math o gyfrifoldebau y mae'r adroddiad yn rhagweld y bydd gan feddygon teulu yn Llanelli, ac mae'n dweud bod cyfleoedd go iawn i Hywel Dda alw ar y profiad hwnnw a gwneud yn siŵr bod ei weithlu'n gymwys i wneud y gwaith yr hoffai iddo yn awr ei wneud. Felly, byddwn yn gwneud yn siŵr bod y cyfleoedd hynny yn cael eu creu, ac y manteisir ar y cyfle euraidd hwnnw, cyn belled ag y bo modd—nid yn unig i ddarparu'r gwasanaeth yr ydym am ei weld yn Ysbyty'r Tywysog Philip, ond i ddatblygu carfan newydd o ymarferwyr sy'n gallu gwneud mwy a'i wneud yn fwy eang yn y rhan honno o'r de.

I am grateful to the Member for raising the whole issue of advanced information and the signage issue. It is an important matter, and not one simply for Prince Philip Hospital; it is a matter for other parts of Wales where services are changing. Everybody is agreed that the current pattern of signage can be confusing. It is harder to get agreement from everybody as to what the alternative nomenclature should be. Indeed, the report itself has a choice of three or four different terms that could be used to describe what will go on at Prince Philip in the future. I have said previously in answer to letters from Assembly Members that I think that it is important that, in this area, we try as much as possible to have consistency across our border with England, where they are also facing exactly this issue. Sir Bruce Keogh earlier this year commissioned Professor Keith Willet to undertake a review of the names that are used in England for the different levels of emergency departments that they have. I am told that that report will be out for consultation at the beginning of October and I want to just have the benefit of the advice of that report before finally deciding on the terms that we should adopt here in Wales. I do not think that it would be helpful for us to adopt one set of descriptors here that were different to ones that were there for people immediately across our border. It would just lead to a further—and avoidable, if we can manage it—level of confusion. So, I accept the advice of the panel in this regard. It is important that we do not unwittingly confuse people about what is available. We do need a common set of terms. We do need to change the signs, and as soon as we are confident that we have an agreed set of terms that people will sign up to, and do it consistently across our health boards, and hopefully do it consistently across our border, I will want to do that.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am godi mater gwybodaeth bellach a mater yr arwyddion. Mae'n fater pwysig, ac nid yn unig yn Ysbyty'r Tywysog Philip; mae'n bwysig i rannau eraill o Gymru lle mae gwasanaethau'n newid. Mae pawb yn cytuno y gall patrwm presennol yr arwyddion fod yn ddryslyd. Mae'n fwy anodd cael pawb i gytuno ar gyfundrefn enwau newydd. Yn wir, mae'r adroddiad ei hun yn rhoi dewis o dri neu bedwar gwahanol derm y gellid eu defnyddio i ddisgrifio'r hyn a fydd yn digwydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn y dyfodol. Rwyf wedi dweud o'r blaen wrth ateb llythyrau gan Aelodau'r Cynulliad fy mod yn credu ei bod yn bwysig, yn hyn o beth, ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn i gael cysondeb ar draws ein ffin â Lloegr, lle maent hefyd yn wynebu'n union yr un materion. Yn gynharach eleni, comisiynodd Syr Bruce Keogh yr Athro Keith Willet i gynnal adolygiad o'r enwau a ddefnyddir yn Lloegr ar gyfer y gwahanol lefelau o adrannau achosion brys sydd ganddynt. Rwyf yn cael ar ddeall y cynhelir ymgynghoriad ar yr adroddiad hwnnw ddechrau mis Hydref a hoffwn gael gweld cyngor yr adroddiad hwnnw cyn penderfynu'n derfynol ar y termau y dylem eu mabwysiadu yma yng Nghymru. Nid wyf yn meddwl y byddai'n fuddiol inni fabwysiadu un set o ddisgrifyddion yma a fyddai'n wahanol i'r rhai i bobl yn union dros ein ffin. Byddai hynny'n arwain at ddryswch pellach—dryswch yr hoffem ei osgoi, os gallwn. Felly, rwyf yn derbyn cyngor y panel yn hyn o beth. Mae'n bwysig nad ydym yn ddiarwybod inni yn drysu pobl am yr hyn sydd ar gael. Mae angen set gyffredin o dermau arnom. Mae angen inni newid yr arwyddion, a chyn gynted ag y byddwn yn hyderus ein bod wedi cytuno ar set o dermau y bydd pobl yn eu derbyn, ac yn gwneud hynny'n gyson ar draws ein byrddau iechyd, ac, rwyf yn mawr obeithio, yn gwneud hynny'n gyson ar draws ein ffin, byddaf am wneud hynny.

On the question about clinical governance arrangements, the report says that current clinical governance arrangements are secure, if not ideal, and therefore wants to see a fresh set of clinical governance arrangements agreed for the new set of arrangements. I think those can be devised and agreed quickly. They can move to do that now that the decision is made. The panel's report was a series of recommendations, not decisions; the decisions are for this Assembly, and have been made today. I think that those arrangements can now be made quickly.

O ran y cwestiwn am drefniadau llywodraethu clinigol, mae'r adroddiad yn dweud bod y trefniadau llywodraethu clinigol presennol yn gadarn, os nad yn ddelfrydol, a'i fod felly am sicrhau y cytunir ar set newydd o drefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer y set newydd o drefniadau. Credaf y gellir llunio'r rheini, a chytuno arnynt, yn gyflym. Gallant symud at wneud hynny gan fod y penderfyniad bellach wedi'i wneud. Cyfres o argymhellion oedd adroddiad y panel, nid penderfyniadau; lle'r Cynulliad hwn yw gwneud y penderfyniadau, ac maent wedi eu gwneud heddiw. Rwyf yn meddwl y gellir gwneud y trefniadau hynny'n gyflym yn awr.

Turning to the questions in relation to neonatal services, I did have a telephone conversation earlier today with Dr David Salter, as a member of the panel, just to make sure that I was able to ask him to check my understanding of a small number of points in the report. He was clear with me that, when the panel asks for the LHB to confirm its plans for obstetrics and midwifery services, it was not starting from a point that those plans do not exist—that there is not already a plan in place—but it just wanted some extra certainty and clarity about certain aspects of it, so that the interface between services for mothers and services for babies can be fully interpreted into the set of recommendations that it makes for neonatology. Those clarifications and confirmations can easily be accomplished between now and Christmas. In relation to Bronglais, again, I specifically discussed the matter with Dr Salter, and that was the basis of my reply to Elin Jones.

I droi at y cwestiynau am wasanaethau newyddenedigol, cefais sgwrs ar y ffôn yn gynharach heddiw â Dr David Salter, fel aelod o'r panel, er mwyn sicrhau fy mod yn gallu gofyn iddo wirio fy nealltwriaeth ynghylch nifer bach o bwyntiau yn yr adroddiad. Dywedodd wrthyf yn glir nad oedd y panel, wrth ofyn i'r BILl gadarnhau ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau obstetreg a bydwreigiaeth, yn dechrau o bwynt lle nad yw'r cynlluniau hynny'n bodoli—lle nad oes cynllun eisoes ar waith—ond bod arno eisiau rhywfaint yn rhagor o sicrwydd ac eglurder am agweddau penodol arno, fel y gellir dehongli'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau i famau a gwasanaethau i fabanod yn llawn yn y gyfres o argymhellion y mae'n eu gwneud ar gyfer neonatoleg. Bydd yn hawdd egluro a chadarnhau'r materion hynny rhwng nawr a'r Nadolig. O ran Bronglais, unwaith eto, trafodais y mater hwnnw'n benodol â Dr Salter, a dyna oedd sail fy ateb i Elin Jones.

Capital investment for the level 2 unit at Glangwili is certainly something that I will want to look at, and look at positively. Here, of course, the panel is more forthright than the LHB itself had been. The LHB went to consultation on what it called an aspiration for a level 2 unit at Glangwili, and rather heavily caveated its aspiration around a number of challenges that it saw in achieving that unit. The panel clearly believed that a level 2 unit is achievable, that it can be staffed, that it will result in more babies being born in the Hywel Dda area than are born in Hywel Dda now, and for many people there will be a shorter travelling distance than there has been in the past. The point that the Member made about parental accommodation, of course, is a very important one; if we are to achieve a level 2 unit at Glangwili we will want it to be one that is wholly compliant with modern standards, both of service provided and of accommodation, too.

Mae buddsoddi cyfalaf ar gyfer yr uned lefel 2 yn ysbyty Glangwili yn sicr yn rhywbeth yr hoffwn edrych arno, ac edrych arno'n gadarnhaol. Yma, wrth gwrs, mae'r panel yn fwy diamwys nag y bu'r BILl ei hun. Cynhaliodd y BILl ymgynghoriad ar yr hyn yr oedd yn ei alw'n ddyhead am uned lefel 2 yn ysbyty Glangwili, gan osod cafeatau trwm braidd ar y dyhead hwnnw o ran nifer o heriau yr oedd yn eu gweld ynglŷn â chreu'r uned honno. Roedd yn amlwg bod y panel yn credu bod uned lefel 2 yn bosibl, bod modd ei staffio, y bydd yn arwain at eni mwy o fabanod yn ardal Hywel Dda nag sy'n cael eu geni yn ardal Hywel Dda yn awr, ac y bydd llawer o bobl yn teithio pellteroedd byrrach nag y buont yn y gorffennol. Mae'r pwynt a wnaeth yr Aelod am lety i rieni, wrth gwrs, yn un pwysig iawn; os ydym am gael uned lefel 2 yn Ysbyty Glangwili byddwn am iddi fod yn un sydd yn cydymffurfio'n llwyr â safonau modern, o ran y gwasanaeth a ddarperir ac o ran llety, hefyd.

The report does not refer to an obstetric or midwifery lead; it refers to 'leads'. I think that, by that, it means that there is a paediatric lead already for the Hywel Dda LHB, and there ought to be obstetric and midwifery leads at the three sites so that that interface can be properly negotiated. Finally, in relation to the CHC, let me say that I feel that, since I have been Minister, I have enjoyed a constructive relationship with the Hywel Dda CHC. I feel that its members have worked hard to try to find resolutions to service changes and that they are constructive in the proposals that they put forward. They are not always agreed by others, and some of their views are not agreed with by the panel, but I certainly think that they discharge a difficult job with care and dedication, and I am very happy to put that on the record this afternoon.

Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at arweinydd obstetreg neu fydwreigiaeth; mae'n cyfeirio at 'arweinwyr'. Credaf mai'r hyn y mae'n ei olygu yw bod gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda arweinydd pediatrig eisoes, ac y dylai fod arweinwyr obstetreg a bydwreigiaeth yn y tri safle fel y gellir trafod y rhyngwyneb hwnnw'n briodol. Yn olaf, o ran y CIC, gadewch imi ddweud fy mod yn teimlo, ers imi fod yn Weinidog, fod fy mherthynas â Chyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda yn un adeiladol. Rwyf yn teimlo bod ei aelodau wedi gweithio'n galed i geisio dod o hyd i atebion i newid gwasanaethau a'u bod yn adeiladol o ran y cynigion a gyflwynir ganddynt. Nid yw eraill yn cytuno â hwy bob amser, ac nid yw'r panel yn cytuno â rhai o'u safbwyntiau, ond rwyf yn sicr yn credu eu bod yn cyflawni gwaith anodd â gofal ac ymroddiad, ac rwyf yn hapus iawn i roi hynny ar gofnod y prynhawn yma.

15:15 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, these issues were brought to you because the CHC could not support the plans previously. You have referred to the CHC several times this afternoon and you have said that it has already been working on the detail of the Prince Philip proposals. Can you clarify whether the CHC now supports the proposed way forward on both matters?

Weinidog, daethpwyd â'r materion hyn atoch gan nad oedd y Cyngor Iechyd Cymuned yn gallu cefnogi'r cynlluniau o'r blaen. Rydych wedi cyfeirio at y Cyngor Iechyd Cymuned sawl gwaith y prynhawn yma ac rydych wedi dweud ei fod eisoes wedi bod yn gweithio ar fanylion cynigion Ysbyty'r Tywysog Philip. A allwch egluro a yw'r Cyngor Iechyd Cymuned bellach o blaid y ffordd ymlaen a gynigiwyd ar y ddau fater hyn?

Turning to the scrutiny panel's report, it says that patients sent to Prince Philip Hospital by their GPs as emergency admissions would be seen directly by specialist medical teams without having to go through A&E. Do you envisage that this will take some of the pressure off A&E and therefore reduce waiting times for patients in Prince Philip Hospital more generally?

I droi at adroddiad y panel craffu, mae'n dweud y byddai cleifion a anfonir i Ysbyty'r Tywysog Philip gan eu meddygon teulu fel derbyniadau brys yn cael eu gweld yn uniongyrchol gan dimau meddygol arbenigol heb orfod mynd drwy'r adran damweiniau ac achosion brys. A ydych yn rhagweld y bydd hyn yn ysgafnhau rhywfaint ar y pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys ac felly'n lleihau amseroedd aros i gleifion yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn fwy cyffredinol?

The panel also says that the model you have agreed will result in fewer patients being sent to other hospitals, or other departments within Prince Philip Hospital, and more patients being treated in a single visit. How will you monitor that and other outcomes to ensure that some of the improved patient experiences described by the panel are actually delivered to patients?

Mae'r panel hefyd yn dweud y bydd y model yr ydych wedi cytuno arno'n golygu y bydd llai o gleifion yn cael eu hanfon i ysbytai eraill, neu i adrannau eraill yn Ysbyty'r Tywysog Philip, ac y bydd mwy o gleifion yn cael eu trin mewn un ymweliad. Sut y byddwch yn monitro hynny a chanlyniadau eraill i sicrhau bod rhai o'r profiadau gwell i gleifion a ddisgrifir gan y panel yn cael eu darparu mewn gwirionedd i gleifion?

15:16 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Rebecca Evans—

Diolch i Rebecca Evans—

15:16 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I do have some more questions, although several have already been raised.

Weinidog, mae gennyf ragor o gwestiynau, er bod llawer ohonynt eisoes wedi cael eu gofyn.

I want to ask you, Minister, about communicating decisions with the public regarding reconfiguration. There are some false rumours circulating locally about Prince Philip Hospital that are giving people some real cause for concern, for example, it is reported that the critical care unit will be closing. Will you provide reassurances today that those rumours are entirely false and that the critical care unit will continue to be operational at Prince Philip?

Hoffwn ofyn ichi, Weinidog, am gyfathrebu â'r cyhoedd am benderfyniadau ynghylch ad-drefnu. Mae rhai sibrydion cyfeiliornus yn lleol am Ysbyty'r Tywysog Philip sy'n achosi pryder gwirioneddol i bobl; er enghraifft, mae sôn y bydd yr uned gofal critigol yn cau. A wnewch chi roi sicrwydd heddiw nad yw'r sibrydion hynny'n wir ac y bydd yr uned gofal critigol yn parhau i weithredu yn Ysbyty'r Tywysog Philip?

Several of my questions about transport have been addressed, but the original health board consultation document referred to discussions taking place at an all-Wales level regarding the Wales air ambulance helicopter service and turning it into a 24-hour service to reduce some of the geographical challenges. Would you provide an update on those discussions, particularly as they affect the matters being discussed today?

Mae llawer o'm cwestiynau am gludiant wedi cael sylw, ond roedd dogfen ymgynghori wreiddiol y bwrdd iechyd yn cyfeirio at y trafodaethau sy'n digwydd ar lefel Cymru gyfan ynglŷn â gwasanaeth hofrennydd ambiwlans awyr Cymru a'i droi'n wasanaeth 24-awr i leihau rhai o'r heriau daearyddol. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny, yn enwedig o safbwynt y materion sy'n cael eu trafod heddiw?

15:17 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much to Rebecca Evans for those questions. She is right to point to the fact that the panel believes that the benefits of the model for emergency care at Prince Philip Hospital that it endorses and recommends will have a series of other benefits beyond the immediate provision of emergency care. It does indeed say that it will allow more patients to be admitted directly to the specialist care that they require, that there will be fewer patients sent to other hospitals and that more patients will be treated in a single visit. It also says that there will be a greater likelihood of dealing with more patients with more complicated medical needs, and that there will be better co-operation between out-of-hours services and the new department as it sees it. I want to make sure that we put those advantages clearly on the record today. Of course, I would expect the local health board to monitor the impact of the changes to test those advantages against the actual patient experience and to be able to demonstrate, once the new service has had a chance to establish itself, that it is indeed delivering the additional benefits that the panel says it will.

Diolch yn fawr iawn i Rebecca Evans am y cwestiynau hynny. Mae hi'n iawn i dynnu sylw at y ffaith fod y panel yn credu y bydd manteision y model ar gyfer gofal brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip y mae'n ei gymeradwyo ac yn ei argymell yn esgor ar gyfres o fanteision eraill y tu hwnt i ddarparu gofal brys. Ydy, mae'n dweud y bydd yn caniatáu i fwy o gleifion gael eu derbyn yn uniongyrchol i gael y gofal arbenigol sydd ei angen arnynt, y caiff llai o gleifion eu hanfon i ysbytai eraill ac y caiff mwy o gleifion eu trin mewn un ymweliad. Mae hefyd yn dweud ei bod yn fwy tebygol y bydd modd ymdrin â mwy o gleifion sydd ag anghenion meddygol mwy cymhleth, ac y bydd gwell cydweithio rhwng gwasanaethau y tu allan i oriau arferol a'r adran newydd fel y mae'n ei gweld. Hoffwn wneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r manteision hynny'n glir ar gofnod heddiw. Wrth gwrs, byddwn yn disgwyl i'r bwrdd iechyd lleol fonitro effaith y newidiadau er mwyn profi'r manteision hynny yn erbyn profiad gwirioneddol cleifion, a gallu dangos, cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth newydd wedi cael cyfle i ymsefydlu, ei fod, mewn gwirionedd, yn darparu'r manteision ychwanegol y mae'r panel yn dweud y bydd yn eu darparu.

As far as the critical care unit is concerned, I think that the report is unambiguous there too. Its proposals take as given the continuation of the critical care unit at Prince Philip. The local health board has confirmed to me that it has no plans of any sort for that unit not to continue.

O ran yr uned gofal critigol, credaf fod yr adroddiad yn ddiamwys yn hynny o beth hefyd. Mae ei gynigion yn cymryd yn ganiataol y bydd yr uned gofal critigol yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn parhau. Mae'r bwrdd iechyd lleol wedi cadarnhau imi nad oes ganddo ddim cynlluniau o unrhyw fath i'r uned honno beidio â pharhau.

In relation to the air ambulance service, I was very pleased to have the opportunity to visit the air ambulance during the summer recess. I was almost strapped in to the helicopter, to have a look to see what it does, when an emergency call came in and I was turfed out so that it could go about its real business. I was able to discuss with the chief executive there the plans that they already have. Members will be aware of recent reports of the extra journeys that it has been able to undertake through the extended flying hours that its latest helicopter, based at Welshpool, is able to provide. It is important to say that the advice I have received is that air ambulance transport is not suitable for newborn babies; it cannot be used in that context. However, we continue to have close discussions with the air ambulance service about the contribution that it can make, of the sort that Rebecca Evans outlined.

O ran y gwasanaeth ambiwlans awyr, roeddwn yn falch iawn o gael cyfle i ymweld â'r ambiwlans awyr yn ystod toriad yr haf. Roeddwn bron â chau fy ngwregys yn yr hofrennydd, i gael gweld beth y mae'n ei wneud, pan gafwyd galwad frys a bu'n rhaid fy nhaflu allan fel y gallai wneud ei gwaith go iawn. Cefais drafodaeth â'r prif weithredwr yno am y cynlluniau sydd ganddynt eisoes. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o adroddiadau diweddar am y teithiau ychwanegol y mae wedi gallu eu gwneud o ganlyniad i'r oriau hedfan estynedig y mae ei hofrennydd diweddaraf, sydd wedi'i lleoli yn y Trallwng, yn gallu eu darparu. Mae'n bwysig dweud mai'r cyngor a gefais yw nad yw cludiant ambiwlans awyr yn addas i fabanod newydd-anedig; ni ellir ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gael trafodaethau agos â'r gwasanaeth ambiwlans awyr am y cyfraniad y gall ei wneud, fel yr amlinellodd Rebecca Evans.

15:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I still have five Members who want to ask questions. Given the importance of this statement, I intend to call you. We are nearly out of our allocated time, so you will have one minute to put your question, please—you will have to be very focused.

Mae gennyf bum Aelod o hyd sydd am ofyn cwestiynau. Ac ystyried pwysigrwydd y datganiad hwn, rwyf yn bwriadu galw arnoch chi. Mae'r amser a ddyrannwyd inni bron ar ben, felly cewch un funud i ofyn eich cwestiwn, os gwelwch yn dda—bydd rhaid ichi ganolbwyntio'n ofalus.

15:20 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I have to say that I welcome Hywel Dda getting a level 2 special care baby unit. It was a key recommendation of the Children and Young People Committee's report. However, what I would like to challenge is why it has to be at Glangwili, when there are four hospitals that are within spitting distance of each other there; why can it not be at Withybush? I have looked at the numbers; I have crunched the number of live births versus the special care days that are required by each hospital. I read in the report that the scrutiny panel thinks that if the unit were not at Carmarthen, those mothers would go to Swansea rather than Withybush. However, an awful lot of mothers would go to Withybush, as it is on the borders. We have to look to the future, Minister.

Yn gyntaf oll, rhaid imi ddweud fy mod yn croesawu'r ffaith y bydd Hywel Dda yn cael uned gofal arbennig lefel 2 i fabanod. Roedd yn un o argymhellion allweddol adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, yr hyn yr hoffwn ei herio yw pam mae'n rhaid iddi fod yng Nglangwili, lle mae pedwar ysbyty o fewn pellter poeri i'w gilydd; pam na all fod yn Llwynhelyg? Rwyf wedi edrych ar y niferoedd; rwyf wedi cymharu nifer y genedigaethau byw â nifer y dyddiau gofal arbennig sydd eu hangen ym mhob ysbyty. Darllenais yn yr adroddiad fod y panel craffu yn credu, pe na bai'r uned yng Nghaerfyrddin, y byddai'r mamau hynny'n mynd i Abertawe yn hytrach nag i Lwynhelyg. Fodd bynnag, byddai llawer iawn o famau'n mynd i Lwynhelyg, gan ei fod ar y ffin. Rhaid inni edrych tua'r dyfodol, Weinidog.

My second question, which I would like to get in quickly, is that I do not understand why the authors of the report did not also look at paediatric services, because the two are so interlinked. I note that they believe that there is a model of special care baby unit that can be offered that does not need trainees, because at the root of all of this is the deanery changing its practice and methodology from a system that has always worked well to a system that can only be described as city-friendly, and certainly not rural-Wales-friendly.

Fy ail gwestiwn, yr hoffwn ei ofyn yn gyflym, yw nad wyf yn deall pam nad edrychodd awduron yr adroddiad hefyd ar wasanaethau pediatrig, gan fod cymaint o gysylltiad rhwng y ddau. Nodaf eu bod yn credu bod model uned gofal arbennig i fabanod y gellir ei gynnig heb fod angen hyfforddeion, oherwydd yr hyn sydd wrth wraidd hyn oll yw newid arferion a methodoleg y ddeoniaeth o system sydd wastad wedi gweithio'n dda i system na ellir ond ei disgrifio fel un sy'n ffafrio dinasoedd, ac sy'n sicr ddim yn ffafrio Cymru wledig.

15:21 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Angela Burns for those questions. The panel looked at those issues that were referred to me by the CHC. Its remit did not extend beyond that because those are not decisions that fall to me to make. The panel recommends that the level 2 unit be located at Glangwili for two main reasons, I believe. One is the point with which she ended her question, which is the issue of staffing. The panel believes that it is more likely to be able to recruit and retain staff for a level 2 unit at Glangwili than at another site in the Hywel Dda area. The second, and maybe more significant, reason is that some level 1 unit babies become level 2 unit babies because they need extra care, and some level 2 unit babies become level 3 unit babies because they need even more care. It does not make sense, I think that the panel has concluded, to move the level 2 unit further away from the level 3 unit when the close proximity between the two could well be important to patients.

Diolch i Angela Burns am y cwestiynau hynny. Edrychodd y panel ar y materion hynny a gafodd eu hatgyfeirio ataf gan y Cyngor Iechyd Cymuned. Nid oedd ei gylch gwaith yn ymestyn y tu hwnt i hynny oherwydd nid fy lle i yw gwneud y penderfyniadau hynny. Credaf fod y panel yn argymell lleoli'r uned lefel 2 yng Nglangwili am ddau brif reswm. Un yw'r pwynt a wnaeth ar ddiwedd ei chwestiwn, sef staffio. Mae'r panel yn credu ei bod yn fwy tebygol y bydd modd recriwtio a chadw staff ar gyfer uned lefel 2 yng Nglangwili nag ar safle arall yn ardal Hywel Dda. Yr ail reswm, a'r mwyaf arwyddocaol efallai, yw bod rhai babanod uned lefel 1 yn troi'n fabanod uned lefel 2 oherwydd bod angen gofal ychwanegol arnynt, a bod rhai babanod uned lefel 2 yn troi'n fabanod uned lefel 3 oherwydd bod angen mwy fyth o ofal arnynt. Credaf mai casgliad y panel yw nad yw'n gwneud synnwyr symud yr uned lefel 2 ymhellach i ffwrdd o'r uned lefel 3 pan allai fod yn bwysig i gleifion eu bod yn agos at ei gilydd.

15:22 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to Prince Philip Hospital, Minister, could you confirm that if a patient turns up at Prince Philip A&E, or whatever it becomes, after the new proposals are implemented, they can expect to receive all those services that they currently receive?

O ran Ysbyty'r Tywysog Philip, Weinidog, a allech gadarnhau, pe bai claf yn cyrraedd adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty'r Tywysog Philip, neu beth bynnag y'i gelwir ar ôl rhoi'r cynigion newydd ar waith, y gallai ddisgwyl cael yr holl wasanaethau hynny y mae'n eu cael ar hyn o bryd?

Moving swiftly on in my minute, I welcome, as Angela Burns did, the level 2 unit that is going to be provided in the Hywel Dda area, perhaps in Glangwili if not Withybush. However, I have to say that there is no getting around the fact that Carmarthen is a long way from some Pembrokeshire communities. The time can vary from an hour to an hour and a half to get a baby and its mother to a facility. I know that you are going to take care of the planned situation, and that you have done so already, but I am talking here about the emergency situation—you have heard me bang on about this, and I have not changed my mind. I want reassurances, Minister, that whatever is put in Withybush—I know that something will be put in Withybush—will be able to provide the level of care that will be needed in an emergency situation before a mother and baby, however they are moved on, are moved on, without fear for the parents.

A symud ymlaen yn gyflym yn fy munud, rwyf yn croesawu, fel y gwnaeth Angela Burns, yr uned lefel 2 a ddarperir yn ardal Hywel Dda, efallai yng Nglangwili os nad yn Llwynhelyg. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud na ellir gwadu bod Caerfyrddin yn bell o rai o gymunedau sir Benfro. Gall gymryd rhwng awr ac awr a hanner i faban a'i fam gyrraedd cyfleuster. Gwn y byddwch yn gofalu am sefyllfaoedd a gynlluniwyd, a'ch bod wedi gwneud hynny eisoes, ond sôn yr wyf am sefyllfaoedd brys—rydych wedi fy nghlywed yn rhygnu ymlaen am hyn, ac nid wyf wedi newid fy meddwl. Hoffwn gael sicrwydd, Weinidog, y bydd beth bynnag a roddir yn Llwynhelyg—gwn y caiff rhywbeth ei roi yn Llwynhelyg—yn gallu darparu'r gofal y bydd ei angen mewn argyfwng cyn i fam a baban gael eu symud, sut bynnag y bydd hynny'n digwydd, heb beri ofn i'r rhieni.

15:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

15:24

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those will be the questions that people will be asking us.

Dyna'r cwestiynau y bydd pobl yn eu gofyn inni.

15:24

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Joyce Watson for both those questions. She is right that the model that the panel proposed for A&E at Prince Philip largely leaves the current set of services as it is and able to continue. She makes the important point about emergency need for level 2 services for neonatology in the Pembrokeshire area. I have not yet had a chance to emphasise the recommendation that the panel makes that staff at the Withybush site would need to have extra training in stabilisation and resuscitation so that they can do exactly what Joyce Watson said, which would be to provide assurance to parents that, were an emergency to arise, they could do everything that was needed immediately, prior to transfer to a unit able to deal with that set of needs.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am y ddau gwestiwn hynny. Mae hi'n gywir bod y model a gynigiodd y panel ar gyfer adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty'r Tywysog Philip yn golygu y bydd y gwasanaethau cyfredol i raddau helaeth yn aros fel ag y maent, ac y gallant barhau. Mae hi'n gwneud y pwynt pwysig am yr angen brys am wasanaethau lefel 2 ar gyfer neonatoleg yn ardal sir Benfro. Nid wyf wedi cael cyfle eto i bwysleisio argymhelliad y panel y byddai angen i staff safle Llwynhelyg gael hyfforddiant ychwanegol mewn sefydlogi a dadebru fel y gallant wneud yn union yr hyn a ddywedodd Joyce Watson, sef rhoi sicrwydd i rieni, pe bai argyfwng yn digwydd, y gallent wneud popeth y byddai ei angen ar unwaith, cyn trosglwyddo i uned a allai ymdrin â'r anghenion hynny.

15:25

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, even the return of George North would not put a smile on the faces of the people of Llanelli today—they will be heavy-hearted and despondent at this news. Albeit that you have had a professional panel that has given you this advice, the fact that will be noted is that a Labour Minister in a Labour Government has done this.

Weinidog, ni fyddai hyd yn oed ddychweliad George North yn rhoi gwên ar wynebau pobl Llanelli heddiw—byddant yn digalonni ac yn anobeithio o glywed y newyddion hyn. Er mai panel proffesiynol a roddodd y cyngor hwn ichi, y ffaith a nodir yw mai Gweinidog Llafur mewn Llywodraeth Lafur a wnaeth hyn.

May I ask you two quick questions? Why was no consideration given by this panel to a doctor-led unit to replace that which is available in Prince Philip? Having talked to emergency practitioners there, it was clearly their view of what could happen there. They would have supported that and I think that you would have had more widespread support in the local community for that. The second point is around how you are now going to organise things between Prince Philip and Morriston Hospital? The report does make it clear, unless you have misread it, Minister, that these proposals could have a significant impact on Morriston Hospital, yet the proposals in Abertawe Bro Morgannwg take no account of this happening in Prince Philip. There is no direct bus service from Llanelli to Morriston and your ambulances are not getting there on time. What arrangements are you going to make to ensure that this configuration with Morriston and Prince Philip will now work better than it does at present?

A gaf i ofyn dau gwestiwn cyflym ichi? Pam na wnaeth y panel hwn ystyried uned wedi'i harwain gan feddygon i gymryd lle'r hyn sydd ar gael yn Ysbyty'r Tywysog Philip? Ar ôl siarad ag ymarferwyr argyfwng yno, roedd yn amlwg mai dyna oedd eu barn hwy am yr hyn a allai ddigwydd yno. Byddent wedi cefnogi hynny ac rwyf yn meddwl y byddech wedi cael cefnogaeth ehangach yn y gymuned leol i hynny. Mae'r ail bwynt yn ymwneud â sut yr ydych yn awr yn mynd i drefnu pethau rhwng Ysbyty'r Tywysog Philip ac Ysbyty Treforys? Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir, oni bai eich bod wedi ei gamddarllen, Weinidog, y gallai'r cynigion hyn gael effaith arwyddocaol ar Ysbyty Treforys, ac eto nid yw'r cynigion yn Abertawe Bro Morgannwg yn rhoi dim ystyriaeth i hyn yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol o Lanelli i Dreforys ac nid yw eich cerbydau ambiwlans yn cyrraedd yno mewn pryd. Pa drefniadau ydych chi'n mynd i'w gwneud i sicrhau y bydd y trefniant hwn gyda Threforys a'r Tywysog Philip yn awr yn gweithio'n well nag y mae ar hyn o bryd?

15:26

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If the residents of Llanelli are heavy-hearted and despondent, that will be to no small degree because of the way in which they have been misled by some people who choose to interpret today's report, which I think provides an extremely good outcome for services in Llanelli and leaves them where they are today, but in a sustainable way for the future. It ill behoves people to disregard the advice of experts who have looked at this, who have looked at alternative plans, who say that there is no case for them, they cannot be delivered, they cannot be sustained and they respond to a world that is no longer there to be responded to. What the panel does is to provide the people of Llanelli with a long-term solution that provides them with the service that they need.

Os yw trigolion Llanelli yn digalonni ac yn anobeithio, bydd hynny i raddau helaeth iawn oherwydd y ffordd y cawsant eu camarwain gan rai pobl sy'n dewis dehongli'r adroddiad hwn heddiw; credaf ei fod yn cynnig canlyniad arbennig o dda i wasanaethau yn Llanelli ac yn eu cadw fel ag y maent ar hyn o bryd, ond mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Ni ddylai pobl anwybyddu cyngor arbenigwyr sydd wedi edrych ar hyn, sydd wedi edrych ar gynlluniau amgen, sy'n dweud nad oes achos drostynt, na ellir eu cyflawni, na ellir eu cynnal a'u bod yn ymateb i fyd nad yw'n bodoli mwyach. Yr hyn y mae'r panel yn ei wneud yw cynnig ateb hirdymor i bobl Llanelli sy'n darparu iddynt y gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

As far as the relationship between Llanelli and Morriston is concerned, of course the panel points to the importance of that relationship. I have often heard from people at Llanelli of the importance that they attach to being able to use services at Morriston in the future. I will expect the LHB to work with its neighbour to make sure that those services are fully available to them within the terms set out in this plan.

O ran y berthynas rhwng Llanelli a Threforys, mae'r panel yn cyfeirio, wrth gwrs, at bwysigrwydd y berthynas honno. Rwyf wedi clywed yn aml gan bobl yn Llanelli pa mor bwysig yw hi iddynt allu defnyddio gwasanaethau yn Nhreforys yn y dyfodol. Byddaf yn disgwyl i'r BILl gydweithio â'i gymydog i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny ar gael yn llawn iddynt o fewn y telerau a nodir yn y cynllun hwn.

15:28 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi, Weinidog, am yr adroddiad y prynhawn yma. Fel yr unig un yn y Siambr hon sydd wedi bod yn Ysbyty Tywysog Philip ac yn Nhreforys, yr hyn rwyf wedi bod yn gofyn amdano am dair blynedd gan yr awdurdod iechyd yw cael cadw'r hyn sydd gyda ni yn Ysbyty Tywysog Philip. Pan es i mewn yno am wythnos, beth oedd gennym oedd meddygon, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, sef yn gymwys yr hyn mae'r panel craffu wedi ei ddweud. Hefyd, o ddarllen beth sydd yn yr adroddiad, rydym yn gwella'r sefyllfa, nid yn ei gwaethygu. Mae'n bwysig i'r bobl sy'n byw yn nyffryn Aman a chwm Tawe wybod bod Treforys a Thywysog Philip yn rhedeg gyda'i gilydd, achos dyna le mae fy nheulu i yn mynd—maen nhw naill ai'n mynd i Dywysog Philip neu i Dreforys. Rwy'n falch o weld—a rwy'n gobeithio y bydd yn y dyfodol, Weinidog—bod Ysbyty Tywysog Philip yn rhan o Abertawe Bro Morgannwg, achos y peth arall sy'n glir yn yr adroddiad hwn yw bod prifysgol gyda ni yn Abertawe sydd yn hyfforddi doctoriaid a fydd yn gallu gweithio gyda ni yn Llanelli yn ogystal â Threforys a Singleton. Rwyf yn falch iawn o weld hwn heddiw. Dyma'r peth gorau sydd wedi digwydd i mi mewn dwy flynedd yn y Siambr hon. Diolch yn fawr.

Thank you, Minister, for this afternoon's statement. As the only one in this Chamber to have been in the Prince Philip Hospital and in Morriston, what I have been asking for from the health authority for three years is to keep what we have at Prince Philip Hospital. When I was admitted there for a week, what we had were doctors, 24/7, which is exactly what the scrutiny panel has said. Also, having read the report, we are improving the situation, not making it worse. It is important that people living in the Amman and Swansea valleys know that Morriston and Prince Philip operate side by side, because that is where my family go—they either go to Prince Philip of to Morriston. I am pleased to see—and I hope that this will continue into the future, Minister—that Prince Philip Hospital is a part of Abertawe Bro Morgannwg, because the other thing that is clear from this report is that we have a university in Swansea that trains doctors who will be able to work with us in Llanelli, as well as in Morriston and Singleton. I am very pleased to see this today. This is the best thing that has happened to me in this Chamber in two years. Thank you.

15:29 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am y sylwadau y mae wedi eu gwneud y prynhawn yma. Wrth gwrs, mae'r berthynas rhwng Tywysog Philip a Threforys yn bwysig dros ben, ac mae'r panel yn cydnabod hynny. Rwy'n cytuno'n llwyr gydag ef. Beth sydd gennym heddiw yw rhywbeth sy'n mynd i wella'r sefyllfa i bobl yn Llanelli, ac rwy'n edrych ymlaen nawr i'r penderfyniad rwyf wedi ei wneud heddiw yn cael ei bwrw ymlaen a gwella'r sefyllfa i bobl yn y dyfodol.

I thank the Member for the comments that he has made this afternoon. Of course, the relationship between Prince Philip and Morriston in very important, and the panel recognises that. I completely agree with him. What we have today is something that will improve the situation for people in Llanelli, and I look forward now to the decision that I have taken today being implemented and improving the situation for people in the future.

15:30 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will have to forgive me, Minister, for not popping the champagne corks at the moment. Frankly, you are trying to suggest that what is going to be available at Prince Philip is the same as is available currently, and the reality is that it is not. You are attempting here to pull the wool over the eyes of the public in Llanelli about the future of their local hospital. You accused my party and other people in this Chamber of shroud-waving about the future of hospitals in Wales not too long ago. Yet, the reality is that today you have made an announcement to close an A&E department at Prince Philip, to downgrade services and, effectively, to put on death row neonatal services at other hospitals in west Wales. [Assembly Members: 'Oh.'] Frankly, you ought to state very clearly what you expect will still be delivered at those hospitals in the future.

Bydd yn rhaid ichi faddau imi, Weinidog, am nad wyf yn agor poteli siampên ar hyn o bryd. A dweud y gwir, rydych yn ceisio awgrymu bod yr hyn a fydd ar gael yn Ysbyty'r Tywysog Philip yr un fath â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r realiti yw nad yw hynny'n wir. Rydych yn ceisio taflu llwch i lygaid y cyhoedd yn Llanelli ynglŷn â dyfodol eu hysbyty lleol. Yn eithaf diweddar, roeddech yn cyhuddo fy mhlaid i a phobl eraill yn y Siambr hon o godi bwganod am ddyfodol ysbytai yng Nghymru. Ac eto, y gwir amdani yw eich bod heddiw wedi cyhoeddi y bydd adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn cau ac y bydd gwasanaethau'n cael eu hisraddio ac, i bob pwrpas, wedi rhoi dedfryd o farwolaeth i wasanaethau newyddenedigol yn ysbytai eraill y gorllewin. [ Aelodau Cynulliad: 'O.'] A dweud y gwir, dylech ddatgan yn glir iawn beth ydych chi'n disgwyl fydd yn dal i gael ei ddarparu yn yr ysbytai hynny yn y dyfodol.

We know that the pressure is already great on A&E departments in west Wales—

Rydym yn gwybod bod pwysau enfawr eisoes ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn y gorllewin—

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have 10 seconds left.

Dim ond 10 eiliad sydd gennych ar ôl.

15:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have some important questions.

Mae gennyf gwestiynau pwysig.

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You better get on with it.

Byddai'n well ichi frysio.

15:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be very brief and get to the questions. Can you tell us the timescales by which you expect to implement the changes at Prince Philip? Can you tell us how you are going to overcome the difficulties expressed by the scrutiny panel, which states that there are insufficient—

Byddaf yn gryno iawn a dof at y cwestiynau. A allwch ddweud wrthym beth yw'r amserlen yr ydych yn ei disgwyl o ran rhoi'r newidiadau ar waith yn Ysbyty'r Tywysog Philip? A allwch ddweud wrthym sut yr ydych yn mynd i oresgyn yr anawsterau a fynegwyd gan y panel craffu, sy'n datgan nad oes digon o—

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are out of time. You are making a second spokesperson's—

Mae eich amser ar ben. Rydych yn gwneud ail araith llefarydd—

15:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have specific questions, Deputy Presiding Officer.

Mae gennyf gwestiynau penodol, Ddirprwy Lywydd.

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Sit down.

Trefn. Eisteddwch.

15:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I shall.

Gwnaf.

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sit down. When I said I would go over time and call the other Members, I made it very clear that you would have about one minute to put one or two questions. I have been keen to call backbenchers and those who were not nominated today to make the principal party contribution. All the Members who made that contribution took some time, which we allow, but you need to take it up with the people who speak on behalf of your group if you want more time. You do not have the right, in injury time, to make a second party political contribution at that length. I call the Minister.

Eisteddwch. Pan ddywedais y byddwn yn mynd dros amser ac yn galw ar yr Aelodau eraill, dywedais yn glir iawn y byddai gennych tuag un funud i ofyn un neu ddau o gwestiynau. Roeddwn yn awyddus i alw aelodau'r meinciau cefn a'r rheini na chawsant eu henwebu heddiw i wneud prif gyfraniad eu plaid. Cymerodd pob un o'r Aelodau a wnaeth y cyfraniad hwnnw rywfaint o amser, ac rydym yn caniatáu hynny, ond mae angen ichi drafod hyn â'r bobl sy'n siarad ar ran eich grŵp os hoffech gael mwy o amser. Nid oes gennych hawl, yn ystod amser anafiadau, i wneud ail gyfraniad gwleidyddol mor hir â hwnnw. Galwaf ar y Gweinidog.

15:32 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dirprwy Lywydd, I absolutely deprecate the language used by the opposition party's health spokesperson in the contribution that he made. How often do we agree across this Chamber that the process of change is necessary in the Welsh NHS and that it is difficult, and that we as politicians and leaders of opinion, in some ways, have a responsibility to try to help that process to take place? Some very important and proper questions have been raised across the Chamber, and I have no doubt that there were some things in Darren Millar's contribution that were in that category. However, to describe the decisions that I have outlined today in the way that he did simply damages all our prospects of providing safe, sustainable and proper services for the future of patients in Wales, and I, at least, will not be deflected from the decisions that I have to make by that sort of deplorable intervention.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn gresynu'n llwyr at yr iaith a ddefnyddiodd llefarydd iechyd yr wrthblaid yn ei gyfraniad. Pa mor aml ydym ni'n cytuno ar draws y Siambr hon bod y broses o newid yn angenrheidiol yn y GIG yng Nghymru a'i bod yn anodd, a bod gennym ni fel gwleidyddion ac arweinwyr barn, mewn rhai ffyrdd, gyfrifoldeb i geisio helpu'r broses honno i ddigwydd? Mae rhai cwestiynau pwysig a phriodol iawn wedi eu gofyn ar draws y Siambr, ac rwyf yn siŵr bod rhai pethau yng nghyfraniad Darren Millar yn y categori hwnnw. Fodd bynnag, mae disgrifio'r penderfyniadau yr wyf wedi'u hamlinellu heddiw fel y gwnaeth yn niweidio ein gobeithion ni i gyd o ddarparu gwasanaethau diogel, cynaliadwy a phriodol ar gyfer dyfodol cleifion yng Nghymru, ac ni wnaf fi, beth bynnag, adael i'r math hwnnw o ymyriad gresynus fy ngwyro oddi wrth y penderfyniadau y mae'n rhaid imi eu gwneud.

15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 15:33*

*Sandy Mewies took the Chair at 15:33*

15:34

## Datganiad: Datblygu'r Sector Bwyd yng Nghymru

## Statement: Developing the Food Sector in Wales

Senedd.tv Fideo Video

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

In July, I gave Members an assurance that I would make a statement immediately on our return from recess to outline how I intend to take forward the development of support for the food industry. Today I want to share my thinking and to outline a timescale within which I will make my proposals for growth throughout our food industry.

Ym mis Gorffennaf, rhoddais sicrwydd i Aelodau y byddwn yn gwneud datganiad yn syth ar ôl dychwelyd wedi'r toriad i amlinellu sut y bwriadaf fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cymorth i'r diwydiant bwyd. Heddiw, hoffwn rannu fy syniadau ac amlinellu amserlen y byddaf yn ei defnyddio i wneud fy nghynigion ar gyfer twf yn ein diwydiant bwyd drwyddi draw.

Wales is one of the best performing countries within the European food retail market, with over 6% growth in food and drink sales last year. Agriculture, fishing and food manufacturing combined have an annual turnover in excess of £5.2 billion. The story is a good one, but there is more that can be done.

Cymru yw un o'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y farchnad adwerthu bwyd Ewropeaidd; cafwyd dros 6% o dwf yng ngwerthiant bwyd a diod y llynedd. Mae trosiant blynyddol amaethyddiaeth, pysgota a gweithgynhyrchu bwyd gyda'i gilydd dros £5.2 biliwn. Mae'n stori dda, ond mae mwy y gellir ei wneud.

My vision is that by 2020 the quality of Welsh food will enjoy increased international recognition, and food businesses will be more efficient and environmentally balanced, with supply chains more integrated, and will be adding far more value to our products here in Wales. Consumers will be making well-informed choices about the affordable and healthy food that they need, leading to significant improvements in public health. My proposal is to deliver this growth through market development, job creation, increased sales turnover, and improved gross value added for Wales. Our food sector has many advantages, including high-quality raw materials and natural grass-based farming systems. However, there are also weaknesses, including the need to develop the domestic market, and to have a more integrated supply chain that both adds value and increases the contribution of this sector to the wider Welsh economy.

Fy ngweledigaeth yw y bydd ansawdd bwyd o Gymru, erbyn 2020, yn cael mwy o gydnabyddiaeth ryngwladol, ac y bydd busnesau bwyd yn fwy effeithlon a chytbwys yn amgylcheddol, gyda chadwyni cyflenwi mwy integredig, ac y byddant yn ychwanegu llawer mwy o werth at ein cynhyrchion yma yng Nghymru. Bydd defnyddwyr yn gwneud dewisiadau gwybodus am y bwyd fforddiadwy ac iach sydd ei angen arnynt, a bydd hynny'n gwella gryn dipyn ar iechyd y cyhoedd. Fy mwriad yw cyflawni'r twf hwn drwy ddatblygu'r farchnad, creu swyddi, cynyddu trosiant gwerthiant, a chynyddu gwerth ychwanegol crynswth Cymru. Mae gan ein sector bwyd lawer o fanteision, gan gynnwys defnyddiau crai o ansawdd uchel a systemau ffermio naturiol ar laswellt. Ond mae gwendidau hefyd, gan gynnwys yr angen i ddatblygu'r farchnad ddomestig, ac i gael cadwyn gyflenwi fwy integredig sy'n ychwanegu gwerth ac yn cynyddu cyfraniad y sector hwn i economi ehangach Cymru.

I see an urgent need to establish a Welsh food and drink forum or federation of people, drawn from across the industry, to provide strong leadership, vision and much closer working between Government and business. My strategy will consist of targeted actions to deliver sustainable jobs and growth for Wales that are both economically and environmentally sound. I propose building the strategy across seven key areas, allowing Wales the opportunity to position itself as a leader in the field. First, I want to promote market development and growth. Both the domestic and the export markets have scope for more development. Better market information will be needed to identify the best opportunities for business, and to make the right choices.

Rwyf yn gweld angen brys i sefydlu fforwm bwyd a diod i Gymru neu ffederasiwn o bobl, o bob rhan o'r diwydiant, i ddarparu arweinyddiaeth gref, gweledigaeth a chydweithio agosach o lawer rhwng y Llywodraeth a busnes. Bydd fy strategaeth yn cynnwys camau gweithredu wedi'u targedu i ddarparu swyddi cynaliadwy a thwf i Gymru sy'n gadarn o safbwynt economaidd ac amgylcheddol. Rwyf yn bwriadu adeiladu'r strategaeth ar draws saith maes allweddol, gan roi cyfle i Gymru ei sefydlu ei hun fel arweinydd yn y maes. Yn gyntaf, hoffwn hyrwyddo twf a datblygiad y farchnad. Mae lle i ddatblygu'r farchnad ddomestig a'r farchnad allforio ymhellach. Bydd angen gwell gwybodaeth am y farchnad i ganfod y cyfleoedd gorau ar gyfer busnes, ac i wneud y dewisiadau cywir.

Before the summer recess, I outlined my plans for the future branding of food and drink from Wales. This will need to serve domestic and export market needs, as well as being vibrant enough to attract inward investment. We tested the 'Food and Drink Wales' identity this year, with a clear Welsh identity that has been well received by the trade. The consultation will be asking for views on the further development of the new identity, as well as on how to strengthen and sustain it. Export markets are rewarding but challenging, and establishing product recognition in new and competitive markets is not easy. Welsh lamb and Welsh beef enjoy the prestige associated with the European Union's protected food name designation, and other products can, and, I hope, will, follow a similar route. New markets, including Russia and China, are showing a keen interest in Welsh lamb, and we will focus our effort on securing export health certification to open the door.

Cyn toriad yr haf, amlinellais fy nghynlluniau ar gyfer brandio bwyd a diod o Gymru yn y dyfodol. Bydd angen i hyn wasanaethu anghenion y farchnad ddomestig a'r farchnad allforio, yn ogystal â bod yn ddigon egnïol i ddenu mewnfuddsoddi. Buom yn profi hunaniaeth 'Bwyd a Diod Cymru' eleni, gyda hunaniaeth Gymreig clir sydd wedi cael derbyniad da gan fasnachwyr. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynghylch datblygu'r hunaniaeth newydd ymhellach, yn ogystal ag ynghylch sut i'w chryfhau a'i chynnal. Mae marchnadoedd allforio'n werth chweil ond yn heriol, ac nid yw'n hawdd sefydlu cydnabyddiaeth i gynnyrch mewn marchnadoedd newydd a chystadleuol. Mae i gig oen Cymru a chig eidion Cymru'r bri sy'n gysylltiedig â dynodiad enw bwyd wedi'i amddiffyn yr Undeb Ewropeaidd; gall cynhyrchion eraill ddilyn trywydd tebyg, ac rwyf yn gobeithio gweld hynny'n digwydd. Mae marchnadoedd newydd, gan gynnwys Rwsia a Tsieina, yn dangos diddordeb brwd yng nghig oen Cymru, a byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau ardystiad iechyd allforio i agor y drws.

We must work much more closely with the largest food and drink businesses in Wales to understand their intentions and potential for growth. Small and medium-sized enterprises and microbusinesses dominate our food sector and are important at local, national and international levels. Their speciality products enhance Wales's reputation for quality food. We propose to improve awareness of the business support available to encourage growth. Foreign direct investment is an area where I want to make Wales the first choice for international food companies to locate their manufacturing and value-added processing.

Rhaid inni gydweithio'n agosach o lawer â'r busnesau bwyd a diod mwyaf yng Nghymru i ddeall eu bwriadau a'u potensial ar gyfer tyfu. Busnesau bach a chanolig a microfusnesau sydd fwyaf amlwg yn ein sector bwyd ac maent yn bwysig ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae eu cynhyrchion arbenigol yn hybu enw da Cymru am fwyd o safon. Rydym yn bwriadu gwella ymwybyddiaeth o'r cymorth busnes sydd ar gael i annog twf. Mae buddsoddi tramor uniongyrchol yn faes lle'r hoffwn sicrhau mai Cymru yw'r dewis cyntaf i gwmnïau bwyd rhyngwladol leoli eu gwaith prosesu gwerth ychwanegol a gweithgynhyrchu.

The second area that I want to address is that of food culture, heritage and tourism. The Welsh Government's strategy for tourism highlights the importance of quality local food and drink. About half of our food businesses supply the tourism sector, but supply routes can be complex. We must provide support and guidance and get better at communicating what we do well. We should all take pride in presenting Wales and Welsh food to the world.

Yr ail faes yr hoffwn roi sylw iddo yw maes diwylliant, treftadaeth a thwristiaeth bwyd. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd bwyd a diod lleol o safon. Mae tua hanner ein busnesau bwyd yn cyflenwi'r sector twristiaeth, ond gall llwybrau cyflenwi fod yn gymhleth. Rhaid inni ddarparu cymorth ac arweiniad a dysgu cyfathrebu'n well am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda. Dylem i gyd ymfalchïo mewn cyflwyno Cymru a bwyd o Gymru i'r byd.

The third area is green growth. The challenge for the food industry is to grow significantly while reducing its environmental footprint, through achieving resource efficiencies in energy, water and waste management. Food sector road maps, and the 'Towards Zero Waste' strategy, will help businesses to become more competitive, by using fewer resources, saving money, and offering better-balanced products. In the consultation, I will ask how we can use support measures, including the next rural development plan, to ensure that this positive action is an integral part of capital investment.

Y trydydd maes yw twf gwyrdd. Yr her i'r diwydiant bwyd yw tyfu'n sylweddol a lleihau ei ôl troed amgylcheddol, trwy sicrhau arbedion o ran adnoddau ynni, dŵr a rheoli gwastraff. Bydd mapiau ffordd y sector bwyd, a'r strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yn helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol, drwy ddefnyddio llai o adnoddau, arbed arian, a chynnig cynhyrchion mwy cytbwys. Yn yr ymgynghoriad, byddaf yn gofyn sut y gallwn ddefnyddio dulliau cymorth, gan gynnwys y cynllun datblygu gwledig nesaf, i sicrhau bod y gweithredu cadarnhaol hwn yn rhan annatod o fuddsoddi cyfalaf.

The fourth area is supply chain efficiency. Businesses cite increasing costs, access to finance, and distribution as significant constraints. More innovation will add value, drive efficiency and create jobs, and we must use all financial instruments to best advantage.

Y pedwerydd maes yw effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi. Mae busnesau'n dweud bod costau cynyddol, mynediad at gyllid a dosbarthu yn llesteirio cryn dipyn arnynt. Bydd mwy o arloesi yn ychwanegu gwerth, yn sbarduno effeithlonrwydd ac yn creu swyddi, a rhaid inni ddefnyddio pob offeryn ariannol cystal ag y gallwn.

The fifth area that we will tackle is the need for a more integrated food industry. Integrated supply chains, from farmer through to consumer, deliver fairer prices, improve communications, enhance quality, and build trust. The proposed food and drink federation could provide a lead on creating effective networks, for example, on skills, training and entrepreneurship, on innovation, or for export marketing.

Y pumed maes y byddwn yn ymdrin ag ef yw'r angen am ddiwydiant bwyd mwy integredig. Mae cadwyni cyflenwi integredig, o'r ffermwr i'r defnyddiwr, yn esgor ar brisiau tecach, yn gwella cyfathrebu, yn gwella ansawdd, ac yn meithrin ymddiriedaeth. Gallai'r ffederasiwn bwyd a diod arfaethedig roi arweiniad ar greu rhwydweithiau effeithiol, er enghraifft, ar sgiliau, hyfforddiant ac entrepreneuriaeth, ar arloesedd, neu ar gyfer marchnata allforio.

Food assurance and resilience is another key area to address. I want to build on the good practice that we established with partners and government across the United Kingdom, but I believe that we can go further. I want to develop a food security and industry assurance network to improve our preparedness for incidents, and our resilience when problems occur.

Mae sicrwydd a chadernid bwyd yn faes allweddol arall y mae angen ymdrin ag ef. Hoffwn adeiladu ar yr arferion da yr ydym wedi eu sefydlu â phartneriaid ac â llywodraeth ledled y Deyrnas Unedig, ond rwyf yn credu y gallwn fynd ymhellach. Hoffwn ddatblygu rhwydwaith diogelu'r cyflenwad bwyd a sicrwydd i'r diwydiant i'n galluogi i fod yn fwy parod at ddigwyddiadau, ac yn fwy cydnerth pan fydd problemau'n codi.

The final area that I want to address is health and wellbeing. Access to quality food at affordable prices is vital for us all. We all need a healthy, well-balanced diet. I am working with Cabinet colleagues to address these issues. Tackling poverty is this Government's highest priority. We need innovative thinking, and we must build on successful initiatives, such as community growing and food co-ops, to lessen the need for food banks. We need to ensure that people can make informed choices to support improved nutrition and healthy living. Working with the industry on product development and improving communications on healthy living and healthy eating will be the key to addressing this.

Y maes olaf yr hoffwn roi sylw iddo yw iechyd a lles. Mae mynediad at fwyd o safon am brisiau fforddiadwy yn hanfodol inni i gyd. Mae angen deiet iach a chytbwys ar bawb. Rwyf yn gweithio gyda'm cyd-weithwyr yn y Cabinet i ymdrin â'r materion hyn. Trechu tlodi yw prif flaenoriaeth y Llywodraeth hon. Mae angen meddwl yn arloesol, a rhaid inni adeiladu ar fentrau llwyddiannus, megis tyfu cymunedol a chydweithfeydd bwyd, er mwyn lleihau'r angen am fanciau bwyd. Mae angen inni sicrhau y gall pobl wneud dewisiadau gwybodus i gefnogi gwell maeth a byw'n iach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd yn hollbwysig gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu cynnyrch a gwella cyfathrebu ynghylch byw'n iach a bwyta'n iach.

I want to take forward and lead this debate over the coming months, and I will be publishing a route-map to set out my proposed actions and timetable. I want to lead a discussion throughout Wales and will be speaking to industry and other stakeholders to create a rich and vibrant debate about the place of food in our society. I have briefly outlined my proposals to deliver sustainable jobs, green growth, improved health and wellbeing.

Rwyf am fwrw ymlaen â'r ddadl hon a'i harwain dros y misoedd nesaf, a byddaf yn cyhoeddi trywydd i amlinellu fy nghamau gweithredu a'm hamserlen arfaethedig. Hoffwn arwain trafodaeth ledled Cymru, a byddaf yn siarad â'r diwydiant ac â rhanddeiliaid eraill i greu dadl gyfoethog a bywiog am le bwyd yn ein cymdeithas. Rwyf wedi rhoi amlinell byr o'm cynigion i ddarparu swyddi cynaliadwy, twf gwyrdd, gwell iechyd a lles.

The strategy will set the vision for both Government and industry, ensuring that both are accountable for delivering results. I will be setting out the proposed targets and milestones in the consultation and will welcome widespread debate. I want the food industry, stakeholders and Government to work together to achieve results and I am confident that together we can set our sights high and reach beyond our expectations.

Bydd y strategaeth yn gosod y weledigaeth ar gyfer y Llywodraeth a'r diwydiant, ac yn sicrhau bod y naill a'r llall yn atebol am gyflawni canlyniadau. Byddaf yn amlinellu'r targedau a'r cerrig milltir arfaethedig yn yr ymgynghoriad a byddaf yn croesawu dadl eang. Rwyf am i'r diwydiant bwyd, rhanddeiliaid a'r Llywodraeth gydweithio i gyflawni canlyniadau ac rwyf yn hyderus y gallwn, gyda'n gilydd, anelu'n uchel ac ymestyn y tu hwnt i'n disgwyliadau.

15:41 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I call the Conservative spokesperson, Antoinette Sandbach.

Diolch, Weinidog. Galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr, Antoinette Sandbach.

15:41 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. Minister, thank you for your statement. I am delighted to see your vision in paragraph 3 of your statement, and I think that there is very little in that vision that people could disagree with. I think that we all appreciate and want the quality of Welsh food to enjoy increased international recognition, and all the factors that you mentioned are clearly important. I am particularly glad that, in that paragraph, you identified, as one of your key areas to address, improved gross value added for Wales. The latest gross value added figures in the food, agricultural and fisheries sector, published in December 2012, show that GVA fell from 2.1% in 1997 to 0.3% in 2010. Clearly, there is real room for growth. Wales now stands as the lowest contributor in GVA in this area, compared to all the other nations of the UK. Scotland, Northern Ireland and England all do better than us in this area. Therefore, I am delighted to see that you are bringing that emphasis into the food sector because, clearly, there is a lot of room for improvement. Even with those GVA figures, the sector employs 21.4% of the working people in the Welsh economy. So, your aim to link that with jobs and tourism—[Interruption.] It is the food and agriculture sector combined. It is 17.7%, with a further 4.4% in the agriculture sector. I can show you the figures if you need them, Minister.

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Weinidog, diolch am eich datganiad. Rwyf yn falch iawn o weld eich gweledigaeth ym mharagraff 3 eich datganiad, a chredaf nad oes rhyw lawer yn y weledigaeth honno y gallai unrhyw un anghytuno ag ef. Rwyf yn meddwl ein bod i gyd yn gwerthfawrogi ansawdd bwyd o Gymru, ac yr hoffem iddo gael mwy o gydnabyddiaeth ryngwladol, ac mae'r holl ffactorau y soniasoch amdanynt yn bwysig, wrth gwrs. Rwyf yn arbennig o falch eich bod, yn y paragraff hwnnw, wedi nodi mai un o'ch meysydd allweddol i ymdrin â hwy yw gwell gwerth ychwanegol crynswth yng Nghymru. Mae’r ffigurau diweddaraf ar gyfer gwerth ychwanegol crynswth yn y sector bwyd, amaethyddiaeth a physgodfeydd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012, yn dangos bod GYC wedi disgyn o 2.1% yn 1997 i 0.3% yn 2010. Yn amlwg, mae llawer o le i dyfu. Cymru bellach yw’r cyfrannwr isaf o ran GYC yn y maes hwn, o’i chymharu â holl wledydd eraill y DU. Mae’r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr i gyd yn gwneud yn well na ni yn hyn o beth. Felly, rwyf yn falch iawn o weld eich bod yn dod â'r pwyslais hwnnw i’r sector bwyd oherwydd, yn amlwg, mae llawer o le i wella. Hyd yn oed gyda’r ffigurau GYC hynny, mae'r sector yn cyflogi 21.4% o'r bobl sy'n gweithio yn economi Cymru. Felly, mae eich nod o gysylltu hynny â swyddi a thwristiaeth—[Torri ar draws.] Y sector bwyd ac amaethyddiaeth gyda'i gilydd yw hynny. Mae'n 17.7%, gyda 4.4% arall yn y sector amaethyddol. Gallaf ddangos y ffigurau ichi os oes eu hangen arnoch, Weinidog.

I would like to know whether you will regard the Welsh food and drink forum’s decisions or recommendations as binding, because, really, there is no point setting up another glorified task and finish group that does not have binding decisions or decisions that you will give proper and due regard to, in terms of considering how you take these things forward.

Hoffwn wybod a fyddwch yn ystyried bod penderfyniadau neu argymhellion y fforwm bwyd a diod o Gymru yn rhai terfynol, oherwydd, mewn gwirionedd, nid oes diben sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen crand arall nad yw’n gwneud penderfyniadau sy’n rhwymo neu benderfyniadau y byddwch yn rhoi sylw priodol a dyledus iddynt, o ran ystyried sut y byddwch yn bwrw ymlaen â’r pethau hyn.

In terms of your foreign direct investment and your promotion of food and drink overseas, will you tell us how you are planning to partner with UKTI, particularly, as you have identified—and I agree with your identification—that the smaller and medium sized enterprises and the microbusinesses are particularly those that need access to help to grow? The largest food and drink businesses in Wales will already have expertise that is not available to those small and medium-sized enterprises and microbusinesses. When you publish the business support available, will you also make sure that it is available in a format that is circulated to all Assembly Members and that we can publicise? I went to the Mold food and drink festival last weekend, which was an excellent event, and I spoke to a lot of the producers there about some of the support that might be available from the Welsh Government and how they could access it. It is important to have that in a format that is easy to understand and that the application process is not too complicated.

O ran eich buddsoddi tramor uniongyrchol a'ch gwaith i hyrwyddo bwyd a diod dramor, a wnewch chi ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu bod yn bartner i UKTI, yn enwedig gan eich bod wedi nodi—ac rwyf yn cytuno â hyn—mai ar fusnesau bach a chanolig a microfusnesau yn fwyaf penodol y mae angen cymorth i dyfu? Bydd gan y busnesau bwyd a diod mwyaf yng Nghymru eisoes arbenigedd nad yw ar gael i'r busnesau bach a chanolig a’r microfusnesau hynny. Pan fyddwch yn cyhoeddi’r cymorth busnes sydd ar gael, a wnewch chi hefyd yn siŵr ei fod ar gael ar ffurf sy'n cael ei dosbarthu i holl Aelodau'r Cynulliad ac y gallwn roi cyhoeddusrwydd i hynny? Bûm yng ngŵyl bwyd a diod yr Wyddgrug y penwythnos diwethaf, a oedd yn ddigwyddiad rhagorol, a siaradais â llawer o'r cynhyrchwyr yno am rywfaint o’r cymorth a allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru a sut y gallent gael gafael arno. Mae'n bwysig bod hynny ar ffurf sy'n hawdd ei deall ac nad yw'r broses ymgeisio’n rhy gymhleth.

Finally, Minister, Suzy Davies is going to deal with the link-up between tourism and food, so I will not cover that area. However, £4.25 million has been invested by the Welsh Government in the True Taste awards. I was very disappointed to see that those awards had been abolished in effect without consultation. That is a substantial amount of money. I know that you said that you have tested the food and drink Wales identity this year with the trade, but few in the trade knew that you were going to abolish the True Taste awards, and they are concerned about it. Will you be testing what the brand recognition is for the True Taste awards, and will your consultation include an option to keep them? Given that £4.25 million has been spent on them, you are writing off an already substantial investment, and one which is already linked to branding and products in terms of their packaging. So, there will be substantial additional costs for food producers who have been the beneficiaries of those awards and who will have to change their marketing.

Yn olaf, Weinidog, bydd Suzy Davies yn ymdrin â'r cyswllt rhwng twristiaeth a bwyd, felly ni soniaf am hynny. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £4.25 miliwn yng ngwobrau Gwir Flas. Roeddwn yn siomedig iawn o weld bod y gwobrau hynny wedi eu diddymu i bob pwrpas heb ymgynghori. Mae hynny'n swm sylweddol o arian. Gwn eich bod wedi dweud eich bod wedi profi hunaniaeth bwyd a diod Cymru eleni gyda'r diwydiant, ond nid oedd llawer o fasnachwyr yn gwybod eich bod yn mynd i ddiddymu gwobrau Gwir Flas, ac maent yn pryderu am hynny. A fyddwch yn profi cydnabyddiaeth brand gwobrau Gwir Flas, ac a fydd eich ymgynghoriad yn cynnwys opsiwn i'w cadw? O gofio bod £4.25 miliwn wedi ei wario arnynt, rydych yn dileu buddsoddiad sydd eisoes yn sylweddol, ac un sydd eisoes yn gysylltiedig â brandio a chynhyrchion o ran eu deunydd pacio. Felly, bydd costau ychwanegol sylweddol i gynhyrchwyr bwyd sydd wedi elwa o'r gwobrau hynny ac a fydd yn gorfod newid eu deunydd marchnata.

Finally, one of the major areas that food producers raise with me is access to distribution, particularly for smaller producers. I am grateful that you mentioned access to finance and distribution in your fourth area as one of the key things that you will be looking at. For the smaller producer, that is the key element for getting their product out across Wales and internationally.

Yn olaf, un o'r prif bynciau y mae cynhyrchwyr bwyd yn eu codi gyda mi yw mynediad at ddosbarthu, yn enwedig ymysg cynhyrchwyr llai. Rwyf yn ddiolchgar ichi grybwyll mynediad at gyllid a dosbarthu yn eich pedwerydd maes fel un o'r prif bethau y byddwch yn edrych arnynt. I'r cynhyrchwyr llai, mae hon yn elfen allweddol o ran sicrhau bod eu cynnyrch ar gael ar draws Cymru ac yn rhyngwladol.

If I can just add, do not forget—

Os caf ychwanegu, peidiwch ag anghofio—

15:47

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is your fourth 'finally'.

Dyma eich pedwerydd 'yn olaf'.

15:47

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do not forget the National Federation of Women's Institutes' Great Food Debate campaign, which indicates that when you are looking at food co-operatives and access to good vegetables and fruit that are available through those co-ops, people need the skills to be able to cook. If they have cooking skills, that enables them to have the potential to turn the skills that they have into new products, and to then set up their own businesses.

Peidiwch ag anghofio ymgyrch Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched, y Ddadl Fawr ar Fwyd, sy'n dangos, pan edrychwch ar gydweithfeydd bwyd a mynediad at lysiau a ffrwythau da sydd ar gael drwy'r cydweithfeydd hynny, fod angen sgiliau ar bobl i allu coginio. Os oes sgiliau coginio ganddynt, mae hynny'n golygu ei bod yn bosib iddynt droi'r sgiliau sydd ganddynt yn gynhyrchion newydd, ac yna sefydlu eu busnesau eu hunain.

15:47

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly have not forgotten about the WI campaign—I have met the WI, as you know, and I am very supportive of the work that it does. I think that it is doing a great job, and I certainly want to help and support the work that it is currently undertaking.

Yn sicr, nid wyf wedi anghofio am ymgyrch y WI—rwyf wedi cwrdd â'r WI, fel y gwyddoch, ac rwyf yn gefnogol iawn i'r gwaith y maent yn ei wneud. Credaf eu bod yn gwneud gwaith gwych, ac yn sicr hoffwn helpu a chefnogi'r gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.

I thank the Conservative spokesperson for her generally positive response to the statement with the vision that I tried to outline this afternoon. I will say to her right at the beginning that we will be setting very clear timetabled targets, so you can hold us to account for what we promise and what we say we will do. We will carry out those activities, and we will focus on creating targets for growth in different sectors. One of the conversations that we had during summer recess with the dairy taskforce that I have established was about the need to promote and stimulate confidence in the sector. One of the ways in which we can persuade people to make the necessary investments is to ensure that we have clear targets for growth, and that the Government backs those targets with actions. We will be backing those targets, working with my colleague the Minister for enterprise, to stimulate economic activity and the creation of wealth in rural Wales, and to ensure that we have integrated supply chains that add value to raw materials and products within our communities.

Diolch i lefarydd y Ceidwadwyr am ei hymateb cadarnhaol at ei gilydd i'r datganiad a'r weledigaeth y ceisiais ei hamlinellu'r prynhawn yma. Dywedaf wrthi ar y cychwyn cyntaf y byddwn yn gosod targedau clir iawn yn unol ag amserlen, er mwyn ichi allu ein dal yn atebol am yr hyn yr ydym yn ei addo a'r hyn yr ydym yn dweud y byddwn yn ei wneud. Byddwn yn gwneud y pethau hynny, a byddwn yn canolbwyntio ar greu targedau ar gyfer twf mewn gwahanol sectorau. Roedd un o'r sgyrsiau a gawsom yn ystod toriad yr haf â'r tasglu cynnyrch llaeth yr wyf wedi'i sefydlu yn sôn am yr angen i hyrwyddo'r sector ac ysgogi hyder ynddo. Un o'r ffyrdd y gallwn berswadio pobl i wneud y buddsoddiadau angenrheidiol yw sicrhau bod gennym dargedau clir ar gyfer twf, a bod y Llywodraeth yn ategu'r targedau hynny â chamau gweithredu. Byddwn yn cefnogi'r targedau hynny, ac yn gweithio gyda fy nghyd-weithiwr, y Gweinidog menter, i ysgogi gweithgarwch economaidd a chreu cyfoeth yng Nghymru wledig, ac i sicrhau bod gennym gadwyni cyflenwi integredig sy'n ychwanegu gwerth at ddefnyddiau crai a chynhyrchion o fewn ein cymunedau.

I thank my colleague the Minister for enterprise who set up the food and farming panel; I think that it was two years ago now. We have taken on board all the recommendations from that panel. From the documentation that we will publish, you will see all of those recommendations contained within the consultation package.

Rwyf am ddiolch i'm cyd-weithiwr, y Gweinidog menter a sefydlodd y panel bwyd a ffermio; rwyf yn meddwl bod hynny ddwy flynedd yn ôl bellach. Rydym wedi ystyried holl argymhellion y panel hwnnw. Yn y dogfennau y byddwn yn eu cyhoeddi, fe welwch fod pob o'r argymhellion hynny wedi'u cynnwys yn y pecyn ymgynghori.

The Member raised some issues about partnership with UKTI. It is a matter that I discussed with Department for Environment, Food and Rural Affairs Ministers yesterday, and it is a matter that we will continue to discuss. Again, my friend the Minister for enterprise was in Russia promoting our red meat and other Welsh products in June. The DEFRA Secretary of State was there last week. We are working together as different administrations to ensure that we maximise the efforts, structures, frameworks and resources offered by UKTI to enable us to do that. During my meetings with the European Commission yesterday, we also considered how the trade missions that are run by the Commission could also help support Welsh exports. We will be taking part in a Commission-led trade mission to the far east later this autumn. That is something we have been pressing the Commission to continue work on. The Member will be aware that the Commission is leading a lot of work at the moment in terms of opening up markets in different major trading partnerships—the United States is the obvious example at the moment—and we are supporting the work that the Commission is undertaking in opening up those markets.

Cododd yr Aelod rai materion am bartneriaeth ag UKTI. Trafodais y mater hwnnw â Gweinidogion Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ddoe, ac mae'n fater y byddwn yn parhau i'w drafod. Unwaith eto, bu fy nghyfaill y Gweinidog menter yn Rwsia yn hybu ein cig coch a chynhyrchion eraill o Gymru ym mis Mehefin. Roedd Ysgrifennydd Gwladol DEFRA yno yr wythnos diwethaf. Rydym yn ein gwahanol weinyddiaethau'n cydweithio i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r ymdrechion, y strwythurau, y fframweithiau a'r adnoddau a gynigir gan UKTI i'n galluogi i wneud hynny. Yn ystod fy nghyfarfodydd â'r Comisiwn Ewropeaidd ddoe, buom hefyd yn ystyried sut y gallai'r teithiau masnach a gynhelir gan y Comisiwn helpu i gefnogi allforion o Gymru. Byddwn yn cymryd rhan mewn taith fasnach a arweinir gan y Comisiwn i'r dwyrain pell yn nes ymlaen yr hydref hwn. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn pwyso ar y Comisiwn i barhau i weithio arno. Bydd yr Aelod yn ymwybodol fod y Comisiwn yn arwain llawer o waith ar hyn o bryd o ran agor marchnadoedd mewn gwahanol bartneriaethau masnachu mawr—yr Unol Daleithiau yw'r enghraifft amlwg ar hyn o bryd—ac rydym yn cefnogi'r gwaith y mae'r Comisiwn yn ei wneud i agor y marchnadoedd hynny.

I was in Abergavenny over the weekend, while you were in Mold. I am sure that all of us enjoyed the vitality of both those festivals and what they had to offer. I spoke in Abergavenny last Friday about what we need to do to ensure that we have a food culture and a place for food in wider tourism and other propositions. We will ensure that the levels of support available to businesses are well publicised, and we will try to do that through leading the debate about support for food businesses during this consultation event.

Roeddwn yn y Fenni dros y penwythnos, pan oeddech chi yn yr Wyddgrug. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonom wedi mwynhau bywiogrwydd y ddwy ŵyl hynny a'r hyn yr oedd ganddynt i'w gynnig. Siaradais yn y Fenni ddydd Gwener diwethaf am yr hyn y mae angen inni ei wneud i sicrhau bod gennym ddiwylliant bwyd a lle i fwyd mewn twristiaeth ehangach a mentrau eraill. Byddwn yn sicrhau bod y cymorth sydd ar gael i fusnesau'n cael ei hysbysebu'n dda, a byddwn yn ceisio gwneud hynny drwy arwain y ddadl am gymorth i fusnesau bwyd yn ystod y digwyddiad ymgynghori hwn.

I will say a final word, if I may, acting Deputy Presiding Officer, on True Taste. You make the points on True Taste, which have been well made in the past. We have looked at True Taste and we have done the analysis. Others have seen that analysis, which you referred to in your questions. We understand the branding and the place of True Taste, but we also understand the need to move on. It is important that, when we make investments in the future, we do so using tools and identities that are relevant today and not to simply continue with what would have been relevant some time ago. Probably the biggest gathering of food industry and food businesses, which took place in the botanic garden last summer, made very clear that it wanted a new identity that stressed food and drink from Wales and a new Welsh identity. That is something that we have taken on board. We have created a new identity, which has proven very popular with both the industry and in trade fairs. Part of the success that we have seen in growth, sales and leads from these trade fairs has been put down to the identity that we are creating for food and drink from Wales.

Rwyf am ddweud gair olaf, os caf, Ddirprwy Lywydd dros dro, am Gwir Flas. Rydych yn gwneud y pwyntiau am Gwir Flas, sydd wedi cael eu gwneud yn dda yn y gorffennol. Rydym wedi edrych ar Gwir Flas ac rydym wedi gwneud y dadansoddiad. Mae eraill wedi gweld y dadansoddiad hwnnw, y cyfeiriwch ato yn eich cwestiynau. Rydym yn deall brandio a lle Gwir Flas, ond rydym hefyd yn deall bod angen symud ymlaen. Mae'n bwysig ein bod, wrth wneud buddsoddiadau yn y dyfodol, yn defnyddio offer a hunaniaethau sy'n berthnasol heddiw, yn hytrach na dim ond parhau â'r hyn a fyddai wedi bod yn berthnasol beth amser yn ôl. Yn y casgliad mwyaf o fusnesau bwyd a'r diwydiant bwyd, mae'n debyg, a gynhaliwyd yn yr ardd fotaneg yr haf diwethaf, nodwyd yn glir iawn fod eisiau hunaniaeth newydd sy'n pwysleisio bwyd a diod o Gymru a hunaniaeth Gymreig newydd. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi'i ystyried. Rydym wedi creu hunaniaeth newydd, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn yn y diwydiant ac mewn ffeiriau masnach. Mae rhan o'r llwyddiant yr ydym wedi'i weld o ran twf, gwerthiant a diddordeb o'r ffeiriau masnach hyn wedi ei phriodoli i'r hunaniaeth yr ydym yn ei chreu i fwyd a diod o Gymru.

15:52

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps I could make it a bit easier for Members: 'Chair' will do, or 'temporary Chair' if you want to be formal. I now call Plaid Cymru spokesperson, Llyr Huws Gruffydd.

Efallai y gallaf ei gwneud ychydig yn haws i Aelodau: gwnaiff 'Cadeirydd' y tro, neu 'Gadeirydd dros dro' os ydych am fod yn ffurfiol. Galwaf yn awr ar lefarydd Plaid Cymru, Llyr Huws Gruffydd.

15:52

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gadeirydd dros dro. Diolch i'r Gweinidog am y datganiad. Rwy'n meddwl mai ychydig iawn o bethau o ran y prif themâu y gall unrhyw un anghytuno â nhw mewn gwirionedd. Rwy'n nodi'r ffaith fod y Gweinidog yn cydnabod bod cynnydd wedi bod yn y sector yn y flwyddyn ddiwethaf a bod y cyfraniad pwysig o ran trosiant yn un arwyddocaol. Mae hynny'n adlewyrchu rhai o'r strategaethau blaenorol, sy'n dangos, efallai, nad oedd penderfyniad y Gweinidog presennol i dorri ei gwys ei hun —rhywbeth y mae ganddo'r hawl i'w wneud, wrth gwrs— mor angenrheidiol a fyddai rhai yn teimlo, ond dyna ni. Mae agweddau o hyn yn adlewyrchu'r strategaeth bresennol, ond mae hefyd yn ehangu ar hynny.

Thank you, temporary Chair. I thank the Minister for his statement. I do not think that there is anything much in terms of the main themes that one could disagree with, if truth be told. I note the fact that the Minister acknowledges that there has been growth in the sector over the past year and that the important contribution in terms of turnover is important. That reflects some of the previous strategies, which shows that, perhaps, the decision of the current Minister to plough his own furrow —something that he has every right to do, of course—was not as necessary as some would have thought, but there we are. There are aspects of this that reflect the current strategy, but it also expands upon that.

Rydych yn cyfeirio yn eich datganiad at ychwanegu gwerth. Rydym i gyd yn gwybod bod prosesu lleol yn gallu cyfrannu'n helaeth iawn at hynny. Mae argymhelliad, fel y gwyddoch, gan banel y sector bwyd ac amaeth, sy'n argymell cynyddu capasiti prosesu cynnyrch crai amaethyddol Cymreig. Byddwn yn gobeithio y bydd hynny'n rhan bwysig o'r gwaith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud wrth symud ymlaen, ac efallai y gallech sôn wrthym wrth ymateb am y cynnydd rydych wedi'i wneud o safbwynt creu'r seiliau ar gyfer gweld y cynnydd hwnnw.

You refer in your statement to adding value. We all know that local processing can make a great contribution to that. There is a recommendation, as you know, by the food and farming sector panel, which suggests that we should increase the capacity to process Welsh agricultural raw produce. I would hope that that would be an important part of the work that the Government is doing in moving forward, and perhaps in response you could tell us about some of the progress that you have made in terms of laying the foundation for that growth.

Gan fy mod wedi sôn am banel y sector, rydych yn cyfeirio at greu fforwm neu ffederasiwn a fydd yn rhoi arweiniad cryf, yn cynnig gweledigaeth ac yn dod â Llywodraeth a busnesau yn agosach yn y sector hon. Efallai y gallech ymhelaethu ychydig, felly, ar y gwahaniaeth rhwng y fforwm rydych yn ei argymell a phanel y sector fel y mae ar hyn o bryd.

Given that I have mentioned the sector panel, you refer to the creation of a forum or federation that will give a clear steer, provide a vision and will bring Government and businesses closer in this sector. Perhaps you could expand a little, therefore, on the differences between the forum that you are suggesting and the sector panel as it currently exists.

Mae cyfeiriad wedi bod yn barod at wyliau bwyd. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig o safbwynt marchnata a hyrwyddo'r dreftadaeth ddiwylliannol a thwristiaeth bwyd yr ydych yn sôn amdano yn eich datganiad. Fe fues innau yng ngŵyl fwyd yr Wyddgrug dros y penwythnos, ac un neges sydd wedi dod trwyddo'n glir o sawl un o'r gwyliau yw hyn: beth bynnag yw'r strategaeth neu gyfeiriad strategol y Llywodraeth, mae angen sicrwydd a chysondeb ariannu. Cafodd nifer o wyliau brofiad anodd yn y flwyddyn ddiwethaf pan symudodd y 'goalposts' o safbwynt ariannu. Rwy'n eich gweld yn ysgwyd eich pen, ond dyna'r adborth a gefais yn y gwyliau hyn. Felly, mae angen sicrwydd a chysondeb er mwyn caniatáu'r cynllunio hirdymor hwn a fydd yn caniatáu i'r gwyliau hyn i dyfu.

Reference has already been made to food festivals. They make an important contribution in terms of marketing and promoting the cultural heritage and food tourism that you mention in your statement. I was at Mold food festival over the weekend, and one clear message that has emerged from many of these festivals is this: whatever the strategy or strategic direction of Government, there needs to be assurance and consistency of funding. Many festivals had difficult experiences over the past year when the goalposts were moved in terms of funding. I see you shaking your head, but that is the feedback that I received from these festivals. Therefore, there is a need for assurance and consistency in order to allow long-term planning that will allow these festivals to prosper.

Roedd llu o'r arddangoswyr a welais yn y gwyliau bwyd dros yr haf yn falch iawn i arddangos eu tystysgrifau Gwir Flas—y ffaith eu bod wedi cael eu henwebu neu wedi ennill gwobrau. Roedd hynny ar arwyddion, ar daflenni, ar labeli, ac yn y blaen, sy'n dangos i mi fod y gwobrau hynny wedi sefydlu eu hunain fel rhyw fath o Oscars y diwydiant bwyd yng Nghymru. Rwy'n cytuno, efallai, nad oes angen cymaint o sbloet pan mae'n dod i gyflwyno'r gwobrau hyn, yn sicr, ond mae gwerth pwysig, yn fy marn i, mewn gwobrwyo cynhyrchwyr am ansawdd. Mae'n gyrru i fyny safonau ac arloesedd, mae'n helpu gyda marchnata a chael sylw yn y cyfryngau, a hefyd i gael i mewn i farchnadoedd newydd. Felly, gan eich bod wedi datgan ein bod yn symud oddi wrth y gwobrau hyn—rwy'n meddwl yr oedd hi'n gynamserol i chi gyhoeddi hynny cyn cynnal yr ymgynghoriad, ond, eto, dyna'ch dewis chi—efallai y gallech chi rannu gyda ni eich syniadau am gael rhyw fath o drefn i gydnabod a gwobrwyo'r goreuon o gynhyrchwyr bwyd sydd gennym yma yng Nghymru.

Many of the exhibitors whom I saw in the food festivals over the summer were very pleased to exhibit their True Taste certificates—the fact that they had been nominated or had won awards. That was on signage, on pamphlets, labels, and so on, which tells me that those awards had established themselves as some sort of food Oscars in Wales. I would agree, perhaps, that there does not need to be so much of a hoo-hah when those awards are made, certainly, but there is an important value, in my opinion, in rewarding producers for quality. It drives up standards and innovation, it helps with marketing and media coverage, and also to access new markets. Therefore, as you have said that we are to move away from these awards—I think that it was premature to announce that before the conclusion of the consultation, but, again, that was your choice—perhaps you could share with us what ideas you have to have some sort of system in place to recognise and reward the finest producers that we have here in Wales.

Un ffordd arall o gyflawni sawl agwedd ar y saith maes rydych chi wedi eu rhestru yw cynyddu lefel caffael bwyd lleol, yn enwedig yn y sector gyhoeddus. Rydych chi'n cyfeirio hefyd at 'food assurance'—sicrwydd bwyd. Fel rhiant i blant yn un o ysgolion sir Ddinbych, cefais neges oddi wrth yr awdurdod addysg adeg y datblygiadau o safbwynt cig ceffyl yn ddiweddar yn fy sicrhau bod yr holl gig coch sy'n cael ei ddarparu yn ysgolion sir Ddinbych yn cael ei gaffael yn lleol gan gynhyrchwyr lleol, ac nad oes angen poeni'n ormodol ynglŷn â tharddiad y cig. Rwy'n meddwl y dylai'r Llywodraeth ddefnyddio hynny fel esiampl i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Fe fyddai hyn yn helpu cyflawni sawl un o'r agweddau rydych chi wedi cyfeirio atynt.

One other way of achieving many aspects of the seven areas that you have outlined is to increase the level of local food procurement, particularly in the public sector. You also refer to food assurance. As a parent of children in one of Denbighshire's schools, I received a message from the local education authority at the time of the developments in terms of horse meat recently assuring me that all of the red meat provided in Denbighshire schools is procured locally from local producers, and that there was no need to be overly concerned about the traceability of that meat. I think that the Government needs to use that as an exemplar for other local authorities and other public bodies. This would assist in achieving many of the aspects that you have referred to.

Rwy'n siŵr bod pawb yn cytuno gyda llawer o'r amcanion. Roeddwn wedi disgwyl efallai mwy o gig ar yr asgwrn, os esgusodwch chi'r 'pun', ond, yn sicr, mae hyn yn fan cychwyn ac edrychwn ymlaen at gyfrannu'n bositif tuag at yr ymgynghoriad.

I am sure that everyone would agree with many of the objectives. I had expected more meat on the bones, if you pardon the pun, but, certainly, it is a starting point, and we look forward to contributing positively to the consultation.

15:58

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n fan cychwyn ar gyfer trafodaeth, a dyna pam rwy'n gofyn y cwestiynau ac yn gosod cyfeiriad clir. Fodd bynnag, nid wyf am ateb pob un cwestiwn cyn ein bod yn dechrau ar y drafodaeth hon ychwaith.

It is a starting point for discussion, and that is why I pose these questions and set out a clear direction. However, I do not want to answer every single question before we start this discussion either.

Rwy'n cytuno gyda'ch pwynt ynglŷn â chaffael. Mae hynny'n bwysig, ond ni fyddem yn gorbwysleisio hynny ychwaith. Mae cwestiynau ynghylch faint rydym yn caffael o Gymru, ac rwy'n credu bod y Gweinidog Cyllid wedi cyhoeddi gwybodaeth ar hynny mewn adroddiad yn ystod y misoedd diwethaf. Rwy'n credu bod pob un ohonom yn cytuno ein bod am weld y cynnydd yr ydych chi wedi ei ddisgrifio. Fodd bynnag, yr hyn sy'n allweddol pan mae'n dod at dyfiant yn y diwydiant bwyd a chreu swyddi newydd a gweithgareddau economaidd newydd yn y sector bwyd yw 'access' i'r farchnad ehangach. Nid wyf yn credu ei fod yn bosibl inni golli golwg o hynny. Yr hyn rwyf i'n mynnu ei bwysleisio yn y fan hon yw bod sicrwydd o gyrraedd y farchnad a'n bod yn creu cadwyn gyflenwi sy'n creu diwydiant ehangach na'r hyn sydd gennym heddiw. Rwyf am weld y cynnydd yr ydym wedi'i weld yn ddiweddar yn parhau ac yn cryfhau ar gyfer y dyfodol.

I agree with your point about procurement. That is important, but I would not place too much emphasis on that either. There are questions regarding how much we procure from Wales, and I believe that the Minister for Finance has published information on that in a report over recent months. I think that we have all agreed that we want to see that progress that you have spoken about. However, the vital thing when it comes to growth in the food industry and the creation of new jobs and economic activities in the food sector is access to the wider market. I do not think that we can lose sight of that. What I would emphasise here is that there should be certainty of reaching markets and that we create a supply chain that creates a wider industry than what we have at present. I want to see the growth that we have seen recently continuing and becoming more robust for the future.

Rydych chi wedi sôn am brosesu'n lleol—dyna'r union beth yr ydym wedi bod yn ei bwysleisio. Dyna un o'r materion y bu inni ei drafod yn ystod y sioe, sef sut y gallwn berswadio busnesau mawr i fuddsoddi yng Nghymru ac yn ein sector bwyd. Rydym wedi gweld hynny'n digwydd dros yr haf gyda lladd-dy ehangach newydd Dunbia yn Llanybydder. Rydym wedi gweld buddsoddiad hynod o bwysig yn y fan honno a liciwn i weld mwy o hynny'n digwydd. Rydym ni, fel Llywodraeth, yn awyddus i fod yn bartner i fusnesau sydd eisiau buddsoddi yng Nghymru.

You mentioned local processing—that is exactly what we have been emphasising. That was one of the issues that we discussed during the show, which is how we can persuade larger businesses to invest in Wales and in our food sector. We have seen that happening over the summer with the new and expanded Dunbia abattoir in Llanybydder. We have seen very important investment there, and I would like to see more of that happening. We, as a Government, are eager to act as a partner to businesses who wish to invest in Wales.

Gwnaethoch ofyn am y gwahaniaeth rhwng panel y sector ac unrhyw ffederasiwn neu fforwm bwyd. Wrth gwrs, maent yn bethau cwbl wahanol. Roedd panel y sector yn rhywbeth a sefydlodd y Gweinidog i gynnig cyngor iddi hi gan bobl benodedig. Fodd bynnag, byddai fforwm bwyd yn cynrychioli'r diwydiant yn ei gyfanrwydd, felly bydd yn gorff llawer yn fwy ac yn gorff a fydd yn cyflawni rôl wahanol.

You have asked about the distinction between the sector panel and a food federation or forum. Of course, they are quite different things. The sector panel is something that the Minister established to provide her with advice via appointed members. However, a food forum would represent the industry as a whole, therefore it would be a much larger body and one that would carry out a different role.

Pan wyf yn sôn wrth y diwydiant bwyd, rwy'n cytuno bod eisiau cysondeb pan mae'n dod i ariannu gwyliau bwyd o unrhyw fath, ond mae'n rhaid i mi wneud y pwynt yn glir mai buddsoddi mewn hyrwyddo bwyd o Gymru rydym eisiau ei wneud. Rwy'n gwybod bod rhai gwyliau sy'n agos at y ffin yn hyrwyddo bwydydd o'r ddwy ochr i'r ffin. Nid wyf yn gwneud unrhyw 'value judgment' am hynny, ond rwy'n awyddus i ddefnyddio arian trethdalwyr yn y fan hon i hyrwyddo bwydydd o Gymru. Rwy'n gwneud y pwynt hwnnw yn glir. Rwy'n gwybod ein bod wedi newid y rheolau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond buaswn yn cymryd y byddwn yn cael dy gefnogaeth wrth wneud hynny, Llyr.

In talking about the food industry, I agree that we need consistency when it comes to the funding of food festivals, but I must make it clear that we want to invest in the promotion of food from Wales. I am aware of festivals that are close to the border that promote food from both sides of the border. I am not making any value judgment about that, but I am eager to use our taxpayers' money to promote food from Wales. I want to clarify that point. I know that we have changed the rules during the past year, but I would expect to have your support in doing this, Llyr.

Ar y pwynt olaf am wobrwyon, rwy'n gweld beth rydych wedi ei ddweud ac rwy'n cydnabod y pwynt rydych wedi ei wneud. Mae'n bwynt digon cryf, ond buaswn hefyd yn dweud bod yn rhaid i ni gael y 'basics' yn iawn yn gyntaf. Mae'n bosibl dosbarthu gwobrau rhyw ben, ac rwyf wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i sut rydym yn gwneud hynny, ond, ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni fuddsoddi yn y gwreiddiau ac mae'n rhaid i ni gael gwreiddiau cryfach yn y diwydiant bwyd. Wedyn, byddaf yn symud ymlaen i feddwl am yr awgrymiadau yr ydych wedi eu gwneud y prynhawn yma, ond byddaf yn croesawu'r drafodaeth a gawn ni.

On the last point about awards, I hear what you are saying and I acknowledge the point that you are making. It is quite a strong point, but I would also say that we need to get the basics right first. You can distribute awards at any time, and I have given some consideration to how we will go about doing that, but, at present, we must invest in the food industry's grass roots as we need these to become stronger. It is then that I will give further consideration to the suggestions that you have made this afternoon, but I welcome the discussion that we will have during that process.

16:02 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. Before I call on William Powell, the Liberal Democrat spokesperson, I should say that I have a considerable number of speakers and I do not think that they will not all get in. I am sorry, William, but I will give you a bit longer. I ask people to be far more succinct in their questions—I will do what I can—otherwise, I am afraid, some Members will fall out.

Diolch, Weinidog. Cyn imi alw ar William Powell, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, dylwn ddweud bod gennyf nifer sylweddol o siaradwyr ac nid wyf yn credu y byddant i gyd yn cael cyfle. Mae'n ddrwg gennyf, William, ond rhoddaf ychydig yn fwy o amser i chi. Gofynnaf i bobl ofyn cwestiynau llawer mwy cryno—gwnaf gymaint ag y gallaf—fel arall, mae arnaf ofn y bydd rhai Aelodau yn ffraeo.

16:02 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for your statement today.

I also would like to extend my thanks to the food and farming sector panel. Its recommendations have played a big part in informing the statement that we have heard today and the direction that the Welsh Government is taking with regard to the Welsh food and drink sector. Over the summer, it has been interesting to see you, Minister, distancing yourself from the ‘Food for Wales, Food from Wales 2010:2020’ strategy as not being fit for purpose. Given the relatively little that has been done since it was launched in 2010, I suppose that that bears out some of the concerns that we have had over time. Having said that, however, I know how strongly you share the desire to develop the vision of fostering Welsh food and drink, and, indeed, you were present, as I was, at the prestigious Abergavenny Food Festival just last weekend, which was an excellent contribution to this area of work.

Hoffwn hefyd estyn fy niolch i banel y sector bwyd a ffermio. Mae ei argymhellion wedi bod yn bwysig o ran llywio’r datganiad a glywsom heddiw ac o safbwynt cyfeiriad Llywodraeth Cymru o ran sector bwyd a diod Cymru. Dros yr haf, mae wedi bod yn ddiddorol eich gweld chi, Weinidog, yn ymbellhau oddi wrth strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020' am nad oedd yn addas at ei diben. Ac ystyried nad oes llawer wedi ei wneud ers iddi gael ei lansio yn 2010, mae'n debyg bod hynny'n cadarnhau rhai o'r pryderon a fu gennym ers peth amser. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, gwn pa mor gryf yr ydych yn rhannu’r awydd i ddatblygu'r weledigaeth o feithrin bwyd a diod o Gymru, ac, yn wir, roeddech yn bresennol, fel minnau, yng Ngŵyl Fwyd fawreddog y Fenni y penwythnos diwethaf, a oedd yn gyfraniad rhagorol i’r maes gwaith hwn.

I particularly want to concentrate on the drinks side, which I would argue has marginally been overlooked in the past. While we have had some notable successes, such as Monty’s Brewery, the Waen Brewery and Rotters microbrewery in my region, we have also failed, sometimes, to foster similar success stories with other drink products, notably milk, which you have referenced, and we are all aware of and lamented the failure of Proper Welsh Milk, which went into administration on St David’s Day this year.

Hoffwn ganolbwyntio’n arbennig ar ddiodydd; byddwn yn dadlau eu bod wedi eu hesgeuluso ryw ychydig yn y gorffennol. Er ein bod wedi cael rhai llwyddiannau nodedig, megis Bragdy Monty, Bragdy Waen a microfragdy Rotters yn fy rhanbarth i, rydym hefyd wedi methu, weithiau, â meithrin llwyddiannau tebyg gyda chynhyrchion diod eraill, yn enwedig llaeth, y cyfeiriasoch ato, ac rydym yn i gyd yn ymwybodol o fethiant Llaeth Cymreig Go Iawn, a aeth i ddwylo'r gweinyddwyr ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni, ac yn gresynu at hynny.

However, with those points in mind and the advice from the Chair to remain brief, I would like to turn directly to my questions. First, Minister, would you please give us a brief update on the further planning that has been undertaken around the Wales food and drink trade event that you recently announced? The food and farming sector panel recommended that steps be taken

Fodd bynnag, gan gofio’r pwyntiau hynny a'r cyngor gan y Cadeirydd i fod yn gryno, hoffwn droi’n uniongyrchol at fy nghwestiynau. Yn gyntaf, Weinidog, a fyddech cystal â sôn yn fyr am y diweddaraf ynglŷn â’r cynllunio pellach sydd wedi ei wneud ynghylch digwyddiad masnach bwyd a diod Cymru a gyhoeddwyd gennych yn ddiweddar? Argymhellodd panel y sector bwyd a ffermio y dylid cymryd camau

‘to benchmark and significantly increase the capacity of Welsh agricultural raw material that is processed in Wales.’

i feincnodi a chynyddu'n sylweddol gapasiti defnydd crai amaethyddol Cymru sy'n cael ei brosesu yng Nghymru.

What, in your view, is the most significant step that the Welsh Government has taken since this recommendation was made back in July 2012 to actually take this forward? Also, in that connection, could you please expand on your vision for Wales’s remaining small independent abattoirs and where they fit into the wider strategy?

Beth, yn eich barn chi, yw'r cam mwyaf arwyddocaol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gymryd ers i’r argymhelliad hwn gael ei wneud yn ôl ym mis Gorffennaf 2012 i fwrw ymlaen â hyn mewn gwirionedd? Hefyd, yn y cyswllt hwnnw, a fyddech cystal ag ymhelaethu ar eich gweledigaeth ar gyfer y lladd-dai bach annibynnol sy’n weddill yng Nghymru a sut y maent yn rhan o’r strategaeth ehangach?

Finally, Minister, could you please give us an assurance that you will be casting the net wide in terms of fleshing out this vision, and looking to our continental partners for the ways in which they may have something from which we can also learn? I am thinking, in particular, of Malmö in Sweden, for instance, which has achieved a cost-neutral transition to 100% locally sourced organic food in all of its public institutions. This is a major achievement, and while such a transition clearly cannot take place overnight, I would argue that we also need to be ambitious in this area. Diolch yn fawr.

Yn olaf, Weinidog, a wnewch chi roi sicrwydd y byddwch yn bwrw'r rhwyd yn eang o ran ymhelaethu ar y weledigaeth hon, ac yn troi at ein partneriaid cyfandirol i weld beth sydd ganddynt y gallwn hefyd ddysgu oddi wrtho? Rwyf yn meddwl, yn benodol, am Malmö yn Sweden, er enghraifft, sydd wedi cyflawni newid niwtral o ran cost sy'n golygu bod 100% o'r bwyd ym mhob un o'i sefydliadau cyhoeddus yn fwyd organig lleol. Dyma gamp fawr, ac er ei bod yn amlwg na all newid o'r fath ddigwydd dros nos, byddwn yn dadlau bod angen i ninnau fod yn uchelgeisiol yn y maes hwn. Diolch yn fawr.

16:06

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Liberal Democrat spokesperson for his generally positive comments. I am surprised and somewhat disappointed that he thinks that I have been overlooking the Welsh drinks industry over the last few years. We all do our best in different ways. As the Member will be aware, I have just launched a new organisation to sustain vineyards in Wales, we have launched a wine trade in Wales in these last few months, and we had a very successful event at the Royal Welsh Show where a number of the businesses that he outlined were present to welcome the work and the investment of the Welsh Government in support of that particular sector. Perhaps if the Member spoke to some of those businesses, he would actually understand the sort of work that is taking place there.

Diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei sylwadau cadarnhaol ar y cyfan. Rwyf yn synnu ac yn siomedig braidd ei fod yn credu fy mod wedi bod yn anwybyddu diwydiant diodydd Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rydym i gyd yn gwneud ein gorau mewn gwahanol ffyrdd. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, rwyf newydd lansio sefydliad newydd i gynnal gwinllannoedd yng Nghymru, rydym wedi lansio masnach gwin yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf, a chawsom ddigwyddiad llwyddiannus iawn yn Sioe Frenhinol Cymru lle'r oedd nifer o'r busnesau y soniodd amdanynt yn bresennol i groesawu gwaith a buddsoddiad Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector penodol hwnnw. Efallai, pe bai'r Aelod yn siarad â rhai o'r busnesau hynny, y byddai'n dod i ddeall y math o waith sy'n digwydd yno mewn gwirionedd.

We will continue to support small-scale independent abattoirs. Over the last two years we have been spending a considerable amount of time in conversation with the Food Standards Agency over some of the cost-recovery proposals being made that would lead to a significant challenge for many of those abattoirs to stay in business. We have made it clear that we do expect a network of small abattoirs to remain in place in Wales to serve the agricultural and meat-processing industry. We will continue to support that sector.

Byddwn yn parhau i gefnogi lladd-dai bach annibynnol. Dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi bod yn treulio cryn dipyn o amser yn sgwrsio â'r Asiantaeth Safonau Bwyd am rai o'r cynigion adfer costau sy'n cael eu gwneud a fyddai'n golygu y byddai'n gryn dipyn o her i nifer o'r lladd-dai hynny i aros mewn busnes. Rydym wedi ei gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i rwydwaith o ladd-dai bach barhau i weithredu yng Nghymru i wasanaethu'r diwydiant amaethyddiaeth a phrosesu cig. Byddwn yn parhau i gefnogi'r sector hwnnw.

The wider points that have been made about public procurement are well made. We do recognise the points that are being made by the Liberal Democrats. That, of course, is one of the reasons why my friend and colleague, the Minister for finance, has commissioned reports on public procurement, which includes food in Wales. My friend gives the example of Malmö, but we are also looking at other places to learn lessons from them.

Cafodd y pwyntiau ehangach am gaffael cyhoeddus eu gwneud yn dda. Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godir gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Dyna, wrth gwrs, yw un o'r rhesymau pam mae fy ffrind a'm cyd-weithiwr, y Gweinidog cyllid, wedi comisiynu adroddiadau ar gaffael cyhoeddus, sy'n cynnwys bwyd yng Nghymru. Mae fy ffrind yn rhoi enghraifft Malmö, ond rydym hefyd yn edrych ar fannau eraill y gellir dysgu gwersi ganddynt.

I will provide the Member with further information on the Welsh food and drink event on which we have made a statement. The planning is progressing for that. I will include that event in a further statement that I will make later this term on the delivery of a food and drink action plan. I wish to emphasise that I am not interested in creating strategies that gather dust on shelves or are lost in Google searches.

Rhof fwy o wybodaeth i'r Aelod am y digwyddiad bwyd a diod o Gymru yr ydym wedi gwneud datganiad amdano. Mae'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer hynny. Byddaf yn cynnwys y digwyddiad hwnnw mewn datganiad pellach a wnaf yn ddiweddarach y tymor hwn am gyflwyno cynllun gweithredu bwyd a diod. Hoffwn bwysleisio nad oes gennyf ddiddordeb mewn creu strategaethau sy'n hel llwch ar silffoedd neu'n cael eu colli mewn chwiliadau Google.

16:08

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hear, hear.

Clywch, clywch.

16:08 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you very much for that. I want to see action plans where there are clear actions tabulated, where resources are placed to sustain those actions, and that those actions are timetabled so that you and I and the industry will be able to hold us to account for what we are saying today and for what we will deliver over the coming weeks and months.

Diolch yn fawr iawn am hynny. Rwyf am weld cynlluniau gweithredu lle caiff camau gweithredu clir eu tablu, lle rhoddir adnoddau i gynnal y camau gweithredu hynny, a lle caiff y camau hynny eu hamserlennu fel y gallwch chi a minnau a'r diwydiant ein dal i gyfrif am yr hyn yr ydym yn ei ddweud heddiw ac am yr hyn y byddwn yn ei gyflawni dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Senedd.tv
Fideo Video

16:08 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I will now call Members, but I will ask you to go straight to your questions, and I am sure that the Minister will go straight to his answers.

Diolch, Weinidog. Galwaf yn awr ar Aelodau, ond gofynnaf ichi fynd yn syth at eich cwestiynau, ac rwyf yn siŵr yr aiff y Gweinidog yn syth at ei atebion yntau.

Senedd.tv
Fideo Video

16:09 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

I welcome the statement for the complexity that it captures when we are discussing food policy because this is not just about the way we market Welsh food products, welcome though that is. It is also about changing the food habits of our population so that we have a much healthier nation with less expensive interventions in healthcare. I am particularly interested in the health and wellbeing aspects. I am interested to know, for example, how we could reach the situation where it is not just the meat in the Denbighshire school food operation that we can locally source, but the fruit and the vegetables, changing the way in which people's palates understand what good food is and the harm done by the other end of the processing industry, which just loads food with salt and sugar and fat to increase profits. I am interested in how we can turn that around. My question is really this: how does the Minister envisage working with our schools and with our health centres to turn things around so that people seek out and welcome good food made in Wales?

Rwyf yn croesawu'r datganiad oherwydd y cymhlethdod y mae’n ei gyfleu pan fyddwn yn trafod polisi bwyd oherwydd mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond y ffordd yr ydym yn marchnata cynnyrch bwyd o Gymru, er bod hynny i’w groesawu. Mae hefyd yn ymwneud â newid arferion bwyd ein poblogaeth fel bod gennym genedl lawer iachach a llai o ymyriadau gofal iechyd drud. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn yr agweddau iechyd a lles. Mae gennyf ddiddordeb, er enghraifft, mewn gweld sut y gallem gyrraedd sefyllfa lle nad dim ond y cig yn narpariaeth bwyd ysgolion sir Ddinbych y gallwn ei gael yn lleol, ond y ffrwythau a'r llysiau hefyd, gan newid y ffordd y mae pobl yn deall beth yw bwyd da a'r niwed a wneir ym mhen arall y diwydiant prosesu, lle caiff bwyd ei lwytho â halen a siwgr a braster i gynyddu elw. Mae gennyf ddiddordeb yn y modd y gallwn wyrdroi hynny. Fy nghwestiwn, mewn gwirionedd, yw hyn: sut y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd yn cydweithio â’n hysgolion a'n canolfannau iechyd i wyrdroi pethau fel bod pobl yn chwilio am fwyd da wedi’i wneud yng Nghymru, ac yn ei groesawu?

Senedd.tv
Fideo Video

16:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I think that the food policy and food action plans have to be at the centre of policy, which impacts, as you have indicated, on a number of different sectors. This is a programme that will include actions to sustain economic activity. It will certainly depend for its success on our ability to deliver many of our messages and ambitions through the school system and through formal education, but this is also a critical part of our wider tackling poverty agenda. It is about improving public health, wellbeing and the place of food in society in Wales. So, the ambition that we are trying to describe today—and we will continue to do this over the coming months—is, yes, to sustain economic activity, to create jobs, and to create wealth, but it is also to do much more than that and to ensure that food, which plays a central role in our lives and in our society, becomes not only something that we enjoy, but something that enhances our lives and is able to nourish our communities as a whole.

Credaf fod yn rhaid i bolisi bwyd a chynlluniau gweithredu bwyd fod yn ganolog i bolisïau, sy'n effeithio, fel yr ydych wedi nodi, ar nifer o wahanol sectorau. Mae hon yn rhaglen a fydd yn cynnwys camau gweithredu i gynnal gweithgarwch economaidd. Bydd ei llwyddiant yn sicr yn dibynnu ar ein gallu i gyflwyno llawer o'n negeseuon a’n huchelgeisiau drwy system yr ysgolion a thrwy addysg ffurfiol, ond mae hyn hefyd yn rhan hanfodol o'n hagenda ehangach ar drechu tlodi. Mae'n fater o wella iechyd a lles y cyhoedd a lle bwyd yn y gymdeithas yng Nghymru. Felly, yr uchelgais yr ydym yn ceisio ei ddisgrifio heddiw—a byddwn yn parhau i wneud hyn dros y misoedd nesaf—yw, ie, cynnal gweithgarwch economaidd, creu swyddi, a chreu cyfoeth, ond hefyd gwneud mwy o lawer na hynny a sicrhau bod bwyd, sy'n chwarae rhan ganolog yn ein bywydau ac yn ein cymdeithas, nid yn unig yn rhywbeth yr ydym yn ei fwynhau, ond yn rhywbeth sy'n gwella ein bywydau ac yn gallu porthi ein cymunedau yn gyffredinol.

Senedd.tv
Fideo Video

16:12 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Suzy Davies, your question quickly, please.

Suzy Davies, eich cwestiwn yn gyflym, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
Fideo Video

16:12 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Yes. Diolch yn fawr.

Iawn. Diolch yn fawr.

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I heard what you said about moving on with branding, and while there is a chance that momentum might be lost under these plans, it will depend on how you consult and deal with your new forum. I have to say, you are still ahead of the game compared with Visit Wales. My questions are these: can you expand on the conversations that you have had with the Minister for enterprise about how food and drink branding will be built into brand Wales, the lack of which is still hampering development in tourism and other aspects of the economy generally? If that delay continues, will you press on with your branding work regardless, or will you wait for the Minister for enterprise to catch up?

Weinidog, clywais yr hyn a ddywedasoch am symud ymlaen o ran brandio, ac er bod siawns y gellid colli momentwm o dan y cynlluniau hyn, bydd yn dibynnu ar sut yr ydych yn ymgynghori ac yn delio â'ch fforwm newydd. Rhaid imi ddweud eich bod yn dal i fod ar y blaen o gymharu â Chroeso Cymru. Dyma fy nghwestiynau: a wnewch chi ymhelaethu ar y sgyrsiau yr ydych wedi'u cael â'r Gweinidog menter am sut y bydd brandio bwyd a diod yn cael eu cynnwys ym mrand Cymru? Mae diffyg brand yn hynny o beth yn dal i amharu ar ddatblygiad ym maes twristiaeth ac agweddau eraill ar yr economi yn gyffredinol. Os yw'r oedi hwnnw'n parhau, a fyddwch yn bwrw ymlaen â'ch gwaith brandio beth bynnag, ynteu a fyddwch yn aros i'r Gweinidog menter ddal i fyny?

16:12

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say to the Member that I do not recognise her characterisation of those matters. We are working closely with Visit Wales on all of these matters. I shall be speaking to the chief executive of Visit Wales later this week to ensure that we continue that and to ensure that we have a clear, coherent and consistent message across all of our work. I really do not recognise the description that you have given this afternoon of where Visit Wales is or where my friend, the Minister for enterprise, is in these matters. We are working together on these matters. The branding materials that we are developing have been branded specifically for the home markets—the domestic market and the tourism market—and for international trade fairs and for developing our exports. We have a consistent identity being developed at the moment, which has proved successful in terms of increasing sales, increasing sales leads, and increasing momentum. We are not losing momentum, Suzy; we are gaining it, and we are moving faster now than we have done for many years.

Rhaid imi ddweud wrth yr Aelod nad wyf yn adnabod y ffordd y mae wedi cyfleu'r materion hynny. Rydym yn cydweithio'n agos â Chroeso Cymru ar bob un o'r materion hyn. Byddaf yn siarad â phrif weithredwr Croeso Cymru yn nes ymlaen yr wythnos hon i sicrhau ein bod yn parhau â hynny ac i sicrhau bod gennym neges glir, gydlynol a chyson ar draws ein holl waith. Nid wyf yn adnabod y disgrifiad yr ydych wedi ei roi y prynhawn yma o sefyllfa Croeso Cymru, nac o sefyllfa fy nghyfaill, y Gweinidog menter, o ran y materion hyn. Rydym yn cydweithio ar y materion hyn. Mae'r deunyddiau brandio yr ydym yn eu datblygu wedi eu brandio'n benodol ar gyfer y marchnadoedd cartref—y farchnad ddomestig a'r farchnad dwristiaeth—ac ar gyfer ffeiriau masnach rhyngwladol ac i ddatblygu ein hallforion. Mae hunaniaeth gyson yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran cynyddu gwerthiant, hybu diddordeb a chynyddu momentwm. Nid ydym yn colli momentwm, Suzy; rydym yn ei ennill, ac rydym yn symud yn gynt yn awr nag yr ydym wedi'i wneud ers blynyddoedd lawer.

16:13

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, I call Dafydd Elis-Thomas

Yn olaf, galwaf ar Dafydd Elis-Thomas.

16:13

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, gyda'r gwin o Gymru, fe fydd angen caws. A fydd y Gweinidog yn sicrhau y bydd yn edrych yn bositif ar gynlluniau ehangu Hufenfa De Arfon, lle maent yn datblygu cynllun busnes i gyflenwi'r contract sylweddol y maent wedi ei ennill drwy un o brif archfarchnadoedd y deyrnas? Diolch yn fawr, Weinidog. Yr ateb yw 'caws mawr'.

Minister, with Welsh wine, we will, of course, need cheese. Will the Minister ensure that he looks positively at plans to expand the South Caernarfon Creameries, where they are developing a business plan to supply the significant contract that the company has gained through one of the United Kingdom's biggest supermarkets? Thank you, Minister. The answer is 'big cheese'.

16:14

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n hapus iawn i gefnogi'r diwydiant caws yng Nghymru, ac yn hapus i gynnal ymhellach y drafodaeth yr ydym wedi ei dechrau am Hufenfa De Arfon.

I am very happy to support the cheese industry in Wales, and I am happy to continue the discussion that we have commenced about South Caernarfon Creameries.

16:14

## Datganiad: Arfer Gorau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad ar Ymweliadau'r Haf ag Awdurdodau Lleol

## Statement: Best Practice in Public Services: Report on Summer Visits to Local Authorities

Senedd.tv
Fideo Video

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

The Welsh public sector faces unprecedented and significant challenges. Successive funding cuts announced by the UK Government unfortunately mean shrinking budgets at a time when our public services are facing ever-increasing demands. We are all facing up to the challenge of doing more with less. The Welsh Government has set the framework to support a new, collaborative approach by putting in place the public services partnership council for Wales to provide political leadership, and the public service leadership group to turn this leadership into action.

Mae sector cyhoeddus Cymru yn wynebu heriau digyffelyb a sylweddol. Mae toriadau cyllid olynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn anffodus yn golygu bod cyllidebau'n lleihau ar adeg pan mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu galwadau cynyddol. Rydym i gyd yn wynebu'r her o wneud mwy gyda llai. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y fframwaith i gefnogi dull newydd, cydweithredol o weithio trwy sefydlu'r cyngor partneriaeth gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Cymru er mwyn darparu arweiniad gwleidyddol, a grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus i droi'r arweinyddiaeth hon yn weithred.

Over the summer recess, I visited all 22 local authorities to meet front-line staff and service users and visit facilities, and I saw how authorities are turning the challenges into opportunities. Local government sometimes has a reputation of only being about roads and rubbish collection. However, there is so much more. It provides services to protect the most vulnerable in our society. It looks after us when we fall ill or are in need. It keeps us safe and makes our communities places we want to live in. Often it is only when we are in crisis that we experience the full extent of these 'unseen services', and feel the profound difference that public services make to our lives.

Dros doriad yr haf, ymwelais â phob un o'r 22 awdurdod lleol i gwrdd â staff y rheng flaen a defnyddwyr gwasanaethau ac ymweld â chyfleusterau, a gwelais sut y mae awdurdodau yn troi'r sialensiau yn gyfleoedd. Weithiau mae gan lywodraeth leol enw am ymwneud yn unig â ffyrdd a chasglu sbwriel, ond mae llawer mwy iddo na hynny. Mae'n darparu gwasanaethau i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'n gofalu amdanom pan fyddwn yn mynd yn sâl neu pan fyddwn mewn angen. Mae'n ein cadw'n ddiogel ac yn gwneud ein cymunedau yn lleoedd yr ydym am fyw ynddynt. Yn aml, dim ond pan ydym mewn argyfwng yr ydym yn profi gwir raddfa'r 'gwasanaethau anweledig' hyn, ac yn teimlo'r gwahaniaeth mawr y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i'n bywydau.

The commitment and dedication that I have seen from those working at the front line has been outstanding. Again and again, I saw staff who are extremely motivated to making the lives of individuals and their families more manageable, and to helping children and young people get the best start in life, all without any expectation of thanks for their hard work. Across all 22 local authorities, the service users I met had nothing but praise for the services they receive and for those delivering them. I also met many committed elected Members whose contribution to making public services better is key. Their role in ensuring strong local democracy, built on effective scrutiny and active engagement, ensures that this commitment is recognised and valued. It is important to recognise this contribution, and I want to say a huge 'thank you' to all those who play a part in delivering public services in Wales.

Mae'r ymrwymiad a'r ymroddiad a welais gan y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen wedi bod yn rhagorol. Dro ar ôl tro, gwelais staff sydd â chymhelliant eithriadol i wneud bywydau unigolion a'u teuluoedd yn rhwyddach, ac i helpu plant a phobl ifanc gael y dechrau gorau mewn bywyd, i gyd heb ddisgwyl unrhyw ddiolch am eu gwaith caled. Ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol, nid oedd gan y defnyddwyr gwasanaeth y cwrddais â nhw ddim byd ond canmoliaeth am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn ac am y rhai sy'n eu darparu. Cwrddais hefyd â llawer o Aelodau etholedig ymroddedig y mae eu cyfraniad at wella gwasanaethau cyhoeddus yn allweddol. Mae eu rôl o ran sicrhau democratiaeth leol gref, wedi'i hadeiladu ar graffu effeithiol ac ymgysylltu gweithredol, yn sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Mae'n bwysig cydnabod y cyfraniad hwn, ac rwyf am ddweud diolch o galon i bawb sy'n chwarae rhan wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

I want to talk about ingenuity, innovation, integration and entrepreneurship. I saw individuals and organisations looking at the way they do business, and coming up with new ways of delivering services, not only to save money, but to make real improvements to the experiences of users. I visited one-stop shops and call centres in Cardiff, Caerphilly, Ceredigion, Pembrokeshire, Flintshire, the Vale of Glamorgan and Wrexham. These hubs allow citizens and businesses to access information from their council on debt management, housing, health and social care provision, family services and welfare reform in a single place. This has enabled councils to make efficiency savings and, importantly, has led to a better, more joined-up service for those needing support.

Rwyf am siarad am ddyfeisgarwch, arloesedd, integreiddio ac entrepreneuriaeth. Gwelais unigolion a sefydliadau yn ystyried sut maent yn gwneud busnes, ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, nid yn unig er mwyn arbed arian, ond er mwyn gwneud gwelliannau gwirioneddol i brofiadau defnyddwyr. Ymwelais â siopau un stop a chanolfannau cyswllt yng Nghaerdydd, Caerffili, Ceredigion, Sir Benfro, Sir y Fflint, Bro Morgannwg a Wrecsam. Mae'r canolfannau hyn yn galluogi dinasyddion a busnesau i gael gafael ar wybodaeth gan eu cyngor am reoli dyledion, darpariaeth tai, iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau i deuluoedd a'r diwygiadau i'r gyfundrefn les mewn un lle. Mae hyn wedi galluogi cynghorau i arbed arian ac, yn bwysig, wedi arwain at wasanaeth gwell, mwy cydgysylltiedig ar gyfer y rhai sydd angen cymorth.

Ingenuity and entrepreneurship were at the heart of the food waste and recycling projects that I saw in Wrexham, Gwynedd and Rhondda Cynon Taf. Rather than viewing European requirements to reduce the amount of waste that goes into landfill as a burden, it has been seen as an entrepreneurial opportunity. Food waste plants are producing biofertiliser for use on agricultural land, thereby supporting our rural economy. The energy produced often generates income, while supporting the growth of the green economy in Wales. These facilities are also creating local jobs and supporting Welsh businesses.

Dyfeisgarwch ac entrepreneuriaeth oedd wrth wraidd y prosiectau gwastraff ac ailgylchu bwyd a welais yn Wrecsam, Gwynedd a Rhondda Cynon Taf. Yn hytrach nag ystyried gofynion Ewropeaidd i anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi fel baich, mae wedi cael ei weld fel cyfle entrepreneuraidd. Mae gweithfeydd gwastraff bwyd yn cynhyrchu biowrtaith i'w ddefnyddio ar dir amaethyddol, a thrwy hynny'n cefnogi ein heconomi wledig. Mae'r ynni a gynhyrchir yn aml yn creu incwm, ac yn cefnogi twf yr economi werdd yng Nghymru. Mae'r cyfleusterau hyn hefyd yn creu swyddi lleol ac yn cefnogi busnesau Cymru.

In Blaenau Gwent, I met a group of young people benefiting from a project that focuses on how out-of-school-hours learning can support them to realise their full potential by improving the structure, planning and co-ordination of this provision. In Swansea, Carmarthenshire and Torfaen I visited road improvement schemes. These essential road projects are going the extra mile. For example, in Swansea, wild flowers have been planted along the verges. This is a boost to local biodiversity, as well as offering financial savings, as the wildflower verges require less cutting and are self-sustaining.

Ym Mlaenau Gwent, cyfarfûm â grŵp o bobl ifanc yn elwa o brosiect sy'n canolbwyntio ar sut y gall dysgu tu allan i oriau ysgol eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial trwy wella strwythur y ddarpariaeth hon, a'r dull o'i chynllunio a'i chydgysylltu. Yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Thorfaen ymwelais â chynlluniau gwella ffyrdd. Mae'r prosiectau ffyrdd hanfodol hyn yn mynd y filltir ychwanegol. Er enghraifft, yn Abertawe, mae blodau gwyllt wedi cael eu plannu ar hyd y lleiniau ar ymyl y ffyrdd. Mae hyn yn hwb i fioamrywiaeth leol, yn ogystal ag arbed arian, gan fod y lleiniau blodau gwyllt yn hunan-gynhaliol a bod llai o angen eu torri.

We are all aware of the stark demographics meaning that health and social care demand will soon outstrip supply. Existing service models simply will not be able to cope. We need a step change if we are to continue to offer adequate provision to those in need. Innovation and integration are at the core of the health and social care projects that I saw in Merthyr Tydfil, Gwynedd, Denbighshire, Anglesey, Flintshire, Bridgend, Monmouthshire, Conwy and Powys.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r ddemograffeg drawiadol sy'n golygu y bydd y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fuan yn fwy na'r cyflenwad. Yn syml, ni fydd modelau gwasanaeth presennol yn gallu ymdopi. Mae arnom angen newid sylweddol os ydym am barhau i gynnig darpariaeth ddigonol i bobl mewn angen. Mae arloesi ac integreiddio wrth wraidd y prosiectau iechyd a gofal cymdeithasol a welais ym Merthyr Tudful, Gwynedd, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Conwy a Phowys.

I saw examples of social services departments working with local health boards, as well as social housing providers, leisure services and the third sector to support people to live more independent lives and remain in their own homes or in community settings. These integrated approaches can both reduce the pressure on the NHS, by preventing hospital admissions, and the length of stay if admitted. More preventative interventions and policies can reduce demand.

Gwelais enghreifftiau o adrannau gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio gyda byrddau iechyd lleol, yn ogystal â darparwyr tai cymdeithasol, gwasanaethau hamdden a'r trydydd sector i gefnogi pobl i fyw bywydau mwy annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau cymunedol. Gall y dulliau gwaith integredig hyn leihau'r pwysau ar y GIG, trwy atal pobl rhag cael eu derbyn i ysbytai, a sicrhau eu bod yn aros am gyfnodau byrrach os cânt eu derbyn. Gall mwy o ymyriadau a pholisïau ataliol leihau'r galw.

At Park House in Neath Port Talbot and Serennu children's centre in Newport, the innovative approaches taken have changed not only the lives of the child but of their whole family, allowing them to do normal things, such as play in the park or host a children's birthday party at the cinema. Bringing resources together under one roof maximises the positive impact of these services. The enormous pressure that these families are often under is hard to imagine. These facilities give them time and space, offering the whole family support and allowing them to live fuller lives.

Yn Park House yng Nghastell-nedd Port Talbot a chanolfan blant Serennu yng Nghasnewydd, mae'r dulliau arloesol a fabwysiadwyd wedi newid bywyd y teulu cyfan, yn ogystal â'r plentyn, gan eu galluogi i wneud pethau arferol, fel chwarae yn y parc neu gynnal parti pen-blwydd i'r plant yn y sinema. Gellir gwneud y gorau o effaith gadarnhaol y gwasanaethau hyn trwy ddod ag adnoddau at ei gilydd o dan yr un to. Mae'n anodd dychmygu'r pwysau enfawr y mae'r teuluoedd hyn yn aml oddi tano. Mae'r cyfleusterau hyn yn rhoi amser a lle iddynt, gan gynnig cymorth i'r teulu cyfan a chaniatáu iddynt fyw bywydau llawnach.

My summer tour offered a glimpse of what we should all be striving to achieve for our public services in Wales. However, there is a long way to go and this transcends any debate over organisational structures. The challenges ahead are evident: reduced finances, increasing pressures on services and shifting user expectations. The only way forward is for local government and public services in Wales to adopt different ways of delivering outcomes to services users. The public service reform agenda must now be framed differently, looking at different service, delivery and workforce models.

Rhoddodd fy nhaith dros yr haf gipolwg o'r hyn y dylem i gyd fod yn ymdrechu i'w gyflawni ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ffordd bell i fynd, ac mae hyn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddadl ynghylch strwythurau sefydliadol. Mae'r heriau sydd o'n blaen yn amlwg: llai o gyllid, pwysau cynyddol ar wasanaethau a newidiadau yn nisgwyliadau defnyddwyr. Yr unig ffordd ymlaen yw i lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu ffyrdd gwahanol o gyflawni canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Rhaid i'r agenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn awr gael ei fframio'n wahanol, gan edrych ar wahanol fodelau o ran gwasanaeth, darpariaeth a'r gweithlu.

Local authorities across Wales should be sharing best practice and thinking about how they can improve delivery models on their own patch. I will be publishing a prospectus of case studies on the Welsh Government website today to support learning from the best examples I have seen right across Wales. Today also sees the publication of 'Learning to Improve: An Independent Assessment of the Welsh Government's Policy for Local Government'. I encourage all to reflect on the messages contained within that report.

Dylai awdurdodau lleol ar draws Cymru fod yn rhannu arferion gorau ac yn ystyried sut y gallant wella modelau cyflwyno yn eu hardal eu hunain. Byddaf yn cyhoeddi prosbectws o astudiaethau achos ar wefan Llywodraeth Cymru heddiw i gynorthwyo sefydliadau i ddysgu o'r enghreifftiau gorau yr wyf wedi'u gweld ar hyd a lled Cymru. Mae heddiw hefyd yn gweld cyhoeddi 'Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol'. Rwyf yn annog pawb i fyfyrio ar y negeseuon sydd yn yr adroddiad.

Driving performance across public services is all of our business and should be top of all of our agendas. I have asked local authorities to support me in this challenge and would ask Members to do the same. I am sure that Members have all seen best practice in their own constituencies and regions, and I would welcome their contributions.

Rydym i gyd yn gyfrifol am sbarduno perfformiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus, a dylai fod ar frig agenda pob un ohonom. Rwyf wedi gofyn i awdurdodau lleol fy nghefnogi yn yr her hon a byddwn yn gofyn i'r Aelodau wneud yr un peth. Rwyf yn siŵr bod yr Aelodau i gyd wedi gweld arfer gorau yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau eu hunain, a byddwn yn croesawu eu cyfraniadau.

16:22

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will move on to the spokespeople, but I ask you again to focus on your questions.

Symudwn ymlaen at y llefarwyr, ond rwyf yn gofyn ichi eto ganolbwyntio ar eich cwestiynau.

16:22

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for her statement today. It has to be warmly welcomed that you actually did take the time and trouble to go out to visit all 22 local authorities. You visited the front line—the operational side of our local authorities—where no doubt you saw a lot of good work in action. I share in your comments about best practice being a bad traveller. Many local authorities do a fantastic job, but when it comes to sharing best practice and saying 'Look, we are really good at this' and 'Why don't you try that', it does not always happen.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Mae'n rhaid croesawu'n gynnes y ffaith eich bod wedi mynd i'r drafferth i fynd allan i ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol. Roeddech yn ymweld â'r rheng-flaen—ochr weithredol ein hawdurdodau lleol—lle mae'n siŵr eich bod wedi gweld llawer o waith da. Rwyf innau'n cytuno â'ch sylwadau fod arfer gorau yn deithiwr gwael. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gwneud gwaith gwych, ond pan ddaw'n fater o rannu arfer gorau a dweud 'Rydym yn dda iawn am wneud hyn' a 'Beth am roi cynnig ar hynny?', nid yw'n digwydd bob amser.

I also notice that your report covers case studies of collaboration, early interventions, innovation, practice and entrepreneurial approach across local authorities. Those, as you rightly pointed out, are the areas that, when finances are tight, need to be looked at. Your acknowledgement of that is to be congratulated.

Rwyf hefyd yn sylwi bod eich adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o gydweithredu, ymyriadau cynnar, arloesedd ac agwedd entrepreneuraidd ar draws awdurdodau lleol. Dyma'r meysydd y mae angen edrych arnynt pan fo arian yn dynn, fel yr ydych yn llygad eich lle i nodi. Mae eich cydnabyddiaeth o hynny i'w llongyfarch.

However, we need to recognise that there are still some issues. There are six education departments in special measures and there is a lack of transparency and democratic accountability in some authorities. We are not there yet on those. You have looked across Wales, but have you also looked outside Wales, where there are models of good practice in other parts of the UK in service delivery in our public services?

Fodd bynnag, mae angen inni gydnabod bod rhai problemau o hyd. Mae chwech o adrannau addysg yn y categori mesurau arbennig ac mae diffyg tryloywder ac atebolrwydd democrataidd mewn rhai awdurdodau. Nid ydym wedi llwyddo eto ar y rheini. Rydych wedi edrych ar draws Cymru, ond a ydych chi hefyd wedi edrych y tu allan i Gymru, lle mae modelau o arfer da mewn rhannau eraill o'r DU o ran darparu gwasanaethau yn ein gwasanaethau cyhoeddus?

I also see in your report that there is a section about examples of collaborative working. I notice the reference to the public services partnership council for Wales. Can you explain to Members how this differs to the previous partnership council for Wales in its remit, which the previous Minister used to so often refer to when I mentioned collaboration to him?

Rwyf hefyd yn gweld bod eich adroddiad adran am enghreifftiau o gydweithredu. Rwyf yn sylwi ar y cyfeiriad at y cyngor partneriaeth gwasanaethau cyhoeddus i Gymru. A allwch chi esbonio wrth yr Aelodau sut y mae ei gylch gwaith yn wahanol i un y cyngor partneriaeth blaenorol ar gyfer Cymru, yr oedd y Gweinidog blaenorol mor aml yn cyfeirio ato pan oeddwn yn sôn wrtho am gydweithredu?

No doubt, as you have travelled across the 22 local authorities, you will be very well aware of where collaboration is working, taking place, running effectively and providing best value for taxpayers. Minister, I have asked on several occasions two questions of you. How many collaboration projects have we got effectively running across the whole of Wales? I have asked several times and I have not really had a cohesive response. Also, what is the extent of the efficiency savings that have materialised since the inception of collaborative working? I would really appreciate it if you could answer those questions. However, in short, I commend wholeheartedly the work that you have done in going out to local authorities. At the end of the day, it is the front-line, operational people who deliver those vital services.

Yn sicr, gan eich bod wedi teithio ar draws y 22 awdurdod lleol, byddwch yn ymwybodol iawn o ble mae trefniadau cydweithredu'n llwyddo, yn digwydd, yn rhedeg yn effeithiol ac yn darparu'r gwerth gorau i drethdalwyr. Weinidog, rwyf wedi gofyn dau gwestiwn i chi ar sawl achlysur. Faint o brosiectau cydweithredu sydd gennym yn gweithredu'n effeithiol ar draws Cymru gyfan? Rwyf wedi gofyn nifer o weithiau ac nid wyf mewn gwirionedd wedi cael ymateb cydlynol. Hefyd, faint o arian effeithlonrwydd a arbedwyd ers cychwyn trefniadau cydweithredu? Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ateb y cwestiynau hynny. Fodd bynnag, yn gryno, rwyf yn cymeradwyo'n llwyr y gwaith yr ydych wedi'i wneud trwy fynd allan i awdurdodau lleol. Ar ddiwedd y dydd, y bobl weithredol ar y rheng flaen sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol hynny.

16:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Janet Finch-Saunders for those questions. When I was appointed in March, I thought that it was very important that I should visit all 22 local authorities. I met the leaders and the chief executives, and told them that I would come back over the summer recess to spend some significant time in each area to see examples of best practice. I take my responsibilities as Minister very seriously. I think that it is really important that I see the examples of best practice for myself and then go out to highlight them, to shine a light on where that best practice is. I strongly believe that best practice is not a bad traveller and that we should be sharing it. If local authorities can look to other areas in Wales and see best practice and how it is being rolled out, it can only lead to better services.

Diolch i Janet Finch-Saunders am y cwestiynau hynny. Pan gefais fy mhenodi ym mis Mawrth, roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig iawn imi ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol. Cwrddais â'r arweinwyr a'r prif weithredwyr, a dweud wrthynt y byddwn yn dod yn ôl yn ystod toriad yr haf i dreulio amser sylweddol ym mhob ardal i weld enghreifftiau o arfer gorau. Rwyf yn cymryd fy nghyfrifoldebau fel Gweinidog yn ddifrifol iawn. Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig fy mod yn gweld yr enghreifftiau o arfer gorau drosof fi fy hun, ac yna'n mynd allan i dynnu sylw atynt, i ddangos ble y mae'r arfer gorau hwnnw. Credaf yn gryf nad yw arfer gorau yn deithiwr gwael ac y dylem fod yn ei rannu. Os gall awdurdodau lleol edrych ar ardaloedd eraill yng Nghymru a gweld arfer gorau a sut y mae'n cael ei gyflwyno, ni all hyn ond arwain at well gwasanaethau.

Clearly, finances are tight—you referred to that—and budgets are very constrained. However, I do not think that we should just be looking at collaboration for collaboration's sake, or just for the sake of savings and efficiencies. I certainly saw examples of collaboration where people would then be transferred seamlessly rather than having to go back to the drawing board, if you like.

Yn amlwg, mae cyllid yn dynn—gwnaethoch gyfeiriad at hynny—ac mae cyllidebau'n gyfyngedig iawn. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y dylem fod yn edrych ar gydweithredu er mwyn cydweithredu, neu ddim ond er mwyn arbed arian ac effeithlonrwydd. Yn sicr gwelais enghreifftiau o gydweithredu lle byddai pobl wedyn yn cael eu trosglwyddo'n ddi-dor yn hytrach na gorfod mynd yn ôl i'r man cychwyn, fel petai.

I mentioned one-stop shops. Before, somebody would have to go to six different centres, perhaps, for information on housing and welfare reform. In Flintshire, I saw that not only were council services provided, but that the third sector and Jobcentre Plus were involved as well. It is really good to see that sort of collaboration.

Soniais am siopau un stop. O'r blaen, byddai'n rhaid i rywun fynd i chwe chanolfan wahanol, efallai, i gael gwybodaeth am dai a diwygiadau i'r gyfundrefn les. Yn Sir y Fflint, gwelais nid yn unig fod gwasanaethau cyngor yn cael eu darparu, ond bod y trydydd sector a'r Ganolfan Byd Gwaith yn cymryd rhan yn ogystal. Mae'n wirioneddol dda gweld y math hwnnw o gydweithredu.

You mentioned leadership, which is so important; that is why I have these groups. I chair the public service leadership group, and it is really important that those conversations take place at that level. You also mentioned the specific number of collaborations. There are so many collaborations. I am not quite sure what you mean by specific collaborations; I do not know whether you are referring to the regional collaboration fund, but I can certainly write to you with the specific number of schemes that we have within that fund.

Soniasoch am arweiniad, sydd mor bwysig; dyna pam y mae'r grwpiau hyn gennyf. Rwyf yn cadeirio'r grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n bwysig iawn bod y sgyrsiau hynny'n digwydd ar y lefel honno. Soniasoch hefyd am nifer penodol y cynlluniau cydweithredu. Mae cymaint ohonynt. Nid wyf yn hollol siŵr beth yr ydych yn ei olygu wrth gydweithredu penodol; nid wyf yn gwybod a ydych yn cyfeirio at y gronfa gydweithredu ranbarthol, ond gallaf yn sicr ysgrifennu atoch gyda nifer penodol y cynlluniau sydd gennym o fewn y gronfa honno.

On efficiencies, I saw an excellent example in north Wales, not actually on my summer tour, where all six local authorities got together to provide services for looked-after children. Some of these looked-after children have very complex needs. If you have one local authority with a child with a specific need, it is much more efficient to provide services—if Wrexham has one service and Gwynedd another—if they pool their resources. They could demonstrate efficiencies to me very clearly.

O ran arbed arian yn sgil effeithlonrwydd, gwelais enghraifft ardderchog yn y gogledd, er nad ar fy nhaith dros yr haf, lle daeth pob un o'r chwe awdurdod lleol at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae gan rai o'r plant hyn sy'n derbyn gofal anghenion cymhleth iawn. Os oes gennych un awdurdod lleol sydd â phlentyn ag angen penodol, mae'n llawer mwy effeithlon i ddarparu gwasanaethau—os oes gan Wrecsam un gwasanaeth a Gwynedd un arall—os ydynt yn cyfuno eu hadnoddau. Roeddent yn gallu dangos effeithlonrwydd i mi yn glir iawn.

However, as I say, collaboration is not just about efficiencies; it is about providing better services for the people of Wales.

Fodd bynnag, fel y dywedais, nid yw cydweithredu'n ymwneud ag arbedion effeithlonrwydd yn unig; mae'n ymwneud â darparu gwasanaethau gwell i bobl Cymru.

16:28

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddaf yn ceisio ufuddhau i'ch cais o ran amser, Ddirprwy Lywydd dros dro. Hoffwn groesawu'r datganiad hwn yn fawr iawn. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi bod yn cynnal deialog gyda llywodraeth leol—mae hynny'n eithriadol o bwysig—a'ch bod yn edrych ar arfer dda wrth ddarparu gwasanaethau. Hoffwn nodi un peth y byddai'n dda ei weld yn cael ei weithredu trwy Gymru gyfan, sef cynllun caffael lleol Cyngor Gwynedd, a lansiwyd yn 2011, lle mae rhyw £40 miliwn wedi cael ei osod mewn cytundebau o fewn Gwynedd yn unig, heb sôn am gytundebau sydd wedi mynd i rannau eraill o'r gogledd. Byddwn yn falch iawn o gael eich ymateb i hynny.

I will adhere to your request for brief questions, temporary Deputy Presiding Officer. I would like to warmly welcome this statement. I appreciate that you have been conducting a dialogue with local government—that is vitally important—and that you are looking at good practice in service provision. I would like to note one thing that it would be good to see being replicated across Wales, namely Gwynedd Council's local procurement scheme, launched in 2011. Contracts worth some £40 million have been let within Gwynedd alone, let alone other contracts that have gone to other parts of north Wales. I would be very pleased to hear your response to that.

Sut ydych yn ymateb i sefyllfa lle mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn awr wedi penderfynu hysbysebu am brif weithredwr newydd gyda chyflog o ryw £140,000? Onid yw'n amser i awdurdodau lleol edrych ar y posibiliadau o rannu cyfrifoldebau, yn hytrach na cheisio cyflogi pobl ar lefel uchel iawn, pan fo'r fath bwysau ar ddarparu gwasanaethau'n lleol?

How do you respond to the situation in Rhondda Cynon Taf County Borough Council, which has decided to advertise for a new chief executive with a salary of some £140,000? Is it not time for local authorities to look at the possibility of sharing responsibilities, rather than trying to appoint people on such high salaries, when local services are under so much pressure?

16:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions. I think that you are absolutely right—it is important to have a dialogue with local government. As I said in my answer to Janet Finch-Saunders, I very much wanted to see examples of best practice, and I certainly was not disappointed. Local procurement is very important, and it is something that local government speaks to me about. You will be aware of the work that I and the Minister for Finance have undertaken in relation to procurement, and it is something that I am certainly taking forward in the variety of groups that I have with local government. You mentioned RCT and the new chief executive. I know that the issue of chief executive and senior officer salary is something that you are extremely interested in. I have certainly done all that I can and I know that my predecessor also encouraged local government to look at the sharing of these posts. Ultimately, it is a decision to be taken locally by locally elected members, and obviously that is what RCT has decided to do.

Diolch ichi am y cwestiynau hynny. Credaf eich bod yn llygad eich lle—mae'n bwysig cael deialog gyda llywodraeth leol. Fel y dywedais yn fy ateb i Janet Finch-Saunders, roeddwn yn awyddus iawn i weld enghreifftiau o arfer gorau, ac yn sicr ni chefais fy siomi. Mae caffael lleol yn bwysig iawn, ac mae'n rhywbeth y mae llywodraeth leol yn siarad â mi amdano. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith yr wyf i a'r Gweinidog Cyllid wedi ei wneud mewn perthynas â chaffael, ac mae'n rhywbeth yr wyf yn sicr yn bwrw ymlaen ag ef yn yr amrywiaeth o grwpiau sydd gennyf gyda llywodraeth leol. Soniasoch am Rondda Cynon Taf a'r prif weithredwr newydd. Gwn fod cyflog prif weithredwyr ac uwch swyddogion yn rhywbeth y mae gennych ddiddordeb mawr ynddo. Rwyf yn sicr wedi gwneud popeth a allaf, a gwn fod fy rhagflaenydd hefyd wedi annog llywodraeth leol i ystyried rhannu'r swyddi hyn. Yn y pen draw, mae'n benderfyniad y dylid ei wneud yn lleol gan aelodau etholedig lleol, ac yn amlwg dyna beth y mae Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu ei wneud.

16:30 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Peter Black, the Liberal Democrat spokesperson.

Galwaf ar Peter Black, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol.

16:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, may I thank you for the statement? It is a very useful statement and I certainly congratulate you for making a point of going out over the summer and visiting all 22 local authorities. May I also echo the words in your statement about the commitment and dedication of local authority staff—not just the front-line staff, but those in the back offices as well? It is not always a well-paid job and it can often be thankless. Staff are often not appreciated in the work that they do. Clearly, a huge number of services depend on those staff delivering that work day in, day out. I think that we should acknowledge the work that they do as a part of this. I am grateful to you for drawing attention to that as part of your statement.

Weinidog, hoffwn ddiolch ichi am y datganiad. Mae'n ddatganiad defnyddiol iawn ac yn sicr rwyf yn eich llongyfarch am wneud pwynt o fynd allan yn ystod yr haf ac yn ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol. A gaf i hefyd adleisio'r geiriau yn eich datganiad am ymrwymiad ac ymroddiad staff awdurdodau lleol—nid dim ond y staff rheng flaen, ond y rhai yn y swyddfeydd cefn hefyd? Nid yw bob amser yn waith sy'n talu'n dda ac yn aml gall fod yn ddiddiolch. Yn aml nid yw staff yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwaith y maent yn ei wneud. Yn amlwg, mae nifer fawr o wasanaethau yn dibynnu ar y staff hynny i gyflawni'r gwaith hwnnw ddydd ar ôl dydd. Rwyf yn meddwl y dylem gydnabod y gwaith y maent yn ei wneud fel rhan o hyn. Rwyf yn ddiolchgar i chi am dynnu sylw at hynny fel rhan o'ch datganiad.

I am very interested in your tour around Wales. I am glad that you are not handing out T-shirts. It is important that we acknowledge, in terms of sharing best practice, that as important as that is, there are also differences between local authorities that reflect the character and the areas that they represent. We should not try to impose a uniform delivery model across the whole of Wales in terms of how those local authorities operate. Obviously, the way that they deliver services reflects the communities that they represent and the challenges that they all face.

Mae gennyf ddiddordeb mawr yn eich taith o gwmpas Cymru. Rwyf yn falch nad ydych yn dosbarthu crysau-T. Er mor bwysig yw rhannu arfer gorau, mae hefyd yn bwysig ein bod yn cydnabod bod gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol sy'n adlewyrchu cymeriad yr ardaloedd y maent yn eu cynrychioli. Ni ddylem geisio gosod model unffurf ar draws Cymru gyfan o ran y ffordd y mae'r awdurdodau lleol hynny'n gweithredu. Yn amlwg, mae'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli a'r heriau y maent i gyd yn eu hwynebu.

I also think that we should acknowledge that many local authorities have been planning and preparing for changes in their financial resources over the last decade. Many of them have found savings year on year to try to meet the challenges that face them, not just in terms of service delivery, but also in terms of the reducing resources available to them. Again, we need to recognise the work of those who lead those authorities and local councillors in the way that they do that.

Rwyf hefyd yn meddwl y dylem gydnabod bod llawer o awdurdodau lleol wedi bod yn cynllunio a pharatoi ar gyfer newidiadau yn eu hadnoddau ariannol yn ystod y degawd diwethaf. Mae llawer ohonynt wedi llwyddo i arbed arian flwyddyn ar ôl blwyddyn i geisio ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu, nid yn unig o ran darparu gwasanaethau, ond hefyd o ran yr adnoddau gostyngol sydd ar gael iddynt. Unwaith eto, mae angen i ni gydnabod gwaith y rhai sy'n arwain yr awdurdodau hynny a chynghorwyr lleol yn y ffordd y maent yn gwneud hynny.

My question really relates to what you are talking about in terms of joint working. I think that that is very important. I am interested in what you found when talking to local council officers and councillors in terms of how local authorities work with other public bodies outside the local government sector. We often get Ministers coming to talk to us about how local government needs to collaborate, but very rarely do we get Ministers who are not local government Ministers coming to us and saying how health or education should be collaborating with local government at a further or higher education or health level. I have never been convinced that the drive is there in those ministerial posts in the same way that it has been at a local government level. I am interested in the reactions you have had from officers and councillors that you have spoken to about that particular issue, and how you are working with your colleagues to try to improve co-operation between all the public services within each local government area to try to get, not just a more efficient and more effective service, but also a more joined-up service along the lines of some of those that you saw when you were on your tour.

Mae fy nghwestiwn yn ymwneud mewn gwirionedd â'r hyn yr ydych yn sôn amdano o ran gweithio ar y cyd. Credaf fod hynny'n bwysig iawn. Mae gennyf ddiddordeb yn yr hyn a welsoch wrth siarad â swyddogion a chynghorwyr cynghorau lleol o ran sut y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill y tu allan i'r sector llywodraeth leol. Mae Gweinidogion yn aml yn dod i siarad â ni am sut y mae angen i lywodraeth leol gydweithredu, ond anaml iawn y cawn Weinidogion nad ydynt yn Weinidogion llywodraeth leol yn dod atom ac yn dweud sut y dylai iechyd neu addysg fod yn cydweithredu gyda llywodraeth leol ar lefel addysg bellach neu uwch neu iechyd. Nid wyf erioed wedi bod yn argyhoeddedig bod yr egni yno yn y swyddi gweinidogol hynny yn yr un ffordd ag y mae wedi bod ar lefel llywodraeth leol. Mae gennyf ddiddordeb yn yr ymateb a gawsoch gan swyddogion a chynghorwyr yr ydych wedi siarad â nhw am y mater penodol hwnnw, a sut yr ydych yn gweithio gyda'ch cydweithwyr i geisio gwella'r cydweithrediad rhwng yr holl wasanaethau cyhoeddus o fewn pob ardal llywodraeth leol er mwyn ceisio cael gwasanaeth mwy cydgysylltiedig tebyg i rai o'r rhai a welsoch pan oeddech ar eich taith, yn ogystal â gwasanaeth mwy effeithlon a mwy effeithiol.

16:33

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for those questions. I am certainly not handing out the T-shirts, but I would encourage all Members to download the prospectus from the website because I think that there is a great deal that we can learn from the case studies. You mentioned backroom staff—I suppose that I mean backroom staff as well as front-line staff—and you are right: certainly in the call centres, there are many staff who are never seen, they are just at the end of a phone. I listened in in a few places. I was in the Vale of Glamorgan—I think that that was the first call centre that I visited—and I listened in on several phone calls, and often the people on the other end of the phone were in distress. It was interesting to see how they were handled and passported to the correct place.

Diolch i Peter Black am y cwestiynau hynny. Yn sicr, nid wyf yn dosbarthu'r crysau-T, ond byddwn yn annog yr holl Aelodau i lawrlwytho'r prosbectws oddi ar y wefan gan fy mod yn credu y gallwn ddysgu llawer iawn o'r astudiaethau achos. Rydych yn sôn am staff ystafell gefn—mae'n debyg fy mod yn golygu staff ystafell gefn yn ogystal â staff rheng flaen—ac rydych yn iawn: yn sicr yn y canolfannau cyswllt, mae llawer o staff sydd ar ben y ffôn a byth yn cael eu gweld. Clustfeiniais mewn rhai ardaloedd. Roeddwn ym Mro Morgannwg—credaf mai dyna oedd y ganolfan alwadau gyntaf i mi ymweld â hi—a gwrandewais ar nifer o alwadau ffôn, ac yn aml roedd y bobl ar ben arall y ffôn mewn trallod. Roedd yn ddiddorol gweld sut yr oeddent yn cael eu trin ac yn cael eu cyfeirio i'r man cywir.

You mentioned that local authorities are different and distinctive. That is absolutely right. I am certainly not suggesting that the best practice that I have seen is some sort of one-size-fits-all model that can be rolled out across every area in every public service across Wales. That is clearly not the case. What I am saying is that every single local authority in Wales should be learning about the best projects that I have seen and seriously thinking about how they can improve their delivery models on their patch. When I asked to see best practice, that is what they showed me. That is why I feel that so much of the best practice that I saw was right at the top of the pile.

Roeddech yn sôn bod awdurdodau lleol yn wahanol ac yn unigryw. Rydych yn llygad eich lle. Yn sicr, nid wyf yn awgrymu bod yr arfer gorau yr wyf wedi ei weld yn rhyw fath o fodel unffurf y gellir ei gyflwyno ar draws pob ardal ym mhob gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru. Yn amlwg, nid felly y mae hi. Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw y dylai pob awdurdod lleol unigol yng Nghymru ddysgu am y prosiectau gorau yr wyf wedi'u gweld a meddwl o ddifrif am sut y gallant wella eu modelau cyflwyno yn eu hardal eu hunain. Pan ofynnais am weld arfer gorau, dyna beth ddangoswyd imi. Dyna pam yr wyf yn teimlo bod cymaint o'r arfer gorau a welais ar y brig yn union.

You mentioned collaboration and working with not just other local authorities, and I saw some examples of that. I visited about three extra-care facilities where local authorities work very closely with housing associations. There was one that I visited where I think that I could have gone, at the age I am. Some of them were different ages. I saw people living together. In one place, there was a gentleman of 96 teaching them all how to play whist. It was great to see those sorts of people still having their independence and still being able to get together with other people in their area when they wanted that.

Fe wnaethoch sôn am gydweithredu a gweithio, nid yn unig gydag awdurdodau lleol eraill, a gwelais rai enghreifftiau o hynny. Ymwelais ag oddeutu tri chyfleuster gofal ychwanegol lle mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos iawn gyda chymdeithasau tai. Roedd un a welais lle rwy'n meddwl y gallwn i fod wedi mynd, yn fy oed i. Roedd rhai ohonynt o wahanol oedrannau. Gwelais bobl yn byw gyda'i gilydd. Mewn un lle, roedd gŵr bonheddig 96 oed yn eu dysgu nhw i gyd sut i chwarae chwist. Roedd yn wych gweld y mathau hynny o bobl yn dal i gadw'u hannibyniaeth ac yn dal i allu cyfarfod â phobl eraill yn eu hardal pan oeddent eisiau hynny.

In health and social care, clearly there is a huge amount of integration and collaboration going on. I am working very closely with my colleagues, the Minister for Health and Social Services and the Deputy Minister for Social Services, and we are meeting people in each local health board area and meeting the local authorities within that area to see how we can take forward much more integration of health and social care and social services going forward.

Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn amlwg mae llawer iawn o integreiddio a chydweithredu'n digwydd. Rwyf yn gweithio'n agos iawn gyda'm cydweithwyr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rydym yn cwrdd â phobl ym mhob ardal bwrdd iechyd lleol ac yn cwrdd â'r awdurdodau lleol yn yr ardal honno er mwyn gweld sut y gallwn integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yn llawer mwy yn y dyfodol.

16:36 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First, Minister, I also congratulate you on visiting each local authority in Wales. I know how well it has been appreciated by following Twitter and Facebook. I am sure that you have been impressed by both the breadth of local government provision and its quality, including services varying from dealing with wasp nests to individual, personal social services, from dealing with the mis-selling of goods to education and schools, to services that help to improve finesses and to increase life chances in our most disadvantaged communities. I am sure that you were impressed by the quality of the services and the satisfaction felt by many, or all, of the users of those services.

Yn gyntaf, Weinidog, rwyf hefyd yn eich llongyfarch am ymweld â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Rwyf yn gwybod cymaint y mae wedi cael ei werthfawrogi drwy ddilyn Trydar a Facebook. Rwyf yn siŵr bod ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth o fewn llywodraeth leol wedi gwneud argraff dda arnoch, gan gynnwys gwasanaethau yn amrywio o ddelio â nythod gwenyn meirch i wasanaethau cymdeithasol unigol, personol, o ddelio â cham-werthu nwyddau i addysg ac ysgolion, i wasanaethau sy'n helpu i wella ffitrwydd ac i gynyddu cyfleoedd bywyd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rwyf yn siŵr eich bod yn edmygu ansawdd y gwasanaethau a'r boddhad a deimlir gan lawer, neu bob un, o ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny.

I have three questions for you. Will you promote the wild flower verges, as introduced by Swansea Council, which is an example of something that is environmentally good and saves money? [Interruption.] Thank you, Rhodri Glyn Thomas; I know that it is in the statement, but I was asking, 'Will you promote it throughout Wales so that all other local authorities can also follow suit and have the benefits of saving money and promoting the environment?'

Mae gennyf dri chwestiwn, Weinidog. A wnewch chi hyrwyddo lleiniau blodau gwyllt, fel y'u cyflwynwyd gan Gyngor Abertawe, sy'n enghraifft o rywbeth sydd yn amgylcheddol dda ac yn arbed arian? [Torri ar draws.] Diolch yn fawr, Rhodri Glyn Thomas, rwyf yn gwybod ei fod yn y datganiad, ond roeddwn yn gofyn, 'A wnewch chi ei hyrwyddo ledled Cymru fel y gall pob awdurdod lleol arall hefyd wneud yr un peth ac elwa trwy arbed arian a hyrwyddo'r amgylchedd?'

Did the Minister see any services that have benefited from the invest-to-save scheme, either via the Welsh Government scheme or by using council reserves? Finally, the Minister did mention that she was impressed by the commitment of the staff in different authorities, but was the Minister also impressed by the commitment to their areas and to public services of the councillors that she met?

A wnaeth y Gweinidog weld unrhyw wasanaethau sydd wedi elwa o'r cynllun buddsoddi i arbed, naill ai trwy gynllun Llywodraeth Cymru neu drwy ddefnyddio cronfeydd y cyngor? Yn olaf, mae'r Gweinidog yn sôn bod ymroddiad y staff mewn awdurdodau gwahanol wedi gwneud argraff arni, ond a wnaed argraff ar y Gweinidog hefyd gan ymroddiad y cynghorwyr y gwnaeth eu cyfarfod i'w hardaloedd ac i wasanaethau cyhoeddus?

16:38 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mick Hedges for his kind words. I very much enjoyed going around all of the local authorities and seeing for myself the excellent services that so many of them provided. You mentioned trading standards and, last week, I was in Powys—that was my final local authority—and I went to a presentation by trading standards. I have to say that I was shocked at the fraudulent things that they showed to me and the copies of things that they had. It was pretty scary to see what is out there and to learn that people are using these things. That is a bit of an unseen service. We do not really know what they do, but it really brought it home to me the excellent work that they do. On service users, I went into several homes of people who use their local services, and it was really good to spend time speaking to them and hearing about their experience of using those public services.

Diolch i Mick Hedges am ei eiriau caredig. Fe wnes i fwynhau mynd o gwmpas pob un o'r awdurdodau lleol yn fawr iawn, a gweld drosof fi fy hun y gwasanaethau rhagorol y mae cynifer ohonynt yn eu darparu. Rydych yn sôn am safonau masnach ac roeddwn ym Mhowys yr wythnos diwethaf—dyna oedd fy awdurdod lleol terfynol—a chefais gyflwyniad gan safonau masnach. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn synnu at y pethau twyllodrus a ddangoswyd imi a'r copïau o bethau a oedd ganddynt. Roedd yn eithaf brawychus i weld beth sydd ar gael ac i ddysgu bod pobl yn defnyddio'r pethau hyn. Mae hwnnw'n dipyn o wasanaeth anweledig. Wyddom ni ddim beth y maent yn ei wneud, ond dangosodd i mi y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud. O ran defnyddwyr gwasanaeth, bûm yng nghartrefi nifer o bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau lleol, ac roedd yn dda iawn cael treulio amser yn siarad â nhw a chlywed am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau cyhoeddus hynny.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:38*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16: 38*

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have already promoted the wild flower beds. I see Peter Black pulling a face. I know that he is not very keen on it, but I think that it is a really good initiative, and I went to Swansea quite early in the tour, so I certainly continued to promote that. I cannot think of an invest-to-save project that I saw, but I did see several local government borrowing initiative schemes, particularly around roads, which are very important. I did not meet a huge number of councillors, but I did meet 12 or so. Certainly, they are as committed as we are to ensuring that their areas offer the best possible public services to their local residents.

Rwyf eisoes wedi hyrwyddo'r gwelyau blodau gwyllt. Rwy'n gweld Peter Black yn tynnu wyneb. Rwy'n gwybod nad oedd yn frwd iawn yn ei gylch, ond rwy'n meddwl ei bod yn fenter wirioneddol dda, ac es i Abertawe yn eithaf cynnar yn y daith, felly roeddwn yn sicr yn parhau i hyrwyddo hynny. Ni allaf feddwl am brosiect buddsoddi i arbed a welais, ond gwelais nifer o gynlluniau menter benthyca llywodraeth leol, yn enwedig ynghylch ffyrdd, sy'n bwysig iawn. Wnes i ddim cwrdd â nifer fawr o gynghorwyr, ond fe wnes i gwrdd â rhyw 12. Yn sicr, maent yr un mor ymroddedig â ninnau i sicrhau bod eu hardaloedd yn cynnig y gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl i'w preswylwyr lleol.

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas ag Adennill Meddiant o Dai Annedd

# Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of Recovery of Possession of Dwelling-houses

Cynnig NDM5248 Carl Sargeant
Motion NDM5248 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona sy'n ymwneud ag adennill meddiant o dai annedd, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill relating to the recovery of possession of dwelling houses, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill and the housing legislative consent motion and memorandum in respect of recovery of possession of dwelling-houses. This is particularly relevant to the action that we are taking to tackle anti-social behaviour.

Rwyf yn falch o gael y cyfle i agor y ddadl ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona a'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynghylch tai a'r memorandwm o ran adennill meddiant tai annedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r camau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

The proposals will help landlords to deal more effectively with the anti-social behaviour of some households through the prohibited conduct clause in every contract. The conduct to be prohibited includes anti-social behaviour, domestic violence and hate crime. A breach of the prohibited conduct clause could trigger proceedings for possession by the landlord.

Bydd y cynigion yn helpu landlordiaid i ymdrin yn fwy effeithiol ag ymddygiad gwrthgymdeithasol rhai aelwydydd trwy'r cymal ymddygiad gwaharddedig ym mhob contract. Mae'r ymddygiad sydd i gael ei wahardd yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais domestig a throseddau casineb. Gallai'r landlord gychwyn achos meddiannu pe byddai'r cymal ymddygiad gwaharddedig yn cael ei dorri.

16:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

16:40

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This legislative consent motion was laid on 23 May and referred to our committee. We considered the LCM on 13 June and invited the Minister to attend our meeting on 17 July to clarify a number of issues. We reported on 17 September.

Gosodwyd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 23 Mai a chafodd ei gyfeirio at ein pwyllgor. Ystyriwyd y cynnig ar 13 Mehefin a gwahoddwyd y Gweinidog i ddod i'n cyfarfod ar 17 Gorffennaf i egluro nifer o faterion. Cyflwynwyd adroddiad gennym ar 17 Medi.

Consent is sought for provisions in Part 5 of the Bill that relate to the recovery of possession on anti-social behaviour grounds of dwelling-houses that are held either on a secure or on an assured tenancy. Consent is also sought for related provisions in Part 13 of the Bill, which deals with the procedure for subordinate legislation made by the Welsh Ministers under the Bill, and with commencement of the relevant provisions of Part 5 insofar as they relate to Wales.

Gofynnir am ganiatâd ar gyfer darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil sy'n ymwneud ag adennill meddiant tai annedd sy'n cael eu dal naill ai ar denantiaeth ddiogel neu sicr, ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ceisir caniatâd hefyd ar gyfer darpariaethau cysylltiedig yn Rhan 13 o'r Bil, sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil, a chyda chychwyn darpariaethau perthnasol Rhan 5 i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru.

There are three main areas that the committee addressed in its report. First, on discretionary grounds for possession, the existing grounds will remain discretionary, but will be modified by the Bill. This means that the courts will make an order for possession only if satisfied that it is reasonable to do so. During our evidence session, the Minister told us that he felt that amending the discretionary grounds for possession was proportionate, and he emphasised that possession would be the end point of a longer process.

Rhoddodd y pwyllgor sylw i dri phrif faes yn ei adroddiad. Yn gyntaf, o ran sail ddewisol ar gyfer meddiant, bydd y sail bresennol yn parhau yn ôl disgresiwn, ond yn cael ei haddasu gan y Bil. Mae hyn yn golygu y bydd y llysoedd yn gwneud gorchymyn meddiannu dim ond os yw'n fodlon ei bod yn rhesymol i wneud hynny. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn teimlo bod diwygio'r seiliau dewisol ar gyfer meddiant yn gymesur, a phwysleisiodd y byddai meddiant yn bwynt olaf i broses hirach.

Secondly, on mandatory grounds for possession, under clause 89 of the Bill, serious anti-social behaviour will become a mandatory ground for possession, and may be based on the conduct of visitors or other residents. The decisions on which ground to use to seek possession will be a matter for the landlord. The Minister told us that the absolute route for possession for anti-social behaviour will only apply when a court has already found a tenant or a member of the tenant's family guilty of serious anti-social behaviour. The tenant is able to have the court consider their defence at the original proceedings, at the time that they took place, meaning that there will be a review period within that. The Minister told us that although the ground for possession is absolute, it is still subject to the Human Rights Act 1998.

Yn ail, o ran sail orfodol ar gyfer meddiant, o dan gymal 89 y Bil, bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol yn dod yn sail orfodol ar gyfer meddiant, a gall fod yn seiliedig ar ymddygiad ymwelwyr neu breswylwyr eraill. Mater i'r landlord fydd penderfynu ar ba sail i geisio meddiant. Dywedodd y Gweinidog wrthym na fydd y llwybr absoliwt ar gyfer meddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ond yn berthnasol pan fydd llys eisoes wedi cael tenant neu aelod o deulu'r tenant yn euog o ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol. Gall y tenant ofyn i'r llys ystyried eu hamddiffyniad yn yr achos gwreiddiol, ar yr adeg y'i cynhaliwyd, sy'n golygu y bydd cyfnod adolygu o fewn hynny. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y sail ar gyfer meddiant yn absoliwt, ond bod Deddf Hawliau Dynol 1998 yn parhau i fod yn berthnasol.

Finally, in relation to requesting a review, the Bill will provide a secure tenant with the right to seek a review of the landlord's decision to seek possession under the mandatory ground. Welsh Ministers may set out in regulations the process to be followed on review. This may include making provision that the reviewer must be more senior than the original decision maker. Assured tenants will have no such right to request a review, but would be able to request a review through their landlord's complaints procedure on a non-statutory basis.

Yn olaf, mewn perthynas â gofyn am adolygiad, bydd y Bil yn rhoi'r hawl i denant diogel ofyn am adolygiad o benderfyniad y landlord i geisio meddiant ar y sail orfodol. Caiff Gweinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau y broses i'w dilyn mewn adolygiad. Gall hyn gynnwys gwneud darpariaeth bod yn rhaid i'r adolygydd fod mewn swydd uwch na'r sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol. Ni fydd gan denantiaid sicr unrhyw hawl o'r fath i ofyn am adolygiad, ond byddent yn gallu gwneud cais am adolygiad trwy weithdrefn gwynion eu landlord ar sail anstatudol.

In the LCM, the Welsh Government states that using this Bill rather than Assembly legislation will ensure that the powers are available on a consistent basis across Wales and England simultaneously. It also states that stakeholders in Wales were eager to have the same tools to deal with anti-social behaviour as those available in England, and that this Bill will deliver that outcome quickly.

Yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru'n datgan y gellir sicrhau bod y pwerau ar gael ar sail gyson ar draws Cymru a Lloegr ar yr un pryd trwy ddefnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad. Mae hefyd yn datgan bod rhanddeiliaid yng Nghymru yn awyddus i gael yr un offer i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol â'r rhai sydd ar gael yn Lloegr, ac y bydd y Bil hwn yn cyflawni'r canlyniad hwnnw'n gyflym.

Looking ahead, the committee notes that Welsh Ministers intend, during 2015, to introduce a renting homes Bill. This Bill is intended to replace secure and assured tenancies, as well as other forms of tenancy, with two new forms of tenancy. The legislation will need to set out new rules for landlords who wish to recover possession, including on the grounds of anti-social behaviour. So, we would like to draw the issues outlined in our report to the attention of the Assembly.

Gan edrych ymlaen, mae'r pwyllgor yn nodi bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil rhentu cartrefi, yn ystod 2015. Bwriad y Bil yw disodli tenantiaethau diogel a sicr, yn ogystal â mathau eraill o denantiaeth, gyda dau fath newydd o denantiaeth. Bydd angen i'r ddeddfwriaeth bennu rheolau newydd ar gyfer landlordiaid sy'n dymuno adennill meddiant, gan gynnwys ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol. Felly, byddem yn hoffi dwyn y materion a amlinellir yn ein hadroddiad i sylw'r Cynulliad.

16:44

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I think that any legislative consent motion that relates to a Bill sponsored by the Home Office warrants a little bit of scrutiny here before it is agreed to, and I am very pleased that the committee was able to look at this. Consenting in this case is about repossession of rented homes on anti-social behaviour grounds. This is a sanction, of course, that will only apply to council and housing association tenants. It will apply if a tenant, another household member or even a visitor is guilty of causing a nuisance to the landlord or their staff, and not necessarily in the vicinity of the home. So, a tenant may have a possession order made against them for the conduct of someone else far away from their property. Most of us, I think, would rightly feel uncomfortable about holding somebody responsible for another person's actions, especially when the sanction is the loss of their home. So, Minister, I would like to know what safeguards there will be so that the use of this sanction will be in the most exceptional of cases. Perhaps you would also explain why this sanction is applicable to social housing tenants and why they are singled out in this legislation. Homeowners and private sector tenants do not appear to run the same risk for conduct that may be identical, or at least comparable. Also, why has the criminal justice system been rejected as a route for this? Perhaps you would tell us whether the social landlords in Wales have been calling for this sanction at all, and perhaps you would comment on the monitoring of the use of this legislation to see whether its use is exceptional and proportionate.

Weinidog, rwyf yn meddwl bod unrhyw gynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â Bil a noddir gan y Swyddfa Gartref yn haeddu ychydig o graffu yma cyn cytuno iddo, ac rwy'n falch iawn bod y pwyllgor wedi gallu edrych ar hyn. Mae cydsynio yn yr achos hwn yn ymwneud ag adfeddiannu cartrefi rhent ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hon yn gosb, wrth gwrs, na fydd ond yn berthnasol i denantiaid cynghorau a chymdeithasau tai. Bydd yn berthnasol os yw tenant, aelod arall o'r aelwyd neu hyd yn oed ymwelydd yn euog o achosi niwsans i'r landlord neu ei staff, ac nid o reidrwydd yng nghyffiniau'r cartref. Felly, efallai y bydd tenant yn cael gwneud gorchymyn ildio meddiant yn ei erbyn am ymddygiad rhywun arall ymhell o'u heiddo. Credaf y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn teimlo'n anghyfforddus, a hynny'n gywir, ynglŷn ag ystyried rhywun yn gyfrifol am weithredoedd rhywun arall, yn enwedig pan mai'r gosb yw colli eu cartref. Felly, Weinidog, hoffwn wybod pa gamau diogelu a fydd yn bodoli er mwyn gofalu mai yn yr achosion mwyaf eithriadol y defnyddir y gosb hon. Efallai y byddech hefyd yn esbonio pam fod y gosb hon yn berthnasol i denantiaid tai cymdeithasol a pham eu bod yn cael eu neilltuo yn y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'n ymddangos bod perchnogion tai a thenantiaid y sector preifat yn wynebu'r un risg ar gyfer ymddygiad a allai fod yn union yr un fath, neu o leiaf ar lefel debyg. Hefyd, pam y mae'r system cyfiawnder troseddol wedi cael ei gwrthod fel llwybr ar gyfer hyn? Efallai y byddech yn dweud wrthym a yw'r landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn galw am y gosb hon o gwbl, ac efallai y byddech yn gwneud sylwadau ar fonitro defnydd y ddeddfwriaeth hon i weld a yw ei defnydd yn eithriadol ac yn gymesur.

I note from the report of the committee that this has general support across the country, so we will support the LCM today. However, perhaps you could tell us how you feel about the fact that the burden of proof for an anti-social behaviour order will now shift from beyond reasonable doubt to the balance of probability. If you find in the future that social tenants are losing their homes on the balance of probability of the conduct of others perhaps not even in the vicinity of their own home, I wonder what action you would be prepared to take. We know that, in the future, you will be bringing forward housing legislation that will relate to tenancies and I wonder why this route is preferable to legislation made here, where we could see statutory safeguards for tenants under these circumstances.

Sylwaf o adroddiad y pwyllgor fod cefnogaeth gyffredinol i hyn ar draws y wlad, felly byddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw. Fodd bynnag, efallai y gallech ddweud wrthym sut yr ydych yn teimlo ynglŷn â'r ffaith y bydd y baich profi ar gyfer gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol bellach yn newid o fod y tu hwnt i amheuaeth resymol, i gydbwysedd tebygolrwydd. Os gwelwch yn y dyfodol fod tenantiaid cymdeithasol yn colli eu cartrefi ar gydbwysedd tebygolrwydd ymddygiad pobl eraill, ddim hyd yn oed yng nghyffiniau eu cartref eu hunain o bosibl, tybed pa gamau y byddech yn barod i'w cymryd. Gwyddom y byddwch yn cyflwyno deddfwriaeth tai a fydd yn berthnasol i denantiaethau yn y dyfodol. Tybed pam y mae'r llwybr hwn yn well na deddfwriaeth a wneir yma, lle y gallem sefydlu camau statudol i amddiffyn tenantiaid o dan yr amgylchiadau hyn.

16:47 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I support some of the points that Jocelyn Davies has made. It is important that, in implementing this proposal, the Minister is very clear in terms of guidelines to local authorities about how they are to take it forward. I note that there is some provision for guidelines and also some provision for the Minister to amend the legislation through regulation, but it is very important that we monitor how this power is rolled out and how it is used, to ensure that no injustices arise from it.

Rwy'n cefnogi rhai o'r pwyntiau y mae Jocelyn Davies wedi'u gwneud. Mae'n bwysig bod y Gweinidog, wrth weithredu'r cynnig hwn, yn rhoi canllawiau eglur iawn i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylent ei weithredu. Nodaf fod rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer canllawiau yn ogystal â pheth darpariaeth i'r Gweinidog ddiwygio'r ddeddfwriaeth drwy reoliadau, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn monitro sut y cyflwynir y pŵer hwn a sut y caiff ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anghyfiawnder yn deillio ohono.

Having said that, having talked to housing officers in the past in relation to problems in my own area with anti-social behaviour, I know that housing officers will welcome some certainty and procedure in terms of being able to tackle very severe anti-social behaviour in a way that they have not been able to before, because the burden of proof has been very difficult for them in terms of getting a court order. So, that does offer some help. I note that this legislation will apply to the private sector, but only if there is an assured tenancy. As most private rented properties are on shorthold tenancies, most private sector properties will not be impacted by it. That raises the problem that, where an anti-social tenant is evicted from a social housing tenancy, they often end up in the private sector in a shorthold tenancy, where we do not have the same power to deal with them in the same way, and, often, the landlord is not interested in dealing with that issue in any case. So, there is an element of shifting the problem from social housing to private housing, which we need to take account of.

Wedi dweud hynny, ar ôl siarad â swyddogion tai yn y gorffennol mewn perthynas â phroblemau yn fy ardal fy hun gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, rwy'n gwybod y bydd swyddogion tai yn croesawu rhywfaint o sicrwydd a gweithdrefn o ran gallu mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol iawn mewn ffordd nad oedd modd iddynt ei wneud yn y gorffennol, oherwydd bod y baich profi wedi bod yn anodd iawn iddynt o ran cael gorchymyn llys. Felly, mae hynny'n cynnig rhywfaint o gymorth. Sylwaf y bydd y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i'r sector preifat, ond dim ond os oes tenantiaeth sicr. Gan fod y rhan fwyaf o eiddo rhent preifat ar denantiaethau byrddaliadol, ni fydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o eiddo yn y sector preifat. Mae hynny'n codi'r broblem y gallai tenant gwrthgymdeithasol gael ei droi allan o denantiaeth tai cymdeithasol symud i denantiaeth byrddaliadol yn y sector preifat, lle nad oes gennym yr un pŵer i ddelio â nhw yn yr un modd, ac, yn aml, nid oes gan y landlord diddordeb mewn ymdrin â'r mater hwnnw p'un bynnag. Felly, mae elfen o symud y broblem o dai cymdeithasol i dai preifat, ac mae angen inni ystyried hynny.

We will be supporting this legislation. In general terms, it is the right direction, but I think that we have to make sure that there are safeguards and guidance in place. I think that we need to make sure that social landlords who are implementing this legislation give proper warnings and that there is a proper process leading up to an eviction, and I do think that we need to have the monitoring that Jocelyn has just referred to, so that we can understand how it is being rolled out across Wales.

Byddwn yn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon. Yn gyffredinol, dyma'r cyfeiriad cywir, ond credaf fod yn rhaid i ni wneud yn siŵr y sefydlir trefniadau diogelu a chanllawiau. Credaf fod angen i ni wneud yn siwr bod landlordiaid cymdeithasol sy'n gweithredu'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi rhybuddion priodol a bod proses briodol sy'n arwain at droi rhywun allan, ac rwy'n meddwl bod angen inni gael y monitro y mae Jocelyn newydd gyfeirio ato, er mwyn i ni ddeall sut y mae'n cael ei gyflwyno ar draws Cymru.

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Members for their contributions today, particularly the Chair of the committee. I am grateful to the committee for the advice and the scrutiny that was involved in taking this to it earlier in the year. In terms of some of the more detailed questions that Members have asked today, I must start by saying that, when this was presented to me, I did question the whole process of this and the scope and scale of the determination. Indeed, we did remove an element of a possession order: the grounds for possession in England include possession around the act of rioting. We have removed that in Wales, because I did not think that it was appropriate with regard to this Bill.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw, yn enwedig Cadeirydd y pwyllgor. Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor am y cyngor a'r craffu pan gyflwynwyd hyn iddo yn gynharach yn y flwyddyn. O ran rhai o'r cwestiynau mwy manwl y mae'r Aelodau wedi'u gofyn heddiw, mae'n rhaid i mi ddechrau trwy ddweud fy mod yn amheus o'r holl broses a chwmpas a graddfa'r penderfyniad pan gafodd hyn ei gyflwyno imi. Yn wir, fe wnaethom ddileu un elfen o orchymyn meddiant: mae'r seiliau dros feddiannu yn Lloegr yn cynnwys meddiant o amgylch y weithred o godi terfysg. Rydym wedi cael gwared ar hynny yng Nghymru, oherwydd nad yw'n briodol ar gyfer y Bil hwn, yn fy marn i.

To give confidence to Members about what these powers are aimed at dealing with, I refer Members to Schedule 3 to the Housing Act 2004, which is due to be inserted subject to the successful passage of this Bill. These include anti-social behaviour and serious offences including murder, manslaughter, kidnapping and false imprisonment, and the list goes on. In terms of sexual offences, the possession order can be applied with regard to the keeping of a brothel, use for prostitution, indecent photographs of children, et cetera. So, these are at the serious end of anti-social behaviour and, I would hope, Members have clearly made reference to that.

I roi hyder i'r Aelodau ynglŷn â'r hyn y bwriedir i'r pwerau hyn ddelio ag ef, cyfeiriaf yr Aelodau at Atodlen 3 i Ddeddf Tai 2004, a gaiff ei gynnwys os bydd y Bil hwn yn mynd trwodd yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau difrifol, gan gynnwys llofruddiaeth, dynladdiad, herwgipio a charcharu ar gam, ac mae'r rhestr yn parhau. O ran troseddau rhywiol, gellir cyflwyyno'r gorchymyn ildio meddiant am gadw puteindy, defnyddio ar gyfer puteindra, ffotograffau anweddus o blant ac ati. Felly, mae'r rhain yn fathau difrifol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a byddwn yn gobeithio, mae Aelodau wedi cyfeirio'n glir at hynny.

In terms of Jocelyn Davies's contribution seeking to understand whether landlords have been engaged in this process, my officials have been working on these proposals for around two years now. They undertook a consultation process between November 2011 and February 2012—a public consultation on the grounds for change—and there was widespread support for the proposed changes within the field of practitioners, including what you mentioned, so I hope that that gives confidence to the Member to support us today.

O ran cyfraniad Jocelyn Davies a cheisio deall a yw landlordiaid wedi bod yn rhan o'r broses hon, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio ar y cynigion hyn am oddeutu dwy flynedd bellach. Cynhaliwyd proses ymgynghori rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Chwefror 2012—ymgynghoriad cyhoeddus ar y sail ar gyfer newid—a chafwyd cefnogaeth eang i'r newidiadau arfaethedig gan ymarferwyr yn y maes, gan gynnwys yr hyn a grybwyllwyd gennych, felly rwy'n gobeithio bod hynny'n rhoi hyder i'r Aelod ein cefnogi heddiw.

Alongside all of this legislation, I was very keen to make sure that the committee was comfortable with this process and the fact that the Housing Act 1985 has to be clarified with regard to the human rights of an individual. We have been very clear to ensure the convention rights within the meaning of the Human Rights Act 1998, and the tenant's human rights should, therefore, not be affected in the provision and introduction of this new piece of legislation.

Ochr yn ochr â'r holl ddeddfwriaeth, rwy'n awyddus iawn i wneud yn siwr bod y pwyllgor yn gyfforddus gyda'r broses hon, a'r ffaith bod yn rhaid egluro Deddf Tai 1985 o safbwynt hawliau dynol unigolyn. Rydym wedi bod yn glir iawn o ran sicrhau hawliau'r confensiwn o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998, ac ni ddylai hawliau dynol y tenant, felly, gael eu heffeithio yn y ddarpariaeth ac wrth gyflwyno'r darn newydd hwn o ddeddfwriaeth.

I am mindful of the comments of Peter, Jocelyn and Christine in terms of futureproofing a piece of legislation that is fit for purpose and I will look at that very closely, post the successful introduction of this element, subject to this motion being passed by this Chamber today.

Rwy'n ymwybodol o sylwadau Peter, Jocelyn a Christine yn nhermau diogelu at y dyfodol ddarn o ddeddfwriaeth sy'n addas i'r diben. Byddaf yn edrych ar hynny'n ofalus iawn, ar ôl y cyflwyno'r elfen hon yn llwyddiannus, os caiff y cynnig hwn ei basio gan y Siambr heddiw.

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Gwaharddebau i Atal Niwsans ac Atal Tarfu ar Bersonau, Gorchmynion Ymddygiad Troseddol a'r Trothwy Cymunedol

## Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of Injunctions to Prevent Nuisance and Annoyance, Criminal Behaviour Orders and the Community Trigger

Cynnig NDM5253 Lesley Griffiths
Motion NDM5253 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona sy'n ymwneud â gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau, gorchmynion ymddygiad troseddol a'r trothwy cymunedol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions relating to injunctions to prevent nuisance and annoyance, criminal behaviour orders and the community trigger contained in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I would like to begin by thanking the Communities, Equality and Local Government Committee for its work in scrutinising the Bill. I note that it has no objections to the provisions for which we are seeking consent in this LCM.

Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am ei waith wrth graffu ar y Bil. Sylwaf nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r darpariaethau yr ydym yn ceisio cydsyniad ar eu cyfer yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

Although many of the provisions referred to in the LCM might not appear, in the first instance, to lie within Assembly competence, there are elements that have an impact on devolved legislative competence. For example, injunctions can be used to tackle violence against NHS staff and we have devolved responsibility for the NHS in Wales, so we could potentially introduce measures that would have the same effect. Similarly, criminal behaviour orders do not lie directly within competence, but an order could be made that would compel an offender to do something that lies within competence. This could include attendance at an alcohol awareness course that would be run by the NHS in Wales, or compelling them to muzzle their dog while in public places—an animal welfare issue, which is devolved.

Er na fydd llawer o'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ymddangos, yn y lle cyntaf, fel pe baent o fewn cymhwysedd y Cynulliad, mae elfennau sy'n cael effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Er enghraifft, gellir defnyddio gwaharddebau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn staff y GIG ac mae gennym gyfrifoldeb datganoledig am y GIG yng Nghymru. Gallem felly gyflwyno mesurau a fyddai'n cael yr un effaith. Yn yr un modd, nid yw gorchmynion ymddygiad troseddol yn uniongyrchol o fewn ein cymhwysedd, ond gellid gwneud gorchymyn a fyddai'n gorfodi troseddwr i wneud rhywbeth sydd o fewn ein cymhwysedd. Gallai hyn gynnwys dilyn cwrs ymwybyddiaeth o alcohol a fyddai'n cael ei redeg gan y GIG yng Nghymru, neu ei orfodi i benffrwyno'i gi tra'i fod mewn mannau cyhoeddus—mater lles anifeiliaid, sydd wedi'i ddatganoli.

We also consider that the community trigger is within competence. It is a mechanism for victims of persistent anti-social behaviour to request relevant bodies, such as local authorities, local health boards and housing providers, as well as the police, to work together to hold case reviews and therefore ensure that anti-social behaviour is dealt with in their area.

Rydym hefyd o'r farn bod y trothwy cymunedol o fewn cymhwysedd. Mecanwaith yw hwn lle y gall pobl sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro ofyn i gyrff perthnasol, megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a darparwyr tai, yn ogystal â'r heddlu, weithio gyda'i gilydd i gynnal adolygiadau achos, ac felly sicrhau yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal.

The functions of many of these bodies relate to devolved matters, therefore an LCM is required. I believe that this LCM should be supported. I think that we all agree that tackling anti-social behaviour and easing the associated impact on victims is a priority for us. Even though we do not have the power to legislate in this area, we do everything that we can to make Wales a safer place in which to live.

Mae swyddogaethau llawer o'r cyrff hyn yn ymwneud â materion datganoledig, felly mae angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Credaf y dylai'r cynnig hwn gael ei gefnogi. Credaf ein bod i gyd yn cytuno bod mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau'r effaith gysylltiedig ar ddioddefwyr yn flaenoriaeth inni. Er nad oes gennym y pŵer i ddeddfu yn y maes hwn, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo.

These measures propose to do this by reducing burdens on partner agencies. The number of powers to deal with anti-social behaviour has come down from 19 to six, and they focus on the needs of victims.

Mae'r mesurau hyn yn bwriadu gwneud hyn trwy leihau beichiau ar asiantaethau partner. Mae nifer y pwerau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod i lawr o 19 i chwech, ac maent yn canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr.

Finally, on a procedural point, on 25 June, a non-Government amendment was considered by the Bill committee and accepted. The effect of this amendment would appear to allow headteachers and principals of further education institutions to apply for injunctions under the provisions of the Bill. The UK Government has not yet confirmed whether it intends to allow this provision to remain in the Bill. It has been consulting on the issue over the summer. My colleague Huw Lewis has given consideration to what the effect of the non-Government amendment would appear to be and its potential impact in Wales. He is currently awaiting information about the UK Government's view, following its consultation, but his view at this stage is that it should not apply in Wales, and his inclination, therefore, is to ask that it does not apply here. However, if the provision were to remain part of the Bill, we would lay a further LCM and motion in relation to it for Assembly scrutiny. We are clear that the amendment is not covered by the LCM and motion that we are considering this afternoon. It is not referred to in the memorandum and was not part of the Bill when it was laid, neither was it referred to or scrutinised by the committee. I commend the motion.

Yn olaf, ar bwynt gweithdrefnol, ar 25 Mehefin, ystyriwyd gwelliant anllywodraethol gan bwyllgor y Bil ac fe'i derbyniwyd. Byddai'n ymddangos bod effaith y diwygiad hwn yn caniatáu i benaethiaid a phrifathrawon sefydliadau addysg bellach wneud cais am waharddebau o dan ddarpariaethau'r Bil. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau eto a yw'n bwriadu caniatáu i'r ddarpariaeth hon aros yn y Bil. Mae wedi bod yn ymgynghori ynghylch y mater hwn dros yr haf. Mae fy nghydweithiwr, Huw Lewis, wedi rhoi ystyriaeth i effaith ymddangosiadol y diwygiad anllywodraethol, a'i ganlyniad posibl yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n aros am wybodaeth ynglŷn â barn Llywodraeth y DU, yn dilyn ei hymgynghoriad, ond ei farn ef ar hyn o bryd yw na ddylai fod yn berthnasol yng Nghymru, a'i dueddiad, felly, yw gofyn iddo beidio â chael ei gynnwys yma. Fodd bynnag, os yw'r ddarpariaeth yn aros yn rhan o'r Bil, byddem yn gosod cynnig cydsyniad deddfwriaethol a chynnig arall mewn perthynas ag ef, i'r Cynulliad graffu arno. Rydym yn glir nad yw'r diwygiad yn rhan o'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol a'r cynnig yr ydym yn ei ystyried y prynhawn yma. Ni chyfeirir ato yn y memorandwm ac nid oedd yn rhan o'r Bil pan gafodd ei osod. Ni chafodd ei gyfeirio at y pwyllgor, ac ni chraffodd arno. Cymeradwyaf y cynnig

16:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

16:56

## Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. This LCM was laid on 24 May and it was referred to the Communities, Equality and Local Government Committee. We considered it on 13 June and subsequently invited the Minister to clarify a number of issues, and we reported on 17 September.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cafodd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei osod ar 24 Mai a chafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Gwnaethom ei ystyried ar 13 Mehefin ac ar ôl hynny gwahoddwyd y Gweinidog i egluro nifer o faterion. Cyflwynwyd adroddiad ar 17 Medi.

First, in relation to anti-social behaviour in general, the committee had some concerns in relation to how these proposals aligned with the Welsh Government's approach to children's policy. The Minister confirmed that she would expect any Welsh children to be dealt with in a way that respected their rights and that she had asked her officials to write to the Home Secretary to ask what consultation had taken place with children and young people.

Yn gyntaf, mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol, roedd gan y pwyllgor rai pryderon ynghylch sut y byddai'r cynigion hyn yn cyd-fynd ag agwedd Llywodraeth Cymru tuag at bolisi plant. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl i unrhyw blant o Gymru gael eu trin mewn ffordd sy'n parchu eu hawliau a'i bod wedi gofyn i'w swyddogion ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i ofyn pa ymgynghori oedd wedi digwydd gyda phlant a phobl ifanc.

In relation to injunctions, the injunction to prevent nuisance and annoyance will replace some current anti-social behaviour measures and will be able to impose positive requirements as well as prohibition. Responding to concerns that the proposals might fast-track individuals into the criminal justice system rather than diverting them away, the Minister said that there was nothing to make her think that it would. She also said that while it would be for local authorities to ensure that the injunctions to prevent nuisance and annoyance were applied proportionately and consistently, she would be monitoring their use carefully.

Mewn perthynas â gwaharddebau, bydd y waharddeb i atal niwsans a tharfu ar bobl yn disodli rhai mesurau ymddygiad gwrthgymdeithasol presennol a bydd yn gallu gosod gofynion cadarnhaol yn ogystal â gwahardd. Gan ymateb i bryderon y gallai'r cynigion roi llwybr cyflym i unigolion i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn hytrach na'u dargyfeirio oddi wrthi, dywedodd y Gweinidog nad oedd dim i wneud iddi feddwl y byddent. Dywedodd hefyd mai mater i awdurdodau lleol fyddai sicrhau bod y gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bobl yn gymesur ac yn gyson, ond y byddai'n monitro eu defnydd yn ofalus.

In relation to Part 2 of the Bill, a new criminal behaviour order will replace some orders that are currently available where a person is convicted of a criminal offence. Courts will be able to impose positive requirements as part of these orders. In relation to the impact on local authorities of these positive requirements, the Minister told us that she had been concerned about this initially, but had been reassured that that would not be the case, because they replace existing powers. She said that she would continue to monitor the potential impact that this legislation would have on local authorities and, if needs be, make representations to the Home Office.

O safbwynt Rhan 2 o'r Bil, bydd gorchymyn ymddygiad troseddol newydd yn disodli rhai gorchmynion sydd ar gael ar hyn o bryd lle y ceir person yn euog o drosedd. Bydd llysoedd yn gallu gosod gofynion cadarnhaol fel rhan o'r gorchmynion hyn. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi bod yn pryderu am effaith y gofynion cadarnhaol hyn ar awdurdodau lleol ar y cychwyn, ond wedi cael sicrwydd na fyddai hynny'n digwydd, oherwydd eu bod yn disodli pwerau sydd eisoes yn bodoli. Dywedodd y byddai'n parhau i fonitro'r effaith bosibl y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn ei chael ar awdurdodau lleol ac, os oes angen, yn gwneud sylwadau i'r Swyddfa Gartref.

On the community trigger, part 6 of the Bill, which would give victims and communities the right to require agencies to deal with persistent anti-social behaviour that has previously been ignored, in relation to the provision for local authorities to determine their own thresholds for the trigger, the Minister told us that local authorities would be compelled to publish the thresholds that they set or any criteria process, which would make them more accountable to their local population and the people whom they serve.

Ar y trothwy cymunedol, rhan 6 y Bil, a fyddai'n rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau fynnu bod asiantaethau'n mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus a anwybyddwyd yn flaenorol, a'r ddarpariaeth i awdurdodau lleol bennu eu trothwyon, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i gyhoeddi'r trothwyon y maent yn eu gosod neu unrhyw broses meini prawf, gan eu gwneud yn fwy atebol i'w poblogaeth leol a'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

We asked the Minister what impact the proposals in the LCM would have on the Welsh Government's intention to bring forward legislation relating to youth offenders, and the Minister said that she did not believe that there would be any impact. In conclusion then, the committee would like again to draw the attention of the Assembly to these issues as part of its consideration of the LCM this afternoon.

Gofynnwyd i'r Gweinidog pa effaith fyddai'r cynigion yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei chael ar fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc, a dywedodd y Gweinidog nad oedd yn credu y byddai unrhyw effaith. I gloi felly, byddai'r pwyllgor yn hoffi eto tynnu sylw'r Cynulliad at y materion hyn fel rhan o'i ystyriaeth o'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol brynhawn heddiw.

16:59

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While we all understand the need to bring in these new measures through the Bill and that anti-social behaviour is something that is a concern that our constituents raise with us on a regular basis, does the Minister have any concern about the fact that there has been a reduction in terms of the criteria for some of these anti-social behaviour orders, and that the proof has changed from being beyond reasonable doubt now to the balance of probabilities? Does the Minister think that there is a danger here that we are bringing more and more people into a situation where they are seen as criminals and that there is a danger in that?

Er ein bod i gyd yn deall yr angen i gyflwyno'r mesurau newydd hyn trwy'r Bil, a bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bryder y mae ein hetholwyr yn ei godi gyda ni yn rheolaidd, a oes gan y Gweinidog unrhyw bryder ynghylch y ffaith y bu gostyngiad o ran y meini prawf ar gyfer rhai o'r gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, a bod y prawf wedi newid o fod y tu hwnt i amheuaeth resymol yn awr i fod yn gydbwysedd tebygolrwydd? A yw'r Gweinidog yn credu bod perygl yma ein bod yn dod â mwy a mwy o bobl i mewn i sefyllfa lle maent yn cael eu gweld fel troseddwyr a bod perygl yn hynny?

17:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not share that view. One of the reasons for that, I think, is because these orders amalgamate a number of existing orders. A whole plethora of orders were put in place by the last Government, and so these three orders are effectively bringing those together by these three orders, which will hopefully make the process easier to understand and use. My concerns, I think, lie around how we will apply these orders in Wales, and I did raise this issue with the Minister in committee. Wales has always had a different approach, particularly to ASBOs. We have far fewer ASBOs issued in Wales than in England, largely because we have gone through unacceptable behaviour contracts, working with offenders to try to avoid actually taking matters to that length. We have also done a fair bit on restorative justice in Wales, particularly around youth offending. Therefore, I am interested to hear from the Minister how that particular work will be carried on in relation to these new orders and how we will be making sure that we do not effectively penalise young people immediately and that we actually work with them to try to modify their behaviour and bring them back into the mainstream of society, rather than go straight down the route of issuing an injunction or a criminal behaviour order or community trigger against them. In particular, I am interested to hear whether we will be looking to put any funding into restorative justice as part of that process. Perhaps the Minister could address that particular issue as to how this regime will look in Wales, as opposed to England, and how it will fit in with our previous approach to anti-social behaviour across Wales, where we have taken a much more measured approach, working with offenders to try to modify their behaviour.

Nid wyf yn rhannu'r farn honno.  Un o'r rhesymau am hynny, rwy'n meddwl, yw oherwydd bod y gorchmynion hyn yn cyfuno nifer o orchmynion sy'n bodoli eisoes. Cafodd gormodedd o orchmynion eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth ddiwethaf, ac felly mae'r tri gorchymyn hyn i bob pwrpas yn dod â'r rheiny at ei gilydd, gan wneud y broses yn haws i'w deall a'i defnyddio, gobeithio. Mae fy mhryderon, rwy'n meddwl, yn ymwneud â sut y byddwn yn defnyddio'r gorchmynion hyn yng Nghymru, a chodais y mater hwn gyda'r Gweinidog yn y pwyllgor. Mae'r agwedd yng Nghymru bob amser wedi bod yn wahanol, yn enwedig o ran ASBOs. Mae llawer llai o ASBOs wedi'u rhoi yng Nghymru nag yn Lloegr, yn bennaf am ein bod wedi mynd drwy gontractau ymddygiad annerbyniol, gan weithio gyda throseddwyr er mwyn ceisio osgoi mynd ag achosion mor bell â hynny. Rydym hefyd wedi gwneud cryn dipyn ar gyfiawnder adferol yng Nghymru, yn enwedig ym maes troseddau ieuenctid. Felly, mae gennyf ddiddordeb i glywed gan y Gweinidog sut y bydd y gwaith penodol hwnnw'n cael ei gynnal mewn perthynas â'r gorchmynion newydd a sut y byddwn yn gwneud yn siŵr nad ydym yn cosbi pobl ifanc ar unwaith a'n bod mewn gwirionedd yn gweithio gyda nhw i geisio newid eu hymddygiad a dod â nhw'n ôl i brif ffrwd cymdeithas, yn hytrach na mynd yn syth i lawr y llwybr o gyhoeddi gwaharddeb neu orchymyn ymddygiad troseddol neu drothwy cymunedol yn eu herbyn. Yn benodol, mae gennyf ddiddordeb i glywed a fyddwn yn ystyried rhoi unrhyw arian i gyfiawnder adferol fel rhan o'r broses honno. Efallai y gallai'r Gweinidog fynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw a sut y bydd y drefn hon yn edrych yng Nghymru, yn hytrach nag yn Lloegr, a sut y bydd yn cyd-fynd â'n hymdriniaeth flaenorol o ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled Cymru, lle'r ydym wedi mabwysiadu agwedd lawer mwy pwyllog , gan weithio gyda throseddwyr i geisio newid eu hymddygiad.

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I thank the three Members for their contributions today. I have made it clear that I feel that this legislative consent memorandum is necessary in order to protect Welsh Government competence, but I do welcome their views and I hope that they will join me in supporting the motion. As Peter Black said, this is very much focused on speeding up processes, and it is very much focused on the needs of victims. It is certainly not my intention, or that of the Welsh Government, to make more and more people into criminals. That is not our intention at all. We do a huge amount of work around restorative justice and we support, via the youth crime prevention fund, certain projects that contain elements of restorative justice. However, I think that I have made it very clear that we cannot and will not fund additional projects as a result of any Home Office proposals. That funding would have to come from the UK Government.

Hoffwn ddiolch i'r tri Aelod am eu cyfraniadau heddiw. Rwyf wedi ei gwneud yn glir fy mod yn teimlo bod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cymhwysedd Llywodraeth Cymru, ond rwy'n croesawu eu barn ac rwy'n gobeithio y byddant yn ymuno â mi i gefnogi'r cynnig. Fel y dywedodd Peter Black, mae hyn yn canolbwyntio'n bendant ar gyflymu'r prosesau, ac mae'n canolbwyntio'n bendant ar anghenion dioddefwyr. Yn sicr nid yw'n fwriad gennyf i, na Llywodraeth Cymru, i wneud mwy a mwy o bobl yn droseddwyr. Nid dyna yw ein bwriad o gwbl. Rydym yn gwneud llawer iawn o waith ynghylch cyfiawnder adferol ac rydym, trwy'r gronfa atal troseddau ieuenctid, yn cefnogi prosiectau penodol sy'n cynnwys elfennau o gyfiawnder adferol. Fodd bynnag, rwy'n meddwl fy mod wedi ei gwneud yn glir iawn na allwn ac na fyddwn yn ariannu prosiectau ychwanegol o ganlyniad i unrhyw gynigion gan y Swyddfa Gartref. Byddai'n rhaid i'r arian hwnnw ddod gan Lywodraeth y DU.

In relation to the issues that were raised with me regarding the rights of the child, I did write to the Home Secretary asking what consideration was given to the United Nations Convention on the Rights of the Child when the policy was drafted, and I have had a response to my letter from the Home Office Minister responsible for crime prevention, Jeremy Browne, which I am happy to share with Christine Chapman, as Chair of the committee, and other Members.

O safbwynt y materion a godwyd gyda mi ynglŷn â hawliau'r plentyn, ysgrifenais at yr Ysgrifennydd Cartref yn gofyn pa ystyriaeth a roddwyd i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddrafftio'r polisi, ac rwyf wedi cael ymateb i fy llythyr gan Weinidog y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am atal troseddau, Jeremy Browne. Rwyf yn hapus i'w rannu gyda Christine Chapman, fel Cadeirydd y pwyllgor, ac Aelodau eraill.

In relation to youth justice itself, I have been considering, over the summer, the consultation responses, and I have been looking at proposals. I will be making an announcement on this over the course of the next week.

O safbwynt cyfiawnder ieuenctid ei hun, rwyf wedi bod yn ystyried, dros yr haf, yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac rwyf wedi bod yn edrych ar gynigion. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad ar hyn yn ystod yr wythnos nesaf.

I hope that Members will join me in supporting the motion.

Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n ymuno â mi i gefnogi'r cynnig.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is that we agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Fframwaith ar gyfer Rheolaethau ar Gyllid Cyfalaf a Geir yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Gwnstabliaid yng Nghymru

# Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of Framework of Capital Finance Controls Contained in Part 1 of the Local Government Act 2003 to Chief Constables in Wales

Cynnig NDM5254 Lesley Griffiths
Motion NDM5254 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona sy'n cymhwyso'r fframwaith rheolaethau cyllid cyfalaf yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Gwnstabliaid yng Nghymru i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions of the Antisocial Behaviour, Crime and Policing Bill which apply the framework of capital finance controls contained in Part 1 of the Local Government Act 2003 to Chief Constables in Wales in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:04

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I thank the committee for its work in scrutinising the aspects of the Bill relating to financial controls, and I note that the committee has no objections to the provisions for which consent is sought in this legislative consent memorandum. These provisions are within competence and make straightforward technical changes to the capital accounting regime in order that chief constables be subject to the same controls as local authorities in Wales. The provisions are a matter of common sense, and I believe that the LCM should be supported.

Diolch i'r pwyllgor am ei waith yn craffu ar agweddau ar y Bil sy'n ymwneud â rheolaethau ariannol, a sylwaf nad oes gan y pwyllgor unrhyw wrthwynebiadau i'r darpariaethau y ceisir cydsyniad iddynt yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd ac yn gwneud newidiadau technegol syml i'r drefn cyfrifyddu cyfalaf er mwyn i brif gwnstabliaid fod yn ddarostyngedig i'r un rheolau ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r darpariaethau yn fater o synnwyr cyffredin, ac rwy'n credu y dylai'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol gael ei gefnogi.

Members will also wish to be aware that the Home Secretary laid in the UK Parliament on 17 September a transitional provision order under the Police Reform and Social Responsibility Act 2011, so that chief constables in England and Wales are now covered by local government accounting practices. This is to ensure that staff pension liabilities are treated in accordance with accepted practices in the accounts of chief constables. Laying the transitional order now provides chief constables with the security to plan for the changes in accounting arrangements to be built into their budget planning for the next financial year. The modifications made by the order will be superseded when the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill comes into effect.

Bydd yr Aelodau hefyd yn dymuno bod yn ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Cartref, yn Senedd y DU ar 17 Medi, wedi gosod gorchymyn darpariaeth trosiannol o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, fel bod arferion cyfrifyddu llywodraeth leol bellach yn berthnasol i brif gwnstabliaid yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau pensiwn staff yn cael eu trin yn unol ag arferion arferol yng nghyfrifon prif gwnstabliaid. Trwy osod y gorchymyn trosiannol, darparwyd y sicrwydd i brif gwnstabliaid allu cynllunio ar gyfer y newidiadau yn y trefniadau cyfrifyddu y bydd yn rhaid eu cynnwys wrth gynllunio eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Disodlir y newidiadau a wnaed gan y gorchymyn pan ddaw'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona i rym.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

17:06 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The LCM was laid by the Minister for Local Government and Government Business on 24 May and referred to the communities committee. We considered the LCM at our meeting on 19 June, and we reported on 17 September. As the Minister states in the LCM, using this Bill rather than Assembly legislation represents the most appropriate and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in relation to Wales to make chief constables subject to the same controls as local authorities. The committee therefore concluded that it has no objection to the use of this LCM in the manner proposed.

Cafodd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei osod gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar 24 Mai a'i gyfeirio at y pwyllgor cymunedau. Ystyriwyd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 19 Mehefin, a chyflwynwyd adroddiad ar 17 Medi. Fel y mae'r Gweinidog yn nodi yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur er mwyn i'r darpariaethau fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, a gwneud prif gwnstabliaid yn ddarostyngedig i'r un rheolau ag awdurdodau lleol. Felly, daeth y pwyllgor i'r casgliad nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn y modd a gynigir.

17:06 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Minister has said, this particular LCM is a matter of common sense; it is a tidying-up process that needs to be done. However, as we are coming to the end of our deliberations on the LCMs and the Bill itself, perhaps I could ask you two general questions about the Bill. Are you at all concerned that this Bill will mean that if there is a miscarriage of justice, the person who suffers it would have to prove a clear case of innocence before they could get compensation? Are you concerned about the impact of that in Wales? Also, do you believe that these measures show, in terms of the way in which we enact the Bill in Wales, that there is a clear case for devolving the criminal justice system to Wales?

Fel y mae'r Gweinidog wedi dweud, mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol penodol hwn yn fater o synnwyr cyffredin; mae'n broses dacluso angenrheidiol. Fodd bynnag, gan ein bod yn dod i ddiwedd ein trafodaethau ar y cynigion cydsyniad deddfwriaethol a'r Bil ei hun, efallai y gallwn ofyn dau gwestiwn cyffredinol am y Bil ichi. A ydych chi'n pryderu o gwbl y bydd y Bil hwn yn golygu, os oes camweinyddu cyfiawnder, y byddai'n rhaid i'r sawl sy'n dioddef brofi'n eglur eu bod yn ddiniwed cyn y gallent gael iawndal? A ydych yn pryderu am effaith hynny yng Nghymru? Hefyd, a ydych yn credu bod y mesurau hyn yn dangos, o ran y ffordd yr ydym yn deddfu'r Bil yng Nghymru, bod achos clir dros ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol i Gymru?

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:07 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I thank both Members for their comments. In relation to the LCM as a whole, Rhodri Glyn Thomas is right; it is a tidying-up exercise, and I just think it is regulising what the financial system should be. It is probably a bit of fallout from the election of police and crime commissioners. So, it is right that chief constables also have some controls in the new arrangements.

Diolch i'r Aelodau am eu sylwadau. O ran y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ei gyfanrwydd, mae Rhodri Glyn Thomas yn iawn; ymarfer tacluso yw hwn, ac rwy'n meddwl ei fod yn unioni'r system ariannol fel y dylai fod. Mae'n debyg ei bod yn ganlyniad i etholiad comisiynwyr heddlu a throseddu. Felly, mae'n iawn fod rhai rheolaethau ar brif gwnstabliaid hefyd yn y trefniadau newydd.

In relation to Rhodri Glyn's specific questions, it is certainly something that will have to be monitored, and I know that my officials continue to have discussions with Home Office officials.

O safbwynt cwestiynau penodol Rhodri Glyn, mae'n sicr yn rhywbeth y bydd yn rhaid ei fonitro, a gwn fod fy swyddogion yn parhau i gael trafodaethau gyda swyddogion y Swyddfa Gartref.

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â chyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau a diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991

## Legislative Consent Memorandum on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of the introduction of Community Protection Notices, Public Spaces Protection Orders, Closure Notices and Amendments to the Dangerous Dogs Act 1991

Cynnig NDM5249 Alun Davies
Motion NDM5259 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona sy'n ymwneud â chyflwyno Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau, a diwygio Deddf Cwn Peryglus 1991, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill relating to the introduction of Community Protection Notices, Public Spaces Protection Orders, Closure Notices, and amendments to the Dangerous Dogs Act 1991, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Like others this afternoon, I would like to say that I am grateful for the work that has been done by the Communities, Equality and Local Government Committee, which reported to the National Assembly earlier this month on this legislative consent memorandum. Clearly, we are covering here the final element of that, and I hope that Members will agree that what I am proposing this afternoon very much follows the written statement I made on 2 May, in which I dealt with how we will take forward our policy and our ambitions for dealing with dangerous dogs and other things.

Fel eraill y prynhawn yma, hoffwn ddweud fy mod yn ddiolchgar am waith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a gyflwynodd adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gynharach y mis hwn ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Yn amlwg, rydym yn ymdrin yma ag elfen derfynol hynny, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cytuno bod yr hyn yr wyf yn ei gynnig brynhawn heddiw i raddau helaeth iawn yn dilyn y datganiad ysgrifenedig a wneuthum ar 2 Mai, lle'r oeddwn yn ymdrin â sut y byddwn yn datblygu ein polisi a'n huchelgais ar gyfer delio â chŵn peryglus a phethau eraill.

The types of behaviour that a community protection notice could deal with will include persistent littering, graffiti and noise disturbance. These are currently not covered by the statutory nuisance regime. A community protection order could be used in relation to irresponsible dog owners and their out-of-control dogs, persistent distress in barking or growling, and indeed dog fouling. These issues are all within the National Assembly's competence by virtue of a combination of paragraphs 1, 6, 9, 12 and 15 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006.

Bydd y mathau o ymddygiad y gallai hysbysiad gwarchod y gymuned ddelio â nhw gynnwys gollwng sbwriel parhaus, graffiti ac aflonyddwch sŵn. Nid yw'r rhain yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd gan y gyfundrefn niwsans statudol. Gellid defnyddio hysbysiad gwarchod y gymuned mewn cysylltiad â pherchnogion cŵn anghyfrifol a'u cŵn sydd allan o reolaeth, trallod parhaus oherwydd cyfarth neu chwyrnu, ac yn wir cŵn yn baeddu. Mae'r materion hyn i gyd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd cyfuniad o baragraffau 1, 6, 9, 12 a 15 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

In relation to public spaces protection orders, the Bill will provide local authorities with the power to make such orders, which are intended to apply to a wide range of behaviours in public places. It will replace the current regime in respect of dog control orders under the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005, and gating orders. The new power to close premises associated with nuisance or disorder will allow the police or a local authority to act swiftly to protect the public by issuing a closure notice and subsequently applying to the court for a closure order. Although not all of the proposed provisions fall squarely within the legislative competence of the National Assembly, I do consider that certain elements of proposals that relate to nuisance are within legislative competence under Part 1 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006.

Bydd y Bil yn rhoi i awdurdodau lleol y pŵer i wneud gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus, sydd wedi'u bwriadu i fod yn berthnasol i ystod eang o ymddygiadau mewn mannau cyhoeddus. Bydd yn disodli'r drefn bresennol o ran gorchmynion rheoli cŵn o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, a gorchmynion llidiartu. Bydd y pŵer newydd i gau eiddo sy'n gysylltiedig â niwsans neu anhrefn yn caniatáu i'r heddlu neu awdurdod lleol weithredu'n gyflym i amddiffyn y cyhoedd drwy gyflwyno hysbysiad cau ac wedyn gwneud cais i'r llys am orchymyn cau. Er nad yw pob un o'r darpariaethau arfaethedig yn union o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, rwy'n ystyried bod elfennau penodol o gynigion sy'n ymwneud â niwsans o fewn cymhwysedd deddfwriaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

The Bill amends the Dangerous Dogs Act 1991 by extending the offence of allowing a dog to be dangerously out of control to private property. It also creates an enhanced self-defence provision that will be available to householders in the event a dog on private property injures an intruder. It makes it an aggravated criminal offence for a dangerously out-of-control dog to injure an assistance dog. These provisions were originally envisaged in our currently suspended control of dogs Bill. The amendment also clarifies the dangerousness test a court should apply when considering whether to exercise its power to make an order for destruction under the Act. Part 7 falls within the National Assembly's legislative competence under Part 1 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 in relation to subjects listed under headings 1, 'Agriculture, forestry, animals, plants and rural development', 9, 'Health and health services', and 15, 'Social welfare'.

Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan ymestyn y drosedd o ganiatáu i gi fod allan o reolaeth ac yn beryglus i eiddo preifat. Mae hefyd yn creu darpariaeth hunan-amddiffyn cryfach a fydd ar gael i ddeiliaid tai pe digwydd i gi ar eiddo preifat anafu tresmaswr. Mae'n ei gwneud yn drosedd waethygedig i gi sydd allan o reolaeth a pheryglus anafu ci cymorth. Rhagwelwyd y darpariaethau hyn yn wreiddiol yn ein Bil rheoli cŵn, sydd wedi'i atal dros dro ar hyn o bryd. Mae'r gwelliant hefyd yn egluro'r prawf perygl y dylai'r llys ei ddefnyddio wrth ystyried a ddylai ddefnyddio ei bŵer i wneud gorchymyn i ddinistrio o dan y Ddeddf. Mae Rhan 7 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran pynciau a restrir o dan benawdau 1, 'Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig', 9, 'Iechyd a gwasanaethau iechyd', a 15, 'Lles cymdeithasol'.

17:12

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

17:12 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This LCM was laid on 24 May and referred to the Communities, Equality and Local Government Committee. We considered it on 19 June and reported on 17 September. The Environment and Sustainability Committee has also undertaken some work on the LCM and on the broader issue of the control of dogs, and a letter from the Chair of that committee is annexed to our report.

Cafodd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei osod ar 24 Mai a'i gyfeirio at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Cafodd ei ystyried gennym ar 19 Mehefin a chyflwynwyd adroddiad ar 17 Medi. Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd hefyd wedi cynnal rhywfaint o waith ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac ar fater ehangach rheoli cŵn, ac atodwyd llythyr gan Gadeirydd y pwyllgor hwnnw at ein hadroddiad.

On some of the particular aspects of this, on the community protection notices the LCM provides some examples of how these could be used, including dealing with problems caused by irresponsible dog owners. However, as we set out in our report, it is not clear how useful a community protection notice will be in tackling either of these problems. On the public spaces protection orders, these are intended to deal with a particular nuisance or problem in a particular area that is detrimental to the local community's quality of life, and such orders will impose conditions on the use of that area. The order will replace designated public place orders, gating orders and dog control orders. Thirdly, on the closure of premises associated with nuisance or disorder, this power will be applicable to licensed premises and private residential properties.

O ran rhai o agweddau penodol hyn, ar yr hysbysiadau gwarchod y gymuned, mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn rhoi rhai enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r rhain, gan gynnwys delio â phroblemau a achosir gan berchnogion cŵn anghyfrifol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hadroddiad, nid yw'n glir pa mor ddefnyddiol y bydd hysbysiad gwarchod y gymuned wrth fynd i'r afael ag unrhyw un o'r problemau hyn. O ran y gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus, bwriedir i'r rhain ymdrin â niwsans neu broblem benodol mewn ardal benodol sydd yn niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol, a bydd gorchmynion o'r fath yn gosod amodau ar y defnydd o'r ardal honno. Bydd y gorchymyn yn disodli gorchmynion mannau cyhoeddus dynodedig, gorchmynion llidiartu a gorchmynion rheoli cŵn. Yn drydydd, o ran cau eiddo sy'n gysylltiedig â niwsans neu anhrefn, bydd y pŵer hwn yn berthnasol i eiddo trwyddedig ac eiddo preswyl preifat.

In relation to the Assembly's competence to legislate in these areas, we know that it is the view of the Welsh Government that Part 4, chapters 1, 2 and 3 of the Bill generally fall within the Assembly's legislative competence. However, community protection notices and public spaces protection orders are broad-based and may stray into policy areas that are non-devolved. We know that the Welsh Government acknowledges therefore that not all of the provisions in Part 4 fall squarely within the legislative competence of the Assembly.

O safbwynt cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn, rydym yn gwybod mai barn Llywodraeth Cymru yw bod Rhan 4, pennod 1, 2 a 3 o'r Bil yn gyffredinol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae hysbysiadau gwarchod y gymuned a gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus yn eang eu sail a gallant ymestyn i feysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli. Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod, felly, nad yw pob un o'r darpariaethau yn Rhan 4 yn union o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

As set out in the explanatory notes that accompany the Bill, the UK Government considers that chapters 1 and 2 of Part 4 fall within the legislative competence of the Assembly, but that chapter 3, on closure orders, does not.

Fel y nodir yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod penodau 1 a 2 o Ran 4 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ond nad yw pennod 3, ar orchmynion cau.

In relation to amendments to the Dangerous Dogs Act 1991, the LCM confirms that these are proposed to extend the criminal offence in relation to a dog dangerously out of control to cover private property, whereas the current law covers only public places. We know that, in relation to competence, the Welsh Government believes that provisions relating to amendments to the Dangerous Dogs Act 1991 fall within the Assembly's legislative competence. Based on the explanatory notes that accompany the Bill, the UK Government does not appear to agree with this view.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cadarnhau bod y diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 yn cael eu cynnig er mwyn ymestyn y drosedd sy'n ymwneud â chŵn allan o reolaeth a pheryglus i gynnwys eiddo preifat, tra bod y gyfraith bresennol yn cynnwys mannau cyhoeddus yn unig. Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru'n credu bod darpariaethau sy'n ymwneud â diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn seiliedig ar y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn cytuno â'r farn hon.

With regard to the advantages of utilising the Bill, rather than Assembly legislation, the Minister states in the LCM that the Bill will ensure a consistent approach to tackling anti-social behaviour across Wales and England. Specifically in relation to the control of dogs, the LCM does not make clear why, in relation to these particular provisions, it would be advantageous to use the Bill. The committee notes that, until recently, the Welsh Government proposed to bring forward its own Bill in this area. To conclude, the committee would like to draw the Assembly's attention to the issues set out in our report as part of the consideration of this LCM.

O ran y manteision o ddefnyddio'r Bil, yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad, mae'r Gweinidog yn nodi yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol y bydd y Bil yn sicrhau ymdriniaeth gyson wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws Cymru a Lloegr. Yn benodol mewn perthynas â rheoli cŵn, nid yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ei gwneud yn glir pam y byddai'n fanteisiol defnyddio'r Bil ar gyfer y darpariaethau penodol hyn. Mae'r pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru, tan yn ddiweddar, wedi cynnig cyflwyno ei Bil ei hun yn y maes hwn. I gloi, hoffai'r pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad at y materion a nodwyd yn ein hadroddiad fel rhan o ystyriaeth o'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

17:15

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n codi i wrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Roeddwn yn un o'r rhai oedd yn siomedig pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod am atal y gwaith ar y Bil rheoli cŵn a oedd wedi'i gyhoeddi. Er nad oedd yn berffaith, roedd yn sicr yn ddeddfwriaeth â'r potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol gyda'r pwyslais ar daclo rheolaeth cŵn drwy atal, addysg a chodi ymwybyddiaeth.

I rise to oppose this legislative consent motion. I was among those who were disappointed when the Welsh Government announced that it was to cease it work on the control of dogs Bill, which had been published. Although it was not perfect, it was legislation that had the potential to make a very real difference, with the emphasis on tackling the control of dogs through prevention, education and raising awareness.

Nid fi oedd yr unig un oedd yn siomedig; mae mudiadau lles anifeiliaid a lles cŵn wedi mynegi'r un siom, ynghyd ag undebau llafur fel y CWU, heb sôn am grwpiau ac unigolion ar draws Cymru. Mae'n ymddangos i mi fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i'w deddfwriaeth ei hun o blaid deddfwriaeth a fydd, yn fy marn i, yn llai effeithiol. Nid yw'r hysbysiad gwarchod cymuned rydym wedi clywed amdano yn addas i fynd i'r afael â gofidiau am ymddygiad cŵn unigol a'u perchnogion. Dylai'r pwyslais fod ar fesurau ataliol, fel bwriadwyd yn y Bil Cymreig, nid ar fesurau cosbol, fel y rhai sydd ym Mil San Steffan. Buasai hysbysiadau rheoli cŵn, fel oedd y bwriad yn y Bil Cymreig, yn llawer mwy effeithiol o ran caniatáu pobl i gyfeirio eu gofidiau at le pwrpasol lle byddai arbenigwr yn medru darparu cyngor ac arweiniad penodol i amgylchiadau penodol y ci o dan sylw. Byddai Bil rheoli cŵn Cymru yn sicrhau ymyrraeth gynnar a fyddai'n amddiffyn diogelwch y cyhoedd a lles hirdymor yr anifail drwy sicrhau bod gweithredu cyn unrhyw ddigwyddiad difrifol.

I was not the only one who was disappointed; animal and dog welfare organisations have expressed their disappointment, along with trade unions such as the CWU, never mind the groups and individuals across Wales who have done likewise. It appears to me that the Welsh Government has given up on its own legislation and is favouring legislation that, in my opinion, will be less effective. The community protection notices that we have heard about are not appropriate in tackling concerns about the conduct of individual dogs and their owners. The emphasis should be placed on preventative measures, as was intended in the original Welsh Bill, and not on punitive measures such as those set out in the Westminster legislation. Dog control notices, as was intended in the Welsh Bill, would be far more effective in allowing people to refer their concerns to an appropriate place where an expert could then provide advice and guidance regarding the specific circumstances of the dog concerned. A Welsh Bill for the control of dogs would ensure early intervention to protect the public and the long-term welfare of the animal by ensuring that action was taken before any serious incident could take place.

Mae consýrn hefyd am y gorchmynion gwarchod man cyhoeddus a allai danseilio lles cŵn mewn rhai achosion wrth gyfyngu ar allu perchnogion i dendio i'w hanghenion. Nid yw'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona yn delio'n ddigonol â rhai materion sy'n ymwneud ag ymosodiadau ar anifeiliaid gwarchodedig chwaith. Byddai pasio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw yn rhoi terfyn ar allu Aelodau'r Cynulliad i graffu ac i ddylanwadu ar y ddeddfwriaeth fydd yn mynd ati i daclo a datrys rheoli cŵn yng Nghymru, er bod lles anifeiliaid yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Maen nhw'n dweud wrthyf fod 84% o bobl Cymru yn cefnogi deddfwriaeth ar gŵn peryglus a pherchnogion anghyfrifol. Fel mater sydd wedi'i ddatganoli, mae'n rhesymol i bobl Cymru ddisgwyl bod eu Haelodau Cynulliad yn rhan o greu'r ddeddfwriaeth honno.

There is also concern about the public spaces protection orders that could undermine the welfare of dogs in some cases by limiting the ability of owners to tend to their dogs' needs. The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill does not adequately deal with some issues related to attacks on protected animals either. Passing this LCM today would put an end to the ability of Assembly Members to scrutinise and to bring influence to bear on legislation that will tackle issues surrounding the control of dogs in Wales, although animal welfare is a devolved issue. They tell me that 84% of people in Wales support legislation on dangerous dogs and irresponsible owners. As an issue that is devolved, it is reasonable for the people of Wales to expect their Assembly Members to be part of drawing up that legislation.

Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad ar agenda lles anifeiliaid dros y blynyddoedd diwethaf ar faterion megis gosod 'microchip' ar gŵn a gwahardd coleri sioc drydanol. Byddai pasio'r cynnig hwn, yn fy marn i, yn gam yn ôl. Wrth gynnig hwn heddiw, mae'r Gweinidog, mewn gwirionedd, yn taflu'r mater o reoli cŵn i bair o ddeddfwriaeth eang iawn sy'n cynnwys ystod eang o faterion eraill megis priodasau gorfodol a therfysgaeth ac yn y blaen. Nid yw'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona yn cyflawni'r amcanion a osodwyd allan gan Lywodraeth Cymru yn ei Bil rheoli cŵn i Gymru. Prin dwy flynedd ar ôl cael y cymhwysedd deddfwriaethol i ddelio â'r mater hwn, dyma ni'n ei daflu'n ôl i San Steffan. Mae'n rhaid i ni ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb fan hyn. Rhaid inni ddeddfu mewn modd pwrpasol i Gymru sydd â ffocws penodol ar y mater pwysig hwn o reoli cŵn. Dyna pam y byddaf i yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn y prynhawn yma.

Wales has been in the vanguard of the animal welfare agenda in recent years, on issues such as dog microchipping and banning electric shock collars. Passing this LCM, in my opinion, would be a retrograde step. In proposing this today, the Minister is actually throwing the issue of the control of dogs into a mishmash of legislation that includes a broad range of issues such as forced marriages, terrorism and so on. The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill does not achieve the objectives set out by the Welsh Government in its control of dogs Bill for Wales. Just two years after gaining legislative competence to deal with this matter, we are throwing it back to Westminster so that they deal with it. We and the Welsh Government must take responsibility here. We must legislate in a purposeful way for Wales, with a specific focus on this important issue of the control of dogs. That is why I will be voting the legislative consent motion this afternoon.

17:19 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister knows that I was disappointed when the Wales control of dogs Bill was suspended. I want to have some assurances from him this afternoon in this debate about the LCM. One of the concerns that I have is that there is no specific dog legislation—it is part of a much wider anti-social behaviour order. We have already heard about the many areas that are covered. The Minister himself spoke about how the community protection notices will cover graffiti, litter, fly posting and noise nuisance, as well as the issues related to dogs. It seems to be a lost opportunity in terms of specifically putting forward legislation that will cover Wales.

Gŵyr y Gweinidog fy mod yn siomedig pan gafodd Bil rheoli cŵn Cymru ei atal. Rwyf am gael rhywfaint o sicrwydd ganddo y prynhawn yma yn y ddadl hon am y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Un o'r pryderon sydd gennyf yw nad oes deddfwriaeth benodol yn ymwneud â chŵn—mae'n rhan o orchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol llawer ehangach. Rydym eisoes wedi clywed am feysydd lawer sy'n cael eu cynnwys. Siaradodd y Gweinidog ei hun ynghylch sut y bydd yr hysbysiadau gwarchod y gymuned yn cynnwys graffiti, sbwriel, gosod posteri'n anghyfreithlon a niwsans sŵn, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chŵn. Mae'n ymddangos yn gyfle a gollwyd i gyflwyno deddfwriaeth benodol ar gyfer Cymru.

I have to put forward the disappointment of my constituents and the many people who signed a very big petition that went to the Petitions Committee. I became involved in this whole issue because of a six-year-old child who was badly mauled in my constituency, and I know that the Minister met that constituent.

Mae'n rhaid i mi gyflwyno siom fy etholwyr a'r nifer fawr o bobl a lofnododd ddeiseb fawr iawn a aeth i'r Pwyllgor Deisebau. Dechreuais ymwneud â'r holl fater hwn oherwydd plentyn chwe blwydd oed a gafodd ei larpio'n ddrwg yn fy etholaeth, a gwn fod y Gweinidog wedi cyfarfod yr etholwr hwnnw.

I want an assurance from the Minister that if these proposals do not answer all of the things that we were proposing in the control of dogs Bill, he will then reconsider them, and that he will consider bringing forward our own legislation again. I know that he has suspended the control of dogs legislation. It is still there; a lot of work was done on it, and there was a big consultation process. I will vote for this LCM today, provided that we can have an assurance that if we do not get what we want, we will then bring forward our own legislation.

Rwyf am gael sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yn ailystyried y cynigion hyn, os nad ydynt yn ymdrin â phob un o'r pethau yr oeddem yn eu cynnig yn y Bil rheoli cŵn, ac y bydd yn ystyried cyflwyno ein deddfwriaeth ein hunain eto. Gwn ei fod wedi atal y ddeddfwriaeth rheoli cŵn. Mae'n dal i fod yno; gwnaed llawer o waith arno, a chynhaliwyd proses ymgynghori fawr. Byddaf yn pleidleisio dros y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw, ar yr amod y gallwn gael sicrwydd y byddwn yn cyflwyno ein deddfwriaeth ein hunain, os nad ydym yn cael yr hyn yr ydym ei eisiau.

17:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise to confirm that the Welsh Liberal Democrat group will be supporting the LCM, but we wish to put on record a number of serious concerns, some of which have already been outlined by colleagues around the Chamber. First, over the past years, Wales has led the way in improving animal welfare and finding Wales-specific solutions to dog-related issues. The introduction of compulsory microchipping, for example, has already been cited as an example of Wales being in the vanguard.

Rwy'n codi i gadarnhau y bydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ond rydym yn dymuno cofnodi nifer o bryderon difrifol, y mae rhai ohonynt eisoes wedi cael eu hamlinellu gan gydweithwyr o amgylch y Siambr. Yn gyntaf, dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran gwella lles anifeiliaid a dod o hyd i atebion sy'n benodol i Gymru i faterion sy'n ymwneud â chŵn. Mae'r broses o gyflwyno microsglodion gorfodol, er enghraifft, wedi ei nodi eisoes fel achos lle mae Cymru ar flaen y gad.

Since 2011, we have had competence over animal welfare, and the decision to suspend the control of dogs Bill seems to be at variance with the approach that is now being taken. Bespoke dog control notices would have enabled people to refer concerns about the behaviour of a specific dog or its owner so that a practitioner could provide advice and support to address the issues before any more serious incident would have occurred. That early intervention would have balanced support for the owner with the dog's long-term welfare and the overriding concern for public safety.

Ers 2011, rydym wedi cael cymhwysedd dros les anifeiliaid, ac ymddengys fod y penderfyniad i atal y Bil rheoli cŵn yn mynd yn groes i'r ymdriniaeth bresennol. Byddai hysbysiadau rheoli cŵn pwrpasol wedi galluogi pobl i gyfeirio pryderon ynghylch ymddygiad ci penodol neu ei berchennog fel y gallai ymarferwr roi cyngor a chymorth i fynd i'r afael â'r materion cyn i unrhyw ddigwyddiad mwy difrifol ddigwydd. Byddai'r ymyriad cynnar hwnnw wedi sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogaeth i'r perchennog a lles tymor hir y ci, a'r pryder pennaf sef diogelwch y cyhoedd.

In contrast, the community protection notices adopt a more punitive and reactive approach that is, in many ways, felt to be less suited to individual situations. We regret, therefore, in a similar vein to the comments made by my colleague Julie Morgan, that the Minister has decided to suspend the progress of the Welsh Bill. We note that he has, however, retained the option to reintroduce it, and it is on that basis that my group is supporting the LCM today.

Mewn cyferbyniad, mae'r hysbysiadau gwarchod y gymuned yn mabwysiadu dull mwy cosbedigol ac adweithiol y teimlir ei fod, mewn sawl ffordd, yn llai addas ar gyfer sefyllfaoedd unigol. Mae'n destun gofid inni, felly, mewn modd tebyg i'r sylwadau a wnaed gan fy nghydweithiwr Julie Morgan, fod y Gweinidog wedi penderfynu atal datblygiad Bil Cymru. Rydym yn nodi ei fod, fodd bynnag, wedi cadw'r dewis i'w ailgyflwyno, ac ar y sail honno y mae fy ngrŵp yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:23 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I thank all Members who have taken part in the debate this afternoon. I would like to emphasise the point that the Liberal Democrat spokesperson made in his final sentence—we have not given up on the legislation, as suggested by the Plaid Cymru spokesperson. We have suspended it while we continue to have conversations, discussions and debate with the Home Office and the Department for Environment, Food and Rural Affairs on these matters.

Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl brynhawn heddiw. Hoffwn bwysleisio'r pwynt a wnaeth llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei frawddeg olaf—nid ydym ni wedi rhoi'r gorau i'r ddeddfwriaeth, fel yr awgrymwyd gan lefarydd Plaid Cymru. Rydym wedi ei hatal dros dro tra ein bod yn parhau i gael sgyrsiau, trafodaethau a dadl gyda'r Swyddfa Gartref ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y materion hyn.

On this matter, I will say to Plaid Cymru that this is not a matter of us handing back powers, as was suggested by its spokesperson; the powers in the Government of Wales Act 2006 are substantial and remain. What we are doing is working with the UK Government to deliver a piece of legislation that will meet all of our objectives. Our powers in this matter are undiminished on the basis of where we are in statute. We are working on this specific issue and this specific Bill to achieve these specific objectives.

Ar y mater hwn, byddaf yn dweud wrth Blaid Cymru nad yw hwn yn fater o drosglwyddo pwerau yn ôl, fel yr awgrymwyd gan ei llefarydd; mae'r pwerau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn sylweddol ac yn parhau. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yw gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno darn o ddeddfwriaeth a fydd yn bodloni pob un o'n hamcanion. Mae ein pwerau yn y mater hwn yn aros yr un fath ar sail lle yr ydym mewn statud. Rydym yn gweithio ar y mater penodol hwn a'r Bil penodol hwn i gyflawni'r amcanion penodol hyn.

17:24 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for giving way. Could he outline what he gains from taking this path, rather than legislating here, remembering that his First Minister said today that we, as Plaid Cymru, were giving up on legislation?

Diolch i'r Gweinidog am ildio. A allai egluro beth y mae'n ei ennill trwy gymryd y llwybr hwn, yn hytrach na deddfu yma, gan gofio bod ei Brif Weinidog wedi dweud heddiw ein bod ni, fel Plaid Cymru, yn rhoi'r gorau i ddeddfwriaeth?

17:25 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not understand your final point. As to where we are, the explanation that I gave on 2 May was reasonable and clear, I feel. Members are absolutely right that we started this work prior to the UK Government starting work on it. The work that has been referred to by Julie Morgan involved a great deal of work in terms of consultation. That is informing our position as a Welsh Government, and it is being used to inform our discussions with the Home Office and with DEFRA. That work is not wasted; it is going to continue.

To directly answer the question asked by Simon Thomas, what we gain from this is a more comprehensive piece of legislation that will certainly include the elements that we wish to include, and which will go further. I recognise his point that it will go much further than that. Without testing the Deputy Presiding Officer too greatly in terms of time, I would like to make it very clear to all Members on all sides of the Chamber that I will continue to be available for scrutiny on my approach to this piece of legislation, so there will be further opportunities to scrutinise me on this. The legislation that we have stands in suspension; it has not been withdrawn. It may be useful, Deputy Presiding Officer, if I do make a further statement at some point to Members informing them of the conversations and the negotiations that we are having with the Home Office and with DEFRA in the delivery of this piece of legislation. It is something that we remain committed to, and our commitment to it is not diminished in any way. What we are trying to do is deliver the legislative objectives that we have through a route that we believe is most effective and will provide the most effective piece of legislation on the statute book.

Nid wyf yn deall eich pwynt olaf. O ran ein sefyllfa, mae'r esboniad a roddais ar 2 Mai yn rhesymol ac yn glir, rwy'n teimlo. Mae'r aelodau yn hollol iawn ein bod yn dechrau ar y gwaith hwn cyn i Lywodraeth y DU ddechrau gweithio arno. Mae'r gwaith y cyfeiriodd Julie Morgan ato'n cynnwys llawer iawn o waith o ran ymgynghori. Mae hynny'n llywio ein safbwynt fel Llywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei ddefnyddio i lywio ein trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref a gyda DEFRA. Nid yw gwaith hwnnw'n cael ei wastraffu; mae'n mynd i barhau.

I ateb yn uniongyrchol y cwestiwn a ofynnwyd gan Simon Thomas, yr hyn a enillwn yn sgil hyn yw darn mwy cynhwysfawr o ddeddfwriaeth a fydd yn sicr yn cynnwys yr elfennau yr ydym am eu cynnwys, ac a fydd yn mynd ymhellach. Rwy'n cydnabod ei bwynt y bydd yn mynd yn llawer pellach na hynny. Heb drethu'r Dirprwy Lywydd yn ormodol o ran amser, hoffwn ei gwneud yn glir iawn i'r holl Aelodau ar bob ochr i'r Siambr y byddaf yn parhau i fod ar gael ar gyfer craffu ar fy ymdriniaeth o'r darn hwn o ddeddfwriaeth, felly bydd rhagor o gyfleoedd i graffu arnaf ar hyn o beth. Mae'r ddeddfwriaeth sydd gennym wedi ei hatal dros dro; nid yw wedi ei thynnu'n ôl. Gall fod yn ddefnyddiol, Ddirprwy Lywydd, pe bawn yn gwneud datganiad arall ar ryw adeg i hysbysu Aelodau am y sgyrsiau a'r trafodaethau yr ydym yn eu cael gyda'r Swyddfa Gartref a chyda DEFRA ynglŷn â chyflwyno'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Mae'n rhywbeth yr ydym yn dal wedi ymrwymo iddo, ac nid yw ein hymrwymiad yn llai mewn unrhyw ffordd. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw cyflawni'r amcanion deddfwriaethol sydd gennym drwy lwybr y credwn sydd fwyaf effeithiol ac a fydd yn darparu'r darn mwyaf effeithiol o ddeddfwriaeth ar y llyfr statud.

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are. I defer all voting then on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio felly ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Cynnig NDM5300 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru).

# Debate on the General Principles of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Motion NDM5300 Huw Lewis

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Agrees to the general principles of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill.

17:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Education and Skills to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynnig.

17:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the general principles of the Further and Higher Education (Wales) Bill, which my predecessor introduced in April this year. I am grateful to Ann Jones and Members of the Children and Young People's Committee, and to David Melding and Jocelyn Davies and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee for their thorough scrutiny and helpful reports of their findings. I would like to take this opportunity to clarify the rationale of the Office for National Statistics' decision to reclassify further education institutions as public bodies for the purpose of national accounts.

Rwy'n falch o gael y cyfle i agor y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), a gyflwynwyd gan fy rhagflaenydd ym mis Ebrill eleni. Rwy'n ddiolchgar i Ann Jones ac Aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac i David Melding a Jocelyn Davies ac aelodau o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith craffu trylwyr a'u hadroddiadau defnyddiol ar eu canfyddiadau. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i egluro sail resymegol penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu sefydliadau addysg bellach yn gyrff cyhoeddus at ddibenion cyfrifon cenedlaethol.

Members will be aware that the UK national accounts are produced under internationally agreed rules and apply to all countries in the European Union. In the UK, the Office for National Statistics is responsible for the application and interpretation of these rules. The UK Government has chosen to base its departmental budgeting rules and fiscal statistics on national accounts principles. As a consequence, ONS decisions on how organisations are treated in the national accounts also inform the public sector boundary used in the production of the whole-of-Government accounts. If an organisation is classified as being part of the national accounts, then all of its transactions are included in the relevant Government department budgets.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod cyfrifon cenedlaethol y DU yn cael eu cynhyrchu o dan reolau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ac maent yn berthnasol i bob gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd. Yn y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n gyfrifol am ddehongli'r rheolau hyn a'u rhoi ar waith. Mae Llywodraeth y DU wedi dewis seilio ei rheolau cyllidebu adrannol ac ystadegau cyllidol ar egwyddorion cyfrifon cenedlaethol. O ganlyniad, bydd penderfyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar sut mae sefydliadau'n cael eu trin yn y cyfrifon cenedlaethol hefyd yn llywio'r ffin sector cyhoeddus a ddefnyddir wrth gynhyrchu cyfrifon y Llywodraeth gyfan. Os yw sefydliad yn cael ei ddosbarthu fel bod yn rhan o'r cyfrifon cenedlaethol, yna mae ei holl drafodion yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau adran berthnasol y Llywodraeth.

Until recently, further education institutions were classified as non–profit institutions serving households. The ONS reclassified them in 2010, dating back to 1993, as 'general government' and, therefore, within the public sector. The ONS, in determining the classification of bodies for the purposes of national accounts looks at various indicators of control, and the decision by the ONS to reclassify FEIs was the result of various statutory controls that Welsh Ministers exercise over FEIs in Wales. Examples of the controls include: the ability to close the body; the ability to prevent the body from ending its relationship with the public sector; the ability to change the constitution of the body, or veto changes to it; the ability to decide what sort of financial transactions the body can undertake, or to limit them; the ability to prevent the body from receiving certain types of income from other resources; and the ability to exert numerous minor controls over how the body is run.

Tan yn ddiweddar, roedd sefydliadau addysg bellach yn cael eu dosbarthu fel sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd. Cawsant eu hailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2010, yn dyddio yn ôl i 1993, fel 'llywodraeth gyffredinol' ac, felly, o fewn y sector cyhoeddus. Wrth benderfynu sut i ddosbarthu cyrff at ddibenion cyfrifon cenedlaethol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn edrych ar wahanol ddangosyddion rheolaeth, ac roedd y penderfyniad gan y Swyddfa i ailddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach yn ganlyniad i amrywiol reolaethau statudol y mae Gweinidogion Cymru yn eu harfer drostynt yng Nghymru. Mae enghreifftiau o'r rheolaethau hyn yn cynnwys: y gallu i gau'r corff; y gallu i atal y corff rhag dod â'i berthynas â'r sector cyhoeddus i ben; y gallu i newid cyfansoddiad y corff, neu roi feto ar newidiadau iddo; y gallu i benderfynu pa fath o drafodion ariannol y gall y corff ymgymryd â nhw, neu i'w cyfyngu; y gallu i atal y corff rhag derbyn rhai mathau o incwm o ffynonellau eraill; a'r gallu i weithredu nifer o fân reolaethau dros sut mae'r corff yn cael ei redeg.

If the ONS classification is not reversed, all income and expenditure in further education institutions in Wales will have to be accounted for from within Welsh Government budgets. This will impact on all categories of budgets, as my predecessor has already detailed in his evidence to the Finance Committee and to the Enterprise and Business Committee. To avoid these budget implications, we must reverse the ONS classification and seek to reinstate colleges as non-profit institutions serving households. I understand that the four nations in the UK are progressing different routes towards this end. There is limited value in comparing ourselves to the other nations. Each of us is in a unique position. I believe that the route being proposed through this Bill is the right direction of travel for learners in Wales.

Os nad yw dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael ei wrthdroi, bydd yn rhaid rhoi cyfrif am yr holl incwm a gwariant mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru o gyllidebau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn effeithio ar bob categori o gyllidebau, fel y mae fy rhagflaenydd eisoes wedi'i nodi yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ac i'r Pwyllgor Menter a Busnes. Er mwyn osgoi'r goblygiadau cyllidebol hyn, mae'n rhaid i ni wrthdroi dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol a cheisio adfer colegau yn sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd. Deallaf fod pedair gwlad y DU yn symud ar hyd llwybrau gwahanol tuag at y nod hwn. Gwerth cyfyngedig sydd i'n cymharu ein hunain â'r gwledydd eraill. Mae pob un ohonom mewn sefyllfa unigryw. Rwy'n credu mai'r llwybr a gynigir trwy'r Bil hwn yw'r cyfeiriad cywir i ddysgwyr yng Nghymru.

We must focus on the central fact. Would the ONS reclassification have a negative impact on Welsh budgets? Yes. We must recognise that, in Wales, our FE sector is a mature and responsive sector. In Wales, we have already achieved what other nations, such as Scotland, are still attempting to deliver. Our programme of regionalisation, through the hugely successful transformation programme, has succeeded in reducing the number of institutions in Wales, without compromising on the delivery of learning. It was achieved through partnership, not through tighter controls and legislation. Welsh FEIs have been evolving and developing over the past 20 years. We must ensure that the action that we take here in Wales aids progression, not regression. Let me assure colleagues here today that reversing the ONS reclassification does not weaken the Welsh Minister's powers. My priority will still be to ensure that public investment results in better opportunities for our learners in Wales, and that FEIs remain central to the communities they serve.

Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar y ffaith ganolog. A fyddai ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael effaith negyddol ar gyllidebau Cymru? Byddai. Rhaid inni gydnabod bod ein sector addysg bellach yng Nghymru yn sector aeddfed ac ymatebol. Yng Nghymru, rydym eisoes wedi cyflawni'r hyn y mae gwledydd eraill, fel yr Alban, yn dal i geisio'i wneud. Mae ein rhaglen o ranbartholi, drwy'r rhaglen drawsnewid lwyddiannus iawn, wedi llwyddo i leihau nifer y sefydliadau yng Nghymru, heb gyfaddawdu ar y modd y cyflwynir yr addysg. Cyflawnwyd hyn trwy bartneriaeth, nid drwy reolaethau tynnach a deddfwriaeth. Mae sefydliadau Addysg Bellach Cymru wedi bod yn esblygu a datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y camau a gymerwn yma yng Nghymru yn helpu i symud ymlaen, ac nid yn achosi iddynt symud yn ôl. Gadewch imi sicrhau cydweithwyr yma heddiw nad yw gwrthdroi ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwanhau pwerau'r Gweinidog yng Nghymru. Fy mlaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn arwain at well cyfleoedd ar gyfer ein dysgwyr yng Nghymru, a bod sefydliadau addysg bellach yn parhau'n ganolog i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

I will now address some of the points raised by the committees. A number of the issues raised in the reports are valid and I aim to respond positively to the majority of them, giving Members undertakings in relation to these, where I can at this stage, and to explain where recommendations as a matter of policy or practicality cannot be delivered.

Byddaf yn awr yn mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd gan y pwyllgorau. Mae nifer o'r materion a godwyd yn yr adroddiadau yn ddilys a cheisiaf ymateb yn gadarnhaol i'r rhan fwyaf ohonynt, gan roi ymrwymiadau i'r Aelodau yn eu cylch, lle y gallaf ar hyn o bryd, ac esbonio hynny lle na ellir cyflawni argymhellion fel mater o bolisi neu ymarferoldeb.

I agree that the explanatory memorandum would benefit from setting out in more detail, and with greater clarity, the risks involved and the approach that the Bill takes to mitigating the effects of the ONS classification. This I will provide. I can also assure you that the Welsh Government will keep under review the effects of the Bill on other parts of its legislative programme, and on wider matters, such as the provision for learners with additional learning needs, although any impacts are expected to be minimal.

Rwy'n cytuno y byddai'r memorandwm esboniadol yn elwa o nodi'n fwy manwl, a chyda mwy o eglurder, y risgiau sydd ynghlwm â'r dull yn y Bil o liniaru effaith dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Byddaf yn darparu hyn. Gallaf hefyd eich sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i adolygu effaith y Bil ar rannau eraill o'i rhaglen ddeddfwriaethol, ac ar faterion ehangach, fel y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, er y disgwylir i unrhyw effeithiau fod yn fach iawn.

Moving on to governing body membership, I am also content to bring forward amendments to make it clear that at least two members of the governing body should be student representatives, elected by either the student population or by an appropriate student body. This will also apply to two staff members on the governing body. I, therefore, propose to bring forward Government amendments on student and staff members. I am also content to place a broad duty on governing bodies to consult regularly with local employers, learners and communities about educational provision and curriculum planning, building I believe on the recommendations in the Humphreys report. However, I do not believe that it is necessary to legislate that governing bodies should include representatives of local employers or businesses. Governing bodies should use their professional judgment when identifying members, to determine the skills that they require for their institution. The 'Guide for Governors', which will be published in 2014, will provide guidance on the variety of skills required on a governing body, building on the good practice in existence in the sector.

Gan symud ymlaen i aelodaeth cyrff llywodraethu, rwyf hefyd yn fodlon cyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn glir y dylai o leiaf ddau aelod o'r corff llywodraethu fod yn cynrychioli'r myfyrwyr, a chael eu hethol gan naill ai'r myfyrwyr, neu gan gorff myfyrwyr priodol. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i ddau aelod o'r staff ar y corff llywodraethu. Rwyf, felly, yn cynnig cyflwyno gwelliannau gan y Llywodraeth ar fyfyrwyr a staff. Rwyf hefyd yn fodlon rhoi dyletswydd gyffredinol ar gyrff llywodraethu i ymgynghori'n rheolaidd â chyflogwyr, dysgwyr a chymunedau lleol ynglŷn â darpariaeth addysgol a chynllunio'r cwricwlwm, gan adeiladu rwy'n credu ar yr argymhellion yn adroddiad Humphreys. Fodd bynnag, nid wyf yn credu ei bod yn angenrheidiol deddfu y dylai cyrff llywodraethu gynnwys cynrychiolwyr o blith cyflogwyr neu fusnesau lleol. Dylai cyrff llywodraethu ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol wrth dddewis aelodau, i benderfynu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu sefydliad. Bydd y 'Canllaw i Lywodraethwyr', a gyhoeddir yn 2014, yn rhoi arweiniad ar yr amrywiaeth o sgiliau sydd eu hangen ar gorff llywodraethu, gan adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli yn y sector.

On recommendation 3, I have instructed my officials to explore with Her Majesty's Treasury the scope of modifying Government accounting rules to mitigate the effects of the ONS classification on Welsh Government. The committee will know of the very clear advice that we have had on this issue, but I will not ignore the request from the Chair for a final definitive answer direct from the Treasury on this. Working with the Minister for Finance, I have made sure that a direct challenge has been issued to it. I will update the Children and Young People Committee on this at Stage 2.

O ran argymhelliad 3, rwyf wedi rhoi cyfarwyddiadau i'm swyddogion archwilio, gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi, a oes lle i addasu rheolau cyfrifyddu'r Llywodraeth i liniaru effaith dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar Lywodraeth Cymru. Bydd y pwyllgor yn gwybod am y cyngor clir iawn a gawsom ar y mater hwn, ond nid wyf am anwybyddu'r cais gan y Cadeirydd am ateb pendant terfynol yn uniongyrchol gan y Trysorlys ynglŷn â hyn. Gan weithio gyda'r Gweinidog Cyllid, rwyf wedi gwneud yn siŵr y cyflwynwyd her uniongyrchol iddo. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar hyn yng Nghyfnod 2.

I am not content to retain section 139 of the Education Act 2002, section 7. This is a policy decision, as we do not foresee any implications associated with the removal of these powers. These powers enabling Welsh Ministers to regulate the HE provision in further education institutions have never been used, and there is no intention to do so. Our intention is that, in future, FE institutions delivering HE courses will be subject to the same controls as HE institutions. Those controls have recently been the subject of the technical consultation on the higher education (Wales) Bill. However, if there are specific concerns as to why Members believe greater controls are required on FEIs delivering higher education provision, compared with HE institutions, I am willing, of course, to listen to them.

Nid wyf yn fodlon cadw adran 139 o Ddeddf Addysg 2002, adran 7. Mae hwn yn benderfyniad polisi, gan nad ydym yn rhagweld unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â chael gwared ar y pwerau hyn. Nid yw'r pwerau hyn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i reoleiddio'r ddarpariaeth Addysg Uwch mewn sefydliadau addysg bellach erioed wedi cael eu defnyddio, ac nid oes bwriad i wneud hynny. Ein bwriad yw y bydd sefydliadau Addysg Bellach sy'n cyflwyno cyrsiau Addysg Uwch yn y dyfodol, yn ddarostyngedig i'r un rheolau â sefydliadau Addysg Uwch. Mae'r rheolaethau hynny wedi bod yn destun yr ymgynghoriad technegol ar y Bil Addysg Uwch (Cymru) yn ddiweddar. Fodd bynnag, os oes gan Aelodau bryderon penodol ynghylch yr angen am fwy o reolaethau ar sefydliadau Addysg Bellach sy'n cyflwyno darpariaeth addysg uwch, o'u cymharu â sefydliadau Addysg Uwch, rwy'n barod, wrth gwrs, i wrando arnynt.

At the same time, I reassure Members that regulations, funding conditions and the financial memorandum will continue to underpin the Bill, and that amended versions will be shared with the Children and Young People Committee at Stage 2.

Ar yr un pryd, rwy'n sicrhau'r Aelodau bod rheoliadau, amodau cyllido a'r memorandwm ariannol yn parhau i fod yn sail i'r Bil, ac y bydd fersiynau diwygiedig yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yng Nghyfnod 2.

In terms of the higher education element of the Bill, the provision allows Welsh Ministers to verify household income information to prove eligibility for student finance funding from the Welsh Government. The direct link with HMRC is one of the main drivers for the modernisation of Student Finance Wales. This link will deliver significant cost and efficiency savings for the Welsh Government, significantly speed up the service available to students, decrease the likelihood of fraudulent applications and deliver an efficient, end-to-end service for learners in Wales. The Welsh Government has already invested in the provision of a modernised student finance Wales service, and the link with HMRC is a key component to ensure an appropriate level of service in Wales.

O ran elfen addysg uwch y Bil, mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadarnhau gwybodaeth am incwm aelwydydd i brofi eu bod yn gymwys i dderbyn cyllid myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Y cyswllt uniongyrchol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw un o'r prif ysgogwyr ar gyfer moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd y cyswllt hwn yn darparu arbedion cost ac effeithlonrwydd sylweddol i Lywodraeth Cymru, yn cyflymu'r gwasanaeth sydd ar gael i fyfyrwyr yn sylweddol, yn gwneud ceisiadau twyllodrus yn llai tebygol ac yn darparu gwasanaeth effeithlon o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi mewn gwasanaeth cyllid modern i fyfyrwyr Cymru, ac mae'r cysylltiad gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn elfen allweddol er mwyn sicrhau gwasanaeth o lefel briodol yng Nghymru.

I am content for officials to consider with the Student Loans Company how best to provide the most appropriate support for those applying for grants and loans from Student Finance Wales.

Rwy'n fodlon i swyddogion ystyried gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr y ffordd orau i ddarparu'r cymorth mwyaf priodol ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am grantiau a benthyciadau gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Regarding the Constitutional and Legislative Affairs Committee's recommendation on commencement of Acts, I understand that this matter is being considered by the First Minister, following correspondence between him and the Chair of the committee. However, in some circumstances, commencing Acts can be technically complex, and there can be a need to address the transition from the existing system to the new arrangements. It is for this reason that Bills often enable commencement orders to make provision that is, for example, transitional or incidental. However, to be clear, in such cases the provision that is transitional or incidental must relate to the act of commencement itself, and is therefore narrow in extent.

O ran argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gychwyn Deddfau, rwy'n deall bod y mater yn cael ei ystyried gan y Prif Weinidog, yn dilyn gohebiaeth rhyngddo ef a Chadeirydd y pwyllgor. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall Deddfau cychwyn fod yn dechnegol gymhleth, a gall fod angen mynd i'r afael â'r newid o'r system bresennol i'r trefniadau newydd. Dyma pam hwn yn aml y mae Biliau yn galluogi gorchmynion cychwyn i wneud darpariaeth sydd, er enghraifft, yn drosiannol neu'n gysylltiedig. Fodd bynnag, i fod yn glir, mewn achosion o'r fath rhaid i'r ddarpariaeth sy'n drosiannol neu'n gysylltiedig ymwneud â'r weithred o gychwyn ei hun, ac felly mae'n gul ei chwmpas.

In opening, I have picked up on the main recommendations of the reports and discussed them. However, I confirm that all of the recommendations made have been carefully considered and will be acted on as appropriate.

Wrth agor, rwyf wedi ystyried y prif argymhellion o'r adroddiadau ac wedi'u trafod. Fodd bynnag, rwy'n cadarnhau bod yr holl argymhellion a wnaed wedi'u hystyried yn ofalus a gweithredir arnynt fel y bo'n briodol.

In conclusion, I thank the committees for their constructive engagement and ideas for improving the Bill, and I am greatly encouraged by the general support shown for the Bill by key stakeholders during the Stage 1 committee sessions. I urge Members to take the same view and support the Bill today.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am eu cyfraniad a'u syniadau adeiladol ar gyfer gwella'r Bil, ac rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan y gefnogaeth gyffredinol a ddangoswyd ar gyfer y Bil gan randdeiliaid allweddol yn ystod y sesiynau pwyllgor Cyfnod 1. Anogaf yr Aelodau i gymryd yr un safbwynt a chefnogi'r Bil heddiw.

17:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Chair of the Children and Young People Committee, Ann Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Ann Jones.

17:38

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In starting my contribution to this debate, I pay the usual tribute to other members of the Children and Young People Committee for their help and guidance in writing the report, the clerking teams and those people who came to give us evidence to help us prepare this report.

Wrth ddechrau fy nghyfraniad i'r ddadl hon, rwy'n talu'r deyrnged arferol i aelodau eraill y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am eu cymorth a'u harweiniad wrth ysgrifennu'r adroddiad, y timau clercio a'r bobl hynny a ddaeth i roi tystiolaeth i'n helpu i baratoi'r adroddiad hwn.

In presenting the committee's views on the general principles, I want to talk first about data sharing on student grants and loans. We believe that the data relevant to student grants and loans should be shared with Welsh Ministers by HMRC so that the process for applying for a student grant and loan is simplified and made more efficient. It is a relatively uncontroversial part of the Bill, so we were broadly content with it. That might be the only time that we are broadly content with anything, I think. While not directly related to the Bill, we recommended to the Minister—I think that the Minister has accepted that, according to what he has just said—that the Welsh Government should consult and discuss with the Student Loan Company on how best to keep face to face contact and appropriate support for those students applying for loans who may need that face to face contact.

Wrth gyflwyno barn y pwyllgor yr egwyddorion cyffredinol, rwyf am siarad yn gyntaf am rannu data ynglŷn â grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr. Rydym yn credu y dylai Cyllid a Thollau EM rannu'r data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau myfyrwyr gyda Gweinidogion Cymru fel bod y broses ar gyfer gwneud cais am fenthyciad a grant myfyriwr yn symlach ac yn fwy effeithlon. Mae'n rhan gymharol annadleuol o'r Bil, felly rydym yn fodlon ag ef ar y cyfan. Mae'n bosibl mai dyna'r unig amser yr ydym yn fodlon ar unrhyw beth yn gyffredinol, rwy'n meddwl. Er nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Bil, rydym yn argymell i'r Gweinidog—credaf fod y Gweinidog wedi derbyn hynny, yn ôl yr hyn y mae newydd ei ddweud—y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori a thrafod gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar y ffordd orau i gadw cyswllt wyneb yn wyneb a chefnogaeth briodol ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n gwneud cais am fenthyciadau ac a allai fod angen y cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw.

The Bill also includes provision repealing Ministers' powers to restrict the provision of higher education courses within the further education sector. This is a power that has never been used, we are told. We accept that it is not good practice for Ministers to keep powers that are not needed, simply because there might be some need at a future date. However, as a higher education Bill is likely to be introduced, and as there could be other possible changes on the horizon for the governance of the sector, we were not convinced that now is the right time to repeal this power. We recommend that the repeal proposed in section 7 of the Bill should be reconsidered.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n diddymu pwerau Gweinidogion i gyfyngu ar ddarpariaeth cyrsiau addysg uwch o fewn y sector addysg bellach. Mae hwn yn bŵer nad yw erioed wedi cael ei ddefnyddio, rydym yn clywed. Rydym yn derbyn nad yw'n arfer da i Weinidogion gadw pwerau nad oes eu hangen, dim ond oherwydd y gallai fod rhywfaint o angen yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan fod Bil addysg uwch yn debygol o gael ei gyflwyno, ac oherwydd y gallai fod newidiadau posibl eraill ar y gorwel ar gyfer trefniadau llywodraethu'r sector, nid oeddem yn argyhoeddedig mai nawr yw'r amser iawn i ddiddymu'r pŵer hwn. Rydym yn argymell y dylai'r diddymiad a gynigir yn adran 7 y Bil gael ei ailystyried.

On greater autonomy for the FE sector, the objective is to give autonomy to FE bodies so that they can be reclassified by the Office for National Statistics as non-profit institutions serving households. That is the area that the committee spent some time on. The impact of this reclassification has yet to be fully felt, but the Minister has outlined the effects that it will have on Welsh Government budgets, particularly on capital budgets. The committee broadly accepts the Minister's assessment of that. We also accept that changes proposed in the Bill will allow the ONS to restore the previous classification. This, we hope, will mitigate the adverse financial impact and allow for financial management arrangements for the sector to continue broadly along current lines. The committee was concerned that the greater autonomy that the Bill gives to FE colleges might lead to a greater fragmentation of the sector, particularly in relation to staff pay and conditions, and a more competitive approach to the delivery of educational provision, including greater use within the private sector.

O safbwynt mwy o ymreolaeth ar gyfer y sector addysg bellach, y nod yw rhoi ymreolaeth i gyrff addysg bellach fel y gall y Swyddfa Ystadegau Gwladol eu hailddosbarthu'n sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd. Dyna'r maes y mae'r pwyllgor wedi treulio peth amser arno. Nid yw effaith yr ailddosbarthu hwn wedi cael ei theimlo'n llawn hyd yma, ond mae'r Gweinidog wedi amlinellu'r effeithiau y bydd yn ei chael ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, yn enwedig ar gyllidebau cyfalaf. Mae'r pwyllgor yn gyffredinol yn derbyn asesiad y Gweinidog yn hynny o beth. Rydym hefyd yn derbyn y bydd y newidiadau a gynigir yn y Bil yn galluogi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i adfer y dosbarthiad blaenorol. Bydd hyn, yr ydym yn gobeithio, yn lliniaru'r effaith ariannol andwyol ac yn caniatáu i drefniadau rheoli ariannol y sector barhau yn fras fel ag y maent ar hyn o bryd. Roedd y pwyllgor yn pryderu y gallai'r ymreolaeth y mae'r Bil yn ei rhoi i golegau addysg bellach arwain at ddarnio'r sector ymhellach, yn enwedig o safbwynt cyflogau ac amodau gwaith y staff, a dull mwy cystadleuol o gyflwyno darpariaeth addysgol, gan gynnwys mwy o ddefnydd o fewn y sector preifat.

We were also concerned about whether the Welsh Government will be able to continue to exercise effective financial controls over the funding that it provides to further education institutions. Ministers themselves have made clear that the approach being taken in the Bill would not have been taken except for this ONS classification. We are therefore concerned that policy is being driven by what are essentially accounting rules. We have heard from the Scottish Government that it is trying to pursue a different path to that set out in this Bill, which keeps FEIs directly accountable to the Scottish Government. However, we felt that this approach also carries some difficulties. There would still be a need to change FE colleges' accounting arrangements and, more importantly, the UK Treasury would need to approve a relaxation of Government budgeting rules. The Welsh Government has decided against this approach, in the belief that Treasury approval is unlikely to be forthcoming. That is a matter of concern to the committee, not because the Welsh Government's assessment of the Treasury's response is necessarily wrong, but because it appears to have assumed what the Treasury response will be without testing whether that is the case. As far as the committee could tell, the Welsh Government had not written to the Treasury to clarify its views or attempted to talk to it about whether alternative approaches might be possible. In a letter to me as Chair on 11 September, the Minister still does not seem able to say. He said that he had been in contact with the Treasury and that it has confirmed that it is unwilling to make any changes that would allow a different approach to be taken. So, the committee might have expected policy to be based on formally establishing the Treasury position. We were uncomfortable agreeing to relax Government controls over the FE sector when the option of retaining direct accountability appears not to have been fully explored with the Treasury. That was our biggest concern, but we accept that the financial consequences of the ONS classification are significant and broadly undesirable. If the Treasury will not agree steps to ease these consequences, then the measures in the Bill may be the only way of avoiding the financial penalties that come from the ONS decision.

Rydym yn pryderu hefyd a fydd Llywodraeth Cymru'n gallu parhau i arfer rheolaethau ariannol effeithiol ar y cyllid y mae'n ei ddarparu i sefydliadau addysg bellach. Mae Gweinidogion eu hunain wedi nodi'n glir na fyddai'r dull gweithredu sydd yn y Bil wedi cael ei fabwysiadu heblaw am y dosbarthiad hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Felly, rydym yn pryderu bod polisi'n cael ei sbarduno, yn y bôn, gan reolau cyfrifyddu. Rydym wedi clywed gan Lywodraeth yr Alban ei bod yn ceisio dilyn llwybr gwahanol i'r hyn a nodir yn y Bil hwn, gan gadw sefydliadau Addysg Bellach yn uniongyrchol atebol i Lywodraeth yr Alban. Fodd bynnag, teimlwn fod y dull hwn hefyd yn cyflwyno rhai anawsterau. Byddai dal i fod angen newid trefniadau cyfrifyddu colegau addysg bellach ac, yn bwysicach, byddai angen i Drysorlys y DU gymeradwyo llacio rheolau cyllidebu'r Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu yn erbyn y dull hwn, yn y gred bod y Trysorlys yn annhebygol o roi ei gymeradwyaeth. Mae hynny'n destun pryder i'r pwyllgor, nid oherwydd bod asesiad Llywodraeth Cymru o ymateb y Trysorlys o reidrwydd yn anghywir, ond oherwydd ei bod yn ymddangos iddi gymryd yn ganiataol beth fydd ymateb y Trysorlys heb brofi a yw hynny'n wir. Cyn belled ag y gallai'r pwyllgor weld, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Trysorlys i gael gwybod beth yw ei farn neu i geisio trafod p'un a allai dulliau eraill fod yn bosibl. Mewn llythyr i mi fel Cadeirydd ar 11 Medi, ymddengys nad yw'r Gweinidog yn gallu dweud o hyd. Dywedodd iddo fod mewn cysylltiad â'r Trysorlys a chael cadarnhad fod y Trysorlys yn amharod i wneud unrhyw newidiadau a fyddai'n caniatáu ymdriniaeth wahanol. Felly, efallai y gallai'r pwyllgor fod wedi disgwyl i'r polisi fod yn seiliedig ar sefydlu safbwynt y Trysorlys yn ffurfiol. Roeddem yn anghyfforddus ynghylch cytuno i lacio rheolaeth y Llywodraeth dros y sector addysg bellach pan ymddengys nad yw'r dewis o gadw atebolrwydd uniongyrchol wedi cael ei ystyried yn llawn gyda'r Trysorlys. Dyna oedd ein pryder mwyaf, ond rydym yn derbyn bod canlyniadau ariannol dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn arwyddocaol, ac ar y cyfan yn annymunol. Os na fydd y Trysorlys yn cytuno ar gamau i leddfu'r canlyniadau hyn, yna efallai mai'r mesurau yn y Bil fydd yr unig ffordd o osgoi'r cosbau ariannol a ddaw yn sgil penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

I will turn to recommendations to improve the governance arrangements. Looking at more detailed aspects of this Bill and how it will work in practice, we have made a number of specific recommendations based on the evidence that we received. I am grateful to the Minister for clarifying his position on those. We heard concerns that the staff members of the governing bodies may not be sufficiently representative of staff interests and that they could be nominated by senior management of institutions. We also heard that there was a need for greater representation from the student body and that student governors should be elected. To address these concerns, we recommend that Schedule 1 to the Bill be amended to specify that there must be at least two students and two staff members on each governing body and that these members should be elected by those whom they are there to represent.

Trof at argymhellion i wella'r trefniadau llywodraethu. O edrych ar agweddau mwy manwl ar y Bil hwn a sut y bydd yn gweithio yn ymarferol, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion penodol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am egluro ei safbwynt ar y rhain. Clywsom bryderon nad yw aelodau staff y cyrff llywodraethu o bosibl yn ddigon cynrychiadol o fuddiannau staff ac y gallent gael eu henwebu gan uwch reolwyr sefydliadau. Clywsom hefyd fod angen mwy o gynrychiolaeth gan y corff myfyrwyr ac y dylai llywodraethwyr gael eu hethol o blith y myfyrwyr. I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, rydym yn argymell y dylid diwygio Atodlen 1 i'r Bil i nodi bod yn rhaid cael o leiaf ddau fyfyriwr a dau aelod o'r staff ar bob corff llywodraethu ac y dylai'r aelodau hyn gael eu hethol gan y rhai y maent yno i'w cynrychioli.

We also heard arguments for the link between colleges and local employers and businesses to be put on a formal footing. Again, that is why we recommended, in Schedule 1, specifying that there should also be an employer and a business representative on governing bodies. I know that the Minister has some concerns about those and I hope that we can have further discussions as a committee, around that recommendation.

Clywsom ddadleuon hefyd am roi'r cyswllt rhwng colegau a chyflogwyr lleol a busnesau ar sail ffurfiol. Unwaith eto, dyna pam yr oeddem yn argymell, yn Atodlen 1, y dylid cael cynrychiolydd i gyflogwyr a byd busnes hefyd ar gyrff llywodraethu. Gwn fod gan y Gweinidog rai pryderon ynglŷn â hynny ac rwy'n gobeithio y gallwn gael rhagor o drafodaethau fel pwyllgor, ynghylch yr argymhelliad hwnnw.

We also noted concerns about the impact of college provision on wider educational provision in an area. That is why we recommended that these links should be strengthened by placing a duty on colleges to consult regularly with local learners and communities, as well as employers, about educational provision and how it impacts on local curriculum planning. Our view is that, taken together, these amendments will improve the governance of colleges and they will strengthen learner and staff involvement. They will ensure that the needs of businesses and employers are heard on governing bodies, ensure that learner and staff members of the governing bodies are genuinely representative, and strengthen engagement with learners, business and the local community. We believe that these amendments are proportionate, reasonable and, importantly, will not put the ONS reclassification at risk.

Nodwyd pryderon gennym hefyd ynglŷn ag effaith darpariaeth y coleg ar y ddarpariaeth addysg ehangach mewn ardal. Dyna pam yr ydym yn argymell y dylai'r cysylltiadau hyn gael eu cryfhau trwy osod dyletswydd ar golegau i ymgynghori'n rheolaidd â dysgwyr a chymunedau lleol, yn ogystal â chyflogwyr, am ddarpariaeth addysgol a sut y mae'n effeithio ar gynllunio cwricwlwm yn lleol. Ein barn ni yw y bydd y diwygiadau hyn, gyda'i gilydd, yn gwella trefniadau llywodraethu colegau ac y byddant yn cryfhau cyfranogiad dysgwyr a staff. Byddant yn sicrhau bod anghenion busnesau a chyflogwyr yn cael eu clywed ar gyrff llywodraethu, yn sicrhau bod dysgwyr ac aelodau o'r staff ar y cyrff llywodraethu yn wirioneddol gynrychioliadol, ac yn cryfhau ymgysylltiad â dysgwyr, busnesau a'r gymuned leol. Rydym yn credu bod y gwelliannau hyn yn gymesur, yn rhesymol ac, yn bwysig, ni fydd yn peryglu ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn perygl.

Briefly, in concluding, I will say that the committee considered the implications of the Bill for particular user groups. We have made recommendations for the Government to consider a number of issues relating to the impact on provision for those with additional learning needs, and to ensure that this Bill does not have any unintended consequences on the provision of education through the medium of Welsh.

Yn fyr, wrth gloi, hoffwn ddweud bod y pwyllgor wedi ystyried goblygiadau'r Bil ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol. Rydym wedi gwneud argymhellion y dylai'r Llywodraeth ystyried nifer o faterion yn ymwneud â'r effaith ar ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i sicrhau na fydd y Bil hwn yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar ddarpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

I hope that the Minister will agree to engage further—I think that he has done so—with the committee, as the Bill goes through its next stages.

Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno i ymgysylltu ymhellach â'r pwyllgor—rwy'n meddwl ei fod wedi gwneud hynny—wrth i'r Bil fynd trwy ei gyfnodau nesaf.

17:47

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am delighted to be able to take part in this debate on the general principles of the further and higher education Bill. I would like to put on record that the Welsh Conservatives are extremely supportive of this Bill and I believe that Ann Jones, as Chair of the committee, has brought forward, very clearly and concisely, all of the recommendations that the Conservatives, as part of the cross-party group on children and young people, put forward. I was delighted to hear your response to those recommendations.

Weinidog, rwy'n falch iawn o allu cymryd rhan yn y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol y Bil addysg bellach ac uwch. Hoffwn gofnodi bod y Ceidwadwyr Cymreig yn hynod gefnogol o'r Bil hwn ac rwy'n credu bod Ann Jones, fel Cadeirydd y pwyllgor, wedi cyflwyno, yn glir ac yn gryno iawn, yr holl argymhellion a gyflwynodd y Ceidwadwyr, fel rhan o'r grŵp trawsbleidiol ar blant a phobl ifanc. Roeddwn yn falch iawn i glywed eich ymateb i'r argymhellion hynny.

I was going to pick up on two of them. The first is recommendation 3, ensuring that we absolutely need to do this. Perhaps it is something that we should have explored before we came to Bill stage, but we were not necessarily convinced that that had been happening. I would also like to bring forward recommendation 11. I know that Ann has just touched on it, but of course there is an awful lot of change going on in the provision of educational services for people with additional learning needs and special educational needs. We have another Bill that is already out—the education Bill—and I know that you are looking at other provisions. We need to make sure that there is cross-compliance across all of this, so that this very vulnerable group of people do not get hit.

Roeddwn yn mynd i gyfeirio at ddau ohonynt. Y cyntaf yw argymhelliad 3, gan sicrhau bod gwir angen inni wneud hyn. Efallai ei fod yn rhywbeth y dylem fod wedi'i archwilio cyn i ni ddod i gyfnod y Bil, ond nid oeddem yn argyhoeddedig o reidrwydd bod hynny wedi bod yn digwydd. Hoffwn hefyd gyflwyno argymhelliad 11. Gwn fod Ann newydd gyfeirio ato, ond wrth gwrs mae llawer iawn o newid yn digwydd o ran darpariaeth gwasanaethau addysgol ar gyfer pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig. Mae gennym Fil arall sydd eisoes allan—y Bil addysg—ac rwy'n gwybod eich bod yn edrych ar ddarpariaethau eraill. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod yna draws-gydymffurfio ar draws hyn oll, fel na fydd y grŵp hwn o bobl sy'n agored iawn i niwed yn cael eu taro.

Sitting in some of the committee sessions, I heard some of the concerns raised by people about what the FE colleges might be up to once they get these additional powers. But, I think that you absolutely summed it up, and I would support you entirely in your comments, that this is a mature business. FE colleges are already trusted with millions and millions of pounds of taxpayers' money. I believe that you have the checks and balances in place. I believe that FE colleges can pretty much do some of the things that people were concerned about now anyway, and they have not done so, because I believe that they are a mature industry and I think that to cavil at this point is unnecessary and unwelcome and does a great disservice to a very respectable profession that, in the main, carries out the most superb duty on behalf of Wales. So, I will be supporting you in taking this Bill forward.

Wrth eistedd yn rhai o'r sesiynau pwyllgor, clywais rai o'r pryderon a godwyd gan bobl am yr hyn y gallai'r colegau Addysg Bellach fod yn ei wneud ar ôl cael y pwerau ychwanegol hyn. Ond rwy'n credu eich bod wedi crynhoi'r sefyllfa i'r dim, a byddwn yn eich cefnogi yn gyfan gwbl yn eich sylwadau, fod hwn yn fusnes aeddfed. Rydym eisoes yn ymddiried miliynau ar filiynau o bunnoedd o arian y trethdalwyr i golegau addysg bellach. Rwy'n credu bod y camau diogelu wedi'u sefydlu gennych. Rwy'n credu y gall colegau addysg bellach i bob pwrpas wneud llawer o'r pethau y mae pobl yn pryderu amdanynt yn awr beth bynnag, ac nid ydynt wedi gwneud hynny oherwydd eu bod yn ddiwydiant aeddfed, yn fy marn i. Credaf ei bod yn ddiangen pigo beiau ar yr adeg hon—ni fyddai croeso i hynny, a byddai'n gwneud anghymwynas fawr â phroffesiwn parchus iawn sydd, ar y cyfan, yn cyflawni ei ddyletswydd yn wych ar ran Cymru. Felly, byddaf yn eich cefnogi wrth fwrw ymlaen â'r Bil hwn.

17:49

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Gweinidog am ymateb i rai o'r pryderon yn ein cyfarfodydd pwyllgor. Hoffwn ddiolch iddo am hynny. A gaf i ddweud ar y cychwyn bod Plaid Cymru am gefnogi'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r Bil heddiw, ond mae gennym nifer o bryderon o hyd, a nifer o gwestiynau o hyd, ac mae'n werth gwyntyllu rhai o'r rheini?

I thank the Minister for responding to some of the concerns expressed in committee. I would like to thank him for that. May I say at the outset that Plaid Cymru will support the general principles behind the Bill today, but we have a number of concerns and a number of questions that persist, and it is worth airing some of those today?

Os ewch yn ôl tair blynedd, roedd gan Blaid Cymru a'r Blaid Lafur yr un gwerthoedd a'r un ymddygiad tuag at y sector hwn, sef ein bod yn ei weld fel sector o bwys, fel adnodd cyhoeddus a oedd yn cael ei rannu gan y wladwriaeth, y gymuned o ddysgwyr lleol a'r staff a phawb a oedd yn rhan o'r colegau hefyd. Roeddem yn awyddus i weld rhywbeth yn digwydd tu fewn i'r sector yn debyg i'r hyn a oedd yn cael ei argymell gan adroddiad Humphreys y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato. Nid oes dwywaith ein bod wedi colli gafael ar y weledigaeth honno oherwydd y newid uniongyrchol yn y diffiniad o gyfalaf ac arian yn y sector gan yr ONS. Rwy'n derbyn hynny. Rwy'n meddwl pe baem ni mewn sefyllfa ariannol wahanol yn gyhoeddus heddiw, mae'n bosibl na fyddai'r Gweinidog yn gweld cymaint o gefnogaeth ar gyfer y Bil hwn, hyd yn oed gan ambell i un ar ei feinciau cefn, efallai, achos rydym yn sôn yn fras am swm o £20 miliwn. Mae'n swm sylweddol ac yn benodol ymysg cyfalaf, ond mae'n swm sy'n gofyn y cwestiwn, 'A yw hwn yn bris sy'n werth ei dalu i golli gafael ar adnodd cyhoeddus a'i weld yn mynd yn hollol annibynnol ar y Llywodraeth?' Dyna'r cwestiwn rydym yn trio ei fantoli wrth drafod y Bil hwn a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei wella yn y fath fodd fel bod y diben a'r budd cyhoeddus yn dal yn rhan o'r sector hwn.

If you go back three years, Plaid Cymru and the Labour Party had the same values and the same approach towards this sector, namely that we saw this sector as an important one, as a public resource that was shared by the state, the community of local learners and the staff and all those who were part of the colleges as well. We were eager to see something happening within the sector that would be similar to what was suggested by the Humphreys report to which the Minister referred. There is no doubt that we have lost sight of that particular vision because of the direct change to the definition of capital and funding within the sector by the ONS. I accept that. I think that if we were in a different financial position today, it is possible that the Minister would not be getting as much support for this Bill, even from some Members on his own backbenches, because the sum that we are talking about here, broadly speaking, is some £20 million. It is a substantial sum, specifically in terms of capital, but it does pose the question, 'Is this a price worth paying to lose control of a public resource and to see it being entirely independent of Government?' That is the question that is in the balance as we discuss this Bill and as we endeavour to ensure that the Bill is amended in such a way that the public benefit remains crucial to this sector.

Rwy'n derbyn bod y sector yn un aeddfed a'i fod wedi ymddwyn yn ddiweddar yn gyfrifol iawn, ond mae hefyd yn sector sydd yn newid yn gyflym iawn. Mae'n sector sydd yn uno ac yn cyfuno, mae'n sector sydd yn tyfu ac mae'n sector lle mae posibiliad, o leiaf, o weld nifer o chwaraewyr mawr yn datblygu dros y blynyddoedd nesaf. Gyda chwaraewyr mawr, fel rydym wedi gweld yn y sector addysg uwch, daw egos mawr a daw rhai gydag uchelgais gwahanol. Y ffordd rwy'n edrych ar y Bil hwn yw ceisio sicrhau bod digon o 'checks' a 'balances' tu fewn y Bil i wneud yn siŵr bod y sector ar y cyfan yn ymddwyn mewn modd sydd yn gydnaws â'r hyn rydym yn ceisio ei wneud yn y Cynulliad a chyda'r hyn mae'r Llywodraeth yn ceisio ei wneud yn ehangach.

I accept that the sector is a mature sector and is one that has behaved very responsibly recently, but it is also a sector that changes very swiftly. It is a sector that merges, it is a sector that grows and it is a sector where there is at least the possibility of seeing the number of key players developing over the next few years. With big players, as we have seen in the higher education sector, you get big egos and people with different ambitions. The way that I look at this Bill is with a view to ensuring that we have adequate checks and balances within it to ensure that the sector, as a whole, behaves in a way that is in accordance with our aims in the Assembly and with the Government's broader objectives.

Felly, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi dweud heddiw y bydd yn cynnig nifer o welliannau ei hun ar ran y Llywodraeth ynglŷn â chynrychiolaeth gan staff a myfyrwyr ac ynglŷn â dyletswydd eang ar y colegau i ymwneud ag ac adlewyrchu'r farn yn eu cymunedau lleol. Rwy'n siomedig nad yw'r Llywodraeth eto wedi derbyn yr egwyddor o ran cael cynrychiolaeth o fusnes a chyflogwyr lleol yn uniongyrchol ar y cyrff rheoli. Mae'n siŵr bod hynny'n rhywbeth y down ato mewn pwyllgor ac edrych arno eto.

So, I welcome the fact that the Minister has stated today that he will move a number of Government amendments to the Bill on staff and student representation, and on a broad duty to be placed on colleges to reflect the views of their localities. I am disappointed that the Government has not yet accepted the principle that business and local employers should be represented on the governing bodies. I am sure that that is something that we will cover at committee stage and will return to.

Fodd bynnag, yr hyn sydd yn glir yn y trafodaethau a gawsom yn y pwyllgor ac yn y ffordd mae'r Llywodraeth wedi bwrw ati yw bod llawer o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd nawr yn dibynnu ar ymddiriedaeth—ymddiriedaeth gan y Llywodraeth a CholegauCymru. Mae'n dibynnu, i raddau, ar fod ColegauCymru yn dal yn GolegauCymru, a bod yn onest, sef bod y colegau yn dal i ymddwyn fel corff ac yn coleddu'r un gwerthoedd. Nid oes sicrwydd y bydd hynny'n digwydd ac mae'n bwysig tanlinellu nad ydym yn deddfu bod hynny yn digwydd chwaith wrth symud ymlaen gyda'r Bil hwn. Rydym yn dibynnu ar gydweithrediad gwirfoddol gan gyrff sydd yn weddol bwerus ac yn weddol gefnog wrth symud ymlaen. Felly, mae'n bwysig bod rhai pethau priodol mewn lle, megis cynrychiolaeth gan staff a myfyrwyr ac, rwy'n meddwl, gan fusnes yn lleol hefyd, i sicrhau bod rhywbeth yn cael ei wneud am rai o'r pryderon.

However, what is clear in the discussions that we had at committee and in the way that the Government has approached this, is that much of what will happen now depends on trust—trust by Government and ColegauCymru. It depends, to an extent, on ColegauCymru still being ColegauCymru, to be honest, and the colleges still behaving as a body and still harbouring the same values. We cannot be certain of that and it is important to emphasise that we are not legislating with that aim as we move forward with this Bill. We are dependent on voluntary collaboration by bodies that relatively powerful and relatively wealthy as we progress. Therefore, it is important that there are checks and balances in place, such as staff and student representation and, I think, local business representation, to ensure that some of the concerns are addressed.

Roeddwn yn synnu nad oedd y Llywodraeth wedi gwneud yn siŵr yn y lle cyntaf nad oedd y Trysorlys yn fodlon derbyn rhyw fath o newid. Wedi'r cyfan, os yw Arlywydd America ac Arlywydd Iran yn gallu cwrdd heddiw yn y Cenhedloedd Unedig, mae'n bosibl bod y Trysorlys hyd yn oed yn gallu ailfeddwl rhai pethau. Pwy a ŵyr? Mae'r Gweinidog wedi addo heddiw bod y gwaith hwnnw ar waith. Rwy'n edrych ymlaen felly i weld adroddiad ar hynny yn dod i'r pwyllgor. Gyda'r ychydig hynny o bryderon a chwestiynau, rwy'n edrych ymlaen at y Bil hwn yn mynd ymhellach drwy'r system.

I was surprised that the Government had not ensured in the first place that the Treasury was not willing to accept some sort of change. After all, if the President of the United States and the President of Iran can actually meet today at the United Nations, then it is possible that even the Treasury may reconsider certain things. Who knows? The Minister has pledged today that that work is in the pipeline. I look forward therefore to seeing that reported to committee. With those few reservations and questions, I look forward to seeing this Bill progressing further through our systems.

17:54 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i hefyd ddweud y byddwn yn cefnogi'r Llywodraeth o ran y ddadl hon y prynhawn yma er bod gennym, fel y dywedodd Simon Thomas, gryn amheuon ynglŷn â'r manylion? O ran egwyddor y Bil, rydym yn teimlo bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gennym sector aeddfed rŵan yng Nghymru, sydd wedi mynd cryn dipyn o'r ffordd o ran ailstrwythuro, er ein bod ni, fel dywedodd Cadeirydd ein pwyllgor, hefyd yn synnu—am fod y cyn Weinidog wedi ei gwneud hi'n berffaith glir, heblaw am benderfyniad yr ONS, ni fyddai'r Llywodraeth wedi mynd lawr y ffordd hon—nad oedd y Llywodraeth wedi gofyn cwestiynau o'r Trysorlys yn y lle cyntaf os oedd yn barod i newid y rheolau. I ryw raddau, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn credu bod hynny'n rhywbeth y dylai'r Llywodraeth fod wedi ei wneud yn y lle cyntaf hefyd.

May I also say that we will be supporting the Government in terms of this debate this afternoon, even though, as Simon Thomas said, we have some doubts about the details?In terms of the principle of the Bill, we feel that this reflects the fact that we have a mature sector now in Wales that has gone quite a way forward in terms of restructuring, even though we, as the Chair of our committee said, are also surprised—because the previous Minister made it quite clear that, without the decision of the ONS, the Government would not have gone down this path—that the Government, in the first instance, did not ask questions of the Treasury in terms of whether it was prepared to change the rules. To some extent, the Wales Audit Office considered that that was something that the Government should have done in the first place.

Rwy'n teimlo ein bod wedi symud ymlaen cryn dipyn y prynhawn yma o ran ymateb y Llywodraeth i rai o'r argymhellion. Yn bendant, o ran y ffordd y mae cyrff llywodraethu yn cael eu penodi, ac aelodaeth y cyrff llywodraethu hynny, rwy'n teimlo bod y Llywodraeth wedi symud cryn dipyn. Hefyd, o ran cynllunio'r cwricwlwm, roedd rhai ohonom yn y pwyllgor yn poeni ynglŷn â rhai o'r symudiadau—hwyrach bod y Gweinidog hefyd wedi ein cymryd ni dipyn o'r ffordd o ran hynny.

I feel that we have moved forward quite considerably this afternoon in terms of the Government's response to some of the recommendations. Certainly, in terms of the way in which governing bodies and their members are appointed, I feel that the Government has move forward quite a lot. Also, in terms of planning the curriculum, some committee members had concerns about some of the movements—perhaps the Minister has taken us forward in relation to that.

Yn fyr, mae gennyf ddau bryder sydd wedi cael eu crybwyll. Mae'r cyntaf ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol. Rwy'n credu bod yn rhaid i'r Llywodraeth ailedrych ar hyn a bydd yn rhaid i ni ddod yn ôl at hyn yng Nghyfnod 2. Mae NDCS yn arbennig wedi dweud bod cryn dipyn o bryderon ynglŷn â'r ffaith bod y Llywodraeth yn rhoi'r gorau i'r 'controls' sydd ganddi yn y maes hwn. Rwy'n credu hwyrach bod modd o ran y ffordd mae ColegauCymru yn delio â'r Llywodraeth o ran y gyllideb ond, wrth gwrs, wrth i GolegauCymru a'r colegau unigol weld toriadau yn eu cyllidebau—cawsant un ym mis Mehefin a oedd braidd yn ddirybudd, a bydd cwtogi eto yn y blynyddoedd sydd i ddod—mae'n rhaid i'r Llywodraeth ein sicrhau ni fel Aelodau unigol bod gwariant o ran anghenion addysgol arbennig yn cael ei ddiogelu.

Briefly, I have two concerns that have already been mentioned. The first concerns additional learning needs. I feel that the Government needs to look at this again and we will need to return to this in Stage 2. NDCS has said specifically that there is quite a lot of concern regarding the fact that the Government is relinquishing its controls in this area. I think that perhaps there is a means in the way that ColegauCymru deals with the Government in terms of budget but, of course, as ColegauCymru and the individual colleges see cuts in their budgets—there was a cutback in June, which was slightly unexpected, and there will be further cuts in the next few years—the Government must reassure us as individual Members that expenditure in relation to additional learning needs is actually safeguarded.

Hefyd, mae pryderon eraill. Rydym wedi treulio nifer o flynyddoedd rŵan yn ceisio symud at gyfundrefn o gytundeb cenedlaethol o ran staff yng Nghymru, gyda rhywfaint o gysondeb o ran amodau gwaith. Mae pryder, wrth i ni symud i sefyllfa lle bydd sefydliadau unigol yn gyfrifol am amodau a thelerau gwaith, bydd yr holl waith sydd wedi cael ei wneud ar hyd y blynyddoedd yn mynd ar chwâl. Rwy'n gobeithio bydd y trafodaethau ynglŷn â chytundebau cenedlaethol yn cael eu gwireddu cyn i ni symud i'r gyfundrefn newydd hon. Yn bendant, roedd cryn bryder—hwyrach yn rhai o golegau'r de yn hytrach na'r colegau rwy'n ymwneud â nhw yn y gogledd—bod 'zero-hour contracts' yn cael eu defnyddio yn eithaf cyffredin o fewn y colegau hynny. Os ydym i fynd i'r gyfundrefn newydd hon, mae rhai ohonom eisiau tipyn bach o eglurdeb gan y Llywodraeth ynglŷn â beth yn union sy'n digwydd a pha sefyllfa yr ydym wedi ei chyrraedd o ran rhai o'r trafodaethau hynny. Rwy'n teimlo ein bod yn eithaf cyfforddus ynglŷn â'r ffordd mae'r sector yn mynd, ond nid yw hynny'n golygu na fydd rhai manylion a fydd angen eu trafod ymhellach yn y pwyllgor yng Nghyfnod 2.

There are also other concerns. We have spent many years now trying to move towards a system whereby there would be a national agreement in terms of staff in Wales and some consistency regarding working conditions. There is concern, as we move to a situation whereby these individual institutions will be responsible for terms and conditions, that all of the work undertaken over the years will be lost. I would hope that the discussions regarding national contracts could be implemented before we move to the new system. Certainly, there was substantial concern—perhaps more so in some of the colleges in south Wales rather than those that I deal with in north Wales—that zero-hour contracts are being used quite frequently within those colleges. If we are going to move to this new system, some of us would like a lot more clarity from the Government regarding what is happening and our current position in relation to some of those discussions. I feel that we are quite comfortable in the way that the sector is moving, but that does not mean that some of these details will not need to be discussed further in committee at Stage 2.

17:59

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Under this new FE HE Bill, the Welsh Government actually seeks to enhance the autonomy and decision making of these further education institutions by removing and modifying existing legislative controls over them. I am fully aware that these changes have been proposed as a result of decisions by the ONS to reclassify the institutions, and I understand the importance of autonomy for the further education sector, which already exists to a great extent. However, I also have some concerns about these changes. Minister, I asked your predecessor, when he attended committee, whether he would have made these changes without the ONS, as the driver in place, to which he replied 'no'. In oral evidence, John Graystone, chief executive of ColegauCymru stated that when the Minister came to us, the committee members, he said that he did not really want to do this, but that the ONS, in a sense, had forced his hand. So, that is what is clearly driving this. I think that we are all agreed on the need to take action to protect our further and higher education sectors—primarily FE in this Bill. However, it is disappointing that we have to go down what I feel is a privatisation path to do so.

O dan y Bil Addysg Bellach ac Addysg Uwch newydd hwn, mae Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yn ceisio cryfhau ymreolaeth y sefydliadau addysg bellach a'u gallu i wneud penderfyniadau, trwy ddileu ac addasu rheolaethau deddfwriaethol presennol drostynt. Rwy'n llwyr ymwybodol bod y newidiadau hyn wedi cael eu cynnig o ganlyniad i benderfyniadau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu'r sefydliadau, ac rwy'n deall pwysigrwydd ymreolaeth ar gyfer y sector addysg bellach, sydd eisoes yn bodoli i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae gennyf innau hefyd rai pryderon ynglŷn â newidiadau hyn. Weinidog, gofynnais i'ch rhagflaenydd, pan ddaeth gerbron y pwyllgor, a fyddai wedi gwneud y newidiadau hyn heb i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod wedi'u hysgogi, ac atebodd 'na'. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd John Graystone, prif weithredwr ColegauCymru, pan ddaeth y Gweinidog atom ni, aelodau'r pwyllgor, nad oedd mewn gwirionedd eisiau gwneud hyn, ond bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar ryw ystyr, wedi ei orfodi i weithredu. Felly, dyna'n amlwg sy'n ysgogi hyn. Credaf ein bod i gyd yn cytuno ar yr angen i gymryd camau i amddiffyn ein sectorau addysg bellach ac addysg uwch—yn bennaf addysg bellach—yn y Bil hwn. Fodd bynnag, mae'n siomedig bod yn rhaid inni ddilyn llwybr sydd, rwy'n teimlo, yn gyfystyr â phreifateiddio.

I have some concerns that I believe need to be addressed for the Bill to be achieved, and you have already tackled some of those points. First, I have raised a question on the size and use of the financial reserves held by FEIs. It is important that we ensure that these reserves are used for the purpose of enhancing student experience, and, in particular, their education and development. We must not encourage them to be banked simply to demonstrate the good financial management of college leaders—and I have seen that in place. The Bill's accompanying explanatory memorandum explains that if we do not overturn this classification of FEIs as central Government, it will inhibit FEIs from carrying forward budget surpluses—you have already pointed that out. I recognise the need for FEIs to be able to develop reserves for a variety of reasons that benefit the student experience, and I support that, but autonomy can go further if not controlled in some form. I would also hope that strong guidance will be given to governing bodies to ensure this.

Mae gennyf rai pryderon y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn fy marn i, er mwyn i'r Bil gael ei gyflawni, ac rydych eisoes wedi mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau hynny. Yn gyntaf, rwyf wedi codi cwestiwn ynglŷn â maint a defnydd y cronfeydd ariannol wrth gefn sydd gan sefydliadau addysg bellach. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau y defnyddir y cronfeydd wrth gefn hyn er mwyn gwella profiad y myfyrwyr, ac, yn benodol, eu haddysg a'u datblygiad. Rhaid i ni beidio ag annog sefydliadau i'w cadw yn y banc dim ond i ddangos rheolaeth ariannol dda arweinwyr y coleg—ac rwyf wedi gweld hynny'n digwydd. Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn egluro y bydd y ffaith fod sefydliadau addysg bellach yn cael eu dosbarthu fel Llywodraeth ganolog yn eu hatal rhag cario gwargedion cyllideb ymlaen, os na chaiff y dosbarthiad ei wyrdroi—rydych eisoes wedi tynnu sylw at hynny. Rwyf yn cydnabod yr angen i sefydliadau addysg bellach allu datblygu cronfeydd wrth gefn am amrywiaeth o resymau sydd o fudd i brofiad y myfyrwyr, ac rwy'n cefnogi hynny, ond gall ymreolaeth fynd ymhellach os na chaiff ei rheoli ar ryw ffurf. Byddwn hefyd yn gobeithio y rhoddir canllawiau cryf i gyrff llywodraethu i sicrhau hyn.

Additionally, I am concerned that we could end up in a situation where colleges could ignore national agreements—Aled Roberts has already mentioned the hard work that has gone into trying to put national agreements in place—on pay and change terms and conditions without appropriate negotiation, disregard Welsh Government policies and perhaps focus on profits rather than the quality of learning provided to the student community.

Yn ogystal, rwy'n pryderu y gallem gyrraedd sefyllfa lle y gallai colegau anwybyddu cytundebau cenedlaethol—mae Aled Roberts eisoes wedi sôn am y gwaith caled a wnaed er mwyn ceisio rhoi cytundebau cenedlaethol ar waith—ar gyflogau a newid telerau ac amodau heb drafodaeth briodol, anwybyddu polisïau Llywodraeth Cymru ac efallai ganolbwyntio ar elw yn hytrach nag ansawdd y dysgu a ddarperir i gymuned y myfyrwyr.

Your predecessor assured us in committee that there will be a revised financial memorandum. It is something that you have mentioned this afternoon, and I hope that these issues will be tackled within that memorandum. We also need to ensure that we continue to provide financial monitoring of FEIs to ensure that public money is used for the purpose it was proposed for and that it provides the best quality service to our learners in Wales. I am therefore pleased to hear you say this afternoon that the Bill will result in greater accountability. I look forward to seeing that in action.

Sicrhawyd ni gan eich rhagflaenydd yn y pwyllgor y llunnir memorandwm ariannol diwygiedig. Mae'n rhywbeth yr ydych wedi ei grybwyll y prynhawn yma, ac rwy'n gobeithio yr eir i'r afael â'r materion hyn yn y memorandwm hwnnw. Mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn parhau i fonitro sefydliadau addysg bellach o safbwynt ariannol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd a'i fod yn darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau i'n dysgwyr yng Nghymru. Felly, rwy'n falch o'ch clywed yn dweud brynhawn heddiw y bydd y Bil yn arwain at fwy o atebolrwydd. Edrychaf ymlaen at weld hynny ar waith.

My second concern is governance. You have responded to that, but, having previously been employed in the further and higher education sectors, I have a strong belief in the importance of staff and student representation on governing bodies. I am pleased that you have accepted principles of increased staff and student representation, which we as a committee recommended, and I look forward to seeing the amendments put in place. However, it is important to note that the role of those staff and student members in scrutinising the executive is critical. For them to do so, it is also vital that they be allowed to attend all meetings and be allowed to take part in discussions and vote on all matters. My personal experience demonstrated that this was not always the case. As a higher education governor, I was excluded on many occasions when certain topics were discussed and decisions made. I should not have been. That should not be allowed to happen, and I hope that guidance will be given to this end.

Fy ail bryder yw llywodraethu. Rydych wedi ymateb i hynny, ond, ar ôl cael fy nghyflogi'n flaenorol yn y sectorau addysg bellach ac uwch, rwy'n credu'n gryf ym mhwysigrwydd cynrychiolaeth staff a myfyrwyr ar gyrff llywodraethu. Rwy'n falch eich bod wedi derbyn yr egwyddorion y dylid cael mwy o gynrychiolaeth o blith staff a myfyrwyr, sef rhywbeth a argymhellwyd gennym ni fel pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at weld y gwelliannau'n cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod rôl yr aelodau staff a'r myfyrwyr hynny, o ran craffu ar y weithrediaeth, yn hanfodol. Er mwyn iddynt wneud hynny, mae hefyd yn hanfodol eu bod yn cael mynd i bob cyfarfod, cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar bob mater. Roedd fy mhrofiad personol yn dangos nad oedd hyn yn wir bob amser. Fel llywodraethwr addysg uwch, cefais fy eithrio ar sawl achlysur pan oedd rhai pynciau yn cael eu trafod a rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud. Ni ddylwn fod wedi cael fy eithrio. Ni ddylid caniatáu i hynny ddigwydd, ac rwy'n gobeithio y rhoddir canllawiau i'r perwyl hwn.

Finally, Minister, I will support this Bill, but I also look forward to the changes and amendments that you are making.

Yn olaf, Weinidog, byddaf yn cefnogi'r Bil hwn, ond rwyf hefyd yn edrych ymlaen at y newidiadau a'r gwelliannau yr ydych yn eu gwneud.

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:03

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Obviously, I will not be able to get into the full detail of what everyone has contributed this afternoon, although all of it, I think, has been valuable. I will start by welcoming the support that has been given to the general principles of the Bill around the Chamber. Clearly, there will be points of detail that, as we progress through these procedures, we shall argue and debate, but I think that I have today conveyed the Government's desire to take on board many of the recommendations made by Members and committees.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn amlwg, ni fyddaf yn gallu ymdrin â manylion llawn yr hyn y mae pawb wedi'i gyfrannu y prynhawn yma, er bod y cyfan, rwy'n meddwl, wedi bod yn werthfawr. Rwyf am ddechrau trwy groesawu'r gefnogaeth a roddwyd i egwyddorion cyffredinol y Bil o gwmpas y Siambr. Yn amlwg, byddwn yn trafod ac yn dadlau ynghylch pwyntiau manwl, wrth inni fynd drwy'r gweithdrefnau hyn, ond rwy'n meddwl fy mod heddiw wedi cyfleu dymuniad y Llywodraeth i dderbyn llawer o'r argymhellion a wnaed gan yr Aelodau a'r pwyllgorau.

I would say specifically in response to Ann Jones that while the HE aspect of the Bill is largely administrative, I think that obtaining powers to allow data sharing between Welsh Ministers and HMRC will mean that learners in higher education will experience a more effective and streamlined service.

Byddwn yn dweud yn benodol mewn ymateb i Ann Jones mai gweinyddol yn bennaf yw'r agwedd ar y Bil sy'n ymwneud ag addysg uwch, ond rwy'n meddwl y bydd dysgwyr mewn addysg uwch yn profi gwasanaeth mwy effeithiol a llai cymhleth yn sgil cael pwerau i ganiatáu i Weinidogion Cymru a Chyllid a Thollau EM rannu data.

On the observations on the FE provisions within the Bill, ColegauCymru has informed me that it is continuing to work with the joint trade unions to deliver a common contract for the FE sector in Wales, and we are at the stage of undertaking an equality impact assessment. I am very optimistic that rapid progress will be made.

O ran y sylwadau ar y darpariaethau addysg bellach yn y Bil, mae ColegauCymru wedi fy hysbysu ei fod yn parhau i weithio gyda'r undebau llafur ar y cyd i gyflwyno contract cyffredin ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru, ac rydym wedi cyrraedd y broses o gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Rwy'n obeithiol iawn y bydd pethau'n symud yn eu blaenau'n gyflym.

With regard to the greater use of the private sector, this is by no means an automatic or default result of the Bill. Colleges, as autonomous bodies, already have the flexibility to work with the private sector to ensure that skills meet employer needs, thereby supporting one of the key priorities of this Government to improve jobs and growth in Wales, and that needs to continue. As I stated in my opening speech, effective financial controls over funding will remain, and I will share the relevant control documentation, of course, with the CYP committee at Stage 2.

O ran gwneud mwy o ddefnydd o'r sector preifat, nid yw hyn yn ganlyniad awtomatig neu ddiofyn i'r Bil. Mae gan golegau, fel cyrff annibynnol, eisoes yr hyblygrwydd i weithio gyda'r sector preifat i sicrhau bod sgiliau'n diwallu anghenion cyflogwyr, a thrwy hynny gefnogi un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth hon i wella swyddi a thwf yng Nghymru, ac mae angen i hyn barhau. Fel y dywedais yn fy araith agoriadol, bydd rheolaethau ariannol effeithiol dros gyllid yn parhau, a byddaf yn rhannu'r dogfennau rheoli perthnasol, wrth gwrs, gyda'r pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yng Nghyfnod 2.

To repeat: I will update the CYP committee also on the outcome of discussions with the Treasury during Stage 2. I have agreed to test the Treasury to formally establish its position. It is true to say, as many Members have commented this afternoon, that we are having to make legislation in this regard because of the decisions of others, but, if we did not, we would be abandoning our post, really, in terms of looking after the sector, and causing it great harm.

I ailadrodd: byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am ganlyniad trafodaethau gyda'r Trysorlys yn ystod Cyfnod 2. Rwyf wedi cytuno i roi prawf ar y Trysorlys i sefydlu ei safbwynt yn ffurfiol. Mae'n wir, fel y mae llawer o Aelodau wedi'i ddweud y prynhawn yma, ein bod yn gorfod gwneud deddfwriaeth yn y cyswllt hwn oherwydd penderfyniadau pobl eraill, ond pe na byddem yn gwneud hynny, byddem yn anwybyddu ein dyletswydd, mewn gwirionedd, o ran gofalu am y sector, ac yn achosi niwed mawr iddo.

Angela Burns is quite right to say that the FE sector in Wales is mature, and something that we can all be proud of. Both Simon Thomas and Aled Roberts have referred to the status of the sector, and to them I would say this, very simply: are our FE institutions a public resource? Yes, of course they are. Are they a public service? Yes, of course they are, and we should police those principles. However, for the sake of avoiding damage to the sector we have to avoid the technical definition of them being inside the public sector, and, indeed, that is where we have been for some years—years in which the FE sector in Wales has gone through huge change and enormous improvement through partnership.

Mae Angela Burns yn llygad ei lle i ddweud bod y sector addysg bellach yng Nghymru yn aeddfed, ac yn rhywbeth y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono. Mae Simon Thomas ac Aled Roberts wedi cyfeirio at statws y sector, ac wrthynt hwy byddwn yn dweud hyn, yn syml iawn: a yw ein sefydliadau addysg bellach yn adnodd cyhoeddus? Ydynt, wrth gwrs. A ydynt yn wasanaeth cyhoeddus? Ydynt, wrth gwrs, a dylem blismona'r egwyddorion hynny. Fodd bynnag, er mwyn osgoi difrod i'r sector mae'n rhaid i ni osgoi'r diffiniad technegol eu bod yn rhan o'r sector cyhoeddus, ac, yn wir, dyna lle'r ydym wedi bod ers rhai blynyddoedd—blynyddoedd pryd y mae'r sector addysg bellach yng Nghymru wedi mynd drwy newid enfawr a gwelliant enfawr drwy bartneriaeth.

In terms of the comments on additional learning needs this afternoon, I think there is a shared, all-party agenda on that issue, and I intend to work alongside colleagues to ensure the greatest care in terms of making sure that we do no harm in that regard. There is a live agenda as regards ALN, as colleagues will know, in any case. We have to ensure compatibility, and we will return to that, I hope, at Stage 2.

O ran y sylwadau am anghenion dysgu ychwanegol brynhawn heddiw, rwy'n credu bod yr agenda ar y mater hwnnw yn un gyffredin i'r pleidiau i gyd, ac rwy'n bwriadu gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr i gymryd y gofal mwyaf i sicrhau nad ydym yn gwneud unrhyw niwed yn hynny o beth. Ceir agenda fyw o ran anghenion dysgu ychwanegol p'un bynnag, fel y bydd cydweithwyr yn gwybod. Mae'n rhaid inni sicrhau cysondeb, a byddwn yn dychwelyd at hynny, rwy'n gobeithio, yng Nghyfnod 2.

18:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Cynnig NDM5301 Lesley Griffiths

# Financial Resolution in respect of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Motion NDM5301 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69 arising in consequence of the Bill.

18:07

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

18:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers, so I assume we can proceed. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr, felly rwy'n cymryd yn ganiataol y gallwn symud ymlaen. Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:07 **Cyfnod Pleidleisio** | **Voting Time**

Y Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Before I take the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gymryd y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5249

Result of the vote on motion NDM5249

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 45, Yn erbyn 9, Ymatal 1.*

*Motion agreed: For 45, Against 9, Abstain 1.*

18:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:08.*

*The meeting ended at 18:08.*

This page is intentionally left blank